

ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R LLYSOEDD TROSEDDOL

RHAN II – CYFROL 2

Bydd y ffigurau a'r graffiau ar gael yn Gymraeg yn fuan.

Cynnwys – Cyfrol 1

Rhagair .....Error! Bookmark not defined.

Crynodeb Gweithredol .....Error! Bookmark not defined.

Pwrpas a Chyd-destun.....**Error! Bookmark not defined.**

Egwyddorion .....**Error! Bookmark not defined.**

Cwmpas .....**Error! Bookmark not defined.**

Methodoleg.....**Error! Bookmark not defined.**

Modelu .....**Error! Bookmark not defined.**

Anghymesuredd .....**Error! Bookmark not defined.**

Y Gwaith Gweithredu Hanfodol sydd ei Angen.....**Error! Bookmark not defined.**

Crynodeb o'r Argymhellion .....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 3: Un System Cyfiawnder Troseddol .....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 4: Yr Heddlu a'r Erlyniad: Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 5: Datgeliadau .....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 6: Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith .....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 7: Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli'r Achos **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 8: Cymryd Rhan o Bell .....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 9: Prosesau Gwrandawiadau.....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 10: Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol.....**Error! Bookmark not defined.**

Pennod 11: Materion Cyfiawnder Troseddol Ehangach ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 1 – Cyflwyniad.....Error! Bookmark not defined.

Strwythur yr Adolygiad .....**Error! Bookmark not defined.**

Strategaeth Unedig: Rhan I (Yr Adolygiad Polisi) a Rhan II (Yr Adolygiad Effeithlonrwydd) ..... **Error! Bookmark not defined.**

Dull Egwyddorol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Diffinio a Mesur Effeithlonrwydd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Themâu Cyffredinol ar gyfer Diwygio'r System ..... **Error! Bookmark not defined.**

Deallusrwydd Artiffisial (AI) ..... **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 2 – Cyd-destun ..... Error! Bookmark not defined.

Trosolwg ..... **Error! Bookmark not defined.**

Graddfa'r Argyfwng ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cam 1 Diagnosis o'r Broblem ..... **Error! Bookmark not defined.**

Diffinio Effeithlonrwydd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Canlyniadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

Llys y Goron ..... **Error! Bookmark not defined.**

Llysoedd Ynadon ..... **Error! Bookmark not defined.**

Costau GLlTEF fesul Datrysiad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Metrigau Effeithlonrwydd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Amser Gwrandawiad fesul Diwrnod Eistedd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Amser Gwrandawiad fesul Achos ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cyfyngiadau Capasiti ..... **Error! Bookmark not defined.**

Capasiti Ystafelloedd Llys ac Ystadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

Capasiti Gweithlu Barnwrol a'r Sector Cyfreithiol Ehangach ... **Error! Bookmark not defined.**

Dyrannu Diwrnodau Eistedd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Y Cyd-destun yn y Dyfodol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Twf o'r Argyfwng Presennol yn y Dyfodol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cyd-destun Cyfiawnder Troseddol sy'n Esblygu yn y Degawd Nesaf ..... **Error! Bookmark not defined.**

Risgiau a Chyfleoedd Technoleg yn y Dyfodol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 3 – Un System Cyfiawnder Troseddol ..... Error! Bookmark not defined.

Rhagymadrodd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Strwythur y Bennod ..... **Error! Bookmark not defined.**

Strwythur Llywodraethu Cyfredol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Arweinyddiaeth Weinidogol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Farnwriaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Grŵp Gweithredu Cyfiawnder Troseddol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cytundeb Fframwaith GLlTEF ..... **Error! Bookmark not defined.**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Data Unigol, Cydlyniadol ac o Ansawdd Gwael ..... **Error! Bookmark not defined.**

Beth Ddylai Llywodraethu Cyfiawnder Troseddol ei Gyflawni..... **Error! Bookmark not defined.**

Ymdrechion Hanesyddol i Ddiwygio ..... **Error! Bookmark not defined.**

Un Weledigaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cydlynu Cyfiawnder Troseddol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Arweinyddiaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**

Amlder ..... **Error! Bookmark not defined.**

Aelodaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**

Atebolrwydd am Gyflawni ..... **Error! Bookmark not defined.**

Strwythurau Llywodraethu ac Atebolrwydd Pellach ..... **Error! Bookmark not defined.**

Grŵp Gweithredu Cyfiawnder Troseddol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Arolygiad o'r Llysoedd Troseddol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Rôl Technoleg mewn Llywodraethu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pam fod Rheolaeth ar Dechnoleg yn Angenrheidiol ... **Error! Bookmark not defined.**

Cyrff a Swyddogaethau Cyfredol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Arweinyddiaeth Gweithredu Technoleg ..... **Error! Bookmark not defined.**

Meithrin Capasiti ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cydnerthedd Seiber ..... **Error! Bookmark not defined.**

Rhyngweithrededd Systemau ..... **Error! Bookmark not defined.**

Integreiddio Deallusrwydd Artiffisial ..... **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 4 – Yr Heddlu a'r Erlyniad: Ei Gael yn Iawn y Tro Cyntaf ... Error! Bookmark not defined.

Rhagymadrodd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Hanes, Rôl a Phwerau'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac Awdurdodau Erlyn Eraill ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cyfrifoldeb Cyhuddo ..... **Error! Bookmark not defined.**

Achosion lle mae'r Heddlu yn Cyhuddo ..... **Error! Bookmark not defined.**

Achosion lle mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn Cyhuddo ..... **Error! Bookmark not defined.**

Y Darlun Data Cyfredol ..... **Error! Bookmark not defined.**

(i) Yr Heddlu, Arestio a Chyfweliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Proses: Arestio ac Ymchwiliad Cynnar ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cynrychiolaeth Gyfreithiol yn yr Orsaf Heddlu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Presenoldeb Cyfreithwyr yr Amddiffyniad yn yr Orsaf Heddlu.. **Error! Bookmark not defined.**

Hysbysiad o Gyhuddiad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos B: Hysbysiadau Cyhuddo, Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ..... **Error! Bookmark not defined.**

Llunio Datganiadau a Chasglu Tystiolaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**

Iechyd Meddwl..... **Error! Bookmark not defined.**

'Y Gofal Cywir, yr Unigolyn Cywir' ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos E: Y Tîm Lleihau Niwed, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig .... **Error! Bookmark not defined.**

Gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos F: Cyswllt a Dargyfeirio, Heddlu Durham .. **Error! Bookmark not defined.**

(ii) Paratoi a Chwblhau Ffeiliau Achos..... **Error! Bookmark not defined.**

Proses: Creu Ffeil a Chyhuddo ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cyd-destun Gweithredol a Rhwystrau..... **Error! Bookmark not defined.**

Diffyg Profiad yr Heddlu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Deall y Gofynion o ran Ansawdd Ffeiliau..... **Error! Bookmark not defined.**

Amseroldeb Gwneud Penderfyniadau..... **Error! Bookmark not defined.**

Camddosbarthu Achosion ..... **Error! Bookmark not defined.**

Datrysiadau: Dull Cymesur o Lunio Ffeiliau ..... **Error! Bookmark not defined.**

Gwella Ansawdd Ffeiliau..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos G: Cynorthwyydd Sgwrsio, Adran Rochdale, Heddlu Manceinion Fwyaf..... **Error! Bookmark not defined.**

Diwylliant o Gydweithredu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos H: Peilot Cyd-leoli, Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr .. **Error! Bookmark not defined.**

Gwirio Ansawdd Ffeiliau ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos I: Prosiect Sherlock / Ymgyrch Prudent, Heddlu Swydd Northampton ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos J: Awtomeiddio Prosesau Robotig, Heddlu Sir Gaerhirfryn **Error! Bookmark not defined.**

Y Defnydd Cymesur o Gynlluniau Gweithredu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Technoleg Rheoli Achosion ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos K: Rhyngwynebau Rhaglennu Rhaglenni .. **Error! Bookmark not defined.**

Cwtogi ..... **Error! Bookmark not defined.**

Fframwaith Deddfwriaethol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Lleihau'r Baich o Olygu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos L: DocDefender, Heddlu Swydd Bedford .. **Error! Bookmark not defined.**

Caffael a Llywodraethu Technoleg ..... **Error! Bookmark not defined.**

Caffael a Llywodraethu'r Heddlu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Gallu Digidol Mewnol Gwasanaeth Erlyn y Goron..... **Error! Bookmark not defined.**

(iii) Moderneiddio Gwasanaeth Erlyn y Goron..... **Error! Bookmark not defined.**

Adnoddau Rheoli Achosion y Dyfodol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Gwella Gweithdrefnau Gweithredol Gwasanaeth Erlyn y Goron drwy Ddefnyddio Technoleg..... **Error! Bookmark not defined.**

Adnoddau Cynhyrchiant AI ..... **Error! Bookmark not defined.**

Dyfodol Adnoddau sy'n Helpu i wneud Penderfyniadau wedi'u Galluogi gan AI **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos M: Heddlu De Swydd Efrog ..... **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Pennod 5 – Datgelu ..... Error! Bookmark not defined.

Rhagymadrodd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cefndir ..... **Error! Bookmark not defined.**

Diwygio Blaenorol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Y Gyfraith a'r Drefniadaeth Gyfredol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Fframwaith Cyfreithiol a Gweithdrefnol..... **Error! Bookmark not defined.**

Dyletswyddau Datgelu a Diogelwch Treial Teg..... **Error! Bookmark not defined.**

Cymhlethdod a'r Broses ..... **Error! Bookmark not defined.**

Deunydd 'Rhagdybiaeth Wrthbrofadwy' ..... **Error! Bookmark not defined.**

Hyfforddiant y Gweithlu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Heriau yn y Llys ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cydymffurfio â'r Broses ..... **Error! Bookmark not defined.**

Effaith Technoleg – 'Datgelu yn yr Oes Ddigidol' ..... **Error! Bookmark not defined.**

Argymhellion ..... **Error! Bookmark not defined.**

Perchnogaeth Datgelu ..... **Error! Bookmark not defined.**

Diwygio'r Rhagdybiaeth Wrthbrofadwy..... **Error! Bookmark not defined.**

Rheoli Deunydd Niferus ..... **Error! Bookmark not defined.**

Astudiaeth Achos N: Y Swyddfa Twyll Difrifol – Adolygiad â Chymorth Technoleg ..... **Error! Bookmark not defined.**

Hyfforddiant ..... **Error! Bookmark not defined.**

Creu Atodlenni o Ddeunydd Nas Defnyddiwyd ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cefnogi Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Datganiadau Prydlon a Chyflawn o Achosion yr Amddiffyniad. **Error! Bookmark not defined.**

Datgelu mewn Achosion RASSO..... **Error! Bookmark not defined.**

Trefn Datgelu Dwys ..... **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Cynnwys – Cyfrol 2

Pennod 6 – Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith 382

Cyflwyniad 382

Y System Bresennol a'r Heriau 385

Cytundeb Fframwaith GLlTEF 385

Dyrannu Adnoddau drwy'r Concordat 387

Trefnu Amserlenni a Rhestru Achosion 389

Heriau yn y Dull Presennol o Restru 392

Argymhellion 397

Y Cytundeb Concordat 397

Fframwaith Rhestru Cenedlaethol Llys y Goron 399

Y Broses Rhestru Llys Ynadon 412

Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial (AI) 414

Gweithlu 420

Hyblygrwydd Rhanbarthol 426

Casgliad 430

Pennod 7 – Paratoi ar gyfer Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus 433

Cyflwyniad 433

Rheolau Trefniadaeth Droseddol 436

Y Llys Ynadon 444

Swyddogion Cynnydd Achosion yn Llys Ynadon 449

Ymgorffori Egwyddorion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod 451

Cynnydd Achosion o'r Llys Ynadon 454

Y Ffurflen Rheoli Achosion yn Well 454

Adnoddau Cynnydd Achosion 460
Llys y Goron 462
Y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) 462
..... 465
..... 466
Prosesau Rheoli Achosion yn Well 466
Swyddogion Cynnydd Achosion yn Llys y Goron 470
Rheoli Achosion Barnwrol 474
Adnoddau Rheoli Achosion Digidol 477
Dull gweithredu ar ôl PTPH 480
Casgliad 488
Pennod 8 – Cyfranogiad o Bell 492
Cyflwyniad 492
Y System Bresennol a Heriau 494
Deddfwriaeth 494
Defnyddio Fideo yn y Llysoedd 495
Defnyddio Fideo mewn Carchardai 500
Defnyddio Fideo ar gyfer Cyfranogwyr Proffesiynol yn y Llys 502
Amrywiad Rhanbarthol 502
Risgiau a Chyfleodd Mwy o Ddefnydd o Gyfranogiad o Bell: Tystiolaeth sydd ar Gael 505
Argymhellion 514
Gwrandawiadau Cyntaf yn y llys ynadon 514
Atgyfeiriadau Gweithdrefn Un Ynad 519
Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) 521
Gwrandawiadau Rhagarweiniol 522

Treial 526
Dedfrydu, Atafaelu a Gorchmynion Atodol Eraill 528
Oriau Dyddiau Eistedd Llys y Goron 530
Data Cyfranogiad o Bell 532
Cyfieithu ar y Pryd 532
Buddsoddiad mewn Seilwaith 534
Casgliad 536
Pennod 9 – Prosesau Gwrandawiadau 539
Cyflwyniad 539
Gwasanaethau Carcharu a Hebrwng Carcharorion (PECS) 541
Y System Bresennol a Heriau 541
Rhesymau dros Oedi 543
Effaith Oedi 546
Argymhellion 550
Cyfieithu ar y Pryd 558
Y System Bresennol a Heriau 558
Argymhellion 565
Cyfieithu Tu Hwnt i Ystafell y Llys 574
Y System Bresennol a Heriau 575
Argymhelliad 576
Trawsgrifiad 578
Y System Bresennol a Heriau 578
Argymhellion 580
Bwndeli Rheithgor Digidol 583
Y System Bresennol a Heriau 583
Argymhellion 584

Tystiolaeth Arbenigol 587
Y System Bresennol a Heriau 588
Argymhellion 591
Tystiolaeth a Recordiwyd ymlaen Llaw 597
Y System Bresennol a Heriau: ABEs 599
Argymhellion 604
Y System Bresennol a Heriau: Adran 28 o Ddeddf Tystiolaeth Ieuenctid a Throseddol 1999 606
Argymhelliad: Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 611
Y Model Goleudy 611
Model Rhestru Cenedlaethol ar gyfer Adran 28 613
Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSRs) 614
Y System Gyfredol 614
Argymhellion 622
Profiad y Llys i Ddiffynyddion, Dioddefwyr a Thystion 627
Casgliad 629
Pennod 10 – Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol 632
Cyflwyniad 632
Gweithlu Cyfreithiol 635
Cynghorwyr cyfreithiol 635
Gweithlu Cymorth Cyfreithiol Troseddol 639
Diwygio'r Farchnad 669
Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) 671
Y Farnwriaeth 673
Ynadon 673

Barnwyr Cyflogedig a Barnwyr a Dalwyd am Ffioedd 686
Adnoddau ar gyfer Gweithlu Ehangach y System Cyfiawnder Troseddol 702
Casgliad 708
Pennod 11 – Materion Cyfiawnder Ehangach 712
Cyflwyniad 712
Ystadau 715
Llysoedd Datrys Problemau 719
Iechyd Meddwl 723
Camddefnyddio Sylweddau 727
Menywod 730
Plant 734
Troseddau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) 737
Casgliad 743
Atodiad A – Geirfa 746
Acronymau a Byrfoddau 759
Atodiad B – Cylch Gorchwyl 768
Cyd-destun 768
Pwrpas 768
Cwmpas 769
Atodiad C – Diolchiadau 772
Gweinidogion 772
Unigolion 772
Sefydliadau 775
Aelodau o'r Cyhoedd 777
Atodiad D – Tîm Adolygu Annibynnol 778
Atodiad E – Atodiad Technegol 779

Dadansoddiad o Senarios 779
Cyflwyniad 779
Metrigau Effeithlonrwydd 780
Methodoleg 782
Allbynnau – Llys y Goron 784
Allbynnau – Llys ynadon 790
Trafodaeth o Ddadansoddiad o Senarios 794
Dadansoddiad o Senarios – Rhagdybiaethau a Rhybuddion Manwl 795
Methodoleg Rhagamcanion Llwyth Achosion Llys Ynadon 798
Grwpiau Treialon Aneffeithiol 800

Pennod 6 – Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith

Cyflwyniad

1. Yn y penodau sydd i ddod, byddaf yn troi at gyflawni gwaith achos yn y llysoedd troseddol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF). Mae GLlTEF yn gyfrifol am gyflawni gwaith fel y nodir yng Nghytundeb Fframwaith GLlTEF. Mae'n gwneud hynny dan bartneriaeth rhwng y llywodraeth etholedig ar y pryd a'r farnwriaeth annibynnol, a ddogfennir yng Nghytundeb Fframwaith GLlTEF. Mae'r bartneriaeth hon yn sail hollbwysig i lawer o agweddau ar gyflawni cyfiawnder ar draws pob awdurdodaeth. Bydd ei ddull gweithredu mewn perthynas â'r llysoedd troseddol yn cael ei archwilio drwy gydol y bennod hon ac eraill.

2. Mae dyraniad effeithiol o adnoddau a threfnu ac rhestru achosion ar draws llysoedd troseddol yng Nghymru a Lloegr yn hanfodol i sicrhau gweinyddu cyfiawnder mewn modd teg, amserol ac effeithlon. Mae dyraniad adnoddau o fewn y llysoedd troseddol yn cychwyn ar lefel genedlaethol gyda'r Cytundeb Concordat. Dyma'r mecanwaith y mae'r llywodraeth a'r farnwriaeth yn ei

ddefnyddio er mwyn cytuno'n flynyddol ar nifer y dyddiau eistedd a fydd yn cael eu hariannu ar gyfer pob blwyddyn ariannol o fewn cyllideb gyffredinol GLlTEF. Fel yr egluraf, mae cytuno'n amserol ar y Concordat yn hollbwysig er mwyn cyflawni swyddogaethau craidd y llysoedd troseddol ac i restru busnes yn y llysoedd, gan ei fod yn rhoi sicrwydd ynghylch y capasiti sydd ar gael y mae'n rhaid i'r llysoedd troseddol symud achosion yn ei blaenau trwyddo.

3. Yn unol â nifer y dyddiau eistedd sydd ar gael, yna dyrannir achosion i lysoedd a slotiau amser sydd ar gael drwy restru. Mae rhestru yn gyfrifoldeb a swyddogaeth y farnwriaeth annibynnol, ac felly y bydd bob amser. Mae annibyniaeth y farnwriaeth yn allweddol i gydbwyso'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys gofynion yr erlyniad a'r amddiffyniad, ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ei gynnal bob amser. Gweinyddir y swyddogaeth gan staff GLlTEF ar draws y llys ynadon a Llys y Goron, dan gyfarwyddyd barnwrol. Fodd bynnag, ni ddylai cydnabod rhestru fel cyfrifoldeb barnwrol fod yn rhwystr i wella effeithlonrwydd y system.

4. Mae'r broses restru ymhell o fod yn syml. Mae'r farnwriaeth, a staff GLlTEF sy'n eu cynorthwyo, yn wynebu her gyson i gydbwyso ystod o ffactorau, gan weithio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Maent dan bwysau dwys i geisio lleihau'r llwyth achosion agored sy'n cynyddu'n barhaus ac amseroedd aros hir i achosion gael eu gwrando.[1] Dros nifer o flynyddoedd mae'r farnwriaeth wedi ceisio gwella'r dull o restru ac, yn ystod yr Adolygiad hwn, rwyf wedi gweld enghreifftiau pellach o aelodau o'r farnwriaeth a staff GLlTEF yn gweithio ymhell uwchlaw eu dyletswydd i wella arferion rhestru er mwyn datrys achosion yn gyflymach. Rwy'n cymeradwyo eu hymdrechion i wneud hynny. Fodd bynnag, mae eu hymdrechion yn cael eu rhwystro gan heriau sylweddol o fewn y system bresennol sydd, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, yn arwain at aneffeithlonrwydd, adnoddau yn cael eu gwastraffu a phrofiadau anghyson i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion.

1

5. Yn y bennod hon, byddaf yn ystyried y ffaith bod rhestru wedi dod yn dasg gynyddol heriol, yn rhannol oherwydd problemau mewn mannau eraill yn y system, fel yr amlinellais ym Mhennod 2 (Cyd-destun). O ganlyniad, mae'n anochel bod yn rhaid gwneud newidiadau munud olaf i restrau, i roi sylw i dreialon aneffeithiol neu dreialon chwâl, a bod gor-restru (rhestru mwy o achosion na ellir eu cynnwys mewn diwrnod llys) wedi cynyddu fel ffordd o geisio rheoli'r broblem yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Fodd bynnag, mae'r arferion hyn yn achosi treialon aneffeithiol, gan arwain i restru fod yn symptom o aneffeithlonrwydd ehangach yn y system a ffactor sy'n cyfrannu ato.

6. Byddaf hefyd yn trafod yr heriau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r broses rhestru sy'n cyfrannu at aneffeithlonrwydd yn y system. Mae'r diffyg cysondeb yn y broses rhestru yn Llys y Goron yn cael effeithiau pellgyrhaeddol, gan gynnwys cyfyngiadau sylweddol o ran y dechnoleg bresennol sydd ar gael i swyddogion rhestru. Fel yr amlinellaf ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae anghysondebau daearyddol rhwng yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf am ddyddiau eistedd i leihau llwythi achosion agored a'r cyflenwad o gapasiti ystafelloedd llys. Mae rhai llysoedd yn cael dyraniad o ddyddiau eistedd nad oes ganddynt y capasiti i'w cyflawni'n lleol, tra bod gan eraill ormod o gapasiti mewn perthynas â'u dyddiau eistedd a ddyrannwyd. [2] Yn olaf, er ei bod yn cael ei chydnabod fel rôl hollbwysig, mae gan swyddogion rhestru yn Llys y Goron amrywiad sylweddol yn eu gradd cyflogaeth a'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael iddynt. O ganlyniad, nid oes ganddynt bob amser y dylanwad sydd ei angen i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Nid oes rôl swyddog rhestru yn y llys ynadon, ac felly nid oes neb yn nhîm gweinyddol y llys sydd â golwg strategol ar restru yn y llys hwnnw. Ar y cyd, mae pob un o'r materion hyn yn cyfrannu at broses restru aneffeithlon y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi ar frys.

7. Er mwyn gwella'r broses rhestru yn Llys y Goron, rwyf yn argymell y dylai'r farnwriaeth ddatblygu Fframwaith Rhestru Cenedlaethol, a'i gymeradwyo gan y

---

2

Arglwyddes Brif Ustus neu ei henwebai, i sicrhau y gellir datblygu polisi rhestru optimaidd sy'n seiliedig ar set gyson o egwyddorion gyda therminoleg gyson a ddefnyddir ym mhob llys. Rwyf yn cydnabod y bydd rhywfaint o hyblygrwydd lleol yn dal i fod yn ofynnol i ystyried gwahanol feintiau llysoedd, llwyth achosion a ffactorau lleol eraill. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb o ran sut mae achosion yn cael eu rhestru ledled Cymru a Lloegr, gan ddileu'r amrywiad sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer diffynyddion, dioddefwyr a thystion. Yn ogystal, bydd yn galluogi i welliannau gael eu gwneud i dechnoleg rhestru. Rwyf yn argymell cyflwyno adnodd amserlennu ar gyfer Llysoedd y Goron a datblygiad parhaus o ddull rhestru data ar gyfer yr awdurdodaeth droseddol gyfan i ategu prosesau cyfredol trwy ddefnyddio technoleg.

8. Rhaid i'r gwaith o gyflwyno prosesau a thechnoleg well gael ei gefnogi gan arbenigedd traddodiadol, drwy atgyfnerthu'r gweithlu rhestru. Rwyf yn gwneud argymhellion i sicrhau bod gan y gweithlu sy'n gyfrifol am weithrediad dydd i ddydd system yr uwch-swyddog priodol ar gyfer eu rôl ac eu bod wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n ddigonol i'w chyflawni'n effeithiol. Rwyf hefyd yn argymell bod gan Swyddog Cynnydd Achosion yn y llys ynadon gyfrifoldeb am oruchwylio rhestru o ddydd i ddydd yn y llys hwnnw.

9. Yn olaf, byddaf yn troi at y camau gweithredu uniongyrchol sydd eu hangen i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n llawn a bod gwastraff yn cael ei leihau i'r eithaf. At y diben hwn, rwy'n argymell newidiadau i'r Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol sy'n nodi'r broses ar gyfer symud achos rhwng Llysoedd y Goron ar draws Cylchdeithiau (ardaloedd llys rhanbarthol) i adlewyrchu amgylchiadau ehangach y dylid symud achos ynddynt ac i leihau'r broses weinyddol sydd ei hangen ar hyn o bryd. Dylid rhoi ystyriaethau tebyg hefyd i gynyddu hyblygrwydd i symud achosion rhwng llysoedd ynadon mewn gwahanol Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Dechreuaf drwy esbonio'r system bresennol.

Y System Bresennol a’r Heriau

Cytundeb Fframwaith GLlTEF

10. Cytundeb Fframwaith GLlTEF a'r Cytundeb Concordat oedd y cytundebau angenrheidiol ar gyfer darpariaeth llysoedd a thribiwnlysoedd a wnaed yn dilyn Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 a ddileodd yr Arglwydd Ganghellor fel Pennaeth y Farnwriaeth a rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw i’r Arglwydd (bellach Arglwyddes) Brif Ustus.

11. Mae GLlTEF yn gyfrifol am ddarparu system gymorth, gan gynnwys seilwaith ac adnoddau, ar gyfer gweinyddu busnes y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a'r tribiwnlysoedd hynny ledled y DU, y mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol amdanynt. [3] Amlinellir gweithrediad GLlTEF yn setliad cyfansoddiadol dogfen Fframwaith GLlTEF sy'n adlewyrchu cytundeb rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd (SPT) ar bartneriaeth rhyngddynt mewn perthynas â llywodraethu, cyllido a gweithredu GLlTEF yn effeithiol. [4]

12. Arweinir llywodraethiant GLlTEF gan ei Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am ei weithrediadau, ei weinyddiaeth o ddydd i ddydd ac am arwain ei staff. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gweithio dan gyfarwyddyd cyffredinol Bwrdd GLlTEF, a'i rôl yw goruchwylio arweinyddiaeth a chyfeiriad GLlTEF wrth gyflawni'r nodau a'r amcanion a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwyddes Brif Ustus. [5] Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder am ei berfformiad personol ac mae'n atebol ar y cyd ac yn unigol i'r Arglwydd

---

3

4

5

Ganghellor, yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Cadeirydd, ac aelodau Bwrdd GLlTEF am berfformiad GLlTEF. [6]

13. Ariennir GLlTEF gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chyllidebau ar wahân wedi'u gosod ar gyfer gwariant adnoddau a gwariant cyfalaf, fel rhan o broses dyrannu flynyddol. O dan gytundeb y Concordat bydd yr Arglwydd Ganghellor yn cytuno ar gyllidebau GLlTEF gyda'r Arglwyddes Brif Ustus a'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd. [7]

14. Mae GLlTEF yn weithredol annibynnol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a dyma'r darparwr cymorth i alluogi'r farnwriaeth, aelodau'r tribiwnlys a'r Ynadaeth i arfer eu swyddogaethau barnwrol yn annibynnol. Barn bersonol yw hi bod hyn yn rhan hynod bwysig o GLlTEF ac yn un o'r rhesymau pam mae'n rhaid iddo aros yn gorff hyd braich i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar adeg negodi'r Cytundeb Fframwaith (pan oeddwn yn rhan ohono fel Uwch Farnwr Llywyddol), ystyriwyd ei fod yn gorff llywodraethol anadrannol a chaniatáu i GLlTEF negodi ei gyllideb yn uniongyrchol gyda'r Trysorlys. Byddai hyn wedi bod â'r fantais na fyddai unrhyw gystadleuaeth fewnol o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch rhannu cyllidebau rhwng Cymorth Cyfreithiol, Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf (y ddau yn cael eu llywio gan alw) a rhai'r llysoedd. Fodd bynnag, o gofio atebolrwydd yr Arglwydd Ganghellor i'r Senedd am ei weithrediad, ni chafodd y cynnig hwnnw ei ddilyn. Ar y llaw arall, ar y sail mai GLlTEF yw'r cyfrwng y mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn cyflwyno cyfiawnder yn y llysoedd drwyddo, ni ddylai fod unrhyw gysylltiad agosach nag sydd ar hyn o bryd rhwng GLlTEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder: os o gwbl, dylid dirprwyo mwy o gyfrifoldeb i fwrdd annibynnol GLlTEF.

6

7

15. Ystyriais hefyd a ellid gwneud enillion o ran effeithlonrwydd drwy ddod â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLlTEF yn nes at ei gilydd o safbwynt technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI), a rhannu data. Gallai hyn ganiatáu ar gyfer dull gweithredu mwy effeithlon rhwng GLlTEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, fy marn i yw bod cadw technoleg busnes, AI a data ar wahân yn un o'r ffyrdd o gynnal y Cytundeb Fframwaith a lleihau'r risg y bydd annibyniaeth farnwrol yn cael ei thanseilio. O dan yr amgylchiadau hyn, nid wyf yn argymell unrhyw newidiadau i gyfuno swyddogaethau'r cytundeb.

Dyrannu Adnoddau drwy'r Concordat

16. Cyfrifoldeb ar y cyd rhwng y llywodraeth a'r farnwriaeth yw'r Concordat. Mae hyn yn ystyried nid yn unig y cyllid sydd ar gael, ond yr hyn y gellir ei gyflawni'n gredadwy o ystyried capasiti traws-system. Yna mae GLlTEF yn gweithio gyda barnwyr arweinyddiaeth cenedlaethol a rhanbarthol i ddyrannu dyddiau eistedd yn gyntaf i ranbarthau ac yna i lysoedd unigol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26, cytunodd y llywodraeth a'r farnwriaeth i ariannu hyd at 111,250 o ddyddiau eistedd Llys y Goron a 114,000 o ddyddiau eistedd llys ynadon i ddelio â'r llwyth achosion agored yn y llysoedd troseddol. [8]

17. Mae dyletswydd hefyd ar yr Arglwydd Ganghellor o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 [9] i sicrhau bod system effeithlon ac effeithiol i gefnogi busnes y llysoedd ac i ddarparu cymorth i'r farnwriaeth er mwyn galluogi iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Gweithredir y ddyletswydd hon drwy Ddogfen Fframwaith GLlTEF, sy'n ymrwymo'r Arglwydd Ganghellor i geisio cytundeb gyda'r Arglwyddes Brif Ustus a'r Uwch Bwyllgor Tribiwnlysoedd ar ddyraniad adnoddau GLlTEF. Ar ôl cytuno ar y setliad arfaethedig, gan gynnwys dyddiau eistedd a chyllid, bydd yr Arglwydd Ganghellor yn hysbysu'r Arglwyddes Brif Ustus a'r Uwch Bwyllgor Tribiwnlysoedd, ac anfonir y cynnig i Fwrdd GLlTEF i'w adolygu. Bydd

---

8

9

cadeirydd y Bwrdd yn ymateb i'r Arglwyddes Brif Ustus a'r Uwch Bwyllgor Tribiwnlysoedd, a fydd wedyn yn ymgynghori â'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol cyn ateb. Os na cheir consensws, gall yr Arglwyddes Brif Ustus neu'r Uwch Bwyllgor Tribiwnlysoedd godi pryderon gyda'r Senedd, er bod hyn yn anghyffredin.

18. Unwaith y cytunir ar nifer y dyddiau eistedd, penderfynir ar ddosbarthiad dyddiau eistedd i ranbarthau'r llysoedd troseddol ledled Cymru a Lloegr rhwng GLlTEF, yr Uwch Farnwr Llywyddol a'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol. [10] Bydd y rhagolygon hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r heddlu, y Swyddfa Gartref a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i bennu'r llwyth achosion disgwyliedig, gan roi sylw i'r mathau o droseddau disgwyliedig, yn ogystal â lefelau difrifoldeb a chymhlethdod. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o'r ffaith mai'r heddlu a CPS yw'r 'tap' sy'n rheoli maint a difrifoldeb y gwaith sy'n mynd i mewn i'r llysoedd ac maent yn fewnbwn hollbwysig wrth gynllunio. Credaf y dylai'r broses gydweithredol hon, ac y mae wedi gwneud hynny, fod wedi caniatáu i benderfyniadau gwell, mwy amserol gael eu gwneud ac wedi gwneud y broses yn llawer mwy effeithlon. Croesawaf y sicrwydd y mae wedi'i roi i'r llysoedd (nid y llysoedd troseddol yn unig) i gynllunio ymlaen llaw, yn hytrach na derbyn eu dyraniad yn hwyr yn y broses.

Trefnu Amserlenni a Rhestru Achosion

19. Rhestru achosion o fewn capasiti dyddiau eistedd sydd ar gael yw cyfrifoldeb a swyddogaeth y farnwriaeth annibynnol. Fel y diffinnir yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol, 'y diben yw sicrhau bod pob achos yn cael gwrandawiad neu dreial yn unol â buddiannau cyfiawnder, bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyfiawnder troseddol yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl, a bod

10

achosion yn cael eu gwrandawiad gan farnwr neu fainc briodol gyda'r oedi lleiaf'.

[11]

20. Mewn termau syml, mae rhestru yn broses baru lle mae'n rhaid paru unrhyw achos penodol â'r ganolfan llys fwyaf priodol, Barnwr priodol a llys sydd â chapasiti ar gyfer gwrandawiad neu dreial o'r hyd a ragwelir. Fodd bynnag, yn ymarferol mae'n bell o fod yn syml. Mae'r dull y gwneir penderfyniadau rhestru drwyddo yn cynnwys asesu ystod o ffactorau, nad yw pob un ohonynt yn hysbys yn fanwl gywir, ond y gellir eu hamcangyfrif gyda graddau amrywiol o hyder. Mae rhai ffactorau sydd fwy o fewn gwybodaeth y swyddog rhestru. Mae hyn yn cynnwys: argaeledd Barnwr sydd â'r awdurdodiad a'r capasiti i dreialu'r achos; [12] canolfan llys weithredol sydd â chapasiti corfforol yn yr un ardal ddaearyddol â'r ardal lle cyflawnwyd y drosedd; ac ystafell llys lle mae amser ar gael i dreialu achos o'r math hwn a'r hyd a ragwelir (ac mewn rhai achosion dewisiadau barnwrol ar gyfer ystafell llys benodol). Mae'n rhaid rhoi sylw hefyd i unrhyw achosion eraill sy'n weddill yn rhestr y llys a blaenoriaeth gymharol y rhain. Mae'r achos ei hun hefyd yn cyflwyno nifer o ffactorau perthnasol i'r broses benderfynu rhestru; gall y rhain amrywio, ac ni fydd pob un yn hysbys i'r swyddog rhestru pan fo'n rhaid gwneud penderfyniad rhestru. Rhoddir sylw i unrhyw angen am gyflymu achosion (er enghraifft, achosion remand yn cael eu heffeithio gan ddyddiad Terfyn Amser yn y Ddalfa), y drosedd a gyhuddir (dosbarthiad y drosedd, cymhlethdod, yr angen am gwnsler neu arbenigwyr penodol) a hyd tebygol y ddedfryd o garchar pe bai euogfarn. Rhoddir sylw hefyd i: y troseddwr/troseddwyr (oedran, rhywedd, [13] unrhyw ofynion hygyrchedd, euogfarnau blaenorol os ydynt yn berthnasol a nifer y diffynyddion); hyd amcangyfrifedig y treial (nifer y cyhuddiadau ar y ditiad, nifer y tystion i'w galw,

---

[11]

[12]

[13]

cymhlethdod yr achos, difrifoldeb yr achos); a gofynion tystion arbennig. Ar ben hynny, rhaid cynnwys gofynion diogelwch (gan gynnwys yr angen am ddoc diogel a gofynion penodol os yw achos o ddiddordeb cyhoeddus a phwysig i'r wasg), fel y mae'n rhaid cael mynediad at dechnoleg briodol a gweithredol pan fo angen.

21. Gweinyddir swyddogaeth rhestru gan staff GLlTEF ar draws llysoedd ynadon a Llys y Goron, dan gyfarwyddyd barnwrol. Mae'r prosesau a'r systemau a ddefnyddir i wneud hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng llysoedd ynadon a Llys y Goron.

22. Mewn llysoedd ynadon, nid oes un rôl benodol sy'n gyfrifol am restru. Yn lle hynny, rheolir rhestru i raddau helaeth gan y Cynghorydd Cyfreithiol ym mhob llys gan ddefnyddio adnodd amserlennu sydd wedi'i ddatblygu o fewn y Platfform Cyffredin. Cytunir ar ddyddiadur yr adnodd amserlennu gan y Grŵp Busnes Barnwrol lleol mewn ymgynghoriad â'r Uwch Reolwr Cyfreithiol, gyda nifer benodol o sesiynau ar gyfer gwahanol fathau o wrandawiadau (e.e. Remand, Ple Euog Disgwyliedig, Ple Dieuog Disgwyliedig a Dedfrydu) ac mae gan bob un ohonynt ddyraniad amser a bennir yn genedlaethol. Gellir addasu nifer y slotiau a faint o amser treial i weddu i anghenion pob llys unigol. Gellir sefydlu'r dyddiadur hwn mor bell i'r dyfodol ag y mae llys ei angen, yn dibynnu ar y dyddiadau y maent yn rhestru treialon iddynt. Adolygir y dyddiadur bob chwe mis, yn unol â chyhoeddi rota'r ynadon, a gwneir newidiadau yn ôl yr angen. Yna mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn defnyddio'r adnodd hwn mewn amser real i chwilio am slotiau addas pan fyddant eu hangen ac i restru achosion i'r slotiau yn unol â hynny. Fel arfer, gwneir hyn yn y llys mewn trafodaeth gyda'r partïon dan sylw. Os cymeradwyir unrhyw newidiadau i'r dyddiad neu'r amser y cytunwyd arnynt gan y llys yn dilyn hyn, gwneir y newidiadau yn y Platfform Cyffredin a bydd rhybudd awtomatig yn cael ei anfon at bob parti yn eu hysbysu am y newid. Mae cyflwyno'r adnodd hwn wedi symleiddio'r broses restru o fewn llysoedd ynadon.

23. Yn Llys y Goron, mae'r darlun yn wahanol iawn, ac mae'r dasg yn fwy cymhleth. Nid oes polisi rhestru cenedlaethol. Yn lle hynny, mae Llawlyfr Llys y Goron yn cynnwys egwyddorion eang, sy'n seiliedig ar Reolau Trefniadaeth Droseddol

(CrimPR) a Chyfarwyddiadau Ymarfer, ond disgwylir i bob Barnwr Preswyl osod polisi rhestru lleol. Unwaith y bydd y polisi hwn wedi'i osod, mae GLlTEF yn cefnogi gweinyddu rhestru yn bennaf trwy ddarparu swyddogion rhestru ar gyfer pob Llys y Goron. Mae'r swyddogion hyn yn gwneud penderfyniadau bob dydd ar sut mae achosion yn cael eu rhestru, gan weithredu dan gyfarwyddyd y Barnwr Preswyl. Maent yn ceisio mewnbwn barnwrol uniongyrchol ar unrhyw faterion a allai fod yn anodd neu'n dadleuol, yn ogystal â chefnogi'r Barnwr Preswyl i gadw'r rhestr dan adolygiad parhaus. Y canlyniad yw amrywiad sylweddol mewn polisïau rhestru ar draws Llysoedd y Goron gydag amrywiadau ar: yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio mathau o restrau a gynhyrchir; p'un a oes gan achos a restrir ddyddiad penodol ai peidio; y mathau a'r teitlau o wrandawiadau cyn treial; pryd mae'n ofynnol i ddiffynyddion fynychu neu gael eu cynhyrchu; pa wrandawiadau sy'n addas ar gyfer cyfranogiad o bell; a pha achosion ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer dyddiadau treial. Er nad oes amheuaeth bod yn rhaid i'r farnwriaeth barhau i wneud penderfyniadau annibynnol mewn perthynas â chynnydd unrhyw achos unigol, mae'r amrywiad sylweddol yn y dull gweithredu yn destun goblygiadau eang, y byddaf yn dychwelyd atynt.

Heriau yn y Dull Presennol o Restru

Her 1: Rôl y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd

24. Cyn i mi fynd i'r afael â materion penodol sy'n ymwneud â rhestru a'r dulliau yr wyf yn cynnig er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, mae'n bwysig cydnabod bod rhestru wedi dod yn dasg gynyddol heriol ac mae'r aneffeithlonrwydd sy'n deillio o hynny fel proses, yn rhannol, o ganlyniad i faterion mewn mannau eraill yn y system. Fel y trafodais ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae'r llwyth achosion agored cynyddol, [14] oedi wrth gofnodi pleon euog [15] a'r nifer cynyddol o

---

14

15

wrandawiadau sydd eu hangen i ddatrys achosion [16] yn golygu bod mwy o wrandawiadau nag erioed o'r blaen i'w ffitio i'r rhestr. Mae'r anhawster hwn yn cael ei ychwanegu ymhellach gan oedi wrth baratoi Adroddiadau Cyn Dedfrydu, gan greu gwrandawiadau a gohirio ychwanegol ar ôl treialon – byddaf yn trafod y mater hwn yn fwy manwl ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau). Mae argaeledd eiriolwyr yn dod yn gynyddol heriol i'w ddarparu ar ei gyfer oherwydd gostyngiad yn nifer yr eiriolwyr, nifer cynyddol o achosion a diffyg gallu arbenigol ar gyfer rhai mathau o achosion, er enghraifft achosion treisio a throseddau rhywiol (RASSO). Yn 2024, roedd 15% o dreialon aneffeithiol yn Llys y Goron oherwydd diffyg argaeledd eiriolwr yr erlyniad neu'r amddiffyniad. [17] Mae ansicrwydd ynghylch dyraniadau dyddiau eistedd o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol a thu hwnt iddi yn ei gwneud hi'n heriol i gynllunio ymlaen llaw ac yn aml mae angen ailgynllunio sylweddol ar ôl i ddyraniadau gael eu cytuno. Yn olaf, mae'r ansicrwydd cynyddol a achosir gan heriau gyda pharatoi achosion a rheoli achosion a methu â chael y rhain yn iawn y tro cyntaf, y trafodaf yn fwy manwl ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achos Parhaus), yn gwneud cynnydd a chanlyniad achosion yn llai rhagweladwy, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn chwalu neu'n aneffeithiol pan fyddant yn cyrraedd y treial.

25. At hynny, mae llysoedd a swyddogion rhestru dan bwysau mawr i geisio lleihau'r llwyth achosion agored sy'n cynyddu'n barhaus a'r amseroedd aros hir i achosion gael eu gwrandawiad. [18] Maent yn gwneud hynny mewn amgylchedd o ansicrwydd cynyddol ynghylch dyraniadau dyddiau eistedd ac argaeledd barnwrol. O ganlyniad, mae'n anochel bod yn rhaid gwneud newidiadau funud olaf i restrau a bod gor-restru yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o geisio rheoli hyn a

16

17

18

sicrhau na wastreffir amser y llys pan nad yw treialon yn mynd rhagddynt. Fodd bynnag, pan fydd treialon yn mynd rhagddynt, mae'r achosion a or-restrwyd na ellir eu gwrandawiad wedyn yn dod yn aneffeithiol, gan fynnu ail-drefnu ar gyfer dyddiadau yn y dyfodol a chyfrannu at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau ar gyfer y system llysoedd.

26. Yn hanesyddol, mae gor-restru wedi bod, ac mae'n parhau i fod, yn un o'r prif achosion o dreialon aneffeithiol ar draws pob llys troseddol. Yn y llys ynadon, yn dilyn argaeledd y diffynnydd a pharodrwydd yr amddiffyniad a'r erlyniad, gor-restru oedd yr achos mwyaf nesaf dros dreialon aneffeithiol (a gofnodwyd fel yr achos dros 21% o dreialon aneffeithiol yn 2024). [19]

27. Yn yr un modd yn Llys y Goron, ochr yn ochr â p'un a bod y diffynnydd ar gael a ph'un a bod yr amddiffyniad a'r erlyniad yn barod, [20] mae data'n dangos bod gor-restru wedi'i gofnodi fel y rheswm dros 23% o dreialon aneffeithiol yn Llys y Goron yn 2024. [21] Yn ôl dadansoddiad archwiliadol GLlTEF, mewn rhai achosion nid yw canlyniad achos yn aneffeithiol ar y diwrnod a restrwyd mor arwyddocaol gan ei fod yn symud ymlaen i dreial effeithiol yn fuan wedyn – o fewn pum diwrnod ar gyfer tua 40% o'r achosion hyn. Fodd bynnag, mae llawer yn wynebu oedi sylweddol gyda thua 20% yn cymryd 201 diwrnod neu fwy i ddod yn effeithiol. [22] Er nad yw oedi byr yn ddelfrydol, mae effaith negyddol oedi o'r fath ar effeithlonrwydd y system a'r diffynyddion, y dioddefwyr a'r tystion dan sylw yn llawer llai nag yn yr achosion hynny sy'n cael eu gohirio am gyfnod sylweddol ychwanegol o amser. Fodd bynnag, mae'r ddau yn arwain at aneffeithlonrwydd

---

19

20

21

22

yn y system mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys amser a wastraffwyd ar gfyer cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn paratoi ar gyfer y llys ac yn aml yn teithio iddo a diffynyddion ar remand yn cael eu cludo i'r llys yn ddiangen.

Her 2: Aneffeithlonrwydd rhestru

28. Er bod rhai achosion o aneffeithlonrwydd wrth restru, fel y nodais, yn deillio o bwysau system ehangach, mae yna achosion hefyd sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r broses restru sy'n cyfrannu at gyfraddau treialon aneffeithiol uchel. [23]

29. Mae'r diffyg cysondeb cenedlaethol mewn prosesau a pholisi rhestru yn Llys y Goron yn cael effeithiau pellgyrhaeddol. Mae wedi ei gwneud yn amhosibl i greu adnodd amserlennu cenedlaethol, fel yr un a ddefnyddir yn y llysoedd ynadon, i gefnogi rhestru yn Llys y Goron. O dan y cynllun presennol, byddai unrhyw adnodd o'r fath yn anodd i'w gyflwyno oherwydd byddai angen iddo allu cael ei addasu'n ddiddiwedd ar gyfer polisi rhestru pob llys unigol. Mae'r absenoldeb hwn o bolisi cenedlaethol neu adnodd rhestru sy'n berthnasol yn gyffredinol wedi gwreiddio ffocws ymhlith y farnwriaeth a staff y llys ar eu llys lleol eu hunain yn unig, yn hytrach na hystyried sut y gellid rhannu adnoddau yn ehangach i ddatrys cymaint o achosion â phosibl yn genedlaethol. O fy ymgysylltiad ar gyfer yr Adolygiad hwn, ac fel y trafodwyd ym Mhennod 2 (Cyd-destun), ymddengys bod rhai llysoedd yn cymryd y dull o flaenoriaethu'r achosion hynny y gellir eu datrys yn gyflym er mwyn cadw niferoedd yr achosion sy'n weddill yn isel. Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at achosion sy'n cymryd mwy o amser yn cael eu gwthio ymhellach i'r dyfodol.

30. Oherwydd y diffyg dull cyson a therminoleg gyffredin, mae'n anodd i lysoedd gydweithio neu symud achosion rhwng llysoedd i wneud y mwyaf o'r posibilrwydd o ddod o hyd i'r dyddiad cynharaf ar gyfer treial. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddefnyddio rhestru fel adnodd i gefnogi rheolaeth pwysau system

---

23

ehangach. Mae hefyd yn rhwystro unrhyw ddadansoddiad o bolisïau rhestru a'u perfformiad. Yn olaf, gall profiad diffynyddion, dioddefwyr a thystion amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar bolisi rhestru lleol, o ran yr amser a gymerir i ddatrys eu hachos. Mae cyflwyniadau i'r Adolygiad hwn wedi tynnu sylw at ba mor heriol y gall fod i gyfranogwyr ddeall terminoleg a pholisi rhestru lleol a sut mae'r rhain yn effeithio'n andwyol ar eu hachos. [24]

31. Mae ymgysylltu a gynhaliwyd fel rhan o'r Adolygiad hwn wedi amlygu i mi broblemau gyda CPS ac eiriolwyr yr amddiffyniad yn methu â darparu amcangyfrifon amser cywir ar gyfer treialon yn Llys y Goron. Darperir amcangyfrifon amser i'r Barnwr mewn Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) a chaiff y rhain eu hystyried wrth bennu dyddiad ar gyfer y treial. Dywedwyd wrthyf am enghreifftiau lle mae eiriolwyr yn darparu amcangyfrifon amser treial sy'n fyrrach na'r hyn y maent yn disgwyl i hyd y treial fod mewn gwirionedd, mewn ymgais i sicrhau dyddiad dechrau treial cynharach. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar achosion eraill os bydd y treial yn cymryd amser ychwanegol i ddod i ben, nad yw wedi'i gynllunio, bydd yn arwain at ddechrau treial dilynol yn hwyr neu'n gorfodi ail-drefnu achosion eraill yn llwyr. Mae heriau'n gysylltiedig â deall y mater hwn gan ddefnyddio gwybodaeth feintiol oherwydd y ffordd y caiff data ei gofnodi o fewn systemau gweithredol. O ganlyniad, rwyf wedi fy nghyfyngu wrth archwilio'r mater hwn ymhellach. Rwy'n cydnabod bod gwaith ar y gweill yn GLlTEF i fynd i'r afael â'r bwlch data hwn (gweler Pennod 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol)).

32. Mae'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi swyddogion rhestru a'r farnwriaeth i gyflawni eu swyddogaeth rhestru yn Llys y Goron yn gyfyngedig iawn. Nid yw'n darparu'r data amser real, neu'n agos at amser real, sydd ei angen ar gyfer argaeledd barnwyr, ystafelloedd llys, bargyfreithwyr a ffactorau eraill sydd eu hangen i gefnogi penderfyniadau rhestru. Yn ystod ymweliadau â Llysoedd y Goron, mae fy nhîm wedi gweld swyddogion rhestru yn gweithio ar

---

24

draws systemau lluosog, gan gynnwys fel arfer eu taenlenni Microsoft Excel lleol eu hunain, yr hen system Xhibit a'r Platfform Cyffredin, a hyd yn oed yn troi at siartiau wedi'u hysgrifennu â llaw, gan gymryd gwahanol ddulliau gweithredu yn aml yn seiliedig ar ddewisiadau eu Barnwr Preswyl. O ganlyniad, nid oes ganddynt fynediad at un ffynhonnell o wybodaeth gyfunedig.

33. Swyddogion rhestru yw calon effeithlonrwydd mewn unrhyw lys. Fodd bynnag, yn Llys y Goron mae'r amrywiad mewn graddau cyflogaeth ar gyfer y rôl hon yn golygu nad oes gan y swyddogion yr awdurdod priodol bob amser i gyflawni'r rôl yn effeithiol. Mae hyfforddiant a chefnogaeth hefyd yn gyfyngedig, yn bennaf oherwydd y natur seilo y mae llysoedd yn gweithio ynddi.

34. Mewn llysoedd ynadon, nid oes swyddog rhestru. O ganlyniad, nid oes gan unrhyw unigolyn yn nhîm gweinyddol y llys oruchwyliaeth o ddydd i ddydd o ran rhestru yn y llys. Mae ar y llysoedd angen rhywun sy'n gyfrifol am ystyried blaenoriaethu achosion yn gyffredinol, yn unol â chyfarwyddyd gan y farnwriaeth, ac a all gefnogi gyda newidiadau dydd i ddydd sy'n aml yn ofynnol.

35. Fel y nodais ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae capasiti ystafelloedd llys ar gael mewn rhai llysoedd troseddol y gellid ei ddefnyddio i helpu i leihau'r llwyth achosion agored, ond sy'n cael ei wastraffu ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau a osodir gan ddyraniadau dyddiau eistedd. Mae'r broses hon, yn ogystal â'r nifer o ffiniau rhanbarthol artiffisial sydd wedi'u creu dros amser i gefnogi rheolaeth weinyddol y system cyfiawnder troseddol, yn golygu bod y llysoedd yn gweithio mewn seilos, nid fel adnodd cenedlaethol. Er y bydd cap bob amser ar nifer y dyddiau eistedd, mae angen hyblygrwydd daearyddol i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Rwy'n cydnabod bod dadleuon hefyd yn ymwneud ag arfer ‘cyfiawnder lleol’ i'w hystyried. Mae'r arfer hwn yn dal y dylai achosion troseddol gael eu gwrandawiad fel arfer yn yr un ardal ddaearyddol lle digwyddodd y drosedd. Mae'r arfer hwn wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd hygyrchedd, atebolrwydd a hyder cymunedol yn y system gyfiawnder, ac nid wyf am danseilio unrhyw un ohonynt. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau presennol, gellir gweld bod gweithredu'r arfer hwn mewn modd rhy anhyblyg yn effeithio'n

negyddol ar amseroldeb datrys achosion ac effeithlonrwydd y system gyfan. Yn ogystal ag adnoddau a wastreffir, mae wedi creu loteri cod post i ddiffynyddion, dioddefwyr a thystion o ran yr amser a gymerir i ddatrys eu hachosion, gyda llawer yn wynebu oedi diangen. Er mwyn i'r system fod ar ei heffeithlonrwydd mwyaf, mae angen hyblygrwydd i ymuno â'r galw a'r cyflenwad ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael gyda daearyddiaeth yn un o lawer o ffactorau a ystyrir yn hytrach na'r un sy'n cael y dylanwad mwyaf.

36. Ar y cyd, mae'r materion hyn yn arwain at broses rhestru aneffeithlon y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi os yw'r Llysoedd am gael unrhyw obaith o wneud y mwyaf o adnoddau, lleihau gwastraff a lleihau'r oedi y mae diffynyddion, dioddefwyr a thystion yn eu hwynebu wrth ddatrys eu hachosion.

Argymhellion

Y Cytundeb Concordat

37. Mae sawl cyfle i wella proses y Concordat er mwyn gallu rhestru achosion yn fwy effeithiol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, cytunwyd y byddai'r Concordat yn dod i ben yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol. Safbwynt y llywodraeth yw bod hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i GLlTEF a'r farnwriaeth wrth gynllunio ei ddyraniad o ddyddiau eistedd a swyddogaethau cysylltiedig.

38. O ystyried graddfa bresennol y llwyth achosion sydd heb ei ddatrys a rhestru treialon hyd at 2030, nid yw'n syndod bod awgrymiadau wedi bod i roi gwybod am ddyrannu dyddiau eistedd flynyddoedd ymlaen llaw. Byddai hyn yn hwyluso rhagolygon cywir a rhestru tymor hwy. Mae Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol (CCIG) wedi awgrymu y gallai rhagolygon hyd at dair blynedd fod yn fwy gwerthfawr i'r llysoedd a'r rhestru na'r cynllun presennol. Rwy'n cymeradwyo gwaith i weithredu'r awgrymiadau hyn, gan gadw elfen o hyblygrwydd i gyfrif am amrywiadau dros gyfnod yr amser ac ystyried y cyllid sydd ar gael i gyflawni rhagolygon tymor hwy. Bydd hyn yn caniatáu i'r farnwriaeth a staff rhestru llysoedd GLlTEF gynllunio am flynyddoedd i ddod ac nid dim ond ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

39. Deallaf hefyd fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLlTEF a'r Swyddfa Farnwrol hefyd wedi cyflwyno mecanwaith adolygu a elwir yn ‘baneli yn ystod y flwyddyn’. Mae'r panelau hyn yn asesu perfformiad y system ac yn llywio cyngor i'r Arglwydd Ganghellor ynghylch a ddylid addasu lefel y dyddiau eistedd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Amcan y panelau yn ystod y flwyddyn hyn yw monitro a nodi unrhyw faterion neu lefelau dyddiau eistedd nad ydynt yn unol â chynllunio a rhagolygon ariannol, trafod unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar ddyddiau eistedd a chaniatáu i lefel yr eisteddiadau gael ei rheoli ar draws gweddill y flwyddyn eistedd.

40. Mae'r panelau yn defnyddio data presennol a thystiolaeth anecdotaidd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys ystyried capasiti adnoddau ehangach y system. Gan ei fod yn fenter weddol newydd, mae'n anodd asesu eu heffaith, ond byddwn yn croesawu gweld enghreifftiau tebyg o gyfarfod ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac felly rwyf yn cymeradwyo eu cyflwyno a gobeithio gweld cynnydd wrth fonitro dyddiau eistedd ar draws y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf. Nodaf y dylid bod yn ofalus cyn cytuno ar newid i ddyddiau eistedd o fewn blwyddyn ariannol. Mae tystiolaeth anecdotaidd a gyflwynwyd i mi wedi dangos y byddai'r llysoedd yn hoffi eglurder a dyraniad eisteddiadau sefydlog nad yw'n cael ei newid o fewn y flwyddyn. Mae'r sicrwydd hwn yn galluogi staff rhestru'r llys i gael cyfle i gynllunio eu dyraniad ar gyfer y flwyddyn eistedd. Wedi dweud hynny, gellir darparu ar gyfer ymestyn dyddiau eistedd (ar yr amod bod capasiti i eistedd arnynt); canslo dyddiau eistedd sy'n golygu bod yn rhaid dad-restru achosion gyda'r effaith ganlyniadol ar ddioddefwyr a thystion y mae'n rhaid ei osgoi. Mae hefyd werth ystyried y bydd unrhyw ddyddiau a symudir o un lleoliad i'r llall yn effeithio ar achosion sydd eisoes wedi'u rhestru. Mae'n bwysig bod y panelau yn ystyried y ffactorau hyn yn eu trafodaethau.

Argymhelliad 91: Rwy'n argymell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (gan gynnwys ei fwrdd gweithredol) a'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol geisio cytuno ar ddyraniadau dyddiau eistedd aml-flwyddyn yn y llysoedd troseddol lle bo hynny'n bosibl. Rwyf hefyd yn argymell eu bod yn parhau i benderfynu ar ddyraniadau dyddiau eistedd, boed yn ddyraniadau un flwyddyn neu aml-flwyddyn, cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol ac yn parhau i gynnal panelau yn ystod y flwyddyn i asesu perfformiad y system.

Fframwaith Rhestru Cenedlaethol Llys y Goron

41. Er mwyn mynd i'r afael â'r effaith sy'n deillio o'r dull amrywiol o restru ar draws Llysoedd y Goron, rhaid cyflwyno lefel o gysondeb cenedlaethol. Drwy ddarparu fframwaith cyson ar gyfer rhestru ym mhob Llys y Goron, bydd nifer o gyfleoedd ar gyfer cyflwyno mwy o effeithlonrwydd mewn perthynas â'r heriau rhestru yr wyf wedi'u hamlinellu yn cael eu datgloi. Mae hyn yn cynnwys galluogi datblygiadau technolegol, gan gynnwys defnyddio AI ac adnodd amserlennu cenedlaethol, mwy o hyblygrwydd daearyddol ar ble y caiff achos ei wrando a gwelliannau i hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer swyddogion rhestru. Rwyf yn dychwelyd at bob un o'r rhain yn nes ymlaen yn y bennod hon.

42. Bydd cysondeb cenedlaethol hefyd yn mynd beth ffordd tuag at leihau'r anghysondebau y mae diffynyddion, tystion a dioddefwyr a'u teuluoedd yn eu profi trwy gyflwyno disgwyliadau cyson mewn perthynas â blaenoriaethu achosion. Ar hyn o bryd mae amrywiad rhanbarthol sylweddol o ran effeithlonrwydd y system[25] a'r graddau y mae gor-restru yn cael ei gofnodi fel y rheswm sy'n llywio treialon aneffeithiol (yr amrediad yw 15% i 37% o dreialon aneffeithiol yn Llys y Goron yn 2024).[26] Byddai dull cyson o flaenoriaethu achosion yn sicrhau mwy o gydraddoldeb ac effeithlonrwydd ledled Cymru a

---

25

26

Lloegr, gan sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar restru achosion tebyg yn gyson, waeth beth yw'r llys lle mae achos wedi'i restru.

43. Mae cyflwyniadau i'r Adolygiad hwn hefyd wedi tynnu sylw at ba mor heriol y gall y gwahaniaethau rhanbarthol mewn polisi rhestru a therminoleg fod i ddioddefwyr eu llywio.[27] Tynnwyd sylw at hyn hefyd yn ystod ymgysylltiad â'r heddlu, sydd hyd yn oed fel un heddlu yn aml yn gweithio ar draws llysoedd lluosog. Mae amrywiad yn y dulliau rhestru yn ei gwneud hi'n anodd iddynt rannu'r wybodaeth gywir â dioddefwyr a thystion. Byddai Fframwaith Rhestru Cenedlaethol yn cyflwyno terminoleg gyson i'w defnyddio'n genedlaethol y gellid wedyn ei hymgorffori mewn systemau a byddai'n mynd peth ffordd i wella'r sefyllfa.

44. Rwy'n cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd lleol o fewn y fframwaith hwn. Mae Llysoedd y Goron yn amrywio'n fawr o ran eu maint, amrywiaeth achosion, faint o lwyth achosion agored a ffactorau lleol eraill y maent yn eu rheoli o ddydd i ddydd. Felly, nid yw dull unfath anhyblyg yn ateb. I roi un enghraifft yn unig, oherwydd ei leoliad daearyddol agos i Faes Awyr Heathrow, mae Llys y Goron Isleworth yn delio â llwyth achosion unigryw na ellid ei reoli'n effeithlon gyda'r un dull yn union â'r rhan fwyaf o Lysoedd y Goron eraill. Mae cydbwysedd i'w daro rhwng system genedlaethol gyda therminoleg ac egwyddorion cyson a hyblygrwydd lleol i'w chyflawni.

45. Rwyf yn ymwybodol o waith sydd eisoes ar y gweill gan y farnwriaeth, gyda chefnogaeth GLlTEF, i ddatblygu Fframwaith Rhestru Cenedlaethol. Cynhyrchwyd adroddiad mewnol helaeth gan Ei Anrhydedd y Barnwr Martin Edmunds CB ar gyfer yr Arglwyddes Brif Ustus ym mis Ionawr 2025 a amlinellodd lawer o'r un materion yr wyf wedi'u canfod trwy'r Adolygiad hwn ac a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion i wella polisi rhestru yn genedlaethol ac i wneud y defnydd gorau o ystad y llys. Yn dilyn hyn, ym mis Mawrth 2025 sefydlodd Grŵp

---

27

Gwella Llysoedd Troseddol (CCIG) dan arweiniad yr Uwch Farnwr Llywyddol weithgor rhestru i ystyried arferion rhestru ac argymhellion EAB Edmunds. Ar hyn o bryd mae'r grŵp hwn yn gweithio i gynhyrchu polisi rhestru cenedlaethol ac i wneud argymhellion i ddiwygio Cyfarwyddiadau Ymarfer a CrimPR er mwyn galluogi'r polisi i weithredu'n effeithiol. Mae'r symudiad cyffredinol tuag at gysondeb cenedlaethol gyda rhywfaint o hyblygrwydd lleol yn symudiad i'r cyfeiriad cywir. Rwyf yn cymeradwyo'r gwaith hwn ac yn rhagweld y bydd fy argymhellion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith diwygio hwnnw.

46. Wrth gwrs, y farnwriaeth ddylai ddatblygu manylion Fframwaith Rhestru Cenedlaethol. Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu y cytunir ar rai egwyddorion cyffredinol a fyddai'n arwain y manylion o fewn gweddill y fframwaith. Gallai'r rhain gynnwys yr egwyddorion a nodir yn Rhan I o'r Adolygiad hwn (darparu penderfyniadau priodol a theg, sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl, darparu dull cymesur o ran prosesau treial, cyflawni achosion teg a sicrhau amseroldeb). Yn ogystal, anogaf y farnwriaeth i ystyried nifer o feysydd eraill i'w cynnwys yn y fframwaith a godwyd gyda mi a fy nhîm trwy gydol yr adolygiad hwn fel rhan o'u gwaith parhaus.

Blaenoriaethu

47. Yn gyntaf, dylid cael rhestr egwyddorol a chynhwysfawr o'r ffactorau a ddefnyddir i lywio blaenoriaethu achosion wrth restru ar gyfer pob Llys y Goron. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol rhoddir y flaenoriaeth uchaf i achosion lle mae diffynnydd ar remand ar gyfer dyddiadau llys, o ystyried y terfyn amser statudol ar remand a osodir gan Derfyn Amser yn y Ddalfa (CTL).[28] Wrth i lwyth achosion agored Llys y Goron gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, felly hefyd y nifer o achosion CTL.[29] O ganlyniad, gwthir achosion mechnïaeth ymhellach i lawr y rhestr flaenoriaethu, gan greu rhai o'r enghreifftiau o oedi hiraf ar gyfer treial yn y

---

28

29

system. Yn aml mae achosion RASSO yn disgyn o dan y categori hwn. Yn 2024, roedd 65% o ddiffynyddion Llys y Goron ar gyfer troseddau rhywiol ar fechnïaeth tra'n aros am dreial.[30] I'r rhai sydd ar fechnïaeth, yr amser aros cyfartalog oedd 51 wythnos yn 2024 o'i gymharu ag amser aros cyfartalog o tua 28 wythnos i'r rhai sydd ar remand.[31]

48. Gall effaith yr oedi estynedig hyn fod yn drychinebus ar ddioddefwyr a thystion o ran eu lles meddyliol a'u hyder yn y system cyfiawnder. O ganlyniad, mae cyfraddau gadael dioddefwyr ar gyfer achosion RASSO yn sylweddol uwch nag ar gyfer mathau eraill o droseddau. Yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2025, rhoddwyd stop ar 6% o achosion, ar ôl i ddiffynnydd gael ei gyhuddo, oherwydd nad oedd dioddefwr bellach yn cefnogi, neu'n methu â chefnogi'r erlyniad mwyach. Mae'r ffigur hwn yn 10% ar gyfer achosion treisio oedolion.[32] Mae effaith oedi hyd yn oed yn fwy dwys mewn unrhyw achosion sy'n cynnwys plentyn naill ai fel dioddefwr neu dyst sylweddol. Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i'r achosion hyn yn y system rhestru llysoedd newydd.

49. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ac effeithiau ehangach polisïau rhestru amrywiol a drafodwyd eisoes, rwyf yn argymell y dylai'r Fframwaith Rhestru Cenedlaethol gynnwys cynllun blaenoriaethu clir, gan nodi catalog cynhwysfawr ac egwyddorol o ffactorau perthnasol a phwysoliad perthnasol ar gyfer pob ffactor i'w gymhwyso wrth wneud penderfyniadau rhestru. Dylai'r ffactorau hyn fod yn wrthrychol ac yn gallu cael eu hasesu'n gyflym gan swyddogion rhestru. Fel rhan o lunio'r fframwaith hwn, rhaid rhoi sylw i'r cwestiwn a ddylid bob amser roi blaenoriaeth i achosion terfyn amser yn y ddalfa dros bob math o achos mechnïaeth, neu a ddylai terfyn amser yn y ddalfa fod yn un ffactor yn unig o nifer

---

30

31

32

o ffactorau perthnasol i'w hystyried. Er fy mod yn gadael i'r uwch-farnwriaeth benderfynu ar fanylion y cynllun hwn, rwyf yn tynnu sylw isod at nifer o fframweithiau blaenoriaethu gwahanol sy'n cynnwys ffactorau ehangach na therfyn amser yn y ddalfa neu fechnïaeth y dylid eu hystyried wrth gytuno ar y cynllun terfynol.

50. Anogaf y farnwriaeth hefyd i ystyried, wrth lunio'r fframwaith hwn, yr angen hollbwysig i'r cynllun allu cael ei gyfieithu'n gyflym iawn i mewn i adnodd rhestru digidol. Mae angen i'r polisi a fabwysiedir gael ei fynegi fel set o reolau diamwys a byddai'n dibynnu ar gael data dibynadwy, strwythuredig o systemau rheoli achos ar bob newidyn a ystyrir. Dychwelaf at y mater hwn yn fwy manwl yn nes ymlaen yn y bennod hon, ond mae'n allweddol i sicrhau y gellir gwella technoleg rhestru o'r sefyllfa bresennol.

51. Yn ystod ymweliadau fy nhîm â Llysoedd y Goron, tynnwyd fy sylw at nifer o fentrau lleol a ddatblygwyd gan Lysoedd y Goron unigol sydd wedi treialu dulliau amgen o flaenoriaethu achosion (gweler Astudiaeth Achos O). Mae'r rhain yn dangos ymrwymiad Barnwyr Preswyl unigol i geisio lleihau y llwyth achosion agored yn eu llys, heb hynny byddai'r darlun cenedlaethol o lwyth achosion agored Llys y Goron yn llawer gwaeth nag ydyw. Rwy'n cymeradwyo'r ymdrechion a wnaethant. Mae'r modelau hyn hefyd yn dangos effaith cael dyddiad treial cynharach o ran ymgysylltiad gan CPS a'r amddiffyniad ac wrth annog pleon euog i gael eu cofnodi'n gynharach yn y broses. Fodd bynnag, er eu bod i bob golwg yn cael effaith gadarnhaol ar y llwyth achosion agored cyffredinol, mae llawer o'r modelau hyn yn seiliedig yn bennaf ar ffocws ar gyflymu achosion y gellir eu datrys yn gyflym yn hytrach na hystyried egwyddorion ehangach.

Astudiaeth Achos O: Menter Rhestru Lleol

Llys y Goron Lerpwl – ‘Ymgyrch Cyflymu’

Lansiodd Llys y Goron Lerpwl ‘Ymgyrch Cyflymu’ ym mis Mehefin 2023 fel un o sawl menter i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol. Ei nod yw sicrhau bod achosion cam-drin domestig a throseddau cyffuriau syml (lle mae'r diffynnydd ar fechnïaeth, bod y diffynnydd wedi'i gyhuddo o un drosedd neu fwy yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a/neu Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016, nad yw'r amcangyfrif amser ar gyfer y treial yn fwy na 3 diwrnod ac nad yw'r diffynnydd yn codi amddiffyniad posibl caethwasiaeth fodern) yn cael eu trin yn gyflym a bod pleon euog cynnar yn cael eu sicrhau, lle bo'n briodol. Mae achosion priodol yn cael eu nodi gan yr erlyniad cyn y PTPH. Os pleid ‘dieuog’, caiff y treial ei drefnu o fewn 20 wythnos i'r PTPH.

Dywedwyd wrthyf, o'i lansio ym mis Mehefin 2023 hyd at fis Hydref 2025, fod 563 o achosion wedi'u nodi fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y cynllun. Datryswyd 315 (56%) trwy ble euog yn y PTPH. Plediodd 111 (20%) arall yn euog cyn y treial a phlediodd 32 (6%) yn euog ar ddiwrnod cyntaf y treial. Dim ond 15 achos (3%) a aeth ymlaen i dreial llawn.

Noder: Mae'r data'n rhedeg o 26/06/23 i 20/10/25. Noder hefyd, nid yw hyn yn cynnwys data ar gyfer achosion a restrwyd ar gyfer PTPH rhwng 15/10/24 a 08/11/24.

Ffynhonnell: Data gweithredol Llys y Goron Lerpwl.

Llys y Goron Nottingham – ‘Llys Cyflym’

Dechreuodd Llys y Goron Nottingham weithredu ‘llys cyflym’ ym mis Ebrill 2025 i fynd i’r afael â’r oedi sylweddol yr oedd treialon mechnïaeth yn ei brofi, gyda gohiriadau’n digwydd yn aml yn y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) am 12–18 mis. Rhaid i achosion a ystyrir yn addas i’w cynnwys fod ag amcangyfrif amser o 1–3 diwrnod a bod yn ddiffynnydd sengl ar fechnïaeth neu yn y ddalfa. Y troseddau a ystyrir yn addas i’w cynnwys yw: Ymosodiad (gan gynnwys Ymosodiad gan Achosi Niwed Corfforol Gwirioneddol (ABH) ac ymosod ar weithiwr brys); Meddu ar gyffuriau gyda’r bwriad o gyflenwi / meddu ar gyffuriau yn syml; Dwyn (gan gynnwys dwyn oddi ar berson a dwyn o siop); Bwrdleriaeth; Troseddau cyhoeddus (gan gynnwys meddu ar arf sarhaus); Troseddau gyrru (lle nad oes anaf wedi’i achosi); Torri gorchymyn atal niwed rhywiol; Meddu ar ddelweddau anweddus.

Nodir cyfnod cyflym pythefnos bob mis (wedi'i drefnu ymlaen llaw), ynghyd â barnwr dynodedig. Gohirir achosion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys i'r cyfnod hwnnw yn y PTPH. Bedair wythnos cyn y cyfnod cyflym, adolygir pob achos gan y barnwr a neilltuwyd, yr erlyniad, yr amddiffyniad ac uned gofal tystion i ganiatáu i gynrychiolwyr wneud sylwadau ynghylch addasrwydd ac argaeledd partïon. Bythefnos cyn y cyfnod cyflym, rhestrir pob achos ar gyfer adolygiad cyn treial. Rhestrir unrhyw achosion sy'n weddill ar ôl y gwrandawiad hwn ar gyfer dyddiad penodol yn ystod y cyfnod cyflym.

Dywedwyd wrthyf hyd yma, fod Nottingham wedi cynnal saith llys cyflym. Mae 112 o achosion wedi'u nodi fel rhai addas, a datryswyd 43 (38%) ohonynt yn yr adolygiad cyn treial. O'r 69 achos sy'n weddill, rhestrwyd 56 ar gyfer treial. Chwalwyd 31 ar ddiwrnod cyntaf y treial (oherwydd newid ple, ple euog i gyhuddiad amgen ar ddiwrnod y treial, neu'r erlyniad yn peidio â chynnig tystiolaeth), roedd 21 treial yn effeithiol a 4 treial yn aneffeithiol (oherwydd diffyg presenoldeb gan y diffynnydd, tystiolaeth feddygol bellach yn ofynnol neu'r diffynnydd yn cael ei ymchwilio a'i gyhuddo wedyn o faterion cysylltiedig pellach).

Noder: Mae'r data yn rhedeg o 01/04/25 i 31/10/25.

Ffynhonnell: Data gweithredol Llys y Goron Nottingham.

52. Tynnwyd fy sylw at un system restru leol, a ddefnyddir yn Llys y Goron Wood Green, sy'n ystyried ystod ehangach o ffactorau egwyddorol wrth flaenoriaethu achosion (gweler Astudiaeth Achos P). Mae'r cynllun yn cynnwys catalog cynhwysfawr o ffactorau perthnasol i'w hystyried a phwysoli gwrthrychol i'w neilltuo i bob un. Wrth gymhwyso'r fformiwla, neilltuir sgôr pwysoli i bob un o'r ffactorau a nodwyd pan gaiff yr achos ei restru gyntaf yn Llys y Goron, gydag adolygiadau o'r sgorau wrth i'r achos symud drwy PTPH a gwrandawiadau cyn treial eraill. Mae blaenoriaeth gymharol achosion yn seiliedig ar y sgôr gyffredinol ar gyfer pob achos, gyda sgoriau uwch yn cael eu blaenoriaethu yn y rhestr. Ar hyn o bryd, cefnogir y system hon gan adnodd Excel syml iawn. Byddai'n gymharol syml troi hyn yn wasanaeth digidol helaethach, gydag integreiddio o ffynonellau data, ar gyfer adnodd rhestru cenedlaethol. Gallai systemau tebyg fod yn cael eu defnyddio mewn Llysoedd y Goron eraill hefyd.

Astudiaeth Achos P: Llys y Goron Wood Green

Mae Llys y Goron Wood Green wedi cyflwyno system rhestru leol sy'n aseinio sgoriau i nifer o ffactorau penodol ar gyfer pob achos er mwyn darparu trefn flaenoriaeth gymharol ar gyfer rhestru.

Y ffactorau a ystyriwyd yw:

1. Hyd yr amser ers i'r achos gael ei anfon gan y llys ynadon.
2. Os yw'r diffynnydd yn cael ei gadw ar remand, nifer y misoedd y mae'r diffynnydd wedi bod yn y ddalfa.
3. Lle mae'r diffynnydd ar fechnïaeth ond wedi'i gadw ar remand yn flaenorol, nifer y misoedd y bu'r diffynnydd yn y ddalfa.
4. Os yw'r diffynnydd dan 18 mlwydd oed.
5. Os oes dioddefwr plentyn neu dyst sylweddol yn yr achos.
6. Math o drosedd: rhoddir blaenoriaeth uwch i achosion sy'n ymwneud â llofruddiaeth, adran 18 Deddf Troseddau yn Erbyn Personau 1861 neu achosion rhyw difrifol, fel y rhoddir i unrhyw achosion trais domestig.
7. Unrhyw ffactorau pellach a nodwyd gan y barnwr didoli neu'r Barnwr Preswyl fel rhai sy'n berthnasol i flaenoriaethu'r achos.

53. Mae'n bwysig bod unrhyw fframwaith rhestru yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd lleol i addasu i bwysau sy'n datblygu ac yn cefnogi mentrau lleol i werthuso canlyniadau'n effeithiol, nodi arferion gorau a'i rannu'n genedlaethol lle bo'n briodol. Nid wyf yn bwriadu darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl ffactorau a allai gael eu cynnwys mewn cynllun blaenoriaethu yma. Fodd bynnag, gobeithio y bydd hyn yn rhoi man cychwyn defnyddiol i CCIG a'r uwch-farnwriaeth. Anogaf y farnwriaeth i ystyried yn fanwl yr ystod o opsiynau sydd ar gael yn gyntaf mewn perthynas â'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r rhestru gael ei seilio arnynt, yn ail y ffactorau perthnasol i'w hystyried ac, yn olaf, pwysoliad gwrthrychol ar draws y system gyfan i'w gysylltu â phob ffactor yn seiliedig ar yr egwyddorion. Rhaid i unrhyw gynllun blaenoriaethu allu cael ei gyflwyno mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl i holl staff y llys ei gymhwyso o ddydd i ddydd gyda chysondeb a thryloywder. Ac unwaith eto, rwy'n ailadrodd pa mor bwysig yw hi y gellir ei gyfieithu'n hawdd i adnodd digidol.

Terminoleg

54. Rhaid cytuno ar iaith gyson a'i chyflwyno ar bob agwedd ar restru. Dylai hyn gynnwys yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio gwahanol fathau o restrau a gynhyrchir, gan gynnwys p'un a oes gan achos a restrwyd ddyddiad penodol ai peidio, a'r teitlau a roddir i unrhyw wrandawiadau cyn treial. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bob parti lywio'r system yn genedlaethol, gan gynnwys diffynyddion, dioddefwyr a thystion a'r heddlu a CPS sy'n gweithio mewn sawl Llys y Goron. Ymhellach, bydd yn ffactor sylweddol wrth alluogi llysoedd i gydweithio'n fwy effeithiol fel adnodd cenedlaethol, gan ei gwneud hi'n haws casglu a dadansoddi data, pwynt y byddaf yn dychwelyd ato yn nes ymlaen yn y bennod hon a phan fyddaf yn trafod cyfranogiad o bell ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell).

Defnyddio rhestrau ansefydlog

55. Yn fy Adroddiad yn 2015, argymhellais y 'dylid cymryd camau i alluogi'r llysoedd i symud tuag at restru sengl/sefydlog'.[33] Ers hynny, mae'r defnydd o restrau 'rhybudd', 'symudol' neu 'wythnos yn dechrau', mewn geiriau eraill restrau nad ydynt yn sefydlog, wedi parhau mewn nifer o lysoedd. Rwy'n cynnal fy safbwynt y dylid cadw restrau ansefydlog i'r lleiafswm posibl er mwyn lleihau'r ansicrwydd a'r tarfu y gallant ei achosi i bob parti trwy ganslo neu newidiadau ar fyr rybudd. Fodd bynnag, deallaf y manteision y gallant eu cynnig i reoli'r swmp presennol o achosion agored. O'r herwydd, anogaf grŵp CCIG ac uwch-farnwriaeth i ystyried pryd y gallai fod yn briodol rhestru achos heb ddyddiad sefydlog a pha achosion na ddylid byth eu cynnwys ar restr ansefydlog. Daeth dyfarniad diweddar yn y Llys Apêl (Adran Droseddol) i gasgliadau tebyg ar yr angenrheidrwydd ond risg o 'restrau rhybudd' (un math penodol o restr ansefydlog) gan nodi nifer o wersi y gallai Barnwyr Preswyl a Barnwyr Llywyddol eraill eu dysgu.[34] Mae cyflwyniadau i'r Adolygiad hwn, yn ogystal â nifer o adroddiadau blaenorol, wedi galw am roi dyddiad ac amser sefydlog i achosion RASSO bob amser, oherwydd yr effaith

33

34

niweidiol bosibl y gall ail-drefnu ei chael ar y grŵp hwn o ddioddefwyr a thystion.[35] Dylid ymgorffori hyn yn y Fframwaith Rhestru Cenedlaethol i sicrhau bod unrhyw ddisgwyliadau yn gydnaws ag egwyddorion rhestru datganedig a gellir eu cyfiawnhau. Unwaith eto, mae angen mabwysiadu terminoleg gyffredin ar gyfer y sail ar gyfer dealltwriaeth well gan bawb dan sylw ac i gynorthwyo i gasglu a dadansoddi data.

Amcangyfrifon amser treial

56. Fel y nodais yn gynharach yn y bennod hon (gweler paragraff 31), mae problemau ar hyn o bryd gyda gosod amcangyfrifon amser cywir ar gyfer treialon yn y PTPH. Dylid gosod disgwyliadau o fewn y Fframwaith Rhestru Cenedlaethol i'r farnwriaeth ymchwilio'n llawn amcangyfrifon amser a ddarperir iddynt gan CPS ac eiriolwyr yr amddiffyniad er mwyn gwella eu cywirdeb. Trwy ymgysylltu ar gyfer yr Adolygiad hwn, rwyf wedi clywed am her debyg yn yr Alban. Yn yr Uchel Lys, trwy ganllawiau diweddar ar amcangyfrif hyd yr amser sydd ei angen ar gyfer treial ac ymdrech gydgysylltiedig ddiweddar gan eiriolwyr a'r farnwriaeth i ymchwilio'r wybodaeth a ddarperir sy'n cyfateb i'r PTPH, gwellodd amcangyfrifon amser o gywirdeb 40% i gywirdeb 62% dros gyfnod o naw mis o Ebrill 2024 ymlaen.[36]

Amserlenni cyhoeddi ar gyfer rhestrau

57. Ar wahân i'r Llysoedd, cwnsleriaid a CPS, mae nifer o bartneriaid cyfiawnder troseddol eraill yn y system cyfiawnder troseddol yn dibynnu ar gyhoeddi rhestrau llys i alluogi eu prosesau cynllunio a phrosesau cysylltiedig eu hunain. Yn benodol, mae HMPPS angen yr wybodaeth hon er mwyn trefnu i'r Gwasanaethau Carcharu a Hebrwng Carcharorion (PECS) drosglwyddo diffynyddion ar remand o'r carchar i'r llys pan fo angen iddynt ymddangos. Dylid gosod disgwyliadau ar y dyddiadau a'r amseroedd cyhoeddi ar gyfer rhestrau

---

35

36

drafft, cadarn a therfynol sy'n diwallu anghenion y gwasanaethau hyn. Byddaf yn dychwelyd at heriau PECS yn fwy manwl ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau).

Trefnu gwrandawiadau gweinyddol

58. Yn ystod ymgysylltu drwy gydol yr Adolygiad hwn, rwyf wedi clywed am yr heriau sy'n gysylltiedig â threfnu niferoedd cynyddol o wrandawiadau gweinyddol byr wrth leihau tarfu ar dreialon parhaus. Yn fy Adroddiad yn 2015, argymhellais 'y byddai'n sicr o werth amserlennu rheoli achosion neu wrandawiadau eraill ... y tu allan i oriau dyddiau eistedd y llys fel y gall eiriolwyr penodedig gymryd rhan heb darfu ar dreialon y maent yn ymgymryd â hwy'.[37] Ymhellach i hyn, byddwn yn annog y farnwriaeth i ystyried a allai fod manteision mewn rhestru gwrandawiadau o'r fath yn bennaf ar fore Llun neu ddydd Gwener, lle mae tarfu ar dreialon yn debygol o gael ei leihau. Byddaf yn dychwelyd at y mater hwn ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus) i drafod a ellid symud rhywfaint o'r gwaith hwn oddi ar restrau'r llys yn gyfan gwbl a'i reoli mewn gohebiaeth â'r Barnwr.

Trefnu gwrandawiadau Adran 28

59. Byddaf yn dychwelyd at adran 28 a mesurau arbennig eraill yn fanylach ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau). Fodd bynnag, byddwn yn annog CCIG a'r uwch-farnwriaeth i ystyried yr amser mwyaf effeithlon yn ystod diwrnod y llys i drefnu gwrandawiadau adran 28 er mwyn cyfyngu ar darfu ar dreialon parhaus achosion eraill y gall eiriolwyr a barnwyr fod yn rhan ohonynt, gan gydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer anghenion y tystion agored i niwed hyn.

Cyfranogiad o bell

60. Byddaf yn dychwelyd at ddefnydd cyfranogiad o bell yn fanylach ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell). Fodd bynnag, byddwn yn annog CCIG ac uwch-aelodau'r farnwriaeth i gynnwys cyfarwyddiadau clir, yn seiliedig ar fy argymhellion, ar

---

37

ddefnyddio cyfranogiad o bell ar gyfer gwahanol bartïon ar draws gwrandawiadau Llys y Goron o fewn y Fframwaith Rhestru Cenedlaethol.

Cydweithredu ar draws y system cyfiawnder troseddol

61. Dylid ystyried gosod disgwyliadau clir ar draws partneriaid cyfiawnder troseddol ar sut y dylent gydweithio i gydbwyso anghenion unigol â'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau ehangach. Mae sianelau cyfathrebu uniongyrchol, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd, rhwng swyddogion rhestru, CPS a Chlercod y Bar yn rhan hanfodol o hyn. Byddaf yn dychwelyd at y mater hwn mewn perthynas â rheoli achos yn fwy cyffredinol ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achos Parhaus).

Dangosyddion perfformiad allweddol

62. Ni ddylai penderfyniadau barnwrol ar y ffeithiau neu'r gyfraith mewn perthynas ag achos byth fod yn destun monitro gan y llywodraeth a dylent ond byth fod yn gallu cael eu herio drwy brosesau treial ac apêl; dyna wir ystyr annibyniaeth farnwrol. Fodd bynnag, mae GLlTEF bob amser wedi trafod data rheoli achosion gyda'r farnwriaeth i'w helpu i ddeall perfformiad eu llys neu eu Cylchdaith. Dylid cymryd yr un dull gyda chymhwyso polisi rhestru cenedlaethol. Anogaf CCIG a'r uwch-farnwriaeth i gytuno, fel rhan o greu'r fframwaith, pa agweddau y dylid eu monitro drwy lywodraethu mewnol a thrwy graffu allanol fel rhan o gylch gorchwyl unrhyw adolygiad o'r llysoedd, gan sicrhau nad yw achosion unigol neu benodol yn destun unrhyw arolygiad (gweler Pennod 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol)).

63. Bydd angen cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) y gellir eu hadolygu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Dylid cynnwys diffiniad clir o dreial aneffeithiol hefyd. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r mater a drafodais yn gynharach yn y bennod mewn perthynas â threialon sy'n cael eu cofnodi fel treialon aneffeithiol ond sy'n dod yn effeithiol o fewn llai na phum diwrnod. Awgrymaf y gellid defnyddio label amgen o 'oedi' ar gyfer yr achosion hyn, er mwyn eu gwahanu oddi wrth y treialon gwirioneddol aneffeithiol sy'n cael eu gohirio am wythnosau neu fisoedd. Gallai hefyd fynd i'r afael â mater sydd wedi'i

godi gyda mi lle nad yw achosion sydd wedi'u rhestru ar 'restr dan rybudd' (hynny yw, wedi'u gohirio am gyfnod penodol ond heb roi slot rhestr swyddogol iddynt erioed) ond na chlywir amdanynt byth yn cael eu cofnodi fel rhai aneffeithiol, er bod yn rhaid i bob parti baratoi a bod yn barod i fynychu'r llys unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hwn. O fewn GLlTEF a'r Farnwriaeth mae angen ffocws newydd ar amseroedd aros achosion. Yn gyntaf, mae angen i hyn gynnwys faint o amser y mae achos yn ei gymryd o'i anfon o'r llys ynadon i'w ddatrys yn Llys y Goron. Dylid cynnwys hyn yn y rhestr gytunedig o KPIs a defnyddio'r wybodaeth i gynorthwyo i ddeall perfformiad llys a dyraniad dyddiau eistedd. Yn ail, fel y byddaf yn mynd ymlaen i'w drafod yn nes ymlaen yn y bennod hon, ni all swyddogion rhestru gael mynediad mwyach at wybodaeth am faint o amser y mae achos wedi bod yn aros. Mae'r data hwn yn bwysig i'w galluogi i gadw'r llwyth achosion agored dan adolygiad a galluogi cymariaethau gwybodus i gael eu gwneud.

64. Dylai Barnwyr Preswyl chwarae rhan allweddol o ran berchenogaeth perfformiad, gan weithio gyda'i gilydd i ystyried meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw a rhannu arfer gorau.

Argymhelliad 92: Rwy'n argymell bod yr uwch farnwriaeth yn datblygu ac yn cyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol ar gyfer Llys y Goron. Dylai hwn gynnwys, fel isafswm, terminoleg gyson, egwyddorion cyson y dylid seilio'r broses o restru achosion arnynt a chynllun blaenoriaethu i gynnwys rhestr ddiffiniol o ffactorau perthnasol i'w hystyried a phwysoliad gwrthrychol i'w gysylltu â phob ffactor yn seiliedig ar yr egwyddorion. Rhaid iddo hefyd gael ei gynllunio yn y fath fodd fel ei fod yn gallu cael ei drosi'n adnodd rhestru digidol yn rhwydd.

Y Broses Rhestru Llys Ynadon

65. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae gan lysoedd ynadon ymagwedd fwy unffurf at restru ledled Cymru a Lloegr. Er bod fframwaith rhestru pob Cylchdaith yn cael ei gytuno gan Grŵp Busnes Barnwrol y Gylchdaith honno, mae'r grwpiau hyn wedi

cysoni eu harferion i raddau helaeth, gan ddefnyddio egwyddorion allweddol y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol i ddatblygu cyfres fwy manwl o egwyddorion a meini prawf gweithredol sy'n llywio creu pob fframwaith rhestru.[38] Mae'r meini prawf rhestru a fabwysiadwyd yn eang ar draws Cylchdeithiau yn mynd i'r afael â materion megis hyd diwrnod eistedd llys, rhagdybiaethau safonol ar amseru ar gyfer achosion yn ôl categori ac amserlennu mathau o achosion iâr gyfer sesiynau bore a phrynhawn yn seiliedig ar hyn. Egwyddor arall a ddilynir yn gyffredin yw grwpio gwaith i mewn i dai llys canolog i reoli maint y llwyth gwaith, er enghraifft llysoedd Cam-drin Domestig arbenigol, canolfannau llysoedd traffig a llysoedd remand. Yn flaenorol, roedd cynlluniau ar waith i gysoni fframweithiau unigol pob un o'r saith Cylchdaith yn ddogfen genedlaethol, ond gohiriwyd hyn yn ystod y pandemig ac nid yw wedi'i ailymweld. Mewn termau ymarferol, ni fyddai fersiwn genedlaethol o'r fframwaith hwn yn ychwanegu fawr o newid i'r hyn sydd eisoes yn ddogfennau sydd wedi'u halinio'n agos. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i addasu'r dulliau gweithredu a gymerir.

66. Fel gyda rhestru yn Llys y Goron, mae gwaith ar y gweill gan y farnwriaeth a GLlTEF, drwy'r CCIG, i adolygu rhestru o fewn llysoedd ynadon. Yn benodol, rwyf wedi clywed am waith gan CCIG i adolygu'r polisïau rhestru ynadon presennol ac ystyried a oes angen unrhyw newidiadau, o ystyried y cynnydd disgwyliedig yn y llwyth achosion ar gyfer llys yr ynadon fel y trafodwyd ym Mhennod 2 (Cyd-destun). Rwy'n cymeradwyo'r gwaith hwn. Byddwn hefyd yn annog GLlTEF a'r farnwriaeth i ystyried manteision posibl 'llysoedd blits' o fewn y gwaith hwn.[39] Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus pan gawsant eu defnyddio o'r blaen i leihau'r llwyth achosion agored mewn llysoedd wedi'u targedu dros gyfnod byr o amser.

38

39

Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial (AI)

67. Fel y disgrifiais eisoes, mae'r dechnoleg bresennol sydd ar gael i gynorthwyo swyddogion rhestru a'r farnwriaeth i gyflawni eu swyddogaeth rhestru yn Llysoedd y Goron yn gyfyngedig iawn. Mae cyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol fel y nodais yn agor cyfle i unioni hyn a datblygu technoleg sy'n ategu prosesau cyfredol ac yn cynorthwyo'r farnwriaeth i restru'n fwy effeithlon.

68. Yn gyntaf, daeth i'm sylw drwy ymgysylltu â swyddogion rhestru nad yw'r Platfform Cyffredin yn rhoi mynediad amser real i'r data sydd ei angen arnynt mewn fformat hawdd ei ddeall, er bod hyn ar gael yn yr hen system, Xhibit. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar achosion sy'n weddill yn ôl amrywiol feini prawf (gan gynnwys oedran yr achos), adroddiadau Terfyn Amser yn y Ddalfa a hanes rhestru achosion dros nifer penodol o wythnosau oed, i enwi dim ond rhai. Gall staff y llys gael mynediad i ddangosfwrdd Microsoft PowerBI a reolir yn ganolog, ond nid yw hyn yn dadansoddi'r data gyda digon o fanylder sydd ei angen ar gyfer rhestru effeithiol ac fe'i diweddarir ar gyfnodau penodol yn unig yn hytrach na darparu data amser real. O ganlyniad, mae'n rhaid i staff gasglu data â llaw neu gyflwyno ceisiadau i'r tîm perfformiad cenedlaethol canolog, sy'n llafurus, yn cymryd llawer o amser ac mae'r arfer hwn yn golygu nad yw data yn gyfredol ar yr adeg y'i derbynnir yn y pen draw.

69. Mae'r data hwn yn hanfodol i gynorthwyo swyddogion rhestru i ddeall a dadansoddi eu llwyth achosion presennol, ac i lywio penderfyniadau blaenoriaethu. Gall hefyd gynorthwyo i ddeall y rhesymau dros ohiriadau gwrandawiadau a threialon a llywio camau i fynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau bod mwy o wrandawiadau a threialon yn effeithiol ar y rhestriad cyntaf.

70. Deallaf fod gwaith i ddatblygu mynediad at y data hwn yn y Platfform Cyffredin wedi dechrau yn flaenorol ond na chafodd ei gwblhau erioed. Felly, rwy'n argymell y dylid codi'r gwaith diwygio hwn eto ar frys a dylid ychwanegu'r swyddogaeth i'r Platfform Cyffredin cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r dibyniaeth ar gasglu data â llaw. Gellid gwneud hyn mewn amrywiol ffurfiau – adroddiad, dangosfwrdd neu ran arall o ryngwyneb y defnyddiwr. Fodd bynnag,

yn hollbwysig, rhaid iddo ddangos metrigau a mewnwelediadau allweddol mewn amser real a bod yn gyson ag anghenion defnyddwyr. Dylid rhoi sylw hefyd i alinio'r data sydd ar gael i'r Fframwaith Rhestru Cenedlaethol, yn enwedig y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt ar gyfer monitro mewnol.

Argymhelliad 93: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn blaenoriaethu datblygu adnodd fewnol o fewn y Platfform Cyffredin sy'n galluogi swyddogion rhestru a'r farnwriaeth i gael mynediad at ddata gweithredol perthnasol a'i ddadansoddi'n uniongyrchol. Gallai hyn fod ar ffurf adroddiad, dangosfwrdd neu ran arall o ryngwyneb y defnyddiwr sy'n arddangos metrigau a mewnwelediadau allweddol mewn amser real. Dylid cynllunio'r adnodd i gefnogi arferion rhestru effeithiol, lleihau'r ddibyniaeth ar gasglu data â llaw a'i alinio â'r Fframwaith Rhestru Cenedlaethol, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt ar gyfer monitro mewnol.

71. Fel y nodais, mae swyddogion rhestru yn gweithio ar draws systemau lluosog ar hyn o bryd yn ddyddiol i reoli rhestru ar gyfer eu llys. Yn ogystal, o ymgysylltiad fy nhîm fel rhan o'r Adolygiad hwn, mae'r wybodaeth y mae swyddogion rhestru ei hangen ar y gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad rhestru wedi'i gwasgaru ar draws amrywiaeth o ffynonellau, boed hynny'n y Platfform Cyffredin, CPS, y clercod yn siambrau'r eiriolwyr amddiffyn, rotas barnwrol a HMPPS. Mae angen dwyn ynghyd swyddogaethau'r systemau ac offer amrywiol a lluosog a ddefnyddir ar hyn o bryd, yn ogystal â'r gwahanol ffynonellau data hyn, i mewn i un adnodd amserlennu cenedlaethol.

72. Rwyf yn ymwybodol bod gwaith eisoes ar y gweill yn GLlTEF i ddatblygu adnodd amserlennu unffurf ar gyfer Llys y Goron. Mae gwaith pellach yn cynnwys creu strategaeth i ystyried newidiadau hirdymor gan gynnwys ymgorffori adnodd amserlennu i mewn i'r Platfform Cyffredin. Mae cynlluniau presennol yn cynnwys adeiladu adnodd sy'n seiliedig ar yr un a ddefnyddir eisoes yn llysoedd ynadon, a fyddai'n sicrhau bod gwrandawiadau'n cael eu rhestru yn ôl argaeledd dyddiau

eistedd, adnoddau barnwrol a'r capasiti dyddiol a bennwyd ar gyfer y math o fusnes diffiniedig. Yn y cyfamser, mae GLlTEF yn gweithio i ddatblygu cynlluniwr capasiti sylfaenol y gellir ei lenwi â manylion sylfaenol gwrandawiadau rhestredig yn y Platfform Cyffredin a'i lawrlwytho i'w ddefnyddio o fewn systemau cynllunio Excel lleol. Mae'r swyddogaeth lawrlwytho hon eisoes yn fyw, tra bod y fersiwn sylfaenol o'r cynlluniwr i'w ddefnyddio gan bob llys yn cael ei ddylunio. Er bod datrysiad dros dro yn gam i'r cyfeiriad cywir, gellir ac y dylid datblygu a gweithredu adnodd amserlennu mwy sylweddol.

73. Mae unrhyw adnodd o'r fath yn dibynnu ar y Fframwaith Rhestru Cenedlaethol, o ran y derminoleg a ddefnyddir, y fframwaith flaenoriaethu a gytunwyd arno ac unrhyw benderfyniadau ynghylch trefnu mathau penodol o wrandawiad. Dyma pam y pwysleisiais bwysigrwydd unrhyw system flaenoriaethu a fabwysiadwyd yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n haws i'w trosi i mewn i adnodd digidol.

74. Rhaid ystyried cydnawsedd ag offer technolegol eraill hefyd wrth ddatblygu'r adnodd amserlennu hwn. Yn benodol, bydd yn hanfodol i'r adnodd fod yn gydnaws ag unrhyw nodweddion cynnydd achos rhyngweithiol a ddatblygwyd ar gyfer Llysoedd y Goron (gweler Pennod 7 (Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achos Parhaus)) a system archebu cyswllt fideo (gweler Pennod 8 (Cyfranogiad o Bell)).

75. Mae'n hanfodol bod datblygu unrhyw adnodd amserlennu yn cael ei gynnal gyda chyfranogiad swyddogion rhestru profiadol i sicrhau ei fod yn cynnwys ymarferoldeb angenrheidiol iddynt gyflawni eu rôl yn effeithiol. Byddai cynnal prosiect peilot o unrhyw adnodd newydd yn caniatáu i hyn gael ei brofi a gwneud addasiadau cyn ei gyflwyno'n genedlaethol.

76. Mae manteision adnodd amserlennu cenedlaethol eisoes wedi'u gweld yn y llys ynadon. Byddai cyflwyno adnodd cyfatebol ar gyfer Llys y Goron nid yn unig yn cefnogi helaethu prosesau trwy dechnoleg ond yn lleihau gwastraff yn y system trwy leihau'r amser a dreulir ar hyn o bryd ar brosesau â llaw a dyblygu rhwng

systemau. Byddai hefyd yn cefnogi gwelliannau i'r hyfforddiant a gynigir i swyddogion rhestru (dychwelaf at hyn yn nes ymlaen yn y bennod hon).

Argymhelliad 94: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn cyflwyno adnodd trefnu ar gyfer Llysoedd y Goron o fewn y Platfform Cyffredin. Dylai'r adnodd hwn ddarparu ymarferoldeb i reoli holl swyddogaethau rhestru sylfaenol, gan gymryd lle dewisiadau amgen a ddatblygwyd yn lleol, a dwyn ynghyd yr holl ddata angenrheidiol i lywio penderfyniadau rhestru. Dim ond gyda chyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol y bydd datblygu'r adnodd hwn yn bosibl, a dylid ei gynllunio yn unol â'r egwyddorion a gytunwyd arnynt gan y

77. Mae rhestru yn benderfyniad sy'n cynnwys y farnwriaeth a swyddogion rhestru (sy'n gweithio i'r barnwyr) yn gwneud asesiadau ar ffactorau (fel y rhestrwyd yn flaenorol ym mharagraff 20) sy'n newid ac sydd o reidrwydd yn ddyfaliadol o ran sawl newidyn. Mae gradd o wrthrychedd wrth asesu'r ffactorau hyn, ac mae profiad yr unigolion dan sylw hefyd yn dylanwadu arnynt. O ganlyniad, bydd pob penderfyniad yn wrthrychol i raddau oherwydd y gwahaniaethau enfawr ym mhrofiad pob person dan sylw, dibyniaeth ar eu profiad personol fel 'data cefndirol' i seilio penderfyniadau arno a'r potensial i gofio'r profiad hwnnw i fod yn ddetholus ac yn anghywir. Mae'r ffactorau hyn a phwysau eraill ar y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd penderfyniadau rhestru'n rhai optimaidd. Ni fydd unrhyw unigolyn, ni waeth pa mor brofiadol, yn gallu prosesu'r holl ffactorau sy'n chwarae rhan i gyrraedd y canlyniad mwyaf effeithlon ym mhob achos. Fodd bynnag, drwy ddewis meini prawf ar gyfer blaenoriaethu sy'n lleihau gwrthrychedd, gellir lleihau'r risgiau hyn.

78. Mae datblygiad AI yn rhoi cyfle i ddeall yn fwy effeithiol yr amrywiaeth o ffactorau sy'n berthnasol ar gyfer rhestru a chynorthwyo penderfyniadau rhestru ar draws y llysoedd troseddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a lleihau gwastraff yn y system. Byddai system sy'n seiliedig ar ddata yn caniatáu i ffactorau gwrthrychol gael eu cymhwyso'n gyson, gan alluogi o hyd i asesiadau proffesiynol goddrychol gael eu hymgorffori lle bo'n briodol. Ar ben hynny, byddai offer AI yn cyflymu'r broses o restru fel y'i cyflawnir ar hyn o bryd gan swyddogion

rhestru yn Llys y Goron, gan ryddhau eu hamser i ganolbwyntio ar liniaru unrhyw risgiau a allai arwain at dreial aneffeithiol. Yn olaf, trwy gael mynediad at ddata gwell ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rhestru, dylid lleihau'r niferoedd uchel presennol o or-restru yn llysoedd ynadon a Llys y Goron a defnyddio gor-restru fel dewis bwriadol yn hytrach na thriniaeth angenrheidiol, wedi'i lywio gan ddata.[40]

79. I ryw raddau, mae'r model rhestru y soniais amdano o'r blaen a ddefnyddir yn Llys y Goron Wood Green (gweler Astudiaeth Achos P) yn enghraifft o ddull rhestru sylfaenol sy'n seiliedig ar ddata ac a gefnogir gan daenlen Excel syml iawn, yn yr achos hwn. Mae'r adnodd hwn yn defnyddio'r sgorau a ddarperir â llaw ar gyfer pob ffactor i gynhyrchu sgôr gyffredinol ar gyfer pob achos ac yna'n pennu ei flaenoriaeth gymharol yn y rhestr. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y gellid datblygu rhywbeth llawer mwy soffistigedig dros amser gyda'r buddsoddiad cywir. Fodd bynnag, mae hwn yn gam cyntaf i'r cyfeiriad cywir.

80. Trwy'r ymgysylltu helaeth yn yr Adolygiad hwn, daeth yn hysbys i mi am waith sy'n bodoli yn GLlTEF i archwilio amserlennu a rhestru sy'n seiliedig ar ddata ar draws awdurdodaethau a'r rôl y gallai AI ei chwarae wrth gefnogi penderfyniadau barnwrol. Mae'r fenter hon yn archwilio sut y gellir defnyddio dadansoddeg data uwch i wneud y gorau o brosesau amserlennu a rhestru llysoedd. Trwy fanteisio ar ddata i gefnogi staff a'r farnwriaeth i wneud defnydd mwy effeithlon o gapasiti ystafelloedd gwrandawiadau, nod y gwaith yw gwella cynnydd achosion, lleihau'r llwyth achosion agored a gwella'r defnydd cyffredinol o adnoddau ar draws y llysoedd ac ystad y tribiwnlysoedd. Mae'r gwaith cynnar a gwblhawyd ar hyn hyd yma yn dangos canlyniadau addawol, er ei fod wedi'i gyfyngu i'r Siambr Mewnfudo a Lloches. Mae wedi nodi cyfleoedd i ddefnyddio data, trwy ddulliau â llaw a dysgu peirianyddol, i ragweld hyd gwrandawiad yn fwy cywir, rhagweld tebygolrwydd achosion o chwalu neu fod angen gohirio ac optimeiddio rhestrau gan ystyried pryd y dylid defnyddio rhestrau sefydlog neu rai nad ydynt yn

---

40

sefydlog a lliniaru'r tebygolrwydd o ohiriadau fel bod mwy o achosion yn cael eu gwrando y tro cyntaf.

81. Mae’r cyfleoedd hyn yn dangos y byddai dull rhestru sy’n seiliedig ar ddata yn cefnogi gwelliant i reoli’r llwyth achosion agored, yn gwneud y gorau o restru i wneud y defnydd mwyaf o adnoddau, yn sbarduno rheoli risg yn ragweithiol i leihau gohiriadau ac yn lleihau’r baich gweinyddol ar staff. Mae’r potensial i waith tebyg fod o fudd i’r awdurdodaeth droseddol wedi’i gydnabod eisoes ac mae gwaith cynnar wedi dechrau, ac rwyf yn cefnogi hynny’n llwyr. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad pellach yn y maes hwn i wireddu’r buddion mwyaf. Dylai’r gwaith parhaus geisio dangos y gellir meintioli neu gategoreiddio asesiadau goddrychol (fel canfyddiadau o gymhlethdod achos, heriau rheoli treial disgwyliedig neu farn broffesiynol ar risg sy’n gysylltiedig â thystion) yn ddigonol i’w defnyddio fel newidynnau hyfforddi ar gyfer modelau dysgu peirianyddol, gan alluogi’r system i adlewyrchu arfer rhestru’r byd go iawn heb ddadleoli disgresiwn barnwrol.

82. Yn ogystal â defnyddio data i ddarparu mewnwelediadau ar nodweddion ystadegol ac i gynhyrchu penderfyniadau rhestru a argymhellir, mae gan AI y potensial hefyd i gefnogi swyddogion rhestru a'r farnwriaeth trwy reoli set o gyfyngiadau y mae'n rhaid eu bodloni, yn unigol ac ar y cyd. Mae hon yn broblem gyfrifiadurol gyffredinol adnabyddus y gellid cyfeirio adnoddau AI ati er mwyn gallu chwilio trwy ystod o ffactorau y mae'n ofynnol eu hasesu a'u halinio ar gyfer gwrandawiad neu dreial effeithiol, gan gefnogi unwaith eto optimeiddio'r defnydd o adnoddau.

83. Rwy’n cloi’r dadansoddiad hwn drwy bwysleisio mai’r farnwriaeth sy’n gwneud y penderfyniad terfynol o hyd ynghylch rhestru a byddant bob amser mewn sefyllfa i ddiystyru cynnig sy’n deillio naill ai o asesiad rhestru traddodiadol neu (pan gaiff ei ddatblygu) o ddefnyddio adnodd AI. Ni ddylai unrhyw beth yr wyf yn ei awgrymu wyro oddi wrth yr egwyddor honno.

Argymhelliad 95: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn parhau i ddatblygu ei ddull rhestru sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer yr awdurdodaeth droseddol. Dylid ei ddefnyddio i wneud defnydd o ddeallusrwydd artiffisial fel rhan o adnoddau amserlennu'r llys ynadon a Llys y Goron. Dylai hyn gynnwys fframwaith clir sy'n gwahaniaethu ffactorau rhestru gwrthrychol oddi wrth asesiadau proffesiynol goddrychol, a dull ar gyfer cipio'r ddau fel y gellir hyfforddi adnoddau deallusrwydd artiffisial, lle bo'n briodol, ar yr ystod lawn o ystyriaethau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y farnwriaeth a swyddogion rhestru.

Gweithlu

84. Mae gwaith rhestru achosion o ddydd i ddydd yn Llys y Goron yn cael ei wneud gan swyddogion rhestru. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn effeithlonrwydd pob llys. Trwy ymgysylltiad fy nhîm ac ymweliadau â sawl Llys y Goron fel rhan o'r Adolygiad hwn, maent wedi gweld y gwahaniaeth a wneir i berfformiad cyffredinol llys pan fo swyddog rhestru medrus a galluog yn y swydd.

85. Ni ellir diystyru heriau'r rôl hon. Mae'n dasg ddi-baid i reoli'r nifer o ffactorau, sy'n aml yn gwrthdaro, rwyf eisoes wedi'u disgrifio sy'n effeithio ar benderfyniad rhestru, a cheisio trefnu achosion gydag cymaint o sicrwydd â phosibl y byddant yn effeithiol ac y bydd amser barnwrol yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Dim ond wedi cynyddu mae'r her hon yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r cynnydd mewn nifer yr achosion[41] ac yng nghymhlethdod yr achosion.[42] Fodd bynnag, nid yw her y rôl yn gyfyngedig i'r broses weinyddol. Mae'n ofynnol i swyddogion rhestru ymgysylltu bob dydd gydag uwch-aelodau o'r heddlu, CPS, y gymuned amddiffyn a'r farnwriaeth. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i swyddog rhestru allu meithrin perthnasoedd â phob un o'r partïon hyn. Rhaid iddynt fod â'r awdurdod a'r hyder i ddylanwadu ar drafodaethau, gan herio barn unigolion mewn rolau llawer uwch yn aml, ac yn y pen draw gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y

41

42

defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau yn ei gyfanrwydd, nid dewisiadau uwch-unigolion.

86. Yn ogystal â hyn, rhoddir cyfrifoldebau ychwanegol i lawer o swyddogion rhestru i'w cyflawni. Gall hyn gynnwys rheoli llinell nifer sylweddol o staff mewn canolfannau llys mwy a chyfrifoldebau rheolaethol cyffredinol eraill. Mae hyn yn ychwanegu ymhellach at yr hyn sydd eisoes yn rôl dan bwysau mawr, gan dynnu amser a ffocws oddi wrth y cyfrifoldeb hollbwysig am restru.

87. Felly, rwyf wedi synnu o ganfod bod graddio'r rôl staff hon yn amrywio'n sylweddol ledled y wlad, gyda graddau'n cynnwys Swyddog Gweinyddol (rôl lefel mynediad sy'n canolbwyntio ar gymorth gweinyddol), Swyddog Gweithredol (rôl rheoli iau) a Swyddog Gweithredol Uwch (rôl rheoli canol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau a rheoli timau).[43] Mae'n ymddangos hefyd bod strwythurau gweithredol amrywiol mewn gwahanol ranbarthau o ran faint o rolau rhestru sy'n bodoli, ar ba radd a pha gyfuniad ym mhob Llys y Goron. Er enghraifft, mewn rhai llysoedd mae Swyddogion Gweithredol Uwch yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda Swyddogion Gweithredol i restru (mewn grwpiau o hyd at bump), tra mewn eraill mae gan Swyddogion Gweithredol gyfrifoldebau rhestru unigol. Er fy mod yn nodi bod peth o'r amrywiad hwn yn debygol o fod yn gysylltiedig â llwyth gwaith a maint y llysoedd, nid oeddwn yn disgwyl ac nid wyf yn gweld cyfiawnhad dros i'r strwythurau fod mor wahanol.

88. Deuthum yn ymwybodol bod gradd y swyddi hyn wedi'i lleihau i raddau helaeth yn dilyn uno Gwasanaeth Llysoedd EM a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ym mis Ebrill 2011, pan fu ailstrwythuro mawr o'r sefydliad. Mae cyfyngiadau ar adnoddau wedi arwain at leihau swyddi ymhellach a graddio wedi'i amrywiaethu ymhellach dros y blynyddoedd ers hynny.

89. Mae hyn wedi cael effaith ar ddau beth. Yn gyntaf, nid yw gradd swyddogion rhestru mewn llawer o lysoedd bellach yn adlewyrchu lefel yr awdurdod a'r

---

43

sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl hanfodol hon yn effeithiol. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar bwy sy'n cael ei ddenu i'r rolau hyn ond hefyd ar effeithiolrwydd y berthynas y maent yn ei meithrin gydag uwch-farnwriaeth a phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder troseddol sy'n hanfodol i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd y llys. Yn ail, yn anecdotaidd, rwyf wedi clywed bod problemau cadw staff yn gysylltiedig â rolau rhestru. Dywedwyd wrthyf, er bod rhai swyddogion rhestru wedi bod yn y rôl am gryn amser, ac felly wedi meithrin profiad a pherthnasoedd gwerthfawr sy'n hanfodol i gyflawni'r rôl, mae'r rhai sy'n newydd i'r swydd yn symud i rolau gwahanol o fewn cyfnod cymharol fyr (blwyddyn i ddwy flynedd). Y rheswm cyffredinol a roddir am hyn ymddengys ei fod yn ddatgysylltiad rhwng cyfrifoldebau a her y rôl a'r tâl am hynny.

90. Mae'n hanfodol gweithredu i sicrhau bod GLlTEF yn denu'r bobl iawn gyda'r sgiliau cywir i'r rolau hyn, gan roi'r awdurdod priodol iddynt i weithio gydag uwch-aelodau'r farnwriaeth a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, a'u cadw er mwyn iddynt elwa ar y profiad a'r wybodaeth y gellir eu meithrin dros amser yn y rôl yn unig. Felly, rwyf yn argymell adolygu gradd swyddogion rhestru i sicrhau uwch-swyddogion priodol a threfniant mwy cyson a strwythuredig ar waith ar draws Llysoedd y Goron.

91. Nid yw hyn yn golygu bod angen i bob swyddog rhestru fod o'r un radd – mae angen lefelau gwahanol o arbenigedd i reoli llysoedd o wahanol feintiau, gyda chanolfannau llysoedd mwy yn gofyn am swyddog rhestru o radd uwch na chanolfan llys llai. Fodd bynnag, waeth beth yw maint y ganolfan llys, mae'n ofynnol i bob swyddog rhestru feddu ar yr un sgiliau dylanwadu a rheoli rhanddeiliaid. Rhaid cydnabod y sgiliau hyn yn briodol a'u gwobrwyo. Lle mae graddau iau yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer canolfannau llysoedd llai, mae'n hanfodol bod y swyddogion rhestru hynny'n cael cymorth ychwanegol gan swyddog rhestru mwy uwch mewn canolfan llys fwy, tra'n parhau i fod yn gyfrifol am eu llys ac i'w Barnwr Preswyl.

92. Dylid ystyried hefyd pa gyfrifoldebau ychwanegol, os o gwbl, y dylid disgwyl i swyddogion rhestru ar unrhyw radd eu cyflawni i sicrhau bod y lefel gywir o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'w dyletswyddau rhestru.

93. Dim ond rhan o'r ffordd y mae sicrhau bod gradd y rolau hyn yn adlewyrchu eu cyfrifoldebau yn gywir yn mynd tuag at yr enillion effeithlonrwydd y gellir eu gwneud drwy gael swyddog rhestru effeithiol. Mae hefyd yn bwysig bod y rhai sydd yn y rôl yn cael y cyfleoedd dysgu a datblygu angenrheidiol i gyflawni'r rôl mor effeithiol â phosibl. Ar hyn o bryd mae cyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol ar gyfer swyddogion rhestru yn gyfyngedig. Mae GLlTEF wedi llunio cwrs sefydlu ar-lein tair wythnos ar gyfer y rhai sy'n newydd i'r rôl sy'n cwmpasu cyfrifoldebau sylfaenol y rôl. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd datblygu unrhyw beth mwy manwl oherwydd y polisïau rhestru amrywiol sy'n bodoli ar draws Llysoedd y Goron a'r gwahanol fodelau adnoddau ar gyfer rhestru. Bydd cyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol a mwy o gysondeb mewn model adnoddau ar gyfer swyddogion rhestru yn dileu'r rhwystrau hyn.

94. Cyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau i ddysgu a datblygu ar gyfer swyddogion rhestru sydd yn eu swyddi, rwyf am fynd i'r afael yn gyntaf â phwysigrwydd cael cynllunio olyniaeth priodol ar waith ar gyfer rôl mor hollbwysig. Drwy gefnogi staff mewn rolau iau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn swyddog rhestru effeithiol, bydd hyn yn sicrhau cronfa o staff cymwys a hyfforddedig sy'n barod i ymgymryd â'r rôl pan fydd swyddi gwag yn codi, gan sicrhau bod y bobl â'r sgiliau cywir yn cael eu penodi i'r rôl. I wneud hyn, mae angen datblygu llwybr gyrfa clir.

95. Does gennyf ddim amheuaeth bod rhywfaint o wirionedd yn yr ymadrodd ‘mae swyddogion rhestru yn cael eu creu nid eu dysgu’. Bydd cyfyngiad bob amser ar faint y gall dysgu ffurfiol ei ddysgu i swyddog rhestru newydd, gyda'r angen i ddysgu wrth y gwaith yn arbennig mewn perthynas â meithrin perthnasoedd â'r farnwriaeth leol unigol a phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder troseddol. O ganlyniad, mae angen i'r cynnig dysgu a datblygu dargedu'r ddwy ardal.

96. Mae dysgu ffurfiol yn bwysig i ategu'r rôl. Bydd cyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol yn golygu bod angen diweddaru'r pecyn hyfforddiant sefydlu presennol ac mae'n gyfle i adnewyddu'r cynnwys presennol. Byddwn yn annog GLlTEF i ystyried ehangu'r cynnig presennol i gynnwys rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ogystal â'r cynnig ar-lein presennol.

97. Ar hyn o bryd, unwaith y bydd swyddog rhestru newydd wedi cwblhau'r hyfforddiant sefydlu cychwynnol o dair wythnos, ni chynigir unrhyw gymorth dysgu a datblygu pellach yn uniongyrchol iddynt. Disgwylir iddynt ddysgu wrth fynd ymlaen ac yn amlach na pheidio cânt eu hynysu'n llwyr oddi wrth unrhyw swyddogion rhestru eraill ledled y wlad. Mae angen mynd i'r afael â hyn a gellir gwneud hynny drwy ddau fecanwaith. Yn gyntaf, argymhellaf gyflwyno cynllun mentora lle mae swyddogion rhestru newydd yn cael eu paru â swyddog rhestru mwy profiadol. Byddai hyn nid yn unig yn darparu cymorth parhaus i'r aelod staff newydd ond byddai hefyd yn creu cyfle i drafod heriau penodol a chefnogi dysgu parhaus. Yn ail, argymhellaf sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o swyddogion rhestru. Gallai hyn fod ar ffurf sianel Microsoft Teams gyda'r holl swyddogion rhestru wedi'u cynnwys yn yr aelodaeth. Byddai hyn yn darparu lle i staff gefnogi ei gilydd, gofyn cwestiynau a rhannu syniadau ac enghreifftiau o arferion da ar raddfa genedlaethol. Byddai hefyd yn elwa o gynnal digwyddiad blynyddol wyneb yn wyneb i gefnogi cydweithio a rhwydweithio ymhellach.

98. Bydd cyfuno llwybr gyrfa clir i mewn i'r rôl, diweddariad i'r hyfforddiant sefydlu ffurfiol presennol i adlewyrchu'r Fframwaith Rhestru Cenedlaethol unwaith y'i cwblheir, a chyflwyno cynllun mentora a rhwydwaith swyddogion rhestru cenedlaethol yn gwella sgiliau a galluoedd pob swyddog rhestru, gan eu galluogi i gyflawni eu rôl mewn rhestru yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn ei dro cyfrannu'n sylweddol at redeg pob un o'u Llysoedd y Goron yn effeithlon.

Argymhelliad 96: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn adolygu graddfeydd cyflog swyddogion rhestru er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl a bod cysondeb ar draws pob Llys y Goron. Dylid rhoi sylw i ba gyfrifoldebau ychwanegol y dylid disgwyl i swyddogion rhestru ymgymryd â nhw er mwyn sicrhau bod y lefel gywir o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'w dyletswyddau rhestru. Rwyf hefyd yn argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn diweddaru ei becyn dysgu a datblygu i ddarparu llwybr clir i mewn i rôl y swyddog restru, ymgorffori egwyddorion y Fframwaith Rhestru Cenedlaethol a rhoi i swyddogion rhestru'r sgiliau a'r wybodaeth i fod mor effeithiol â phosibl.

99. Fel yr esboniais yn flaenorol, mae'r broses restru mewn llysoedd ynadon yn cael ei rheoli'n wahanol i Lys y Goron, heb un rôl yn gyfrifol am restru. O ganlyniad, nid oes rôl sydd â goruchwyliaeth o ddydd i ddydd o ran rhestru ar draws y llys cyfan neu y mae'n rôl iddi gefnogi pan fo angen newidiadau, boed hynny'n ail-drefnu ystafelloedd llys i ddiwallu anghenion penodol neu ail-drefnu ar raddfa lawn pan fydd gor-restru yn golygu nad yw achosion yn cael eu gwrandawiad pan gânt eu rhestru.

100. Mae ymweliadau fy nhîm â llysoedd ynadon wedi amlygu'r problemau y gall y diffyg goruchwyliaeth hwn eu hachosi. Y cyntaf o'r rhain yw rheoli faint o or-restru. Tan yn ddiweddar iawn, nid oedd unrhyw derfyn drwy'r adnodd amserlennu ar faint o achosion y gellid eu hamserlennu mewn un sesiwn, na faint o amser treial y gellid ei restru. Felly, heb unigolyn i oruchwylio hyn, gallai gormod o or-restru ddigwydd a rhaid i dimau cyfreithiol reoli'r effeithiau dilynol. Rwy'n ymwybodol o ddiweddariad diweddar i'r adnodd amserlennu gan GLlTEF sydd wedi cyflwyno terfynau ar faint o or-restru y bydd yr adnodd yn ei ganiatáu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn datrys yr her o beidio â chael rhywun sydd â goruchwyliaeth ddyddiol o'r faint hwn a all reoli canlyniadau unrhyw newidiadau naill ai cyn y gwrandawiad neu ar y diwrnod.

101. Yr ail fater a godwyd yn ystod yr ymweliadau hyn oedd mewn perthynas â blaenoriaethu achosion. Mae natur yr adnodd amserlennu a'r nifer o ofynion eraill sy'n cael eu gosod ar gynghorwyr cyfreithiol yn yr ystafell llys yn arwain at achosion yn cael eu gohirio'n gyffredinol i'r slot treial nesaf sydd ar gael, yn hytrach nag unrhyw ystyriaethau blaenoriaeth ehangach yn cael eu hadlewyrchu yn yr amserlennu. O ganlyniad, clywais am achosion lle'r oedd treialon â blaenoriaeth uchel (er enghraifft, mewn achosion yn ymwneud â cham-drin domestig neu gyda thystion neu ddiffynyddion agored i niwed) yn cael eu hamserlennu naill ai ar ddyddiad diweddarach nag a oedd yn ddelfrydol, oherwydd bod achosion â blaenoriaeth is wedi llenwi'r amser treial a oedd ar gael ar ddyddiad cynnar eisoes, neu fel yr ail neu hyd yn oed y trydydd treial ar gyfer yr un amser.

102. Byddai cyflwyno rôl gyda chyfrifoldeb penodol i oruchwylio rhestru yn y llysoedd ynadon yn mynd beth fodd i fynd i'r afael â'r ddwy her hyn. Nid wyf yn credu bod angen i hon fod yn rôl ar ei phen ei hun fel sydd ei angen yn Llys y Goron ond dylai fod yn un o gyfrifoldebau Swyddog Cynnydd Achosion o fewn llysoedd ynadon. Byddaf yn dychwelyd at fater Swyddogion Cynnydd Achosion yn llys ynadon ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus).

Hyblygrwydd Rhanbarthol

103. Bydd cyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol ac adnodd amserlennu cenedlaethol ar gyfer Llys y Goron yn dechrau datrys rhai o'r ataliadau presennol ar hyblygrwydd adnoddau mwy drwy sicrhau cysondeb mewn iaith a blaenoriaethu a chael adnodd a all ddangos capasiti sydd ar gael yn genedlaethol yn hytrach nag yn lleol. Fodd bynnag, mae angen gweithredu mwy uniongyrchol i sicrhau bod capasiti ystafell llys sbâr yn cael ei ddefnyddio'n llawn a bod gwastraff yn cael ei leihau i'r eithaf ar draws system genedlaethol. Mae dwy ffordd y gellir gwneud hyn. Yn gyntaf, drwy symud achosion a restrwyd i'w gwrando mewn un Llys y Goron (ar ôl iddynt gael eu hanfon yno gan y llys ynadon) i'w gwrando yn lle hynny gan Llys y Goron gwahanol. Yn ail, drwy wneud mwy o

ddefnydd o gysylltiadau fideo. Byddaf yn trafod yr opsiwn cyntaf yma a dychwelyd at ddefnyddio fideo ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell).

104. Mae proses eisoes ar waith i symud achos o un Llys y Goron i'r llall. Mae wedi'i nodi'n glir mewn Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol. Er mwyn trosglwyddo achos rhwng llysoedd ar yr un Gylchdaith, rhaid ceisio cytundeb y ddau Farnwr Preswyl ac mae'n ddarostyngedig i'r canllawiau gan Farnwr Llywyddol y Gylchdaith. Er mwyn trosglwyddo achos rhwng Cylchdeithiau, rhaid ceisio cytundeb gan y ddau Farnwr Llywyddol a Chyfarwyddwyr Cyflawni.[44] Mae'r broses hon yn or-fiwrocrataidd ac o ganlyniad mae'r defnydd ohoni yn gyfyngedig. Pan gaiff ei defnyddio, rwyf wedi clywed am brosesau hir i gytuno pa achos y gellir ei symud, gan gymryd swm anghymesur o amser i gytuno a chreu hyd yn oed fwy o oedi wrth ddatrys achos.

105. Mae yna her ddiwylliannol hefyd o fewn GLlTEF, y farnwriaeth a phartneriaid ehangach y system cyfiawnder troseddol sy'n gyrru ffocws ar berfformiad llys unigol yn hytrach na'r darlun cenedlaethol. Mae hyn, wrth gwrs, wedi'i chwyddo gan y pwysau cynyddol i ostwng y llwyth achosion agored cymaint â phosibl. Mae'n ddealladwy bod Barnwr Preswyl unigol yn pryderu am faint y llwyth achosion agored yn ei lys ei hun, sy'n debygol o fod yn uwch nag y bu erioed. Fodd bynnag, mae angen i bob Preswylydd roi sylw i'r system ehangach. I nifer o lysoedd, mae eu llwyth achosion agored lleol yn llawer llai na'r lefelau eithafol sy'n cael eu profi mewn mannau eraill, fel yr eglurir ym Mhennod 2 (Cyd-destun).

106. Rhaid gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn a sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau er mwyn lleihau gwastraff a chynyddu trwygyrch achosion. Rwyf eisoes wedi trafod newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Concordat a'r broses dyrannu dyddiau eistedd (gweler Pennod 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol)) a fydd yn mynd beth ffordd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn ogystal â hyn, mae angen newid i weld adnoddau fel darlun cenedlaethol ac

---

44

nid un lleol neu hyd yn oed ranbarthol. Ni ddylid caniatáu i ffiniau Cylchdaith atal cynnydd achosion effeithlon. Mae cyflwyniadau i'r Adolygiad hwn wedi cefnogi'n gryf hyblygrwydd daearyddol mwy wrth restru er mwyn cynyddu amseroldeb datrys achosion.[45]

107. Yn ystod ymweliadau fy nhîm â Llysoedd y Goron fel rhan o'r Adolygiad hwn, maent wedi gweld enghreifftiau lle mae'r rhwystrau hyn wedi'u goresgyn ac mae achosion yn cael eu rhannu'n rheolaidd ar draws nifer fach o lysoedd. Mae hyn yn helpu i gydraddoli'r pwysau a wynebir a'r oedi a brofir. Mae angen newid i annog i wneud hyn yn rheolaidd ar raddfa genedlaethol i sicrhau bod pob adnodd yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

108. I'r perwyl hwn, rwyf yn argymell bod GLlTEF a'r farnwriaeth yn gweithio i normaleiddio'r arfer o symud achosion rhwng Llysoedd y Goron, gan gynnwys ar draws ffiniau Cylchdaith, er mwyn gwneud y defnydd gorau o ddyddiau eistedd a'r capasiti sydd ar gael. Dylai Cyfarwyddwyr Cyflawni GLlTEF a Barnwyr Preswyl arwain y newid hwn, gan gynnwys cytuno faint o gapasiti ar gyfer unrhyw Llys y Goron penodol a fydd ar gael yn ehangach. Dylid adlewyrchu hyn mewn newid i Gyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol. Dylid ystyried trosglwyddiadau ar gyfer dwy amgylchiad, trosglwyddo achosion unigol a throsglwyddo swmp o achosion lluosog. Ar gyfer y ddau, dylid datblygu meini prawf gan y farnwriaeth yn seiliedig ar yr achosion blaenoriaeth, fel y nodir yn y Fframwaith Rhestru Cenedlaethol, i ddarparu sail resymegol glir pam y dylai'r trosglwyddiad ddigwydd. Mae angen gwneud penderfyniadau synhwyrol i gytuno ar bellteroedd rhesymol y gellir symud achos er mwyn peidio â chreu anghyfleustra dioddefwyr, tystion, diffynyddion neu weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos.[46]

45

46

109. Ar gyfer trosglwyddiadau achosion unigol, dylai swyddogion rhestru gymhwyso'r meini prawf hyn a, gan ddefnyddio'r adnodd amserlennu newydd, edrych ar opsiynau ynghylch y llys y gellid trosglwyddo'r achos iddo. Yna dylid ceisio cytundeb gan Farnwyr Preswyl y ddau lys i'r achos gael ei symud, heb fod angen cytundeb Cyfarwyddwyr Cyflawni na Barnwr Llywyddol. Ar gyfer trosglwyddiadau swmp, dylai Cyfarwyddwyr Cyflawni ddau lys fod yn rhan o gytuno ar y trosglwyddiad cyn ceisio cytundeb eto gan y ddau Farnwr Preswyl yn hytrach na Barnwyr Llywyddol.

110. Dylid rhoi ystyriaeth debyg i gynyddu hyblygrwydd i symud achosion rhwng llysoedd ynadon mewn gwahanol Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJA), yn enwedig o ystyried y cynnydd rhagamcanol yn y llwyth achosion yr wyf eisoes wedi'i drafod. Wrth gwrs, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu pellteroedd llawer byrrach na symud achosion rhwng Llysoedd y Goron, o ystyried nifer fwy o lysoedd ynadon ledled Cymru a Lloegr. Mae deddfwriaeth eisoes ar waith i gefnogi hyn. Mae Adran 27A o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn caniatáu i achosion gael eu symud i lys ynadon arall,[47] yn amodol ar adran 30 o Ddeddf y Llysoedd 2003 sy'n nodi y gellir symud achos i LJA arall ar yr amod bod cyfarwyddyd ar waith gan yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb Arglwyddes Brif Ustus.[48] Felly, rwy'n argymell bod GLlTEF a'r farnwriaeth yn ystyried cynyddu'r defnydd o'r hyblygrwydd hwn lle gallai gefnogi cynnydd mwy amserol mewn achosion a rhoi ystyriaeth i'r prosesau lleol a fyddai'n ofynnol i wneud hynny.

47

48

Argymhelliad 97: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a'r farnwriaeth yn gweithio i normaleiddio'r arfer o symud achosion rhwng Llysoedd y Goron, gan gynnwys ar draws ffiniau cylchdeithiau, er mwyn gwneud y defnydd gorau o ddyddiau eistedd a'r capasiti sydd ar gael. Dylai hyn gynnwys diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol i a) adlewyrchu'r amgylchiadau ehangach lle dylid symud achos o un Llys y Goron i un arall a b) disodli'r gofyniad am gytundeb Barnwr Llywyddol a Chyfarwyddwr Cyflawni gyda chytundeb gan Farnwr Preswyl y llys sy'n anfon ac sy'n derbyn yr achos. Dylid rhoi ystyriaeth debyg i ymarferoldeb symud achosion rhwng llysoedd ynadon a'r broses leol sydd ei hangen i wneud hynny.

Casgliad


111. Yn y bennod hon, rwyf wedi cyflwyno argymhellion ar sut y byddai newidiadau i'r prosesau rhestru, technoleg a gweithlu presennol yn cefnogi gwell effeithlonrwydd ar draws llysoedd troseddol. Pwrpas yr Adolygiad hwn, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, oedd gwneud argymhellion i wella effeithlonrwydd ac amseroldeb prosesau o gyhuddiad i euogfarn/rhyddfarn. Fel yr wyf wedi'i egluro yn y bennod hon, fy marn i yw, drwy wneud y newidiadau hyn, y bydd y ffordd y defnyddir adnoddau yn cael ei gwella ar draws y llysoedd troseddol a bydd penderfyniadau rhestru yn fwy effeithlon, yn y broses o wneud penderfyniadau a'r canlyniadau. Mae potensial hefyd i gynyddu capasiti o fewn y system drwy ddefnyddio capasiti ystafell llys sy'n cael ei wastraffu ar hyn o bryd.

112. I wneud hyn, rwyf yn argymell cyflwyno Fframwaith Rhestru Cenedlaethol ar gyfer Llys y Goron yn ogystal â chymeradwyo'r adolygiad arfaethedig o bolisïau rhestru llys ynadon. Rwyf hefyd yn argymell datblygu systemau technoleg gwell, gan gynnwys gwaith ar amserlennu sy'n seiliedig ar ddata, i gefnogi rhestru ar draws yr awdurdodaeth droseddol. Rwyf yn argymell newidiadau i hyrwyddo mwy o hyblygrwydd daearyddol mewn perthynas â ble y caiff achosion eu gwrandawiad. Ac yn olaf, rwyf yn argymell adolygiad o raddau gweithlu rhestru a'r cymorth a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt i sicrhau bod ganddynt yr awdurdod a'r sgiliau gofynnol i gyflawni'r rôl hollbwysig hon yn effeithiol.

113. Nod yr argymhellion yr wyf wedi'u hamlinellu yw sicrhau achosion teg a chyson mewn perthynas â rhestru ledled Cymru a Lloegr. Maent yn cadw at yr egwyddorion o leihau gwastraff, trwy wella effeithiolrwydd y defnydd o adnoddau, ac ehangu prosesau trwy dechnoleg.

114. Bwriedir i'r argymhellion dargedu'r metrigau allweddol sy'n gyrru newidiadau i effeithlonrwydd Llys y Goron a llys ynadon – yn bennaf amser gwrandawiad fesul diwrnod eistedd sy'n fesur o'r amser cynhyrchiol a ddefnyddir i wrando ar achosion o fewn diwrnod eistedd.

Ffigur 6.1. Map polisi yn delweddu nodau bwriadedig yr argymhellion a gyflwynir ym Mhennod 6



Some recommendations will also affect cross-system efficiency drivers, which are not included in this policy map

115. Mae Ffigur 6.1 yn dangos yn ddarluniadol sut y disgwylir i'r argymhellion a wneuthum yn y bennod hon ddylanwadu ar ganlyniadau ac effeithio ar y metrigau effeithlonrwydd allweddol. Dylid defnyddio'r diagram hwn fel fframwaith darluniadol i asesu effaith bosibl yr argymhellion hyn, gan nodi bod ffactorau gweithredol a diwylliannol eraill sy'n dylanwadu ar effeithlonrwydd a

chanlyniadau pwysig y gellid eu gwireddu gan y newidiadau hyn nad ydynt wedi'u dal.

116. Os cânt eu cyflwyno fel y bwriadwyd, byddai'r argymhellion hyn yn helpu i gynyddu nifer y gwrandawiadau effeithiol a faint o wrandawiadau y gellir eu gwrando o fewn diwrnod eistedd. Dylai newidiadau i'r prosesau rhestru presennol helpu i wneud arferion rhestru yn fwy effeithlon a gwella dyraniadau achosion, gan gynyddu amser gwrandawiad fesul diwrnod eistedd. Os bydd yn llwyddiannus, byddai cyflwyno hyblygrwydd rhanbarthol wrth ddyrannu achosion yn Llys y Goron yn helpu i ddefnyddio adnoddau ystafelloedd llys yn fwy effeithiol, gan gynyddu capasiti trwy ddefnyddio lleoedd llys a fyddai'n wag fel arall.

Pennod 7 – Paratoi ar gyfer Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus

Cyflwyniad

1. Mae rheoli achosion troseddol yn effeithiol yn hanfodol i gyflawni cyfiawnder ac i wella effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae canlyniadau llwyth achosion cynyddol a system llai effeithlon wedi golygu cynnydd yn nifer y gwrandawiadau fesul achos ac amser hirach a gymerir fesul achos. Mae'r rhain yn effeithio ar y gallu i fynd i'r afael ag ôl-groniad y llysoedd ac i gyflawni cyfiawnder amserol ar gyfer achosion newydd. Ffocws y bennod hon yw sut y gall diwygiadau i baratoi a chynnal gwrandawiadau cyntaf a'r rhai sy'n rhagflaenu treial effeithio ar effeithlonrwydd.

2. Nid yw'r pwysau i wella effeithlonrwydd y llysoedd troseddol yn newydd; mae wedi bod yn thema gyson ar draws degawdau o ddiwygio. Roedd cyflwyno llysoedd Narey yn 2001, yn dilyn adolygiad Syr Martin Narey ym 1997 i oedi yn y system gyfiawnder, yn gam sylweddol tuag at symleiddio cynnydd achosion yn Llys y Goron.[49] Yn dilyn hyn, cyflwynwyd dull Cyfiawnder Syml, Cyflym, Diannod Cyfiawnder Troseddol yn 2007, a oedd yn ceisio lleihau oedi, lleihau gohiriadau diangen a sicrhau bod achosion yn barod yn gynnar yn y llys ynadon.[50] Dilynwyd hyn gan Bapur Gwyn Chwim a Chadarn yn 2012, ac amlinellodd hwn becyn o raglenni diwygio ar draws y system cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael ag oedi a gwastraff, cynyddu atebolrwydd a thryloywder, a gwella hyder y cyhoedd.[51]

   Datblygwyd y rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (TSJ) yn 2015 i annog cydweithio i wneud y llys ynadon yn fwy effeithlon. Gan gydnabod

---

49

50

51

aneffeithlonrwydd parhaus ac yn dilyn fy Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol yn 2015,[52] cyflwynwyd egwyddorion Rheoli Achosion yn Well (BCM) yn 2015 i fynd i'r afael â phroblemau gyda chynnydd achosion yn Llys y Goron.[53]

3. Er bod y mentrau hyn wedi amrywio o ran ffurf, mae eu huchelgais sylfaenol wedi aros yr un fath: sef ei gael yn iawn y tro cyntaf. Fodd bynnag, er gwaethaf addewid gynnar, wrth i amser fynd heibio mae pob un wedi colli momentwm, gan olygu bod angen ymdrechion newydd. Y Rhaglen Adnewyddu Trawsnewid Cyfiawnder Diannod (2023)[54] yw'r fersiwn ddiweddaraf o ganllawiau yn y llys ynadon ac mae Llawlyfr Adfywio Rheoli Achosion yn Well (2023),[55] a gyhoeddwyd hefyd yn 2023, yn sail i achosion yn Llys y Goron. Mae'r ymdrechion parhaus i wella'r system yn ailddatgan yr ymrwymiad parhaol gan y rhai sy'n gweithio yn y system i gyfiawnder amserol, cymesur ac effeithiol. Gan gydnabod bod yn rhaid cynnal yr ymdrech i sicrhau effeithlonrwydd, nid ei chymryd fel rhywbeth achlysurol.

4. Rwyf yn gwbl ymwybodol o'r patrwm o fewn sefydliadau a systemau lle y rhoddir sylw i fentrau a syniadau newydd am gyfnodau byr o amser cyn i'r momentwm ostwng wrth lansio menter wahanol. Gan gofio hynny, mae'r argymhellion yn y bennod hon, a'm Hadolygiad yn fwy cyffredinol, wedi'u cynllunio'n fwriadol i sicrhau bod y canlyniadau'n gyraeddadwy. Mae yna ganfyddiad bod diwylliant o ddiffyg cydymffurfio o fewn y llysoedd troseddol ac mae angen newid hyn. Dylid rhoi ffocws newydd ar ddatrys achosion a mwy o atebolrwydd i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau a bod y llysoedd yn rhedeg yn effeithlon.

52

53

54

55

Rwy'n egluro ym Mhennod 11 (Materion Cyfiawnder Ehangach) sut y disgwylir i'm hargymhellion gynhyrchu'r buddion a fwriadwyd ond, serch hynny, bydd angen ffocws parhaus ar ran y rhai sy'n meddiannu rolau arweinyddiaeth ym mhob agwedd ar gyfiawnder troseddol i sicrhau bod newidiadau a weithredir yn cael eu hymgorffori'n 'fusnes fel arfer' a'u cynnal mewn modd na chyflawnwyd o'r blaen gan adolygiadau neu ganllawiau cynharach.

5. Yn y bennod hon, rwyf yn archwilio ymgysylltiad ymarferwyr yr amddiffyniad a'r erlyniad wrth baratoi achos, o gyhuddiad i ymddangosiad cyntaf. Mae hyn yn cynnwys cam cychwynnol Rheoli Achosion Barnwrol a gyflawnir yn y gwrandawiad dyrannu lle anfonir achosion o'r llys ynadon i Llys y Goron. Mae'r bennod hon hefyd yn gwneud argymhellion gyda'r nod o gynyddu ymgysylltiad yn y PTPH a gwella ansawdd y paratoi cyn treial. Mae paratoi gwell yn lleihau nifer y gwrandawiadau sydd eu hangen cyn treial i sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd, yn lleihau nifer y treialon aneffeithiol ac yn gyffredinol yn lleihau'r amser a gymerir fesul achos, sy'n sbardun craidd effeithlonrwydd yn yr Adolygiad hwn.

6. Mae fy argymhellion hefyd yn ystyried cryfhau dealltwriaeth o Reolau Trefniadaeth Droseddol (CrimPR) a sicrhau y glynir wrthynt, drwy eu hailgynllunio a'u hail-ddrafftio i hwyluso eu digido er mwyn galluogi ymarferwyr i'w cyrchu a'u cymhwyso'n haws. Byddaf hefyd yn argymell defnyddio mwy o dechnoleg i gefnogi Swyddogion Cynnydd Achosion (CPOs) a sicrhau atebolrwydd am dasgau gofynnol gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol. Rwy'n argymell cyflwyno CPOs ar gyfer y llys ynadon a Llys y Goron, i leihau'r baich gweinyddol a chynorthwyo'r farnwriaeth i gefnogi cynnydd achosion. Rwyf hefyd yn gwneud argymhellion i hwyluso cyfathrebu gwell a phriodol o fewn llysoedd rhwng gweithwyr proffesiynol.

7. Fel y nodwyd eisoes, bydd ffocws sylweddol ar y prosesau rheoli achos a fframweithiau TSJ a BCM, a bydd argymhellion yn cael eu gwneud i weithwyr proffesiynol cyfreithiol a'r farnwriaeth i gefnogi eu dealltwriaeth o'r fframweithiau hyn. Byddaf yn cyfeirio at y TSJ a'r BCM yng nghyd-destun cam y system cyfiawnder troseddol y maent yn ymwneud ag ef ac wedi strwythuro'r bennod

hon i ddilyn llwybr cronolegol achos i ddangos sut y byddai'r ddau fframwaith yn cael eu defnyddio wrth i achos symud drwy'r system.

Rheolau Trefniadaeth Droseddol

8. Mae Rheolau Trefniadaeth Droseddol[56] yn gorgyffwrdd â'r fframwaith statudol ar gyfer cynnal achosion troseddol yn llys ynadon, Llys y Goron, y Llys Apêl a'r Uchel Lys. Mae'r Rheolau yn seiliedig ar fframweithiau gweithdrefnol a phan ddeellir y rhain yn iawn a'u cymhwyso'n drylwyr, maent yn lleihau gohiriadau ac apeliadau diangen, ac maent yn cefnogi'r egwyddor o sicrhau ei fod yn gywir y tro cyntaf yn y llys ynadon a Llys y Goron. Y bwriad yw iddynt ddarparu fframwaith gweithdrefnol clir a strwythuredig sy'n cefnogi cyfranogiad effeithiol, cynnydd amserol achosion a lleihau oedi. Fe'u paratoir gan Bwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol dan awdurdod statudol, ac adolygir y Rheolau ddwywaith y flwyddyn i adlewyrchu datblygiadau mewn cyfraith ac arfer.

9. Ategir y Rheolau gan y Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol[57] a ail-ddrafftiwyd ar ffurf fwy cryno a symlach yn 2023. Mae'r ddau ddogfen yn fframweithiau sy'n rhwymo'n gyfreithiol ar gyfer achosion yn y llys. Mae iteriad presennol CrimPR 2025[58] yn parhau i gael ei ategu gan yr unig brif amcan: bod achosion troseddol yn cael eu trin yn gyfiawn ac mae'n ofynnol i bob cyfranogwr mewn achosion troseddol gydymffurfio â'r Rheolau a rhoi gwybod i'r llys am unrhyw fethiannau sylweddol. Mae hyn yn berthnasol i'r farnwriaeth, Erlynwyr, cyfreithwyr amddiffyn, cynghorwyr cyfreithiol a staff y llys.

10. Mae'r egwyddor o sicrhau ei fod yn gywir y tro cyntaf, sy'n greiddiol i waith paratoi cadarn mewn modd amserol, yn dibynnu ar brosesau penderfynu gwybodus a

---

56

57

58

chyson o'r cychwyn cyntaf. Ni ellir cyflawni hyn os yw'r fframwaith gweithdrefnol yn anhygyrch a/neu os oes diwylliant o fethu cydymffurfio â'r weithdrefn gan y rhai sy'n gorfod gweithredu o fewn iddi.

11. Er enghraifft o fethiant cydymffurfio, mae nifer y treialon aneffeithiol yn Llys y Goron oherwydd diffyg parodrwydd achos wedi cynyddu ers pandemig COVID-19 i fod yn uwch na lefelau cyn y pandemig. Yn 2024, cafwyd tua 760 o dreialon aneffeithiol oherwydd problemau gyda pharodrwydd yr erlyniad a thua 900 oherwydd problemau gyda pharodrwydd yr amddiffyniad, a oedd yn cyfateb i tua 22% o dreialon aneffeithiol yn Llys y Goron.[59] Yn ogystal â hyn, cafwyd tua 2,500 o dreialon a ddad-restrwyd oherwydd parodrwydd yr amddiffyniad neu'r erlyniad, gyda 55% o'r rhain oherwydd yr amddiffyniad.[60]

12. Yn yr un modd, mae nifer y treialon aneffeithiol yn y llys ynadon oherwydd parodrwydd yr achos wedi cynyddu ers pandemig COVID-19, ond dim ond ychydig yn is na lefelau cyn y pandemig y mae wedi cyrraedd. Yn 2024, cafwyd tua 1,400 o dreialon aneffeithiol oherwydd parodrwydd yr erlyniad a thua 2,800 oherwydd parodrwydd yr amddiffyniad, ac roedd hyn yn cyfrif am tua 22% o dreialon aneffeithiol yn y llys ynadon.[61] Yn ogystal â hyn, cafwyd tua 790 o dreialon a ddad-restrwyd oherwydd parodrwydd yr amddiffyniad neu'r erlyniad, gyda 70% o'r rhain oherwydd yr amddiffyniad.[62] Mae'n amlwg o'r cynnydd hwn nad yw'r Rheolau'n cael eu dilyn cystal ag y gallent fod.

59

60


61

62

Figure 7.1

Number of ineffective Crown Court trials due to readiness of defence or prosecution

England and Wales, 2016 - 2024




These groupings are set out in Chapter 2: Context.

Source: Criminal court statistics quarterly: July to September 2025 - GOV.UK

Figure 7.2

Number of ineffective Magistrates Court trials due to readiness of defence or prosecution

England and Wales, 2015 - 2024



These groupings are set out in Chapter 2: Context.

Source: Criminal court statistics quarterly: July to September 2025 - GOV.UK

13. Nid dyma'r tro cyntaf i weithredu a chadw at y Rheolau gael eu cwestiynu, ac rwyf wedi cael llawer o enghreifftiau o beidio a chadw iddynt wrth ysgrifennu fy Adolygiad. Gallaf hefyd gofio llawer o enghreifftiau o fy amser yn y farnwriaeth. Yn

fy Adroddiad yn 2015, tynnais sylw at y methiant i gymhwyso'r Rheolau'n briodol mewn rhai ardaloedd, a gefnogwyd gan ymchwil a gynhaliwyd gan Penny Derbyshire, er roedd hyn dipyn o amser yn ôl. Roedd yr ymchwil hon yn dangos nad oedd aelodau'r Bar a'r farnwriaeth yn gyfarwydd â darpariaethau allweddol.[63] Mae fy ymgysylltiad â phartneriaid cyfiawnder troseddol ar gyfer yr Adolygiad hwn wedi canfod nad yw fawr ddim wedi newid ers 2015, ac mae'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn parhau i gael eu deall yn wael a'u cymhwyso'n anghyson. Cyflwynwyd y Rheolau, yn rhannol, i feithrin diwylliant o gyfrifoldeb am gynnydd achosion. Nid ydynt o fawr o fudd os nad ydynt yn cael eu deall ac, o ganlyniad, yn cael eu harsylwi.

14. Mae fy ymgysylltiad ag ymarferwyr hefyd wedi datgelu bod y Rheolau yn aml yn cael eu hystyried yn anhygyrch ac yn anaddas i'r diben. Mae llawer yn eu cael yn rhy hir, yn ormodedd o dechnegol ac mor gymhleth fel eu bod yn anymarferol pan fydd angen i ymarferwyr ymgynghori ar faterion sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r fformat presennol yn anodd i'w lywio, gan ei gwneud hi'n heriol i leoli darpariaethau perthnasol neu ddeall llif gweithdrefnol achos.[64] Mae hyn yn wahanol iawn i'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol, sy'n fyrrach o ran hyd ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith fwy hygyrch.[65]

15. Gall cymhlethdod technegol a dwysedd terminoleg gyfreithiol fod yn rhwystr sylweddol i gyfranogwyr nad ydynt wedi'u hyfforddi'n gyfreithiol. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, rhaid i'r Rheolau fod yn glir nid yn unig i gyfreithwyr a barnwyr ond hefyd i staff y llys, diffynyddion, tystion ac eraill sy'n ymwneud ag achosion. Ar gyfer diffynyddion heb gynrychiolaeth sy'n methu ceisio barn arbenigol ar y Rheolau, maent hyd yn oed yn fwy anhygyrch, ac rwyf yn ystyried effaith

---

63

64

65

diffynyddion heb gynrychiolaeth ar effeithlonrwydd y llysoedd ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol). Os yw'r system i fod yn wirioneddol gyfranogol ac effeithlon, rhaid i'r Rheolau fod yn hawdd i'w dilyn a'u cymhwyso.

16. Mae canlyniadau dealltwriaeth wael a gweithredu anghyson o'r Rheolau yn sylweddol. Mae achosion yn cael eu gohirio'n ddiangen, cyfarwyddiadau'n cael eu colli a phenderfyniadau'n cael eu gwneud heb wybodaeth lawn. Mae hyn yn tanseilio effeithlonrwydd y llysoedd, yn cynyddu costau ac yn erydu hyder yn y system cyfiawnder. Mae hefyd yn rhoi straen ychwanegol ar ddioddefwyr a thystion, y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt fynychu gwrandawiadau lluosog neu wynebu ansicrwydd hirfaith.

17. Wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan y Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rwyf yn archwilio p'un ai diwylliant o fethiant cydymffurfio yn unig yw'r broblem, neu a oes angen diwygio'r Rheolau'n fwy sylfaenol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Awgrymwyd y gellid symleiddio'r Rheolau a'u gwneud yn fwy hygyrch trwy system ddigidol. Byddai digido'r Rheolau yn golygu eu hintegreiddio i'r Platfform Cyffredin, gan droi prosesau cyfreithiol (fel ffeilio, datgelu, cofnodi pleon a rhestru) yn llifoedd gwaith awtomataidd, sy'n seiliedig ar reolau. Golyga hyn fod terfynau amser, camau gorfodol a gwiriadau cydymffurfio wedi'u hymgorffori'n uniongyrchol yn y platfform, gan arwain defnyddwyr trwy bob cam a sbarduno hysbysiadau neu gamau gweithredu pan fo angen.

18. Er y gellid cyflawni'r broses ddigido hon yn seiliedig ar y Rheolau ar hyn o bryd, nid wyf yn credu y byddai'n mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth cyffredinol o ran sut i gymhwyso'r Rheolau. Mae'r Rheolau, fel y maent, yn gwbl anhygyrch i berson lleyg a llawer o ddefnyddwyr eraill.[66] Dylid unioni hynny hyd yn oed os oes addewid ynglŷn â defnyddio AI i adeiladu system weithredol gyda sbardunau clir, dogfennau gorfodol, terfynau amser a dyletswyddau diffiniedig ar gyfer pob rôl.

66

19. Gyda hynny mewn golwg, mae angen newid sylfaenol i'r ffordd y drafftir Rheolau Trefniadaeth Droseddol er mwyn cyflawni dau nod. Yn gyntaf, er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau cadarn i ymarferwyr, ac fel y gall cyfranogwyr nad ydynt wedi'u hyfforddi'n gyfreithiol eu deall, bydd symleiddio ac egluro'r rheolau yn cefnogi cyfranogiad effeithiol a thegwch gweithdrefnol. Yn ail, dylid llunio'r Rheolau newydd fel y gellir eu digido'n hawdd a'u cyd-ddatblygu felly gydag arbenigwyr mewn adeiladu systemau digidol. Wrth ail-ddrafftio Rheolau Trefniadaeth Droseddol, dylid rhoi sylw dyledus i'r ffaith eu bod yn Offeryn Statudol, a bydd angen i'r ddeddfwriaeth adlewyrchu'r defnydd a fwriedir iddynt. Dylai unrhyw system newydd alluogi gweithwyr proffesiynol cyfreithiol i gyfeirio'n hawdd at Reolau Trefniadaeth Droseddol diwygiedig a darparu arweiniad cyd-destunol i gefnogi gwneud penderfyniadau amser real, a thrwy hynny gynorthwyo cynnydd achosion a chysondeb wrth gymhwyso canllawiau.

20. Ceir enghreifftiau yn rhyngwladol, ac yn Lloegr, lle mae awdurdodaethau yn creu adnoddau i gefnogi dealltwriaeth o ganllawiau cyfatebol i Reolau Trefniadaeth Droseddol. Er enghraifft, yn Seland Newydd, mae adnodd ar-lein yn cynnwys Protocolau a Chanllawiau cryno statudol ac anstatudol sy'n crynhoi'r wybodaeth gefndir graidd sy'n ymwneud ag achosion llys, beth mae'r canllawiau'n ei olygu yn ymarferol a sut i'w gweithredu.[67] Y bwriad yw y bydd y dogfennau ategol hyn yn helpu i hwyluso parodrwydd partïon ar gyfer treialon, lleihau oedi ac helpu llysoedd i weithredu'n fwy effeithlon. Mae Llys Rhanbarth Seland Newydd wedi cyflwyno'r protocolau ar lefel genedlaethol, gyda'r targed o 90% o achosion yn cyrraedd eu safonau amser penodedig erbyn 2027 ac hyd yn hyn maent ar y trywydd iawn i gyrraedd y nod hwn.[68]

21. Yn nes at adref, mae'r Barnwr Preswyl yn Llys y Goron Lerpwl wedi datblygu dogfen gryno sy'n dwyn ynghyd nodiadau canllaw amrywiol a gyhoeddwyd gan y

---

67

68

llys dros y blynyddoedd diwethaf, wedi'u mynegi mewn iaith syml, gan ei gwneud hi'n haws i ymarferwyr a defnyddwyr y llys ddeall prosesau'r llys. Mae Astudiaeth Achos Q yn nodi manylion am y canllaw hwn.

Astudiaeth Achos Q: Canllawiau Rheolau Trefniadaeth Droseddol Llys y Goron Lerpwl

Mae'r Nodyn Canllaw yn ymdrin â phynciau megis estyniadau amser, ceisiadau ar gyfer fynychu o bell, ymrwymiadau ar gyfer dedfryd ac adroddiadau cyn dedfrydu, a gwrandawiadau adolygu terfynol. Mae pob adran yn rhoi crynodeb o'r broses, dolenni i'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol neu'r Cyfarwyddiadau perthnasol, ac yn rhannu unrhyw arweiniad perthnasol – fel y dangosir isod:

'Pennod 9: ynghylch gwrandawiadau adolygu cydymffurfiaeth'

Pwrpas

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwrandawiadau adolygu cydymffurfiaeth yn Llys y Goron Lerpwl. Fel arfer, mae gwrandawiadau o'r fath yn cael eu gorchymyn gan Farnwr lle mae parti wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau barnwrol.

Yn aml iawn, er nad yn gyfan gwbl, mae'r methiannau hyn yn digwydd:

Pan fydd yr amddiffyniad yn methu â chyflwyno'r ymatebion angenrheidiol (gan gynnwys Datganiad Amddiffyn) erbyn y dyddiad a fynnir yng Ngham 2.

Pan fydd parti yn methu â chyflwyno Tystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial.

Ffocws Cam 2 Llys y Goron yw cyflwyno datganiad yr amddiffyniad. Mae'r cam hwn yn amlinellu safbwynt a dadleuon yr amddiffyniad yn yr achos.

Canllawiau

1. Rydym yn atgoffa'r partïon o'r materion a nodir ym Mhennod 1 uchod a'r cyfleuster i gytuno ar amrywiadau i derfynau amser a bennir gan y llys (ond nid y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r Tystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial). Mae yna rwymedigaeth gyffredinol ar y partïon i gynorthwyo'r llys i reoli achosion yn weithredol, gan gynnwys monitro cynnydd yr achos a chydymffurfio â chyfarwyddiadau yn rhagweithiol.

2. Gyda hyn mewn golwg, pan nodir methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd, bydd Barnwr fel arfer yn gorchymyn:

Bod yr achos wedi'i restru ar gyfer gwrandawiad adolygu cydymffurfiaeth.

Os yw'r diffyg cydymffurfio yng Ngham 2 ac yn golygu methiant i gyflwyno Datganiad Amddiffyn: rhaid i'r Diffynnydd fynychu'r gwrandawiad ynghyd â Swyddog Datblygu Achos yr Amddiffyniad a enwir ar ffurflenni BCM a/neu PTPH. Os nad yw'r person hwnnw ar gael am reswm da a digonol, rhaid i berson arall sydd â chyfrifoldeb cyfatebol am ddatblygiad achos fod yn bresennol.

Ar gyfer pob methiant arall: rhaid i'r parti sydd wedi methu fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Yn ymarferol, bydd hwn fel arfer yn Gyfreithiwr Adolygu (os bydd erlyniad yn methu) a/neu Swyddog Cynnydd Achosion (os bydd yr amddiffyniad yn methu), fel y nodir ar ffurflenni BCM a/neu PTPH. Os nad yw'r person a nodwyd ar gael am reswm da a digonol, rhaid i berson arall sydd â chyfrifoldeb cyfatebol am gynnydd achos fod yn bresennol.

Er mwyn sicrhau bod y canllawiau hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac nad ydynt yn mynd yn hen yn gyflym, sicrhaodd y Barnwr Preswyl yn Lerpwl fod deunydd darfodedig yn cael ei dynnu a bod y darpariaethau a gynhwysir yn dal i fod yn weithredol ac yn berthnasol i weithdrefnau cyfredol. Maent yn cydnabod nad yw'r canllawiau hyn yn cymryd lle Rheolau Trefniadaeth Droseddol, Cyfarwyddiadau Ymarfer, na chyfarwyddiadau a gorchmynion barnwrol mewn achosion unigol, ond yn hytrach maent yn gwasanaethu fel pwynt cyfeirio sengl clir i gefnogi glynu wrth ofynion o'r fath."

22. Mae'r astudiaeth achos hon, a'r enghraifft o Seland Newydd, yn tynnu sylw at sut y gellir cynhyrchu crynodebau o achosion gan gadw anghenion pob defnyddiwr mewn cof. Credaf fod fy argymhelliad i ailgynllunio'r Rheolau, gyda hygyrchedd a symlrwydd wrth wraidd eu cynllun, yn allweddol i wella rheoli achosion a chynnydd achosion o fewn llysoedd ynadon a Llys y Goron.

Argymhelliad 98: Rwy'n argymell bod y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn ail-ddylunio'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, gan sicrhau y rhoddir pwyslais ar symlrwydd a hygyrchedd, er mwyn cryfhau ymlyniad a dealltwriaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, staff y llys a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dylid dylunio'r Rheolau newydd mewn partneriaeth ag arbenigwyr digidol i hwyluso'r broses o'u digideiddio fel y gellir datblygu adnodd rhyngweithiol i gefnogi gweithwyr proffesiynol cyfreithiol wrth iddynt wneud penderfyniadau.

Y Llys Ynadon

23. Fel y nodwyd uchod, mae TSJ yn sail i achosion yn y llys ynadon ac mae'n gwahaniaethu rhwng dau fath o achos, pob un wedi'i grwpio[69] i mewn i lys penodol ar gyfer y math o achos: Ple Euog Disgwyliedig (GAP) a Ple Dieuog Disgwyliedig (NGAP). Nodweddir llysoedd GAP gan gyfaint uchel a throsiant cyflym, a'r amcan gydag achosion GAP yw cymryd ple a dedfrydu yn y gwrandawiad cyntaf lle bynnag y bo modd. Mewn achosion NGAP, fel gydag achosion GAP, disgwylir i bob parti ymgysylltu'n gynnar a chydweithio i sicrhau cynnydd achos effeithiol. Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys i'r llys wneud penderfyniad dyrannu (ynghylch a yw'r achos yn cael ei drin yn y llys ynadon neu Lys y Goron) lle bo angen, nodi materion treial a gofynion tystion yn gynnar, hwyluso mynediad yr amddiffyniad at dystiolaeth amlgyfrwng yn y llys a defnyddio arwyddion o ddedfrydau, gan gynnwys ystyried cyfarwyddiadau

69

dedfrydu, lle bo'n briodol, i gefnogi penderfyniadau ple cynnar a rheoli achos effeithlon.

24. Fel yr archwiliwyd ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau Ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf), mae yna achosion y disgwylir iddynt fod yn GAP, ond lle mae diffynyddion yn pledio'n ddieuog wedi hynny, gan gyfrannu at gynnydd yn nifer y gwrandawiadau ac aneffeithlonrwydd. Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar lysoedd llai, nad ydynt efallai'n rhedeg rhestrau GAP a NGAP ar yr un pryd neu ar yr un diwrnod. Mae cyfran yr achosion a nodwyd fel GAP yn y llys ynadon sy'n bleon dieuog wedi bod yn cynyddu ers 2015/16 ac mae bellach oddeutu 13%.[70]


Mae'r ystadegyn hwn yn cwmpasu achosion symlach lle mae'r penderfyniad cyhuddo yn cael ei wneud gan yr heddlu ac achosion mwy cymhleth lle mae'n cael ei wneud gan CPS, gyda phleon disgwyliedig yn ofynnol yn y ddau achos. Fodd bynnag, mae'r materion sylfaenol yn fwyaf tebygol o fod yn briodol i achosion a gyhuddir gan yr heddlu, gyda heriau'n cynnwys diffyg profiad yr heddlu a ymdrinnir â hwy yn yr argymhellion a wnaf ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau Ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf) ar hyfforddiant a thechnoleg yr heddlu.

70

Figure 7.3

The percentage of GAP flagged cases in the magistrates' courts which weren't guilty pleas

England and Wales, 2015/16 - 2024/25



Source: Crown Prosecution Service (unpublished)

25. Mae'r nifer uchaf o achosion GAP a restrir mewn sesiwn trwy'r dydd wedi'i leihau o 30 i 25, yn unol â chanllawiau TSJ diwygiedig.[71] Priodolir y gostyngiad hwn i ofynion canlyniadau amser real o fewn y Platfform Cyffredin, sydd wedi rhoi straen sylweddol ar amser a chapasiti cynghorwyr cyfreithiol. Mae llysoedd llai, yn arbennig, yn wynebu heriau wrth frigadau TSJ yn effeithiol, gan arwain at restrau sy'n cynnwys achosion GAP a NGAP, o bosibl ochr yn ochr â gwaith arall. Mewn ardaloedd CPS lle defnyddir erlynwyr cyswllt (nad ydynt yn gyfreithwyr), gall hyn greu anawsterau. Dylid aseinio cyfreithiwr i lysoedd NGAP i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau rheoli achos yn yr ystafell llys. Gall rhestrau cymysg arwain at gyfreithwyr yn cwblhau gwaith y gallai erlynydd cyswllt ei gwblhau, yn yr un modd gall arwain at achosion NGAP yn cael eu herlyn gan erlynydd cyswllt y gallai fod yn rhaid iddo gyfeirio penderfyniadau i gyfreithiwr CPS, gan greu oedi neu ohiriadau diangen.

71

26. Er mwyn mynd i'r afael â gor-restru, trafodais bwysigrwydd adeiladu ffeiliau cadarn, cymesur ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf) ac archwiliais heriau rhestru yn fanylach ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith). Yn y bennod hon, canolbwyntiaf ar bwysigrwydd rheoli achos effeithiol yn y gwrandawiad cyntaf a'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau, ac heb y rhain bydd yn amhosibl mynd i'r afael â gor-restru. Nid wyf yn gwneud sylw ar y system ar gyfer rhestru achosion o dan TSJ ond yn hytrach byddaf yn canolbwyntio ar gydymffurfio ag egwyddorion rheoli achos.

27. Mae GLlTEF yn nodi bod yn rhaid i wrandawiadau cyntaf fod wedi'u paratoi'n dda, gyda'r personél priodol yn bresennol ac wedi'u harfogi â sgiliau rheoli achos cadarn i sicrhau bod achosion yn symud ymlaen yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf. Mae ymgysylltiad cynnar rhwng yr holl bartïon perthnasol yn hanfodol ac mae'n rhaid iddo ddigwydd er mwyn galluogi datrysiad neu gynnydd ystyrlon cyn gynted â phosibl.

28. Er mwyn sicrhau bod treialon yn barod mewn achosion NGAP, rhaid cwblhau'r ffurflen paratoi ar gyfer treial effeithiol (PET) mewn llys ynadon.[72] Bwriad y ddogfen strwythuredig a chydweithredol hon, a gwblheir gan yr holl bartïon perthnasol a'r llys, yw sicrhau bod y materion y gellir eu treialu yn cael eu nodi, bod meysydd cytundeb yn cael eu nodi, bod cyfarwyddiadau clir yn cael eu gwneud gydag amserlen i sicrhau bod y treial yn barod i symud ymlaen ar y dyddiad a ddyrannwyd a bod y cyfleusterau ac offer angenrheidiol ar gael yn y llys. Yn 2024, cafwyd tua 277,000 o dderbyniadau 'ar gyfer treial' yn y llys ynadon. Mae'r nifer hwn wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2021, pan oedd y cyfanswm tua 237,000.[73] Wrth i nifer yr achosion yn y llys ynadon barhau i gynyddu a disgwylir iddo gynyddu ymhellach yng ngoleuni'r galw disgwyliedig sy'n deillio o

---

72

73

fy argymhellion Rhan I, mae'n hanfodol bod y broses sy'n arwain at y gwrandawiad cyntaf mor syml ac effeithiol â phosibl.

29. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod ymgysylltu annigonol rhwng partïon cyn mynd i'r llys yn tanseilio'n sylweddol gynnydd effeithiol achosion yng nghyfnod cychwynnol y llys ynadon. Mae gennyf bryder am yr effaith mae hyn yn ei chael ar allu'r llysoedd i redeg mor effeithlon â phosibl. Canfu cyflwyniad gan Transform Justice, elusen y gwelodd ei gwylwyr llys dros 2,000 o wrandawiadau llys ynadon yn Llundain rhwng Chwefror a Gorffennaf 2025, bod oediadau a gohiriadau yn parhau i fod yn gyffredin, gan effeithio ar oddeutu 25% o'r gwrandawiadau a welwyd. Canfu Courtwatch mai prif achosion yr oediadau a'r gohiriadau oedd o ganlyniad i dystiolaeth ar goll, diffyg presenoldeb diffynyddion oherwydd archebion drwy'r post,[74] methiannau neu broblemau cludo a chynhyrchu, ac oedi wrth gael adroddiadau cyn-dedfrydu neu asesiadau eraill gan y Gwasanaeth Prawf. Mae'r sylwadau hyn yn tanlinellu'r angen dybryd am well cyfathrebu, paratoi a chydlynu ar draws asiantaethau i sicrhau bod gwrandawiadau'n mynd rhagddynt yn effeithiol ac heb oedi diangen. Mae data treialon aneffeithiol yn y llys ynadon yn dangos bod 22% o dreialon yn y llys ynadon yn aneffeithiol yn 2024.[75]

30. Pryder arall sy'n codi dro ar ôl tro yw methiant yr heddlu i hysbysu cyfreithwyr am benderfyniadau cyhuddo, sy'n arwain at golli cyfleoedd iddynt gael cymorth cyfreithiol, ymgymryd ag ymgysylltiad cynnar â'r CPS a pharatoi ar gyfer achosion. Rwyf yn archwilio'r pwnc hwn ac yn gwneud argymhellion ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf). Mae hyn yn cael ei waethygu gan ddiffyg perchnogaeth wrth sicrhau bod gweithwyr

---

74

75

proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos yn cael eu hadnabod yn gywir, sydd ymhellach yn rhwystro cyfathrebu a chydlynu amserol.

31. Mae paratoi achos anghyflawn gan yr heddlu a CPS yn parhau i rwystro gallu cynrychiolwyr yr amddiffyniad i ymgysylltu'n ystyrlon cyn y gwrandawiad cyntaf,[76] ac rwy'n cydnabod problemau gyda Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad (IDPC) ym Mhennod 5 (Datgelu). O ganlyniad, mae cyfreithwyr sy'n mynychu gwrandawiadau NGAP yn aml yn gwneud hynny heb gyfarwyddiadau ffurfiol, gan gael eu gorfodi i reoli achosion yn adweithiol ar y diwrnod. Mae hyn yn achosi oedi ac yn aml yn arwain at ohiriadau.

Swyddogion Cynnydd Achosion yn Llys Ynadon

32. Mae anghysondeb argaeledd staff gweinyddol, yn enwedig absenoldeb Swyddogion Rheoli Achosion ar draws y llys ynadon, yn cael effaith niweidiol ar reoli achosion y tu allan i'r ystafell llys. Maent yn gweithredu fel perchnogion achosion dynodedig o dan CrimPR 3.4 i ddarparu parhad, atebolrwydd a strwythur i gynnydd achosion.[77] Dylai eu cylch gwaith ymestyn hefyd i oruchwyliaeth weinyddol o restrau llys ynadon, a dylent weithio gyda rheolwyr cyfreithiol a thimau rota ynadon i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, fel y nodir ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith). Mae'r rôl hon yn hollbwysig wrth fonitro ac adrodd ar beidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau barnwrol y tu allan i'r ystafell llys, gan sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n weithredol o'r gwrandawiad cyntaf i'r treial, a chysylltu â phartïon i sicrhau ymgysylltiad amserol a datrys problemau.

33. Mae ad-drefnu, ac ymdrechion i ddod o hyd i arbedion costau ar draws ystad y llys, wedi golygu bod rôl y CPO wedi'i cholli o'r llys ynadon. Mae eu symud wedi creu bwlch sylweddol, y gellid ei osgoi, yn y gallu i symud achosion yn eu blaen.

76

77

Heb bersonél pwrpasol i oruchwylio cydymffurfiaeth a chydlynu gweithgarwch achosion, mae cynghorwyr cyfreithiol bellach wedi'u gorlwytho ac mae disgwyl iddynt oruchwylio cynnydd achosion – gan wneud hynny'n weinyddol trwy waith blwch – ochr yn ochr â'u prif ddyletswyddau cymorth barnwrol. Yna mae'r system yn dioddef o ganlyniad i brosesau tameidiog, mwy o aneffeithlonrwydd a gwastraffu amser barnwrol.

34. Er na fu unrhyw astudiaethau meintiol wedi'u cynnal i ddadansoddi effeithiolrwydd CPOs, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael i mi ac yn ôl fy mhrofiad i, mae CPOs yn cael effaith sylweddol ar leihau oedi, lleihau'r angen i restru achosion a gohiriadau canlyniadol, ac ar wella ansawdd ac effeithiolrwydd gwrandawiadau. Ar ben hynny, mae CPOs wedi'u cadw mewn rhai o Lysoedd y Goron a, gan ystyried toriadau sylweddol i'r gyllideb ac ad-drefnu staff y llys yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dylid gweld cadw eu rôl yn Llys y Goron fel tystiolaeth o'u gwerth.

35. Nid yw adfer ac adnoddau priodol y rôl hon o fewn llys ynadon yn ddymunol yn unig ond, yn fy marn i, yn hanfodol. Felly, rwyf yn argymell ailgyflwyno CPOs i weithio gyda Uwch Reolwyr Busnes Cyfreithiol ar draws eu grwpiau o lysoedd ynadon i gynorthwyo gyda rheoli a datblygu achosion. Bydd hyn yn rhyddhau amser i gynghorwyr cyfreithiol yn dilyn hynny, gan amddiffyn adnoddau cyfreithiol, cefnogi ynadon yn eu rôl a symud achosion drwy'r system yn fwy effeithiol. Fel y trafodais ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith), mae angen cyflwyno rôl o fewn y llys ynadon gyda chyfrifoldeb pendant i oruchwylio rhestru. Nid oes angen i hon fod yn rôl ar ei phen ei hun a dylid felly ei chynnwys fel un o gyfrifoldebau CPOs. Gan ystyried y ffaith bod y llywodraeth yn bwriadu ymestyn pwerau dedfrydu ynadon i 18 mis (ond hyd yn oed pe baent wedi'u capio ar 12 mis), a chanlyniad mwy o achosion yn cael eu cadw a'u trin yn y llys ynadon, mae lliniaru'r pwysau ar gynghorwyr cyfreithiol lle bynnag y bo modd yn hanfodol; yn enwedig gan eu bod eisoes heb ddigon o adnoddau.

36. Deallaf y bydd hyn yn dod â chostau sylweddol, fodd bynnag, fel y nodais yn glir yn fy adroddiad yn 2015 ac yma, rhaid bod unigolyn penodol yn gyfrifol am

gynnydd achosion drwy'r system. Felly mae'n gost angenrheidiol i'w hariannu'n briodol er mwyn sicrhau bod achosion yn symud ymlaen yn effeithiol. Efallai y byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dymuno ystyried cost a budd rôl fel hyn yn erbyn costau peidio â'u cael, ar ffurf amser llys a wastraffwyd. Gallai hyn fod yn rhywbeth y mae'n ei ystyried drwy ei gwerthusiad parhaus o rôl y Cydlynydd Achos yn Llys y Goron, y byddaf yn sôn amdano ymhellach yn nes ymlaen yn y bennod hon.

Argymhelliad 99: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn cyflwyno Swyddogion Hwyluso Achosion, neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt, gyda phwerau swyddog awdurdodedig i gynorthwyo gyda rheolaeth a chynnydd achosion yn y llys ynadon a goruchwylio rhestru.

Ymgorffori Egwyddorion Trawsnewid Cyfiawnder Diannod

37. Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n ymwneud â chynnydd achosion a rheoli achosion yn cael hyfforddiant parhaus a rheolaidd. Nid yw hyfforddiant o'r fath yn ddymunol yn unig; mae'n hollbwysig i sicrhau bod y safonau a ddisgwylir gan y system cyfiawnder troseddol yn cael eu cynnal yn gyson. Rhaid i staff y llys (a'r farnwriaeth, y byddaf yn dychwelyd ati yn nes ymlaen yn y bennod hon) ddeall pwysigrwydd rheoli achosion cadarn a bod ganddynt yr offer a'r wybodaeth angenrheidiol i'w gyflawni'n effeithiol.

38. Ni ellir caniatáu i'r egwyddorion sy'n sail i TSJ ddiflannu i fod yn ddim mwy nag ymdrech weithdrefnol yn unig; rhaid eu hymgorffori mewn arferion bob dydd. Rwyf eisoes wedi tynnu sylw at broblemau gyda gwybodaeth sefydliadol a dealltwriaeth o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Gall sicrhau dealltwriaeth sylfaenol gref o'r rheolau hyn hwyluso iddynt fod yn fwy hygyrch, yn cael eu deall ac felly yn cael eu cydymffurfio â hwy fel mater o drefn.

39. O dan Reolau Trefniadaeth Droseddol, mae gan y llys rwymedigaeth i drin achosion yn effeithlon ac yn gyflym ac o dan Reol 3.2, rhaid iddo reoli'r achos yn weithredol. Yn ymarferol, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ynadon, a'r

farnwriaeth yn fwy cyffredinol, fod yn barod ar gyfer ymwneud gweithredol â datblygiad achosion.[78]

40. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg Barnwrol yn darparu deunyddiau ar gyfer hyfforddiant craidd i bob ynad a hyfforddiant cadeirio ar gyfer Ynadon Llywyddol sy'n cynnwys rheoli achosion ond sy'n hyfforddiant un-tro. Mae hyfforddiant parhaus, sydd ar gael i bob ynad bob pedair blynedd ac i ynadon llywyddol bob dwy flynedd, yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol, ac fe'i trefnir a'i gyflwyno'n lleol.

41. Er mwyn gwella dealltwriaeth o egwyddorion TSJ ar gyfer rheoli achosion, rwyf yn argymell bod GLlTEF yn gwella ei hyfforddiant rheoli achosion, nid yn unig ar gyfer ynadon a chynghorwyr cyfreithiol ond ar gyfer staff y llys yn gyffredinol, yn enwedig o ystyried trosiant staff sylweddol ac yr argymhelliad i ailgyflwyno CPOs yn llys ynadon. Rwyf hefyd yn argymell bod Cymdeithas y Cyfreithwyr yn adolygu ei hyfforddiant presennol ar gyfer cyfreithwyr fel bod gan bawb sy'n ymwneud â phroses y llys, ac sy'n ofynnol i ddilyn egwyddorion TSJ, yr un lefel o ddealltwriaeth i sicrhau eu cymhwyso.

Argymhelliad 100: Rwy'n argymell y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a'r Coleg Barnwrol, fel y bo'n briodol, roi mwy o bwyslais ar egwyddorion rheoli achos yn eu deunyddiau hyfforddi ar gyfer ynadon, cynghorwyr cyfreithiol a Swyddogion Hwyluso Achosion (os cânt eu gweithredu), a rhaid i gyrff proffesiynol wneud yr un fath ar gyfer eu haelodau.

42. Mae teilyngdod wrth ystyried sut y gallai hyfforddiant barnwrol mewn rheoli achosion gefnogi cronfa ehangach o benderfynwyr hefyd. O gofio'r cynnydd disgwyliedig yn y llwyth gwaith yn y llys ynadon, awgrymwyd i mi fel rhan o'r

78

Adolygiad hwn y gallai cynghorwyr cyfreithiol profiadol ddelio â rheoli achosion heb Fainc, gan gynnwys eistedd ar eu pen eu hunain mewn llysoedd NGAP.[79]

43. Er mwyn eistedd yn effeithiol mewn llysoedd NGAP, byddai angen pwerau cyfreithiol ychwanegol ar gynghorwyr cyfreithiol megis y gallu i ddelio â dyraniad a danfon achosion neillffordd i Lys y Goron.[80] Rwy'n cefnogi ehangu'r defnydd o gynghorwyr cyfreithiol i gynnwys iddynt gymryd llysoedd NGAP, ond nid wyf wedi fy argyhoeddi y dylai cynghorwyr cyfreithiol ddelio â rhai materion lle nad yw'r partïon yn cytuno, megis achosion lle mae dyraniad yn cael ei wrthwynebu. Rhaid i fainc wrando ar y rhain, ac wrth gwrs, unrhyw achos lle mae arwydd dedfrydu yn cael ei ofyn, er y gall hyn olygu symud yr achos i ystafell llys wahanol. Mae hyn yn debyg i'r dull a ddefnyddir eisoes mewn perthynas ag amrywiadau mechnïaeth lle mae'r Rheolau yn rhoi'r pŵer i'r cynghorydd cyfreithiol amrywio mechnïaeth amodol lle nad yw'r amrywiad yn cael ei wrthwynebu (CrimPR 2.8(6)(b)). Mae defnyddio cynghorwyr cyfreithiol yn y modd hwn yn gam cymesur a phriodol i ryddhau amser barnwrol. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei restru yn y ffordd arferol, gyda gwrandawiadau'n cael eu cynnal mewn llys agored.

44. Mae Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn rhoi pwerau rheoli achos sylweddol i gynghorwyr cyfreithiol awdurdodedig, gan gynnwys y pŵer i roi, amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd ar gyfer cynnal achos. Byddai cynyddu'r cyfleoedd i arfer y pwerau hynny yn rhyddhau ynadon i ymdrin â gwaith arall, yn ogystal ag ehangu rôl cynghorydd cyfreithiol i gefnogi eu datblygiad gyrfa – y byddaf yn trafod hynny'n fanylach ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol).

79

80

45. Er mwyn lleihau'r gwaith yn yr ystafell llys, rwyf wedi ystyried a ddylwn argymell dechrau adran 6 o Ddeddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 sy'n darparu ar gyfer pledio a dyrannu ysgrifenedig.[81] O gofio'r angen am reoli achosion cadarn a materion cydymffurfio â Rheolau Trefniadaeth Droseddol a amlinellir yn y bennod hon, rwyf wedi dod i'r casgliad bod yr effaith negyddol bosibl ar reoli achosion yn gorbwyso unrhyw fudd o leihau'r gwaith yn yr ystafell llys ac na fyddai dechrau'r ddarpariaeth yn synhwyrol ar hyn o bryd.

Argymhelliad 101: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn defnyddio cynghorwyr cyfreithiol i eistedd ar eu pen eu hunain mewn Llysoedd Ple Dieuog Disgwyliedig. Dylai'r gwaith ailgychwyn ar frys gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i adolygu'r pwerau sydd eu hangen ar gynghorydd cyfreithiol i alluogi hyn a dylid diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol i roi'r holl bwerau angenrheidiol i gynghorwyr cyfreithiol, ac eithrio'r ffaith y dylai mainc o ynadon barhau i wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu a wrthwynebir a mechnïaeth.

Cynnydd Achosion o'r Llys Ynadon

Y Ffurflen Rheoli Achosion yn Well

46. Mae angen penderfyniad ffurfiol i anfon pob achos o'r llys ynadon i Llys y Goron – boed yn droseddau ditiadwy yn unig neu'n droseddau neillffordd y canfyddir eu bod yn anaddas ar gyfer treial diannod. Mae'r rhan hon o'r broses yn cynnwys heriau. Fel y soniais, mae canllawiau BCM yn sail i achosion troseddol yn Llys y Goron. Fe'i lluniwyd i symleiddio achosion troseddol, meithrin ymgysylltiad cynnar a pharhaus rhwng partïon a sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn gymesur. Mae egwyddorion BCM wedi'u hanelu at leihau oedi, lleihau gwrandawiadau diangen a hybu cyflwyno pleon euog yn amserol, a thrwy hynny wella canlyniadau i bob cyfranogwr yn y system cyfiawnder troseddol.

47. Er gwaethaf yr uchelgeisiau hyn, mae'r llysoedd troseddol wedi parhau i wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â'r cam pwysig hwn yn y cynnydd achosion,

---

81

fel yr amlinellir yn Rhan I o'r Adolygiad hwn, a Phennod 2 (Cyd-destun). Yn erbyn y cefndir hwn, nid mater o arfer da yn unig yw cymhwyso BCM a'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn gyson ac yn drylwyr, ond yn hytrach yn angenrheidrwydd ar gyfer gweithrediad y system.

48. Yn weithdrefnol, yn y gwrandawiad anfon yn y llys ynadon, mae'r llys yn cadarnhau bod Manylion Cychwynnol Achos yr Erlyniad wedi'u cyflwyno'n llawn, a'i fod yn sefydlu perchnogaeth glir o'r achos gan yr erlyniad a'r amddiffyniad.[82]

Rhaid dangos bod yna ymgysylltiad rhwng yr erlyniad a'r amddiffyniad, gan gynnwys bod cyfnewid manylion cyswllt, i gefnogi gwrandawiad effeithiol. Mae'r gwrandawiad anfon hefyd yn rhoi cyfle, wrth geisio cael arwydd cadarn o'r ple, i sicrhau bod y diffynnydd yn ymwybodol o fanteision pledio'n euog yn y cam cynnar hwn o ran hyd eu dedfryd os cânt eu heuogfarnu, a bod y manteision yn lleihau unwaith y bydd yr achos yn mynd heibio'r pwynt hwn. Fel yr esboniais yn Rhan I, mae pleon euog yn cael eu cofnodi'n hwyrach ac yn hwyrach yn y broses llysoedd troseddol. Gyda mwy o oedi, mae'r tebygolrwydd y bydd dioddefwyr yn nodi nad ydynt yn cefnogi erlyniad mwyach, bod tystion yn gollwng allan neu nad yw bellach er budd y cyhoedd i ddilyn yr achos yn cynyddu. Mae hyn yn cymell rhai diffynyddion i osgoi cofnodi ple euog pan fyddent fel arall wedi gwneud hynny, ac mae hyn yn arwain at wastraff amser llys ac yn cyfrannu at y llwyth achosion agored cynyddol ac yn gohirio cyfiawnder.

49. Ar gyfer troseddau ditiadwy yn unig, rhaid cofnodi'r arwydd o'r ple ar yr Achos a anfonir i'r Llys y Goron ar gyfer Treial – holiadur rheoli achos (a elwir yn anffurfiol yn ffurflen BCM).[83] Mae'r Llys y Goron yn defnyddio'r arwydd o'r ple i nodi pryd i restru a faint o amser i'w ganiatáu ar gyfer yr achos. Os nodir ple dieuog, yna mae angen i'r PTPH ganiatáu amser ar gyfer rheoli achos effeithiol, ond os nodwyd ple euog, yna mae'r Barnwr yn gwybod ei bod yn debygol o fod yn wrandawiad

---

82

83

dedfrydu a gall swyddogion rhestru baratoi yn unol â hynny. Mae methu â darparu gwybodaeth o'r fath yn cael effaith ar y gallu i restru achosion yn briodol.

50. Mae hyn hefyd yn wir am droseddau neillffordd lle y mae arwydd clir o blegid dieuog (neu ddim arwydd), a bydd yr achos yn mynd i dreial yn Llys y Goron. Mae'n hanfodol bod partïon yn sicrhau bod ffurflen BCM yn cael ei chwblhau'n llawn, nid yn unig i gofnodi arwyddion pledio ond i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo sy'n nodi materion treial a meysydd cytundeb. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw at anghenion cyfieithydd, tystiolaeth ddigidol, addasiadau ar gyfer salwch meddwl, mesurau arbennig a/neu addasiadau rhesymol eraill. Rhaid iddo gyflwyno'r rhain ochr yn ochr ag amserlen gyda chyfarwyddiadau ar gyfer cynnydd achosion cyn y PTPH.

51. Pan gaiff ffurflen BCM ei chwblhau'n llawn, fe'i hystyrir yn arf gwerthfawr sy'n galluogi goruchwyliaeth farnwrol gynnar a gwneud penderfyniadau gwybodus cyn y PTPH, rhywbeth y byddaf yn sôn amdano ymhellach yn nes ymlaen yn y bennod hon.

52. Mae rheoli achosion yn effeithiol yn ganolog i gyflawni cyfiawnder amserol a theg. Eto i gyd, mae ymgysylltu ag ymarferwyr a staff y llys drwy gydol yr Adolygiad hwn wedi datgelu diffygion parhaus wrth gwblhau a defnyddio ffurflen BCM. Yn aml iawn, ni chaiff cwestiynau rheoli achos allweddol eu hateb cyn anfon achosion i Llys y Goron, ac yn rhy aml, ystyrir ffurflen BCM fel ymarfer ticio blychau – caiff ei chwblhau heb ddigon o fanylion, heb feddwl ac heb atebolrwydd. Mae hyn yn tanseilio ei phwrpas bwriadedig ac yn cyfyngu ar ei gwerth i Llys y Goron, sy'n dibynnu ar y ffurflen i lywio PTPH effeithiol.

53. Mae angen mwy o atebolrwydd ynghlwm wrth gwblhau'r ffurflen hon, o ran a yw'n cael ei chwblhau o gwbl ac a yw'n cynnwys digon o fanylion. Yn nes ymlaen yn y bennod hon, rwy'n trafod y defnydd o offer digidol i gefnogi atebolrwydd o'r fath ac ni ellir diystyru ei bwysigrwydd gan y bydd unrhyw fodel rhestru newydd (p'un a yw'n adnodd AI ai peidio) yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r ffurflen yn gywir ac yn gynhwysfawr. Yn yr amgylchiadau, byddai'n annheg gweithredu gofyniad o'r

fath heb sicrhau bod gan bawb sy'n gyfrifol am gwblhau'r ffurflen hon y sgiliau i wneud hynny a'u bod yn deall ei phwrpas yn llawn. Fel yr archwaf yn fanwl ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol), mae ymdrech ymwybodol eisoes ar y gweill gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried cynnwys presennol hyfforddiant ynadon, ac mae hyn yn rhoi cyfle i ymgorffori hyfforddiant ar ffurflen BCM yn ailgynllunio'r hyfforddiant.

54. I gynghorwyr cyfreithiol, rwyf wedi clywed ar lafar y byddai'n fuddiol gweithredu canllawiau safonol ar gyfer cwblhau ffurflenni BCM er mwyn sicrhau cysondeb a a'u bod yn gynhwysfawr. Felly, rwy'n argymell bod hyfforddiant cynghorwyr cyfreithiol yn cael ei wella gan GLlTEF i gefnogi cynghorwyr cyfreithiol i ddeall a gweithredu egwyddorion BCM.

55. Rwy'n hyderus y bydd mabwysiadu'r dull hwn a thargedu'r rheini sydd â'r rheolaeth a'r cyfrifoldeb mwyaf dros weithredu a chadw at egwyddorion BCM yn y llys, yn arwain at osod safonau gwell a disgwyliadau uwch ar gyfer y rhan hon o broses BCM. Bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn cryfhau cysondeb gweithdrefnol ac yn atgyfnerthu'r ffurflen BCM fel sylfaen rheoli achos cynnar. Mae rhinwedd mewn ystyried sut y gallai hyfforddiant barnwrol mewn rheoli achosion gefnogi cronfa ehangach o benderfynwyr hefyd. Rwyf wedi argymell yn y llys ynadon y gellid defnyddio cynghorwyr cyfreithiol i wrando achosion NGAP di-ymrafael heb ynadon ac, yn Llys y Goron, byddai hefyd yn briodol i rai Cofiaduron enwebedig ymgymryd â PTPHs: byddai angen hyfforddiant ar bawb.

Argymhelliad 102: Rwy'n argymell bod y Coleg Barnwrol yn diweddaru ei raglen hyfforddi i ynadon i gynnwys hyfforddiant ar lenwi'r ffurflen Rheoli Achosion yn Well fel bod ynadon yn deall canlyniadau peidio â chydymffurfio a bod y ffurflenni o ansawdd gwell.

Argymhelliad 103: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn addasu'r hyfforddiant cyfredol ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol i gynnwys llenwi ffurflen Rheoli Achosion yn Well er mwyn mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a gwella safon y ffurflenni fel bod digon o fanylion yn cael eu cynnwys.

56. Er mwyn mynd i'r afael â'r her benodol o ran ymgysylltu â'r ffurflen PTPH gan gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, rwyf yn argymell y dylid diweddaru'r ffurflen BCM i gynnwys cyfarwyddyd safonol sy'n mandadu bod cyfarfod eiriolwyr yn cael ei gynnal cyn i'r ffurflen PTPH gael ei chwblhau. Byddai'r cyfarfod hwn, y gellid ei gynnal wyneb yn wyneb neu o bell, yn sicrhau bod y ffurflen yn cael ei chwblhau a bod pawb yn barod ar gyfer y gwrandawiad. Ni ddylai cyflwyno cyfarfodydd o'r fath effeithio ar gapasiti barnwrol, na chyfrannu at nifer cyfartalog y gwrandawiadau fesul achos, a dylai arwain yn hytrach at PTPHs mwy effeithlon.

57. Ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol), rwyf yn gwneud argymhellion sy'n canolbwyntio ar dâl, gan annog ymgysylltiad cynnar y gweithwyr proffesiynol cyfreithiol trwy ffioedd cymorth cyfreithiol. Rwyf yn codi'r cwestiwn o ddiwygio'r farchnad ehangach ac a allai model gweithredu gwahanol ganiatáu i daliadau gael eu staffio'n fwy graddol i adlewyrchu gwahanol agweddau ar baratoi treial, gan gynnwys taliadau a wneir i eiriolwyr ar gyflwyno dogfennau gofynnol penodol, neu ar ôl cwblhau PTPH effeithiol. Gallai'r system, yn y tymor canolig, symud i broses awtomataidd sy'n sbarduno taliad ar ôl cwblhau ffurflen BCM yn llwyddiannus, er enghraifft wedi'i llofnodi ar y cyd gan gynrychiolydd yr amddiffyniad a'r erlyniad. Byddaf yn dod at y system ffioedd ehangach yn nes ymlaen yn yr Adolygiad hwn gan nad yw prosesau talu

presennol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn hwyluso'r math hwn o fodel ar hyn o bryd.

58. Er mwyn annog mabwysiadu'r broses newydd hon a'i gwreiddio fel arfer gyffredin, rwyf yn argymell bod y Cymorth Cyfreithiol yn diwygio ei hamserlenni talu presennol o fewn Cynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr (AGFS) a Chynllun Ffioedd Graddedig Ymgyfreithwyr (LGFS) i nodi bod mynychu cyfarfod eiriolwyr cyn-PTPH yn gymwys ar gyfer taliad ymgysylltu cynnar. Ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol), rwyf yn gwneud argymhellion pellach i annog ymgysylltiad cynnar gan fy mod yn credu ei bod yn hanfodol i gynnydd llyfn achosion ac y dylai fod mwy o anogaeth trwy ffioedd ar gyfer gweithgarwch o'r fath.

59. Yn Rhan I, argymhellais y dylai'r Arglwyddes Brif Ustus gyflwyno Cyfarwyddyd Ymarfer newydd a fyddai'n gwahodd Barnwyr i gynnig arwydd ymlaen llaw o ddedfryd ym mhob PTPH.[84] Fel arall, dylai'r ffurflen ei gwneud yn ofynnol i gynrychiolwyr yr amddiffyniad nodi bod eu cleient wedi'i gynghori am ei allu i geisio arwydd o'r fath. Beth bynnag, mae hyn yn gofyn am ddiweddariad i ffurflen BCM gyfredol, a dylid adlewyrchu'r newid hwn yn y canllawiau. Fel rhan o ddiweddaru'r ffurflen hon i gynnwys cyfarwyddiadau o'r fath, dylid manteisio ar y cyfle i'w diweddaru a sicrhau ei bod yn addas i'r diben.

60. Yn anecdotaidd, deallaf mai un broblem gyda ffurflen BCM yw nad yw'n ddigon cynhwysfawr, ac mae rhinwedd mewn cynnwys mwy o gyfarwyddiadau i sicrhau ei bod yn cofnodi gwybodaeth a fydd yn cefnogi cynnydd achosion. Deallaf fod angen gwella'r gweithdrefnau dilynol sy'n ymwneud â ffurflenni BCM gan y byddai hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno mewn pryd. Dylid diwygio'r ffurflen i gynnwys ychwanegu rhai cyfarwyddiadau safonol (fel sy'n arferol yn y Llys Teulu), pan anfonir yr achos i Llys y Goron, a phennu dyddiadau erbyn pryd y dylid cydymffurfio â chyfarwyddiadau. Byddai hefyd yn werth chweil

---

84

ychwanegu meysydd ar gyfer cyfarwyddiadau anghyffredin a dyddiadau cydymffurfio.

61. Os cyflwynir unrhyw newidiadau, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu arwyddion dedfrydu a'r dibenion o wneud hynny, dylid eu hystyried mewn unrhyw hyfforddiant a roddir i gynghorwyr cyfreithiol ac ynadon, fel yr argymhellaf uchod.

Argymhelliad 104: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn diweddaru'r ffurflen Rheoli Achosion yn Well i gynnwys, fel isafswm: a) cyfarwyddyd safonol ar gyfer cyfarfod eiriolwyr cyn y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial i sicrhau bod y ffurflen Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial wedi'i llenwi'n barod ar gyfer y gwrandawiad; b) unrhyw gais am arwydd o ddedfryd cyn y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial; c) dyddiadau ac amseroedd ar gyfer cydymffurfio â chyfarwyddiadau (gan gynnwys pryd y mae deunyddiau allweddol i'w cyflwyno; a d) blwch ticio i ddynodi ffurflen anghyflawn o ganlyniad i eiriolwyr nad ydynt wedi gallu, neu'n anfodlon, darparu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Argymhelliad 105: Rwy'n argymell bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn diwygio strwythurau ffioedd fel bod presenoldeb yr eiriolwr yng nghyfarfod yr eiriolwyr cyn y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial yn gymwys ar gyfer taliad ymgysylltu cynnar, waeth pryd y telir.

Adnoddau Cynnydd Achosion

62. Cyfrifoldeb y partïon a'r llys yw cynnwys ffurflen BCM, ac eto nid oes fawr o gymhelliant na mecanwaith i sicrhau ei bod yn cael ei pharatoi'n dda yng nghyfnod y llys ynadon. Mae ymgysylltu wedi amlygu bod gwerth ffurflen BCM mewn cyfnodau diweddarach naill ai'n aneglur neu heb ei werthfawrogi'n ddigonol. Mae'n rhesymegol ac yn angenrheidiol i'r ffurflen hon gael ei chwblhau yn y gwrandawiad anfon yn y llys ynadon, lle mae perchnogaeth yr achos yn cael ei sefydlu a chyfarwyddiadau'n cael eu gosod yn ogystal â'u cofnodi. Heb ffurflen

BCM gynhwysfawr a chyflawn, mae Llys y Goron yn cael ei rwystro yn ei allu i restru PTPH effeithiol, ac mae'r system ehangach yn dioddef o aneffeithlonrwydd y gellid ei osgoi.

63. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymaf fod GLlTEF yn adolygu ymarferoldeb y Platfform Cyffredin mewn ymgais i atal 'rhannu' achosion (h.y. cwblhau'r broses o anfon yr achos i'r Llys y Goron yn llawn) nes bod ffurflenni BCM wedi'u llenwi'n llawn; a defnyddio system awtomatiaeth i atal cymeradwyo ('cwblhau') ffurflenni sydd wedi'u llenwi'n rhannol. Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu na fydd cynghorydd cyfreithiol yn gallu cwblhau canlyniad yr achos, ac o ganlyniad symud yr achos yn ei flaen o fewn y Platfform Cyffredin, nes bod ffurflen BCM wedi'i chwblhau neu reswm wedi'i nodi ar y ffurflen am pam nad yw'r eiriolwr wedi darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu ar yr adeg iawn, gyda diffyg cydymffurfio yn cael ei ddwysáu lle bo angen, a bydd yn arwain at PTPHs mwy effeithiol.

64. Credaf mai ateb technolegol yw'r ffordd ymlaen i wella cynnydd achosion rhwng y llys ynadon a Llys y Goron. Bydd system awtomataidd yn fwy effeithlon na monitro â llaw unigolion neu achosion. Bydd grymuso cynghorwyr cyfreithiol gydag offer hawdd eu defnyddio i'w cynorthwyo i gwblhau'r ffurflen hon yn effeithiol yn gweld cyfrifoldeb a rennir rhwng ymarferwyr i gwblhau'r ffurflen gan na fydd achos yn symud ymlaen i Llys y Goron fel arall. Nid yw system i fonitro cynnydd yn seiliedig ar gymhellion neu sancsiynau yn addas yn yr achos hwn gan nad cyfrifoldeb y cynghorydd cyfreithiol yn unig yw darparu'r wybodaeth – mae angen i'r erlyniad a'r amddiffyniad chwarae eu rhan. Fodd bynnag, byddwn yn cynghori GLlTEF i fod yn ofalus iawn mewn perthynas â gweithredu adnodd o'r fath a'r risg o unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar allu'r cynghorydd cyfreithiol a thrwy hynny achosi tagfeydd o fewn y system. Fodd bynnag, dylai fy argymhellion

Argymhelliad 106: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn newid y swyddogaeth dechnegol ar y Platfform Cyffredin fel na ellir cwblhau canlyniad achos yn llawn yn y llys ynadon a'i rannu â Llys y Goron nes bod y ffurflen Rheoli Achosion yn Well wedi'i llenwi.

ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol) a oedd yn canolbwyntio ar weithlu cynghorwyr cyfreithiol â digon o adnoddau liniaru'r pryderon hyn.

Llys y Goron

Y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH)

65. Mae'r heriau sy'n wynebu Llys y Goron yn debyg i'r rhai a welwyd yn llys ynadon, ac mae llawer ohonynt yn deillio o ddiffyg rheoli achosion cadarn a gweithredol. Mae hyn wedi cyfrannu at aneffeithlonrwydd, oedi a diffyg parhad mewn goruchwyliaeth.

66. Cyflwynwyd y PTPH fel conglfaen BCM, a luniwyd i sicrhau bod achosion yn cael eu paratoi'n briodol a bod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl. Mae'r PTPH fel arfer yn ymddangosiad cyntaf yr achos yn Llys y Goron ac fel yr amlinellaf yn fanwl yn Rhan I, Pennod 7 (Gwneud y Mwyaf o Ymgysylltiad Cynnar yn Llys y Goron), mae'r PTPH yn chwarae rhan hanfodol wrth sefydlu'r ple ar gam cynnar.[85] Mae fy ffocws yn Rhan II yn symud i gynnal y PTPH ei hun, gan bwysleisio'r angen iddo fod yn wrandawiad effeithiol. Yn y bennod hon, rwyf eisoes wedi nodi'r angen am brosesau effeithlon, atebolrwydd a phwysigrwydd cyfathrebu rhwng partïon ac nid yw hyn yn llai pwysig yn Llys y Goron.

67. Rhaid cynnal y PTPH yn gadarn a bod paratoadau trylwyr ar ei gyfer, yn dilyn ymgysylltiad cynnar ystyrlon rhwng partïon, a bwriedir i fy argymhelliad yn Rhan I i ohirio amseriad y PTPH gefnogi ymgysylltiad o'r fath.[86] Mae Llawlyfr BCM yn nodi y dylai Barnwyr Cylchdaith lywyddu'r gwrandawiadau hyn, gyda Cofiaduron yn cael eu defnyddio mewn achosion eithriadol yn unig ac ar ôl i'r Barnwr Preswyl awdurdodi hynny ymlaen llaw. Rhaid rhoi digon o amser i Farnwyr baratoi, a rhaid

---

85

86

i reoli achosion barnwrol fod yn weithredol ac yn bwrpasol – gan nodi pleon, pennu cyfarwyddiadau, datrys problemau ac osgoi presenoldeb tystion diangen.

68. Dylai areinio[87] ddigwydd oni bai bod rheswm dilys dros ohirio, gan fod paratoi gwael yn tanseilio effeithlonrwydd ac mae ganddo ganlyniadau ar gynnydd yr achos, a'r system ehangach. Rhaid rhestru'r PTPH o fewn 28 i 35 diwrnod i'r llys ynadon anfon gwrandawiad, a dylid osgoi gohirio lle bo hynny'n bosibl. Hyd yn oed os gohirir areiniad, rhaid i'r gwrandawiad ddigwydd i osod cyfarwyddiadau.

69. Mae pwysau systemig, gan gynnwys gostyngiadau mewn cymorth cyfreithiol, wedi arwain at ostyngiad yn argaeledd eiriolwyr sy'n gallu gweithredu'n bendant, meithrin perthynas agos â phartïon perthnasol, gan gynnwys yr erlyniad, a datrys problemau'n gynnar. Mae effeithiolrwydd PTPHs (o ran cwblhau'r gwrandawiad yn llwyddiannus wrth osod cynllun clir a chynhwysfawr ar gyfer treial sy'n osgoi rhagor o oedi a'r angen am wrandawiadau ychwanegol) yn amrywio fel y dangosir yn Astudiaeth Achos R. Ar ben hynny, rwyf wedi clywed ar lafar fod parhad barnwrol, erlynydd ac amddiffyn yn anghyson, yn aml nid oes gan wrandawiadau ganlyniadau clir ac mae llwythi achosion uchel ynghyd ag adnoddau cyfyngedig yn rhoi straen pellach ar y system.

70. Mae cynrychiolaeth yn hollbwysig; dylai rhestru fod yn hyblyg, o fewn rheswm, i sicrhau bod eiriolwyr penodedig yn gallu bod yn bresennol, gyda rhybudd o leiaf ddau ddiwrnod, ac ymgysylltiad gan bob parti. Dylid gwrthod gohirio sylweddol cyn y PTPH er mwyn cael adroddiadau, megis adroddiadau meddygol neu adroddiadau arbenigwyr, a dylid rhestru achosion ar gyfer y PTPH i sefydlu amserlen glir. Dim ond pan fydd CPS a'r amddiffyniad wedi ymgysylltu, y diffynnydd wedi cael cyngor priodol a phob cam paratoadol wedi'i gwblhau y mae presenoldeb o bell gan eiriolwyr yn dderbyniol.[88]

87

88

71. Rwyf eisoes wedi gwneud argymhellion i wella ymgysylltiad cyn y PTPH ac, i gefnogi'r broses hon ymhellach, byddwn hefyd yn annog diwygio ffurflen PTPH i sicrhau ei bod mor syml a hawdd ei defnyddio â phosibl.

72. Ar hyn o bryd, mae ffurflen PTPH yn 16 tudalen ac mae'r amser a gymerir i'w llenwi yn anghymesur â'r wybodaeth a ddarperir ganddi. Roedd y ffurflen flaenorol a ddefnyddiwyd yn llai rhagnodol, yn caniatáu ar gyfer mwy o destun rhydd ond roedd yn dal yn faith. Gallaf ddeall y penderfyniad i newid y ffurflen yn ei fersiwn ddiweddaraf i gynnwys arweiniad ar sut i'w llenwi, gan gynnwys blychau ticio ar gyfer yr hyn a allai fod yn ofynnol i sicrhau bod rhai camau'n cael eu cwblhau. Fodd bynnag, gallai'r gofyniad i lenwi ffurflen dechnegol o'r fath fod yn ffactor sy'n atal cwblhau cynhwysfawr, gan godi'r cwestiwn a yw'n addas i'r diben heb gyfarfod eiriolwyr i sicrhau ei bod wedi'i chwblhau'n llawn ac yn briodol. Fel yr amlinellais yn Rhan I o'r Adolygiad hwn, mae'r PTPH yn rhan hanfodol o'r broses, felly mae'n hanfodol bod unrhyw ddogfennau ategol yn hygyrch.

73. Dylai'r amrywiaeth o fesurau a argymhellir (gan gynnwys rheolau a chanllawiau cliriach ar BCM, taliadau fesul cam mwy priodol ar gyfer paratoi a PTPH mwy penodol a sylweddol) ar y cyd leihau'r posibilrwydd y bydd yr amddiffyniad yn cyflwyno'r heriau hwyr hyn, yn enwedig ar y cyd â'r argymhelliad ar ystyried rhwymedigaethau llymach o ran datgelu cyn y treial ym Mhennod 5 (Datgelu).

Argymhelliad 107: Rwy'n argymell bod y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn diwygio ac yn symleiddio'r ffurflen Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial fel ei bod yn hygyrch ac yn hawdd i'w defnyddio.

Astudiaeth Achos R: Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) Aneffeithiol yn Llys y Goron

Fel rhan o'r Adolygiad, ymwelodd fy nhîm â nifer o Lysoedd y Goron yng Nghymru a Lloegr i arsylwi eu gwaith o ddydd i ddydd ac i ddeall o ble roedd yr oedi a'r aneffeithlonrwydd yn y broses yn dod. Daeth yn amlwg yn gynnar bod PTPH aneffeithiol yn gyffredin iawn. Mae'r astudiaeth achos hon yn cynnwys enghreifftiau o wahanol PTPH a welodd fy nhîm o fewn un llys ar un bore yn unig a pham y buont yn aneffeithiol:

1. Cyfarwyddiadau annigonol: Derbyniodd yr amddiffyniad gyfarwyddyd ar rai cyhuddiadau ond nid pob un, felly gohiriwyd yr achos i ganiatáu i'r holl gyhuddiadau gael eu trin gyda'i gilydd.

Yn yr achos hwn roedd angen cyfieithydd ar y diffynnydd ac er gwaethaf mai dim ond gorfod cyfieithu ychydig o frawddegau yn egluro y byddai'r gwrandawiad yn digwydd ar ddiwrnod arall, roedd y cyfieithydd yn dal yn gymwys i gael ei ffi lawn.

2. Presenoldeb yr erlyniad a gwrandawiadau fideo: Er gwaethaf bod mewn cysylltiad â'r amddiffyniad y diwrnod cynt, ymddangosodd nad oedd cynghorydd yr erlyniad yn bresennol yn y gwrandawiad, ac nid oedd yr amddiffyniad wedi gallu cysylltu â chynghorydd yr erlyniad y bore hwnnw. Daeth y barnwr o hyd i erlynydd arall yng nghanol y llys i dderbyn y cyfarwyddiadau; fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod yr erlynydd cychwynnol wedi mynychu drwy gyswllt fideo (ar Blatfform Fideo'r Cwmwl – CVP) ac roeddent wedi bod yn aros yn y cyntedd rhithwir am tua 20 munud.

3. Deunyddiau annigonol wedi'u rhannu a diffynyddion ar fechnïaeth: Nid oedd CPS wedi llwytho deunydd perthnasol i'r System Achosion Digidol er mwyn i'r gwrandawiad fynd rhagddo. Ni chaniatawyd y cais am wrthod yr achos gan yr amddiffyniad. Roedd y diffynnydd ar fechnïaeth ac wedi cyrraedd y llys, ond erbyn i swyddog y doc ymddangos i'w adael i mewn i'r doc, roedd gwrandawiad y mater wedi'i ddatrys gyda'r diffynnydd yn sefyll yng nghefn y llys yn aros. Ail-restrwyd yr achos ar gyfer sawl mis yn ddiweddarach.

4. Cyfathrebu gwael: Roedd CPS wedi cael cais am ragor o wybodaeth yn yr adolygiad achos ac wedi gofyn am ohiriad, ond nid oedd y llythyr hwnnw wedi cael ei lwytho i'r rhan gywir o'r System Achosion Digidol, felly nid oedd y Barnwr wedi ei weld ac o ganlyniad, roedd yr achos wedi aros ar y rhestr. Ar gyfer y PTPH hwn, roedd yr erlyniad, yr amddiffyniad a'r cyfieithydd ar y pryd yn mynychu wyneb yn wyneb, ond nid oedd y diffynnydd yn bresennol gan eu bod wedi cael gwybod y diwrnod cynt na fyddai'r gwrandawiad yn mynd rhagddo. Derbyniodd y Barnwr nad oedd y diffynnydd ar fai, a talwyd ffi i'r cyfieithydd o hyd er na chyfieithwyd unrhyw sgwrs.

Mae'n amlwg o'r enghreifftiau hyn o PTPH aneffeithiol eu bod yn methu oherwydd problemau y gellir eu datrys. Trwy'r Adolygiad hwn, rwyf wedi ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn a darparu atebion i gefnogi effeithlonrwydd, gan gynnwys AI ar gyfer cyfieithu, annog ymgysylltiad cynnar rhwng yr erlyniad a'r amddiffyniad, a gwella cyfathrebu barnwrol.

Prosesau Rheoli Achosion yn Well

74. Mae egwyddorion BCM yn berthnasol i gefnogi cynnydd achos o'r llys ynadon i Llys y Goron, ac wrth i achos symud drwy Llys y Goron. Hyd yn hyn, rwyf wedi gwneud argymhellion yn ymwneud â ffurflen BCM, sef rhan gyntaf y broses hon, ac rwyf bellach yn trafod gwreiddio'r egwyddorion fel y maent yn ymwneud â chynnydd achos yn Llys y Goron.


75. Ym mis Medi 2021, sefydlodd yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Burnett o Maldon, Grŵp Gwella Llys y Goron (CCIG) i hybu arferion gwaith mwy effeithiol o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol, yn ogystal â goruchwylio diwygio ynadon. Mae'r CCIG, a gadeiriwyd gan yr Uwch Farnwr Llywyddol ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, bellach Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol, wedi ceisio atgyfnerthu rheoli achosion gadarn ac ymlyniad caeth wrth egwyddorion BCM.

76. Mae cynhyrchu Llawlyfr Adfywio Rheoli Achosion yn Well wedi darparu adnodd gwerthfawr, ond mae i ba raddau y mae ei arweiniad wedi'i wreiddio mewn arfer beunyddiol yn parhau i fod yn amrywiol. Rwyf wedi clywed ar lafar fod canolfannau a meysydd Llys y Goron yn dilyn BCM gymaint â phosibl, yn seiliedig ar eu hadnoddau a'u dehongliad, a bod rhannu arfer da ar draws rhanbarthau. Fodd bynnag, mae cymhwyso a dehongli'r egwyddorion yn anghyson, ac mae rhywfaint o arfer gwael wedi'i wreiddio. Mae nifer y gwrandawiadau fesul achos a ddatrysir yn Llys y Goron wedi codi o 3.5 yn 2016 i 4.0 yn 2024, fel y nodaf yn nes ymlaen yn y bennod hon, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei yrru gan dwf a welwyd mewn gwrandawiadau rhagarweiniol.[89] Mae'r llawlyfr hwn yn ategu'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol trwy brosesau strwythuredig fel y PTPH a Thystysgrifau Parodrwydd ar gyfer Treial.

Figure 7.4

The mean number of hearings per disposed case in the Crown Court

England and Wales, 2016 - 2024



Source: Criminal court statistics quarterly: July to September 2025 - GOV.UK

77. Er gwaethaf yr eglurhad clir o egwyddorion BCM a bodolaeth CrimPR manwl, mae cydymffurfiaeth yn anghyson yn ymarferol, ac mewn rhai meysydd, yn isel

89

mewn modd pryderus. Canfu arolygiad cynnar gan HMCPSI yn 2016 nad oedd y ffurflen PTPH wedi'i chyflwyno yn unol ag amserlenni BCM mewn 23.6% o'r 182 o achosion cymwys y gwnaethant eu hasesu.[90] Prin oedd tystiolaeth o ymgysylltiad gweithredol rhwng partïon cyn y PTPH, ac nid oedd y farnwriaeth yn herio cydymffurfiaeth wael yn gyson. O ganlyniad, roedd achosion yn aml yn gofyn am wrandawiadau ychwanegol i ddatrys problemau y gellid – ac y dylid – fod wedi mynd i'r afael â hwy yn gynharach, gan danseilio'r egwyddor o sicrhau ei fod yn gywir y tro cyntaf. Er y cynhaliwyd yr arolygiad hwn ddeng mlynedd yn ôl, mae casglu tystiolaeth yn ystod yr Adolygiad hwn wedi fy arwain i gredu bod y sefyllfa fwy neu lai yr un fath o hyd.

78. Mae pob gwrandawiad ychwanegol yn defnyddio amser prin y farnwriaeth ac ymarferwyr, yn cynyddu costau ac yn ymestyn yr ansicrwydd y mae dioddefwyr, tystion a diffynyddion yn ei wynebu. Er enghraifft, fel y manylir ym Mhennod 2 (Diagnosis Problemau) o Ran I, cynyddodd yr amser cyfartalog o'r PTPH i restru treialon o 384 o ddyddiau ym mis Mai 2022 i 495 o ddyddiau ym mis Hydref 2024.[91] Mae cyfradd gyffredinol treialon aneffeithiol yn Llys y Goron hefyd wedi codi, gan gynyddu o 15% i 25% rhwng 2016 a 2024. Yn 2024, diffyg parodrwydd yr erlyniad neu'r amddiffyniad oedd yn gyfrifol am 22% o dreialon aneffeithiol, gyda rhesymau mawr eraill yn cynnwys argaeledd y diffynnydd (21%) a gor-restru (23%).[92]

79. Mae achosion sylfaenol cydymffurfiaeth wael yn amlweddog. O fy ymgysylltiad â'r rhai sy'n gweithio yn y system, gellir priodoli problemau i amrywiaeth o achosion. Er enghraifft, mae'r diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ofynion rheoli achosion ac egwyddorion BCM yn creu oedi, nid yw hyfforddiant mewn

---

90

91

92

BCM yn cael ei gyflwyno'n gyffredinol nac yn cael ei ddiweddaru mewn ymateb i welliannau ac mae diffyg atebolrwydd hefyd: lle mae diffyg cydymffurfiaeth yn digwydd, anaml y caiff ei herio neu ei sancsiynu, gan arwain at ddiwylliant o anallu dysgedig ac o dderbyn methiant.

80. Teimlir effaith yr heriau hyn drwy gydol y system. Gall dioddefwyr a thystion dynnu'n ôl o achosion troseddol oherwydd gohiriadau dro ar ôl tro a chyfathrebu gwael. Gall diffynyddion dreulio cyfnodau estynedig ar remand, gyda'r holl ganlyniadau personol ac economaidd sy'n gysylltiedig â hynny. Gall hyder y cyhoedd yn nhegwch ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol gael ei danseilio.

81. Fel y nodais yn gynharach yn y bennod hon, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n ymwneud â chynnydd achosion a rheoli achosion yn cael hyfforddiant adnewyddu parhaus a rheolaidd. Gwnes argymhellion mewn perthynas â TSJ ar gyfer llys ynadon ac, felly, mewn perthynas â Llys y Goron, credaf ei bod hefyd yn hanfodol cael hyfforddiant parhaus priodol ar BCM. Bydd hyfforddiant o'r fath yn cefnogi dealltwriaeth a chymhwyso egwyddorion rheoli achosion yn gyson ar draws y system.

82. Mae'r cyfrifoldeb am ddatblygu hyfforddiant o'r fath ar gyfer y farnwriaeth yn dod o fewn cylch gorchwyl y Coleg Barnwrol ac, felly, gofynnaf iddo ystyried y cynnig hyfforddiant presennol a sefydlu a ddylid ei ddiweddaru i sicrhau arfer gorau o ran cynnydd achosion. Ymhellach, dylai Inns of Court, y Cylchdeithiau a Chyngor y Bar adolygu eu hyfforddiant presennol ar gyfer bargyfreithwyr troseddol (fel y dylai Cymdeithas y Cyfreithwyr ar gyfer cyfreithwyr troseddol) fel bod gan bawb sy'n ymwneud â phroses y llys yr un lefel o ddealltwriaeth. Mae darparu hyfforddiant o ansawdd uchel, gan gynnwys hyfforddiant adnewyddu pryd

bynnag y bydd rheolau neu brosesau'n newid, yn cefnogi dealltwriaeth a chymhwyso cyson o egwyddorion rheoli achosion ar draws y system.

Swyddogion Cynnydd Achosion yn Llys y Goron

83. Mae'r materion hyn yn adlewyrchu heriau systemig ehangach o fewn yr heddlu, CPS ac eiriolwyr, gan bwysleisio'r angen am swyddogaeth cynnydd achosion benodol yng nghyfnod Llys y Goron. Mae rôl GLlTEF mewn rheoli a datblygu

Argymhelliad 108: Rwy'n argymell bod y Coleg Barnwrol yn adolygu ei adnoddau hyfforddiant presennol ar Reoli Achosion yn Well i sicrhau bod yr holl farnwriaeth troseddol yn hyddysg â'r arferion presennol, a rhaid i gyrff proffesiynol wneud yr un peth ar gyfer eu haelodau.

achosion yn weithredol yn aml yn codi fel ymateb i fethiant galw mewn mannau eraill yn y system. Mae angen ffocws newydd ar berchnogaeth achosion strwythuredig, gyda chefnogaeth personél sydd wedi'u hyfforddi ac â digon o adnoddau, er mwyn adfer hyder yn y system a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n effeithlon ac yn deg.

84. Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth reoli GLlTEF sydd ar gael yn awgrymu bod CPOs yn bodoli yn Llys y Goron, fodd bynnag, mae anghysondeb yn y ffordd y cânt eu dosbarthu ledled Cymru a Lloegr. Mae rhai CPOs yn cael eu rhannu ar draws llysoedd, ac nid oes gan nifer o lysoedd unrhyw rai, yn enwedig yn Ne-orllewin a Gogledd-orllewin Lloegr.[93] Er nad oes tystiolaeth feintiol ar gael i asesu effeithiau CPOs, mae'n werth nodi bod y ddwy ranbarth hyn wedi gweld mwy o gynnydd yn eu llwyth achosion agored yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf (Ch1 2022 i Ch3 2025) gyda 68% a 43% yn y drefn honno. Cynyddodd llwythi achosion agored y rhanbarthau eraill 34% gyda'i gilydd ond oherwydd natur y system llysoedd dan straen, gall CPOs yn aml gael eu defnyddio ar draws

93

gwahanol achosion llys, sy'n golygu nad ydynt yn canolbwyntio'n llwyr ar swyddogaethau cynnydd achosion.[94]

85. Fel y trafodais mewn perthynas â llys ynadon, o dan CrimPR 3.4, mae CPOs yn darparu parhad, atebolrwydd a strwythur wrth fonitro ac adrodd ar beidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau barnwrol y tu allan i'r ystafell llys.[95] Maent yn sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n weithredol wrth iddynt symud drwy'r system ac yn cysylltu â phartïon i sicrhau ymgysylltiad amserol a datrys problemau.

86. Rwyf yn ymwybodol o brofion cysyniad 'Cydlynydd Achos' sy'n cael eu harwain gan GLlTEF sy'n cynnwys rôl wedi'i neilltuo sy'n canolbwyntio ar gynnydd achosion, yn debyg i rôl Swyddog Cynnydd Achosion, ond mae'r rôl wedi'i gwarchod rhag cael ei thynnu i mewn i dasgau eraill yn y llys.[96] At ddibenion y prosiect hwn, mae pwerau awdurdodedig wedi'u rhoi i'r 'Cydlynwyr Achosion', pwerau nad ydynt fel arfer yn eu dal, i gefnogi stiwardiaeth achosion o'r dechrau i'r diwedd.[97] Nid yw canlyniad y prawf cysyniad hwn wedi'i gyhoeddi eto ond mae'r heriau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy, sef cyfathrebu tameidiog, cydymffurfiaeth anghyson a pharatoi yn hwyr yn y broses, wedi'u dogfennu'n dda ac yn arwydd o faterion systemig ehangach, gan gynnwys y rhai sy'n tarddu o fewn yr heddlu a CPS. Credaf y dylid sefydlu swyddogaeth cynnydd achosion benodol yn ffurfiol o fewn Llys y Goron, gan adlewyrchu'r angen sydd eisoes wedi'i nodi yn llys ynadon, i sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n weithredol ac yn effeithiol trwy gydol eu cylch bywyd.

94

95

96

97

87. Mae'n bwysig nodi, er bod angen y gweithwyr proffesiynol hyn yn y llys ynadon a Llys y Goron, bod gwahanol strwythurau a phwerau o fewn pob awdurdodaeth sy'n gofyn am ddulliau gweithredu wedi'u teilwra wrth eu gweithredu. Mae'r anghysondeb hwn yn galw am ragor o archwilio gan GLlTEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mewn ymgynghoriad â'r farnwriaeth.

88. Mae cael CPO pwrpasol yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn y Llawlyfr BCM, gyda phwyslais cryf ar ymgysylltu ag achosion yn gynnar a pharodrwydd ar gyfer treialon, ac mae Astudiaeth Achos S yn dangos gwerth swyddogaeth o'r fath. Trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r CPS, cynrychiolwyr yr amddiffyniad, a phartïon perthnasol eraill, gall CPOs sicrhau bod amserlenni'n cael eu cadw, bod cyfarwyddiadau barnwrol yn cael eu dilyn a bod pob parti wedi'i baratoi'n briodol ar gyfer gwrandawiadau a threialon. Mae'r uchelgais ar gyfer y rôl yn glir: lleihau nifer y treialon aneffeithiol a'r treialon chwâl, lleihau'r amser llys sy'n cael ei wastraffu a gwella effeithlonrwydd cyffredinol y broses cyfiawnder troseddol.

89. Os caiff ei weithredu, dylai rôl CPO benodol yn Llys y Goron gynnwys bod y swyddog hwnnw yn cael y dasg o wreiddio egwyddorion BCM, monitro cydymffurfiaeth a, lle bynnag y bo modd, gweithredu ar ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r parti perthnasol heb restru'r achos. Rhaid i achosion dro ar ôl tro o ddiffyg cydymffurfiaeth gael eu hadrodd i'r farnwriaeth. Dylai GLlTEF adolygu ei strwythur adnoddau i gefnogi rôl wedi'i neilltuo sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar berchnogaeth, dilyniant a rheoli achosion. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfrifoldeb am gynnydd achosion yn cael ei neilltuo'n glir.

90. Rwy'n cydnabod bod goblygiadau cost i weithredu'r rôl hon ar draws llysoedd ynadon a Llys y Goron, ond credaf y bydd y gwerth y gall CPO ychwanegu ato i effeithlonrwydd achosion llys yn arwain at arbed amser a manteision drwy gydol y system. Ni fydd unrhyw bwynt mewn gwneud newidiadau i ganllawiau, a hyfforddi staff y llys a'r farnwriaeth ar y prosesau hyn, os na chaiff hynny ei gyd-fynd hefyd ag ymdrech wedi'i dargedu i gefnogi datblygu achosion yn gyflym drwy'r system. Rwyf wedi cydnabod yr hinsawdd ariannol, a'r Adolygiad o Wariant a setlwyd yn ddiweddar, yn y ffordd yr wyf wedi gwneud argymhellion

drwy gydol yr Adolygiad hwn ac felly nid wyf wedi gosod amserlenni penodol ar weithredu'r argymhelliad hwn. Yn lle hynny, rwyf yn syml yn annog y llywodraeth i fwrw ymlaen â hyn cyn gynted â phosibl.

Astudiaeth achos S: Gwerth Cyfarfodydd Cynnydd Achosion yn Llys y Goron

Ar ymweliad â Llys y Goron prysur, cysgododd fy nhîm gyfarfod cynnydd achosion gyda Swyddog Cynnydd Achosion (CPO). Cyn y cyfarfod hwn, roedd y CPO wedi llunio rhestr o'r holl achosion oedd ar ddod a oedd wedi'u rhestru a chafodd hon ei hadolygu, yn fanwl, mewn partneriaeth â CPS a'r swyddog rhestru ar alwad Microsoft Teams.

Aeth y CPO drwy bob achos fesul achos i nodi'r statws presennol ac a oedd y camau cywir wedi'u cymryd i sicrhau parodrwydd ar gyfer gwrandawiadau. Cadwodd y CPO gofnod o wybodaeth graidd megis a oedd angen addasiadau adran 28, ac os felly a oeddent ar waith, a oedd cysylltiad wedi'i wneud â thystion, ac a oedd yr amddiffyniad wedi cyflwyno eu datganiad achos.

Roedd y cyfarfod byr hwn yn ddigon i amlygu'r rôl amhrisiadwy y mae CPOs yn ei chwarae wrth sicrhau bod cynnydd achosion mor esmwyth â phosibl. Yn y llys hwn yn benodol, roedd y Barnwr Preswyl yn cefnogi'r system hon ac yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddwyd i sicrhau bod achosion yn barod ar gyfer treial.

Rhannodd y CPO ei bod yn cymryd hanner diwrnod bob pythefnos i gasglu'r wybodaeth gan nad yw'n broses awtomataidd. Roedd hyn yn wastraff amser aneffeithlon – ond mae'n ymddangos yn amlwg i mi y byddent yn elwa ar adnodd a fyddai'n casglu'r wybodaeth berthnasol yn awtomatig. Ar ben hynny, roedd yn amlwg y byddai'r cyfarfodydd hyn yn elwa ar ymgysylltiad gan gydweithwyr o'r gymuned amddiffyn i sicrhau bod pawb wedi'u paratoi'n addas ar gyfer y gwrandawiad. Fodd bynnag, gwn y gall fod yn anodd sicrhau presenoldeb cynrychiolwyr yr amddiffyniad i adolygu rhestr wythnos gan y bydd pob achos yn debygol o gael cynrychiolydd yr amddiffyniad ar wahân o gwmni gwahanol (gallai'r sefyllfa fod yn wahanol pe bai gwasanaeth amddiffynnydd cyhoeddus cenedlaethol effeithiol).

91. Mae'r sylwadau yn yr adran Llys y Goron hon yn cefnogi'r rhesymeg ar gyfer yr argymhellion rwy'n eu gwneud yn y bennod hon ac yn dangos gwerth ychwanegol CPOs ac adnoddau digidol cynnydd achosion.

Argymhelliad 109: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn cyflwyno Swyddogion Hwyluso Achosion pwrpasol (neu gyfwerth) yn Llys y Goron, gan ddilyn y dull a awgrymwyd ar gyfer llys ynadon (gweler argymhelliad 100), ar radd briodol ac â'r un pwerau ledled Cymru a Lloegr.

Rheoli Achosion Barnwrol

92. Wrth i mi geisio gwella'r broses hon, rwyf yn awyddus i wneud unrhyw gynnydd posibl ar gyfer rheoli achosion barnwrol yn well byth. Gyda hyn rwy'n cyfeirio at y rôl y mae aelodau o'r farnwriaeth yn ei chwarae yn yr ystafell llys wrth oruchwylio a rheoli achosion llys yn weithredol i sicrhau bod achosion yn deg, yn effeithlon ac yn gymesur.

93. O dan egwyddorion rheoli achosion, disgwylir i Farnwyr reoli achosion yn weithredol er mwyn lleihau oedi a threuliau diangen. Sefydlwyd y sylfaen ar gyfer rheoli achosion barnwrol gyntaf drwy Reolau Trefniadaeth Droseddol 2005, o dan reol 3.2, 'rhaid i'r llys hyrwyddo'r brif amcan drwy reoli'r achos yn weithredol'.[98]

Mae'r rheol hon yn amlinellu'r gwahanol agweddau ar yr hyn sy'n gyfystyr â rheoli achosion yn weithredol. Mae'r rheol hon yn dal i fod yn berthnasol yn Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2025.

94. Darperir canllawiau pellach yn y Llawlyfr Adfywio BCM (2023) sydd hefyd yn cefnogi rheoli achosion, gan ddatgan 'y dylai'r Barnwr reoli pob achos yn weithredol a chadarn'.[99] Mae'n annog defnyddio egwyddorion BCM megis 'ymgysylltu cynnar a pharhaus ynghyd â rheoli achosion barnwrol cyson a chadarn gan y farnwriaeth' gan arwain at restrau achosion mwy effeithiol ac

---

98

99

effeithlon. Mae’r dull hwn yn sicrhau y delir â phleon euog yn brydlon yn y gwrandawiad cyntaf ac yn helpu i leihau nifer y gwrandawiadau a hyd y treialon drwy ganolbwyntio ar dystion hanfodol a lleihau digwyddiadau treialon aneffeithiol.

95. O'm ymgysylltiad ar gyfer yr Adolygiad hwn, gwelais fod dulliau gweithredu gwahanol ledled y wlad o ran cyfathrebu y tu allan i'r ystafell llys, gyda rhai Barnwyr yn croesawu e-byst ar faterion gweinyddol, megis caniatâd ar gyfer gwrandawiadau o bell, a rhai yn ceryddu cwnsler hyd yn oed am anfon e-bost atynt. Gall cyfathrebu gwael ynghylch achosion ychwanegu at oedi, a chodwyd pryderon ynghylch e-byst a gollwyd oherwydd problemau technegol gyda blychau post swyddogaethol a phrotocolau cyfathrebu amhriodol gyda barnwyr. Yn aml, y ffordd o gysylltu â Barnwr trwy e-bost yw defnyddio cyfrif sy'n gyffredin i ganolfan y llys. Mewn llawer o achosion, nid yw'r mewnflwch hwnnw'n cael ei fonitro'n rheolaidd felly nid yw ymatebion amserol bob amser yn cael eu gwarantu. Nid yw'r model hwn yn addas i'r diben.

96. Rwyf wedi gweld dulliau effeithiol o reoli tasgau gweinyddol y tu allan i'r llys, a chredaf y dylai hyn fod yn fwy cyffredin. Gellid rheoli nifer fwy o dasgau yn fwy effeithlon gan y Barnwr trwy ohebiaeth e-bost (wedi'i chopïo i bob parti ac i'r llys) neu Microsoft Teams (y gellir ei recordio); y nodwedd hollbwysig yw bod pob parti yn cymryd rhan. Gall cyfathrebiadau o'r fath ddigwydd naill ai cyn gwrandawiadau a drefnwyd, yn dilyn diwedd y diwrnod gwaith neu pan fydd gan farnwyr gapasiti yn eu dyddiaduron. Trafodaf drefniadaeth galwadau o'r fath isod.

97. Er bod rhywfaint o adborth wedi bod yn gadarnhaol ar drin materion o'r fath dros e-bost a gwn fod rhai barnwyr eisoes yn mabwysiadu'r dull hwn, rwy'n gwerthfawrogi pryderon y dylai fod rhywfaint o strwythur o amgylch cyfathrebu o'r fath i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n dda. Ni ddylid ystyried y gallu i e-bostio barnwr fel llinell gyfathrebu uniongyrchol i ofyn cwestiynau dibwys, ond yn hytrach fel ffordd o rannu gwybodaeth cyn gwrandawiad i arbed amser a symud achosion ymlaen lle bo hynny'n bosibl. Mae gan weithredu mecanwaith o'r fath y potensial i symleiddio llif gwaith a blaenoriaethu achosion y mae angen eu

gwrandawiad ac, o ganlyniad, optimeiddio amser ystafell llys a gwella rheolaeth cyfrifoldebau barnwrol.

98. Mae CrimPR 3.4 yn galluogi swyddogion awdurdodedig yn Llys y Goron i: benderfynu ar gais i estyn terfyn amser a bennir gan reol neu gan Farnwr; rhoi cyfarwyddyd cyswllt byw ar gyfer cyfranogiad diffynnydd yn y ddalfa mewn gwrandawiad rhagarweiniol; rhoi gwrandawiad dedfrydu neu wrandawiad gorfodi; a phenodi eiriolwr i groesholi tystion.[100] Y CPO yw'r un sydd mewn sefyllfa orau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn a chan ystyried fy argymhelliad i GLlTEF weithredu CPOs yn y llys ynadon a Llys y Goron, gallent gefnogi'r farnwriaeth ar faterion gweinyddol y gellid delio â hwy y tu allan i'r ystafell llys. Byddai rhoi'r pwerau hyn i CPOs yn dileu'r angen i gyfeirio materion o'r fath at Farnwr, gan arbed amser ac adnoddau barnwrol.

99. Felly, rwyf yn argymell, yn hytrach na defnyddio mewnflwch 'Barnwr' generig, y dylid cyfeirio'r holl ohebiaeth at mewnflwch CPO penodol ar gyfer pob llys, a ddylai fwydo i mewn i offeryn awtomeiddio (tebyg i'r gwasanaeth y mae GLlTEF wedi'i adeiladu yn Microsoft PowerApps) ar gyfer didoli, blaenoriaethu a llwybro. Bydd y system hon hefyd yn awtomeiddio echdynnu metadata allweddol (fel rhifau cyfeirnod) i gefnogi cynnydd achosion ac adfer hawdd yr holl ohebiaeth sy'n gysylltiedig ag achos. Byddai CPOs yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r ohebiaeth hon fel y mae'n ymwneud â chynnydd achosion.

100. Byddai angen diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol i ymgorffori rheoleiddio'r gweithgaredd hwn, a dylai'r defnydd o ateb cyswllt o'r fath gael ei gefnogi gan ganllawiau, a ddatblygwyd gan Gyngor y Bar. Dylai hyn nodi'r hyn a ystyrir yn gyfathrebu priodol a fformatedig gywir â Swyddogion Cyswllt Barnwrol gan eu bod yn ymwneud ag ymholiadau ar gyfer y barnwyr a dylai sicrhau bod gohebiaeth yn parhau i fod yn broffesiynol yn ogystal â bod yn glir ac yn canolbwyntio.

100

Argymhelliad 110: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn sefydlu mewnflwch ar gyfer Swyddogion Hwyluso Achosion (a gaiff ei reoli gan adnodd awtomataidd) ar gyfer pob llys er mwyn eu galluogi i ymdrin â materion gweinyddol y tu allan i'r ystafell llys, trwy ohebiaeth neu gyfarfodydd.

Argymhelliad 111: Rwy'n argymell y dylai'r Uwch Farnwriaeth ddiweddaru'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol i roi arweiniad ar e-bost neu ddulliau cyfathrebu eraill i farnwyr trwy'r Swyddog Hwyluso Achosion a bod y cyrff proffesiynol yn rhoi arweiniad cyson a chlir ar sut i eirio negeseuon e-bost a anfonir at farnwyr, gan amlinellu'r dull priodol o gyfathrebu y tu allan i'r llys, a diogelu parch barnwrol a chynnal proffesiynoldeb.

Argymhelliad 112: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn ehangu pwerau awdurdodedig Swyddogion Hwyluso Achosion i'w cefnogi wrth hwyluso achosion.

Adnoddau Rheoli Achosion Digidol

101. Dylid ystyried yr argymhellion yn yr Adolygiad hwn fel pecyn ac nid fel cynigion ar wahân lle gellir bwrw ymlaen â rhai ac anwybyddu eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth imi archwilio effeithlonrwydd cynnydd achosion. Rwyf eisoes wedi dadlau dros benodi CPO penodol, ond heb system i gynorthwyo cynnydd a rheoli achosion, bydd eu rôl yn aneffeithiol gan na fydd y CPO yn gwybod statws presennol achosion a ble i gyfeirio eu hymdrechion i sicrhau bod yr achos yn barod.

102. Yn rhagarweiniad y bennod hon, rhannais fy mhryderon am y diwylliant canfyddedig yn y llysoedd troseddol, sef nad yw gweithwyr proffesiynol yn gweithredu gydag unrhyw frys i gwblhau'r hyn sydd ei angen arnynt, diffyg diwylliant cydymffurfio cyffredinol a dim ffordd o sicrhau atebolrwydd. Mewn ymgais i frwydro yn erbyn hyn, credaf y bydd ateb digidol i gefnogi CPOs yn eu

rolau yn helpu, ac y dylai hyn gynnwys mecanwaith atebolrwydd i sbarduno newid mewn diwylliant yn y Llysoedd.

103. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid echdynnu gwybodaeth am achosion â llaw o ffurflenni rheoli achosion. Mae hwn yn broses anodd sy'n arwain at ddefnydd aneffeithlon o amser gan nad yw gwybodaeth am achosion ar gael yn rhwydd, ac nid yw'r system yn ddigon greddfol i ddangos statws achos. Nid yw'r system bresennol ychwaith yn gallu coladu manylion cyswllt ar gyfer yr erlyniad a'r amddiffyniad, ac nid oes ffordd o olrhain pwy sy'n ymwneud ag achos.

104. Mae'r systemau digidol sy'n bodoli yn llysoedd yr ynadon a Llys y Goron yn wahanol iawn. Yng llys yr ynadon, mae'r Platfform Cyffredin yn gweithredu fel cabinet ffeilio, dyddiadur a system ganlyniadol, yn llythrennol. Ar y llaw arall, yn Llys y Goron, mae'r System Achosion Digidol (DCS) yn dal gwybodaeth am yr achos yn unig; nid yw'n cefnogi datblygiad achosion nac yn trefnu gwrandawiadau. O ganlyniad, nid oes dull addas i bawb o ran diweddaru systemau i ofyn am yr un gweithgarwch.

105. Dros 18 mis, bu GLlTEF yn gweithio gyda chefnogaeth Ei Anrhydedd y Barnwr Edmunds CB i ddatblygu'r Platfform Cyffredin fel y gallai weithredu fel adnodd digidol rhyngweithiol ar gyfer cynnydd achosion, y gall yr amddiffyniad a'r erlyniad gael mynediad ato a'i ddiweddaru. Deallaf fod y gwaith cychwynnol hwnnw wedi'i gwblhau ond bod cynlluniau wedi'u diwygio oherwydd pryderon ynghylch gallu cyflawni'r rhaglen yn gyffredinol. Felly, penderfynodd GLlTEF gadw DCS ar gyfer Llys y Goron oherwydd ei boblogrwydd ac mae'n bwriadu gwella'r system, fel ei bod yn gweithio ochr yn ochr â'r Platfform Cyffredin, ac mae'n gweithio'n dda ar hyn o bryd.

106. Yng ngoleuni hyn, rwyf yn argymell bod GLlTEF yn dylunio a gweithredu system rheoli achosion a datblygu achosion ryngweithiol yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron i gefnogi datblygiad achosion effeithiol a chyson. Dylid dylunio'r adnodd hwn fel y gall dynnu'r wybodaeth allweddol o ffurflenni BCM, PET a PTPH i adrodd ar bwy sy'n ofynnol i ymgymryd â pha weithgaredd ac erbyn pryd. Dylai'r system

hon gasglu manylion cyswllt a chynnwys adnodd a fyddai'n galluogi CPO i greu adroddiadau perfformiad ar ba mor dda y cedwir at gyfarwyddiadau yn eu llys ac i nodi'r rhai sy'n methu â chydymffurfio.

107. Byddai'r adnodd hwn yn cynorthwyo atebolrwydd drwy nodi'n glir y rhai nad ydynt yn dilyn cyfarwyddiadau a gellir ei ddefnyddio i godi unrhyw bryderon perfformiad dro ar ôl tro gyda'r farnwriaeth. Dylai uwch staff y llys a'r farnwriaeth ddefnyddio'r mecanwaith adrodd hwn a theimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflwyno pryderon i'r LAA lle mae'r cwmnïau amddiffyn yn methu'n rheolaidd â chydymffurfio â darparu cymorth cyfreithiol troseddol. Mae prosesau adrodd presennol wedi'u hymgorffori ym mhob contract cymorth cyfreithiol fel bod, os adroddir bod cwmni sy'n darparu cymorth cyfreithiol troseddol yn perfformio'n wael, gall yr LAA ymchwilio a hystyried gweithredu priodol. Gellir defnyddio'r un mecanwaith i gasglu ac adrodd ar fethiannau mewn cydymffurfiad CPS i'w gwneud ar gael i'r Uwch-erlynydd y Goron perthnasol.

108. Mae'r argymhelliad hwn yn mynd i'r afael â'r heriau yr wyf wedi'u nodi drwy gydol y bennod hon ynghylch diffyg cyfathrebu rhwng ymarferwyr, diffyg atebolrwydd ac oedi wrth symud achos yn ei flaen. Dadleuais ei bod yn annheg gweithredu system newydd, yn enwedig un a fyddai'n dwyn partïon i gyfrif, heb ddigon o gymorth a hyfforddiant i ddeall beth sy'n ofynnol ganddynt. Felly, argymhellaf, ochr yn ochr â gweithredu unrhyw system ddigidol, fod GLlTEF yn sicrhau hyfforddiant cadarn ar draws ystad y llys i warantu defnydd effeithiol o adnodd cynnydd achos.

Argymhelliad 113: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn datblygu ac yn gweithredu adnodd digidol rhyngweithiol ar gyfer hwyluso achosion ar gyfer llysoedd ynadon a Llys y Goron, i gefnogi'r ymdrech i hwyluso achosion mewn modd mwy effeithiol a chyson a sicrhau atebolrwydd am gadw at gyfarwyddiadau. Dylai staff y llys gael hyfforddiant i gefnogi'r defnydd effeithiol o adnodd o'r fath, a dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod y farnwriaeth hefyd yn cael hyfforddiant addas ar hyn.

Dull gweithredu ar ôl PTPH

109. Cyflwynwyd y PTPH fel conglfaen Rheoli Achosion yn Well, a'i gynllunio i sicrhau bod achosion yn cael eu paratoi'n briodol a bod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl. Mae Llawlyfr Adfywio BCM (2023) yn nodi y dylid rhestru Gwrandawiadau Rheoli Achosion Pellach (FCMHs) dim ond pan fo angen – fel arfer i gymryd newid ple neu i roi cyfarwyddiadau sy'n hanfodol ar gyfer treial effeithiol.[101] Y bwriad yw lleihau gwrandawiadau diangen, annog ymgysylltiad cynnar a sicrhau bod treialon yn mynd rhagddynt ar y dyddiad a restrwyd.

110. Mae tystiolaeth a nodir yn y Llawlyfr yn cefnogi gwerth Gwrandawiad Rheoli Achos Pellach (FCMH) wedi'i dargedu yn fuan ar ôl dyddiad Cam Dau, yn enwedig lle mae risg o ddatgysylltu neu oedi.[102] Os cânt eu defnyddio'n synhwyrol, gall gwrandawiadau o'r fath leihau rhestrau ad hoc a chyfrannu at ostyngiad mewn treialon aneffeithiol. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol bod arfer yn amrywio'n sylweddol ar draws rhanbarthau, gyda rhai llysoedd yn rhestru FCMH lluosog yn rheolaidd fel mater o gwrs, waeth beth fo cymhlethdod yr achos neu hanes cydymffurfio.

111. Trwy ymgysylltu ag ymarferwyr a staff y llys, rwyf wedi clywed am achosion lle mae barnwyr, sy'n pryderu am gydymffurfiaeth wael â chyfarwyddiadau, wedi mabwysiadu arfer o drefnu FCMHs ym mhob cam o'r achos. Er bod hyn yn adlewyrchu ymrwymiad clodwiw i reoli achosion yn weithredol, mae hefyd yn gosod baich sylweddol ar adnoddau'r llys. Ar ddiwedd 2024, mae gwybodaeth reoli GLlTEF yn awgrymu bod nifer y gwrandawiadau rhagarweiniol yn Llys y Goron wedi cyrraedd uchafbwynt o ychydig dros 10,000 yr wythnos (gweler Ffig.

101


102

7.5 isod).[103] Rhwng 2021 a 2024, roedd y cynnydd yn nifer y gwrandawiadau rhagarweiniol yn fwy na mathau eraill o wrandawiadau. Yn 2024, roedd tua 215,000 (80%) yn fwy o wrandawiadau rhagarweiniol nag yn 2021.[104] Mae pob gwrandawiad ychwanegol yn defnyddio amser barnwrol gwerthfawr, yn gofyn am bresenoldeb partïon ac yn cyfrannu at y nifer cynyddol o wrandawiadau fesul datrysiad – yn enwedig mewn achosion lle mae ple dieuog wedi'i gofnodi.

Figure 7.5

Number of hearings by type in the Crown Court, per week

England and Wales, 2020 - 2025



The dips coincide with Christmas/New Year bank holidays when there are fewer hearings, with the smaller dips throughout the year also showing other bank holidays.

Source: HMCTS management information (unpublished)

112. Fel y nodir ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae nifer y gwrandawiadau fesul datrysiad wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r duedd hon yn anghynaladwy. Lle y gellir datrys materion drwy ohebiaeth neu ymgysylltu o bell, mae achos cryf dros wneud hynny. Mae goruchwyliaeth farnwrol yn parhau i fod yn hanfodol, ond rhaid ei harfer yn gymesur ac yn effeithlon. Rwyf wedi clywed yn

103

104

gyson y gellid rheoli llawer o dasgau gweinyddol a thasgau cynnydd achos y tu allan i'r ystafell llys, yn enwedig gan CPOs.

113. Nid dyrannu adnoddau yn unig yw'r her. Mae pob gwrandawiad diangen yn peryglu datgysylltiad gan ddioddefwyr a thystion, yn cynyddu costau ac yn cyfrannu at oedi. Mae hefyd yn tanseilio'r egwyddor o sicrhau ei fod yn gywir y tro cyntaf, sydd wrth wraidd BCM. Mae angen dull mwy effeithlon, gyda gwrandawiadau'n cael eu rhestru dim ond pan fo angen ac yn cael eu cefnogi gan ymgysylltiad cadarn y tu allan i'r llys, er mwyn adfer effeithlonrwydd a hyder yn y system. Felly, rwyf yn annog GLlTEF i gymeradwyo egwyddorion BCM y dylai treialon ddilyn y cyn-PTPH gydag Adolygiadau Cyn Treial a dylid defnyddio unrhyw FCMHs dim ond pan fo angen ac os na ellir datrys materion y tu allan i'r llys trwy ohebiaeth neu gyfarfodydd rhwng partïon.

114. Fel y nodir ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith), mae'r farnwriaeth yn gyfrifol am restru, a chaiff y swyddogaeth farnwrol hon ei harfer gan swyddogion rhestru ar ran y Barnwr Preswyl. Rhoddwyd gwybod i mi ei bod yn arfer cyffredin i restru gwrandawiadau ychwanegol yn unig fel ffordd o sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol ym maes y gyfraith yn cadw at gyfarwyddiadau ac, mewn rhai achosion, yn unig fel ffordd i eiriolwr yr amddiffyniad sicrhau cyfarfod â'i gleient. Er bod rhinwedd yn y mathau hyn o wrandawiadau i sicrhau atebolrwydd a chefnogi cynnydd achosion cymhleth iawn, nid yw'n fodel cynaliadwy gan ei fod yn cymryd amser gwerthfawr i'r farnwriaeth, mae'n gofyn am ymgysylltiad ychwanegol gan gyfreithwyr troseddol na chânt eu talu amdano, mae'n ychwanegu at nifer cyfartalog y gwrandawiadau fesul achos ac mae'n rhoi straen pellach ar PECS i ddod â diffynyddion i'r llys dro ar ôl tro.

115. Credaf y dylai'r defnydd arferol o PTPHs a FCMHs at y dibenion hyn ddod i ben. Mae angen sicrhau atebolrwydd gweithwyr proffesiynol cyfreithiol am gydymffurfio â gorchmynion barnwrol a rhwymedigaethau yn Rheolau Trefniadaeth Droseddol (CrimPR) a Chyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol a ffynonellau perthnasol eraill o gyfraith mewn ffyrdd eraill. Trwy gydol y bennod

hon rwyf wedi gwneud argymhellion i wneud y prosesau cynnydd achosion yn fwy syml, i sicrhau dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol o dan egwyddorion BCM ac i annog ymgysylltiad cynharach. Hyderaf y bydd y rhain, yn naturiol, yn arwain at fwy o lynu wrth gyfarwyddiadau barnwrol a rhwymedigaethau ehangach eiriolwyr mewn perthynas â chynnydd achosion.

116. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau hyn a newid arferion a diwylliant cyfredol, rwyf yn argymell bod Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol yn cael eu diweddaru i nodi y dylai Barnwyr warchod rhag rhestru achosion yn unig er mwyn sicrhau bod cynadleddau neu ymgysylltiad â chleientiaid yn gallu digwydd, neu i adolygu glynu wrth gyfarwyddiadau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.[105] Ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau), rwyf yn archwilio'r defnydd o fideo a fydd yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Bydd y newid hwn yn cryfhau ymhellach y neges bod cydymffurfio yn hanfodol i reoli achos ac yn rhoi eglurder ynghylch pryd y mae gwrandawiad yn angenrheidiol, ac am ba resymau. Mae'n hanfodol lleihau nifer y gwrandawiadau byr diangen sy'n digwydd yn Llys y Goron ledled y wlad, ac wrth wneud hynny leihau nifer y gwrandawiadau fesul achos.

Argymhelliad 114: Rwy'n argymell bod yr Uwch Farnwriaeth yn diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol i atal rhestru gwrandawiadau yn rheolaidd dim ond i sicrhau ymgysylltiad neu i gadw at gyfarwyddiadau.

Tystysgrif parodrwydd ar gyfer treial

117. Cyflwynwyd y Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial fel rhan o gyfres o ddiwygiadau o dan y Rheolau Trefniadaeth Droseddol (CrimPR) a BCM i fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd parhaus yn y llysoedd troseddol, yn fwyaf arbennig y nifer uchel o dreialon aneffeithiol a gohiriadau funud olaf. Fel y tynnwyd sylw ato'n gynharach yn y bennod hon, mae dros un rhan o bump o dreialon aneffeithiol yn ganlyniad i ddiffyg parodrwydd yr erlyniad neu'r amddiffyniad.

105

118. Y bwriad oedd sicrhau, erbyn i achos gael ei restru ar gyfer treial, bod yr holl gamau paratoi angenrheidiol wedi'u cwblhau, a bod y partïon mewn sefyllfa i fwrw ymlaen, a thrwy hynny wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau llys prin a lleihau tarfu i'r diffynyddion, dioddefwyr a thystion.

119. Mae'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial i'w chyflwyno pan fo achos yn cael ei werthuso fel un sy'n barod ar gyfer treial hyd eithaf gwybodaeth yr eiriolwr penodedig, tra bod Adolygiadau Cyn Treial, a restrir fel arfer dair i bum wythnos cyn y treial ac a gynhelir gan y Barnwr PTPH, yn cefnogi nodi a datrys unrhyw faterion sy'n weddill ac i gadarnhau parodrwydd ar gyfer y treial. Dywedir bod cynnwys Adolygiadau Cyn Treial o fewn gorchmynion PTPH yn cryfhau cynnydd achosion ac yn lleihau rhestrau ad hoc. Mae ffeilio'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial 28 diwrnod cyn y treial yn orfodol ar gyfer yr erlyniad a'r amddiffyniad, hyd yn oed os nad oes PTR wedi'i restru, ac yn gyffredinol mae'n ofynnol i eiriolwr yr amddiffyniad a'r diffynnydd fod yn bresennol.

120. O dan CrimPR 3.2[106] ac fel y'i hatgyfnerthwyd yn Llawlyfr Adfywio BCM, mae'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial i'w chwblhau a'i llofnodi gan yr eiriolwr treial a gyfarwyddwyd, sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol am gadarnhau bod yr holl baratoadau treial mewn trefn.[107] Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â chyfarwyddiadau, datrys materion treial a chadarnhau bod yr achos yn barod i symud ymlaen ar y dyddiad a drefnwyd. Bwriedir i'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial roi sicrwydd i'r llys bod y partïon yn barod, ac i gefnogi rheoli achosion barnwrol cadarn.

121. Er gwaethaf y fframwaith gweithdrefnol clir, rwyf wedi clywed ar lafar nad yw buddion bwriedig y Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial yn cael eu gwireddu'n llawn yn ymarferol. Thema gyson yn fy ymgysylltiad fu amlder yr achosion lle mae

---

106

107

eiriolwyr penodedig yn cael eu disodli yn y cyfnod rhwng cyflwyno'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial a dyddiad y treial. Mewn llawer o achosion o'r fath, mae'r eiriolwr sydd newydd ei benodi yn honni nad yw'r achos yn barod i symud ymlaen, er gwaethaf cyflwyno Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial yn flaenorol yn cadarnhau parodrwydd. Mae hyn yn aml yn arwain at geisiadau am amser paratoi ychwanegol, dad-restru diangen dyddiad gwreiddiol y treial a rhestru a wastraffwyd.

122. Mae nifer y treialon a ddad-restrwyd yn Llys y Goron oherwydd bod yr erlyniad neu'r amddiffyniad ddim yn barod wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, o tua 1,500 yn 2020 i 2,500 yn 2024. Fodd bynnag, mae cyfanswm nifer y treialon a ddad-restrwyd yn Llys y Goron hefyd wedi cynyddu felly mae cyfran y treialon a ddad-restrwyd oherwydd problemau parodrwydd a nodwyd wedi aros yn sefydlog rhwng 13% a 15%.[108]

123. Mae canlyniadau'r arfer hwn yn sylweddol. Mae pob treial a ddad-restrwyd nid yn unig yn gwastraffu amser gwerthfawr yn y llys, ond mae hefyd yn cael effaith ddofn ar ddioddefwyr a thystion, y mae llawer ohonynt efallai wedi trefnu eu bywydau yn ôl y disgwyliad o roi tystiolaeth ar ddyddiad penodol. Gall yr oedi sy'n deillio o hynny danseilio hyder yn y system cyfiawnder, cynyddu'r risg o golli tystion a chyfrannu at y llwyth achosion agored cynyddol yn Llys y Goron.

124. Mae'r rhesymau dros newidiadau aml mewn eiriolwyr a gyfarwyddwyd yn gymhleth ac â sawl agwedd iddynt. Maent yn cynnwys pwysau arferion rhestru, argaeledd cwnsler a realiti ariannol a threfniadol y Bar Troseddol. Fodd bynnag, mae absenoldeb disgwyliadau clir ar gyfer y broses drosglwyddo yn gwaethygu'r broblem, gan ganiatáu i oedi y gellir eu hosgoi barhau.

125. Er mwyn lleihau tarfu a sicrhau parhad, dylid osgoi newidiadau mewn eiriolwr treial ar ôl cyflwyno'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial cymaint â phosibl. Pan fydd newidiadau o'r fath yn anochel, dylai fod proses trosglwyddo glir ac orfodol.

108

Felly, rwy'n argymell y dylid ei gwneud yn ofynnol i eiriolwyr adolygu'r achos yn brydlon ar ôl eu penodi a hysbysu'r llys o unrhyw faterion cyn gynted â phosibl. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid dad-restru treial ar ôl llofnodi'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial, a rhaid i'r farnwriaeth reoli'r penderfyniad hwnnw'n gadarn. Credaf y bydd mabwysiadu'r dull hwn yn cynnal cywirdeb amserlen y treial, yn lleihau oedi diangen ac yn atgyfnerthu cyfrifoldeb personol eiriolwyr am barodrwydd eu hachosion. Er na fyddaf yn ei gynnwys mewn Argymhelliad, gallai fod yn briodol hefyd i'r Barnwr ei gwneud yn ofynnol i'r eiriolwr a lofnododd y Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial gyfiawnhau'r casgliad hwnnw.

Argymhelliad 115: Rwy'n argymell bod yr Uwch Farnwriaeth yn diweddaru'r Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol fel y dylid ei gwneud yn ofynnol i eiriolwr newydd ei benodi ar achos adolygu'r achos yn brydlon ar ôl ei benodi a chyflwyno hysbysiad ffurfiol i'r llys o unrhyw faterion sy'n weddill sy'n effeithio ar barodrwydd y treial cyn gynted â phosibl.

126. Bydd goruchwyliaeth farnwrol bob amser yn parhau i fod yn elfen graidd o gynnydd achosion. Mae Astudiaeth Achos T yn tynnu sylw at waith Llys y Goron Lerpwl wrth weithredu gweithdrefn adolygu dan arweiniad barnwrol ar gyfer achosion sydd wedi'u rhestru ar gyfer treial i benderfynu a ellir eu datrys heb dreial, neu os oes angen treial, maent yn corlannu'r ymarferwyr perthnasol trwy Wrandawiad Adolygu Terfynol (FRH) i sicrhau bod yr achos mor barod ar gyfer treial â phosibl. Mae hyn yn dangos gwerth prosesau cynnydd achosion wedi'u targedu a rhagweithiol.

Astudiaeth Achos T: Gwrandawiadau Adolygu Terfynol Llys y Goron Lerpwl

Mewn ymateb i heriau gyda chyfranogiad barnwrol yng nghynnydd achosion, mae Llys y Goron Lerpwl wedi datblygu gweithdrefn adolygu dan arweiniad y farnwriaeth ar gyfer achosion sydd wedi'u rhestru ar gyfer treial. Mae hyn yn arwain, lle bo'n briodol, at Wrandawiad Adolygu Terfynol (FRH). Mae'r weithdrefn yn berthnasol i bob achos sydd wedi'i restru ar gyfer treial, ac eithrio achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol, twyll cymhleth, ac achosion sy'n cynnwys marwolaeth.

Mae'r broses yn dechrau gydag adolygiad ar sail dogfennau gan Farnwr yn dilyn derbyn Tystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial a chyn dyrannu i'r rhestr sefydlog (wyth diwrnod fel arfer cyn wythnos y treial). Pwrpas yr adolygiad hwn yw: nodi achosion y gellir eu datrys heb fod angen treial, a sicrhau bod unrhyw faterion a ddatgelwyd yn y Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial neu sy'n amlwg o bapurau'r achos yn cael sylw. Pan fo'r Barnwr sy'n adolygu o'r farn bod gwrandawiad yn angenrheidiol, caiff yr achos ei restru ar gyfer FRH, y mae'n ofynnol i ddiffynyddion ac eiriolwyr treial a gyfarwyddwyd fynychu.

Mae swyddogion rhestru yn cysylltu â CPS, cynrychiolwyr yr amddiffyniad, a siambrau i sicrhau presenoldeb. Yn y Gwrandawiad Rheoli Achos Terfynol, gall y llys roi proses Goodyear neu ystyried unrhyw sail ple a gynigir. Os nad yw datrysiad yn bosibl, defnyddir y gwrandawiad i gyfyngu neu ddatrys materion treial sy'n weddill, gan sicrhau bod yr achos yn barod i symud ymlaen ar y dyddiad a restrwyd.

Mae data rhagarweiniol o Lerpwl yn dangos, rhwng Hydref 2024 a Hydref 2025, bod tua 53% o'r 684 o achosion a adolygwyd wedi'u nodi ar gyfer FRH, ac o'r rhain datryswyd 51% cyn y treial.* Er bod angen gwerthuso ymhellach ar y ffigurau hyn, maent yn awgrymu bod y broses FRH yn effeithiol wrth leihau nifer y treialon aneffeithiol a gwella parodrwydd ar gyfer treial.

* O 07/10/2024 tan 17/10/2025.

127. Mae model Lerpwl yn cyd-fynd ag egwyddorion BCM ond mae'n cynnig defnydd mwy effeithlon o amser barnwrol trwy gadw gwrandawiadau ar gyfer achosion lle mae gwir angen iddynt. Mae'n dangos y gall goruchwyliaeth farnwrol ar sail

ddesg, gyda chefnogaeth ymgysylltiad rhagweithiol gan bartïon, sicrhau canlyniadau gwell heb gynyddu'r baich ar y llys. Ar ben hynny, mae rhan o lwyddiant y model hwn yn deillio o benderfyniad y Barnwr Preswyl i wella effeithiolrwydd treialon a'r berthynas gref â swyddogion rhestru i'w galluogi i weithio'n greadigol. Ym Mhennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol), rwy'n trafod gwerth sicrhau bod Barnwyr Preswyl yn cael eu cefnogi yn eu rolau i oruchwylio prosesau a pherfformiad y llys.

128. Pe bai GLlTEF yn gweithredu fy argymhelliad ar CPOs yn Llys y Goron, gallai'r swyddogion hynny ymgymryd â'r cyfrifoldeb am benderfynu a oes angen FRH ac am drefnu gwrandawiad o'r fath mewn partneriaeth â'r swyddog rhestru. Byddai hyn yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n parhau i fod yn unol â disgrifiadau swyddi, ac na fydd adnoddau'n cael eu gorlwytho. Gallai CPOs weithio gyda'r partïon cyfrifol a gofyn am i'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial gael ei llofnodi a'i rhoi ar gael i'r llys – gallai hyn hefyd fynd i'r afael â heriau ynghylch newid eiriolwyr a phenderfynu a yw'r llys yn barod.

129. Mae'r model hwn yn cynnig dull addawol o wella parodrwydd ar gyfer treialon a lleihau treialon aneffeithiol trwy ymyrraeth farnwrol wedi'i thargedu, a chredaf ei bod yn bwysig dysgu gwersi o enghreifftiau o arfer gorau. Felly, byddwn yn argymell bod y Swyddfa Farnwrol yn ystyried cyflwyno'r cynllun hwn yn genedlaethol, pe bai canfyddiadau'r cynllun peilot yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Argymhelliad 116: Rwy'n argymell bod yr Uwch Farnwriaeth yn cyflwyno'r broses Gwrandawiadau Adolygu Terfynol yn genedlaethol, fel y'i treialwyd gan Lys y Goron Lerpwl, yn amodol ar werthusiad cadarn.

Casgliad

130. Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at y problemau sy'n gysylltiedig â rheoli achosion a chynnydd achosion yn y llys ynadon a Llys y Goron. Mae paratoi a rheoli achosion gwael yn cael effaith sylweddol ar allu'r llysoedd i weithredu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae astudiaethau achos enghreifftiol drwy

gydol y bennod hon yn dangos lefelau aneffeithiolrwydd cyfredol wrth baratoi achosion, ond hefyd enghreifftiau o ble mae ardaloedd lleol yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn a gwella'r broses.

131. Ar ddechrau'r bennod hon, galwais am ail-ddrafftio Rheolau Trefniadaeth Droseddol (CrimPR) gan fy mod i'n credu bod eu cymhlethdod yn atal cydymffurfiaeth, ac mae hynny'n cael effeithiau negyddol ar draws y system. Rwy'n gwneud argymhellion mewn perthynas â chryfhau dealltwriaeth o egwyddorion TSJ a BCM, a glynu wrthynt, y mae'n rhaid eu gweithredu os yw effeithlonrwydd yn y system gyfan i'w fynd i'r afael â hi. Fodd bynnag, mae'r her sylfaenol o ran deall y CrimPR a'u cymhwyso'n briodol wrth wraidd y problemau sy'n wynebu'r system.


132. Bydd fy argymhelliad i gyflwyno CPOs yn llysoedd ynadon a Llys y Goron hefyd yn cefnogi cynnydd achosion gweithredol drwy gymryd cyfrifoldeb am gydlynu gwahanol weithwyr proffesiynol a sicrhau bod achosion yn barod ar gyfer treialon. Dylai atebion digidol gefnogi eu rolau i awtomeiddio prosesau, lleihau'r baich gweinyddol a sicrhau bod camau'n cael eu cwblhau gan yr ymarferwyr priodol. Byddai cyflwyno CPOshefyd yn rhyddhau amser cynghorwyr cyfreithiol i'w galluogi i ganolbwyntio ar eu rôl wrth gefnogi ynadon. I ategu hyn, rwyf hefyd wedi gwneud argymhellion i gynyddu pwerau cynghorwyr cyfreithiol, gan eu galluogi'n well i eistedd mewn llysoedd NGAP a chefnogi cynnydd achosion.

133. Mae angen ymdrech wedi'i dargedu gan bob parti i ymgysylltu â pharatoi achos, ac rwyf yn gwneud argymhellion gyda'r nod o sicrhau bod ffurflen BCM yn cael ei chwblhau, bod gofynion cyn-PTPH yn cael eu bodloni a sicrhau parodrwydd drwy'r Dystysgrif Parodrwydd ar gyfer Treial. Er mwyn cefnogi mabwysiadu'r mesurau hyn, rwyf yn cynnig Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol newydd.

134. Mae rheoli achosion barnwrol hefyd yn bwysig fel yr elfen olaf o wella paratoi ar gyfer gwrandawiad a rheoli achosion parhaus. Mae'r Barnwyr yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad achosion, yn enwedig gyda'u cyfrifoldeb am restru. Felly, mae'n hanfodol eu bod yn canolbwyntio ar weithredu egwyddorion BCM a TSJ ar

gyfer y Llysoedd priodol y maent yn eistedd ynddynt. Rwyf wedi argymell eu bod yn cael eu cefnogi gyda hyfforddiant ar weithredu'r prosesau hyn a bod prosesau ffurfiol ar waith i gefnogi cyfathrebu â Barnwyr.

Ffigur 7.6. Map polisi yn delweddu nodau bwriadedig yr argymhellion a gyflwynir ym Mhennod 7



Some recommendations will also affect cross-system efficiency drivers, which are not included in this policy map

135. Mae Ffigur 7.6 yn dangos ar ffurf llun sut y disgwylir i'r argymhellion ddylanwadu ar ganlyniadau ar draws y system ac effeithio ar y metrigau effeithlonrwydd allweddol.

136. Fel y soniais yn y bennod hon, mae llwyddiant rhai o'r argymhellion hyn, er enghraifft cyflwyno CPOs, yn dibynnu ar argymhellion eraill, megis adnodd cynnydd achosion rhyngweithiol, yn cael eu dwyn ymlaen. Ni ddangosir y berthynas rhwng yr argymhellion hyn yma, ond mae'n annhebygol y bydd y

canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu gwireddu heb i'r argymhellion hyn gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'i gilydd. Dylid defnyddio'r diagram hwn fel fframwaith darluniadol i asesu effaith bosibl yr argymhellion hyn, gan nodi bod ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar effeithlonrwydd na ellir eu cyfleu yma.

137. Os bydd yn llwyddiannus, byddai gwneud newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol a sicrhau bod gan staff adnodd cynnydd achosion rhyngweithiol y maent wedi'u hyfforddi'n briodol arno ac wedi'u grymuso i'w ddefnyddio yn helpu i wella cynnydd achosion, gan arbed amser ac adnoddau barnwrol i helpu i gyflymu amser gwrandawiad fesul achos. Nod gwella ansawdd ffurflenni BCM a PTPH a sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n gyson yw gwella parodrwydd ar gyfer treial gan wneud gwrandawiadau'n effeithiol a thrwy hynny leihau amser gwrandawiad fesul achos. Yn olaf, bwriedir i argymhellion sy'n anelu at wella parodrwydd ar gyfer treial a lleihau rhestrau gwrandawiadau diangen leihau nifer y treialon aneffeithiol a nifer y gwrandawiadau fesul achos, a ddylai i gyd gyfrannu at leihau amser gwrandawiad fesul achos.

Pennod 8 – Cyfranogiad o Bell

Cyflwyniad

1. Mae'r defnydd o gyfathrebiadau digidol wedi esblygu dros y degawd diwethaf i fod yn brif fodd cyfathrebu ar draws y gymdeithas. Mae platfformau galwadau fideo wedi dod yn rhan annatod o fywyd personol a phroffesiynol. Cafodd y newid hwn ei gyflymu'n sylweddol gan pandemig COVID-19 a orfododd unigolion, busnesau, a'r system cyfiawnder troseddol yn wir, i fabwysiadu cyfathrebu o bell ar lefel digynsail.[109] Ers hynny, mae wedi parhau i fod yn adnodd hanfodol, gan wreiddio rhyngweithio digidol yn ddyfnach i'n trefn ddyddiol ac ail-lunio disgwyliadau o sut mae pobl yn cysylltu.

2. Yn fy Adroddiad yn 2015, trafodais y cyfleoedd yr oedd datblygiadau mewn technoleg fideo[110] a sain yn eu cyflwyno ar gyfer y llysoedd troseddol.[111] Nodais wyth rhagofyniad hanfodol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw i ganiatáu cynnydd mewn defnyddio gwrandawiadau o bell. Roedd y rhain yn cynnwys: offer o ansawdd uchel, recordio a mynediad digidol, achosion i gael eu 'ciwio', cynnwys eiriolwyr a gyfarwyddwyd ar gyfer y gwrandawiad sylweddol, cyfleusterau fideo mewn carchardai, dangos arddangosion, hyfforddiant, a chadw difrifoldeb yr achos. Trwy gydol yr Adolygiad hwn, rwyf wedi bod yn falch o weld bod datblygiadau sylweddol wedi'u gwneud mewn llawer o'r meysydd hyn dros y degawd diwethaf, y trafodaf yn fwy manwl isod.

3. Yn erbyn y cefndir hwn y credaf fod cyfleoedd clir bellach i ddefnyddio cyfranogiad o bell yn fwy, mewn rhai mathau o wrandawiad ac ar gyfer rhai cyfranogwyr, i hybu effeithlonrwydd ar draws y broses cyfiawnder troseddol. Yn

---

109

110

111

ogystal â'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi llywio fy holl argymhellion yn yr Adolygiad hwn, rwyf wedi ystyried set ychwanegol o ffactorau yn benodol mewn perthynas ag ehangu'r defnydd o fideo. Yn gyntaf, rwyf wedi gwahaniaethu rhwng treialon a gwrandawiadau eraill. Yn ail, rwyf wedi gwahaniaethu rhwng cyfranogwyr proffesiynol (bargyfreithwyr, cyfreithwyr, tystion arbenigol, heddlu) a chyfranogwyr amhroffesiynol. Yn drydydd, wrth ystyried diffynyddion, rwyf wedi ystyried gwahaniaethau yn seiliedig ar a ydynt ar fechnïaeth neu ar remand.

4. Rwyf hefyd wedi ystyried y gwahaniaeth rhwng gwrandawiadau rhannol o bell a gwrandawiadau llawn o bell. Rwyf wedi diffinio gwrandawiadau rhannol o bell fel y rhai lle gall rhai neu bob parti, ac eithrio'r farnwriaeth, ymddangos o bell. Yn yr achosion hyn, byddai'r farnwriaeth yn parhau i fod yn bresennol mewn ystafell llys a gallai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r achos barhau i fynychu'r llys yn bersonol. Mewn gwrandawiadau llawn o bell, byddai'r farnwriaeth hefyd yn ymddangos o bell, boed hynny o siambrau preifat neu ystafell gyfarfod arall yn adeilad y llys, gyda'r cyhoedd yn arsylwi achos trwy arsylwi o bell.

5. Wrth imi nodi, byddai gwneud mwy o ddefnydd o'r dechnoleg hon yn lleihau'r amser a gollir yn y llys, gan gynnwys: oherwydd oedi wrth gludo diffynyddion yn y ddalfa i ymddangos yn bersonol; trwy ryddhau capasiti yn y sector cyfreithiol a'r heddlu trwy leihau amser teithio ar gyfer ymddangosiadau personol y gellir ei ailfuddsoddi mewn gwaith hanfodol mewn mannau eraill; a thrwy ryddhau ystafelloedd llys lle mae gwrandawiadau'n hollol o bell y gellir eu hailgyfeirio i'r gwrandawiadau sy'n bwysig i'w cyflawni'n bersonol.

6. Yn y bennod hon, rwyf yn nodi yn gyntaf sut mae cyfranogiad o bell yn gweithredu yn y system bresennol ac yn trafod y cyfleoedd a'r risgiau y mae'r dechnoleg hon yn eu cyflwyno. Yna rwyf yn argymell ehangu cyfranogiad o bell ar gyfer gwrandawiadau penodol (gwrandawiadau cyntaf, gwrandawiadau rhagarweiniol a dedfrydu), ar gyfer diffynyddion ar remand (naill ai yn nalfa'r heddlu neu'r carchar) a gweithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad. Rwyf hefyd yn argymell y gellid cynnal atgyfeiriadau Gweithdrefn Un Ynad (SJP) o bell yn gyfan gwbl. Rwyf yn argymell y dylai aros yn rhagdybiaeth y cynhelir pob treial

arall wyneb yn wyneb, ac eithrio cyflwyno tystiolaeth gan rai tystion ac yn benodol gan yr heddlu a thystion proffesiynol eraill. Yn olaf, rwy'n gwneud argymhellion ar draws holl achosion llys troseddol mewn perthynas â defnydd cyfieithwyr o fideo a buddsoddiad parhaus yn y seilwaith sydd ei angen i gefnogi cyfranogiad o bell a defnyddio fideo ar gyfer croesholi wedi'i recordio ymlaen llaw.[112]

Y System Bresennol a Heriau

Deddfwriaeth

7. Mae deddfwriaeth wedi bod ar waith ers 2003 i ganiatáu defnyddio cysylltiadau fideo mewn achosion troseddol yn y llys. Mae Adran 51 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (fel y'i disodlwyd gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022) yn galluogi llysoedd i fynnu neu ganiatáu i berson gymryd rhan mewn achosion troseddol cymwys drwy gyswllt byw, gan gynnwys mewn gwrandawiadau rhagarweiniol, treialon (naill ai'n achosion diannod neu ar dditiad), dedfrydu, apeliadau a mathau eraill o wrandawiad a nodwyd.[113]

8. Caniatawyd arsylwi o bell ar wrandawiadau cyhoeddus am y tro cyntaf gan ddarpariaethau dros dro a ddeddfwyd gan Ddeddf y Coronafeirws 2020.[114] Dim ond ar gyfer gwrandawiadau fideo llawn neu sain llawn yr oedd hyn yn berthnasol. Diddymwyd y darpariaethau dros dro hyn a'u disodli gan drefn barhaol gyda phwerau ehangedig a ddarparwyd gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022[115] gyda chefnogaeth canllawiau ymarfer gan yr

---

112

113

114

115

Arglwydd Brif Ustus ar y pryd.[116] Mae hyn yn caniatáu i lysoedd a thribiwnlysoedd roi cyfarwyddiadau i ganiatáu arsylwi o bell ar wrandawiadau wyneb yn wyneb, hybrid a fideo neu sain yn gyfan gwbl.

9. Drwy'r holl newidiadau deddfwriaethol hyn, mae'r penderfyniad terfynol ynghylch a ddylai presenoldeb person fod yn bersonol neu o bell wedi'i adael i'r Barnwr sy'n gwrando ar yr achos. I gefnogi'r broses benderfynu hon, cyhoeddwyd canllawiau cenedlaethol pellach gan yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd yn 2022.[117]

Yn fyr, nododd hyn y dylai presenoldeb person yn y llys fod yn bersonol fel rhagosodiad, ond y gellid defnyddio fideo ar gyfer cyfranogiad o bell lle mae er budd cyfiawnder gwneud hynny. Mae fy argymhellion yn y bennod hon yn dadlau dros newid i gyfranogiad o bell fel rhagosodiad mewn rhai amgylchiadau, gyda phresenoldeb personol yn ofynnol dim ond yn yr amgylchiadau penodol hynny pan fo er budd cyfiawnder.

Defnyddio Fideo yn y Llysoedd

10. Nododd GLlTEF yn ddiweddar yn ei ddull cyfranogiad o bell uchelgais i ‘gefnogi pobl i gael mynediad at gyfiawnder pan fyddant ei angen a gwella sut y maent yn gwneud hynny’. Fel rhan o gyflawni’r gwaith hwn, mae wedi ymrwymo i ‘barhau i gefnogi, galluogi a darparu ar gyfer pobl i gymryd rhan ac arsylwi gwrandawiadau llys a thribiwnlys o bell’.[118]

11. Rwyf yn cydnabod bod cyfran o'r boblogaeth yn dal i gael eu heithrio'n ddigidol, ac y byddai cyfranogiad o bell yn her iddynt. Mae'n cynnwys rhai o aelodau mwyaf agored i niwed ac amddifad ein cymdeithas, gan gynnwys y rhai dros 65

116

117

118

oed ac aelwydydd incwm is.[119] Fel gyda fy holl argymhellion yn yr Adolygiad hwn, arweinir fy argymhellion mewn perthynas â chyfranogiad o bell gan yr egwyddorion o gynyddu cyfranogiad a chyflwyno achosion teg sy'n diogelu rhag canlyniadau anghymesur. At y diben hwn, mae'r argymhellion a wnaf yma naill ai'n ymwneud â diffynyddion ar remand yn nalfa'r heddlu neu'r carchar, lle y darperir caledwedd a chymorth addas gan staff hyfforddedig, neu i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol. Nid yw'r argymhellion yn ymwneud â diffynyddion ar fechnïaeth, a fyddai'n parhau i fynychu'r llys yn bersonol ar gyfer pob gwrandawiad, ac eithrio gyda chaniatâd y llys.[120]

12. O ran llysoedd troseddol, mae GLlTEF wedi buddsoddi'n sylweddol yn y caledwedd sydd ei angen ar gyfer cymryd rhan o bell mewn gwrandawiadau mewn ystafelloedd llys. Ar hyn o bryd, mae 95% o holl Lysoedd y Goron ac 84% o holl lysoedd ynadon wedi'u 'galluogi ar gyfer fideo'; mewn geiriau eraill, mae ganddynt yr offer wedi'i osod i ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn gwrandawiad neu dreial trwy gyswllt fideo.[121] Mae ansawdd yr offer hwn yn Llysoedd y Goron wedi'i wella trwy gyflwyno prosiect Esblygiad Sain Fideo Digidol (DAVE) ers 2021. Nod y prosiect yw disodli hen offer sydd mewn perygl o fethu a gwella ansawdd a dibynadwyedd gwrandawiadau o bell. Mae'n cynnwys monitorau mwy, meicroffonau ychwanegol a chamerâu ychwanegol i wella ansawdd y chwarae yn ôl yn yr ystafell llys. Hyd yn hyn, mae'r offer hwn ar waith ar draws 123 o ystafelloedd llys yn Llys y Goron.[122] Mae 31 o ystafelloedd llys Llys y Goron arall wedi'u hamserlennu ar gyfer uwchraddio yn ystod y flwyddyn ariannol

---

119

120

121

122

gyfredol.[123] Nodaf fod cynnydd wedi'i rwystro ar adegau trwy weithio o fewn cyfyngiadau adeiladau llys rhestredig.

13. Yn yr un modd, buddsoddwyd mewn meddalwedd a ddefnyddir i hwyluso cyfranogiad o bell mewn gwrandawiadau. Cyswllt Fideo Carchar i'r Llys (PCVL) oedd y system wreiddiol a gyflwynwyd a oedd yn darparu cyswllt caeedig rhwng carchardai a llysoedd i ddiffynnydd ar remand fynychu o bell. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn caniatáu i bartïon eraill, er enghraifft cyfreithwyr neu fargyfreithwyr, fynychu trwy gyswllt fideo oni bai eu bod o leoliad sefydlog arall, gan olygu bod angen iddynt fynychu'r llys yn bersonol. Cafodd y cyfyngiad hwn, ymhlith materion eraill, sylw drwy gyflwyno'r Platfform Fideo'r Cwmwl (CVP) ym mis Mai 2020. Gwnaed sawl diweddariad ers ei gyflwyno i ddechrau. Ochr yn ochr â buddsoddiad HMPPS mewn capasiti fideo dros y cyfnod hwn, mae hyn wedi arwain at fwy o gysylltiadau fideo bob blwyddyn ers 2020. Mae CVP yn caniatáu i gyfranogwyr ymuno o'u dyfeisiau eu hunain, gan roi llawer mwy o hyblygrwydd o ran ble maent pan fyddant yn gwneud hynny. Mae yna ymarferoldeb i gyfranogwyr adael prif ystafell y gwrandawiad i gael sgwrs breifat. Fodd bynnag, mae ailymuno â phrif ystafell y gwrandawiad yn aml yn gofyn i reolydd fideo eu hail-dderbyn â llaw – proses lletchwith sy'n aml yn cymryd llawer o amser.

14. Heb os, mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at welliannau sylweddol yn y dechnoleg a ddefnyddir i hwyluso cyfranogiad o bell. Nododd adroddiad gan Gyngor y Bar ar y symudiad i gyfranogiad o bell ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd fod gweithrediad gweithredol gwrandawiadau o bell ar draws pob Awdurdodaeth[124] wedi gwella'n sylweddol ers 2021 pan adroddodd 77% o fargyfreithwyr am broblemau technegol, ac erbyn 2023 roedd hyn wedi gostwng i

---

123

124

35%.[125] Fodd bynnag, mae data yn Arolwg Bywydau Gwaith Bargyfreithwyr 2023 yn awgrymu bod heriau gyda thechnoleg yn yr awdurdodaeth droseddol yn fwy cyffredin gyda 53.4% o fargyfreithwyr troseddol wedi adrodd eu bod wedi profi problemau technegol o'i gymharu â'r awdurdodaethau nad ydynt yn deulu ac nad ydynt yn droseddol gyda 22.4%.[126] Roedd bargyfreithwyr sy'n gweithio mewn meysydd ymarfer heblaw trosedd a theulu ddeng gwaith yn fwy tebygol o adrodd nad oedd problemau technegol yn yr arolwg hwn yn 2023, gan amlygu ymhellach yr amrywiad yn niogelwch technoleg ar gyfer gwrandawiadau o bell ar draws Awdurdodaeth.[127] Mae ymgysylltiad ychwanegol a gynhaliwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn wedi tynnu sylw'n rheolaidd at faterion parhaus o ran dibynadwyedd y dechnoleg a'i swyddogaeth gyfyngedig. Rwyf wedi clywed y byddai swyddogaeth ychwanegol i gefnogi negeseuon gwib a phroses ystafell ymneilltuo breifat fwy effeithlon (ystafell rithwir atodedig lle gall trafodaeth breifat rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol a'u cleient ddigwydd) yn hollbwysig wrth gefnogi cyfathrebu rhwng diffynyddion a'u cynrychiolwyr cyfreithiol pe bai cyfranogiad o bell i'w gynyddu. Heb hyn, mae perygl y bydd unrhyw enillion effeithlonrwydd a wneir o fwy o gyfranogiad o bell yn cael eu colli trwy fwy o ohiriadau neu oedi pan nad yw cwnsler wedi gallu cyfathrebu naill ai â'i gilydd neu â'u cleient cyn y gwrandawiad. Byddaf yn dychwelyd at y pwynt hwn yn nes ymlaen yn y bennod hon.

15. Mae heriau'n gysylltiedig â deall faint o gyfranogiad o bell sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y llysoedd troseddol ar hyn o bryd. Nid yw GLlTEF wedi casglu unrhyw ddata sylweddol ar y defnydd o fideo ers mis Chwefror 2023, ac er bod gwaith ar y gweill i wella'r sail dystiolaeth yn y maes hwn, mae'r data sydd ar gael i mi wedi

---

125

126

127

bod yn gyfyngedig.[128] At ddibenion yr Adolygiad hwn, felly, rwyf wedi cyfuno amrywiaeth o ffynonellau data i ddeall y tueddiadau eang o ran defnyddio fideo mewn gwrandawiadau llys cyn belled ag y bo modd, gan nodi'r cyfyngiadau. Yn bennaf, mae'r rhain yn: data nas cyhoeddwyd gan HMPPS ar gysylltiadau fideo carchar, dadansoddiad nas cyhoeddwyd gan GLlTEF ar gyfranogiad o bell yn Llys y Goron ac adroddiad Bar Troseddol 2024 ar gyfer mewnwelediad ehangach.

16. Yn sicr, mae cyfranogiad o bell yn y llysoedd wedi cynyddu ers fy Adroddiad yn 2015, gan gyrraedd uchafbwynt yn ystod pandemig COVID-19.[129] Yn yr awdurdodaeth droseddol yn benodol, ym mis Ionawr 2020, roedd 10% o holl wrandawiadau Llys y Goron yn cynnwys cyfranogiad o bell. Erbyn mis Mai 2020, roedd hyn wedi cynyddu i 69%.[130] Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd cyflym hwn, mae ei ddefnydd wedi lleihau'n sylweddol ers hynny.

17. Adroddodd Cyngor y Bar, yn 2023, fod 20% o wrandawiadau Llys y Goron a 16% o wrandawiadau llys ynadon yn cynnwys rhyw fath o gyfranogiad o bell.[131] Yn yr un modd, mae GLlTEF wedi cynnal rhywfaint o ddadansoddiad archwiliadol mewnol gan ddefnyddio'r rhestrau dyddiol a gynhyrchir gan Llys y Goron i bennu cyfran y gwrandawiadau y disgwylid iddynt ddefnyddio rhyw fath o gyfranogiad o bell. Mae'n dangos nad oes tuedd glir yn y canran o wrandawiadau a gynhelir o bell ar gyfer Llys y Goron ers 2023, gyda'r amcangyfrifon cyfran gwrandawiad o bell yn eistedd rhwng 20% a 30% yn fras yn fisol.[132] Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn dangos y defnydd amrywiol o gyfranogiad o bell ar draws gwahanol

---

128

129

130

131

132

fathau o wrandawiadau, gyda gwrandawiadau PTPH, rheoli achosion a gwrandawiadau dedfrydu yn fwyaf tebygol o gael eu cynnal o bell o'i gymharu â threial, apêl a gwrandawiadau torri amodau yn 2024.[133] Er fy mod yn deall y gallai gweithrediad gweithredol llysoedd fod wedi bod yn wahanol yn y cyfnod yn dilyn pandemig COVID-19, credaf fod y data hwn yn dangos bod potensial i gynyddu cyfranogiad o bell ar draws llysoedd troseddol yn y dyfodol, gan ddod â gwelliannau effeithlonrwydd trwy leihau oedi trosglwyddo PECS a rhyddhau ystafelloedd llys ar gyfer gwrandawiadau a threialon sy'n parhau i gael eu gwrando wyneb yn wyneb.

18. Mae'n werth nodi bod cyfranogiad o bell mewn awdurdodaethau sifil, teulu a thribiwnlysoedd yn sylweddol uwch nag yn y llysoedd troseddol. Mae cyfranogiad o bell wedi dod yn ddull diofyn ar gyfer llawer o wrandawiadau. Ers 2021, bu hyd yn oed 'rhanbarth' cwbl o bell ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Yn 2023, cynhaliwyd 57% o dribiwnlysoedd, 35% o wrandawiadau llys teulu a 21% o wrandawiadau llys sifil gyda rhywfaint o gyfranogiad o bell.[134]

Defnyddio Fideo mewn Carchardai

19. Buddsoddwyd hefyd mewn cyfleusterau fideo ar draws ystad y carchardai, sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd cyfranogiad o bell diffynyddion ar remand yn y ddalfa. Mae cyfleusterau PCVL wedi bod ar waith mewn carchardai ers i gyfranogiad o bell gael ei gyflwyno gyntaf. Fel y trafodwyd yn flaenorol, roedd y rhain yn darparu cyfleusterau sylfaenol i ddiffynyddion ar remand fynychu'r llys trwy fideo o'u carchar. Mae tair ar hugain o garchardai derbyn yn parhau i weithredu'r hen gyfleusterau PCVL.[135] Fodd bynnag, yn fwy

---

133

134

135

diweddar, mae HMPPS wedi buddsoddi mewn Canolfannau Cynadledda Fideo (VCCs), sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cyfranogiad o bell o ansawdd uchel a chyfaint uchel o garchardai i lysoedd (yn ogystal ag i weithwyr proffesiynol cyfiawnder eraill fel cynrychiolwyr cyfreithiol a phrawf). Ym mis Hydref 2025, roedd 18 o VCCs yn gweithredu mewn carchardai derbyn gyda dwy ganolfan arall yn cael eu hadeiladu. Mae gan HMPPS gynlluniau, yn amodol ar gytundebau ariannu sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad o Wariant, i gyflenwi naw VCC arall erbyn 2030.[136]

20. Yn ogystal â hyn, mae HMPPS wedi cyflwyno'r 'Gwasanaeth Archebu Cyswllt Fideo' (BVLS), gwasanaeth digidol sy'n symleiddio'r broses i lysoedd a thimau prawf hunan-archebu slot fideo yn uniongyrchol gyda charchardai sy'n gweithredu ar y gwasanaeth. Mae BVLS wedi'i gynllunio i gefnogi PCVLs a VCCs, ac mae'n darparu cyfleuster chwilio cywir i nodi ym mha garchar y mae carcharor yn cael ei gadw. Mae BVLS Llysoedd ar gael ar hyn o bryd mewn dros 400 o lysoedd ac 18 o garchardai, gyda phob tîm rhestru mewn llysoedd troseddol (a'r rhan fwyaf o awdurdodaethau eraill) yn cael mynediad.[137] Unwaith eto, mae gan HMPPS gynlluniau, yn amodol ar gyllid, i gynyddu mynediad i BVLS Llysoedd gan o leiaf bedair carchar bob blwyddyn hyd at 2029. Nod BVLS yw: hybu effeithlonrwydd gweithredol trwy leddfu'r baich gweinyddol o archebu cysylltiadau fideo ar lysoedd; lleihau'r rhwystrau i sicrhau slotiau fideo; a gwella cyfathrebu rhwng carchardai a llysoedd. Trwy fy ymgysylltiad â swyddogion rhestru fel rhan o'r Adolygiad hwn, mae'n amlwg ei fod yn cael yr effaith a ddymunir. Roedd swyddogion rhestru yn unfrydol o blaid yr effaith y mae wedi'i chael ac yn gefnogol iawn i gyflwyno pellach.

21. Nid yn unig y defnyddir galwadau fideo carchar i hwyluso ymddangosiadau llys, er mai dyma'r unig ddefnydd mwyaf ohonynt. Fe'u defnyddir hefyd i hwyluso

---

136

137

ymweliadau cyfreithiol, cyfarfodydd prawf, gwrandawiadau parôl ac ymweliadau swyddogol eraill (er enghraifft, cyfarfodydd â seicolegwyr a'r heddlu). Ar draws pob defnydd, bu tuedd gyffredinol ar i fyny yn nifer y galwadau fideo swyddogol a hwyluswyd gan garchardai yn y blynyddoedd diwethaf.[138] Gan edrych yn benodol ar alwadau fideo a ddefnyddir ar gyfer gwrandawiadau llys, rhwng Ebrill a Gorffennaf 2025 hwyluswyd dros 76,000 o wrandawiadau llys trwy alwad fideo, a oedd tua 8% yn fwy o gymharu â'r cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2024.[139]

Fodd bynnag, nid yw'r defnydd hwn wedi'i wasgaru'n gyfartal ar draws pob dydd gyda thua 30% o'r holl wrandawiadau llys (trwy gyswllt fideo carchar) yn cael eu cychwyn rhwng 10.00 a 11.00 a thua 20% rhwng 14.00 a 15.00.[140]

Defnyddio Fideo ar gyfer Cyfranogwyr Proffesiynol yn y Llys

22. Yn ogystal â chyfranogiad o bell gan ddiffynyddion ar remand, defnyddir cysylltiadau fideo hefyd i eraill gymryd rhan mewn gwrandawiadau o bell. Gall hyn gynnwys gweithwyr proffesiynol cyfreithiol ar gyfer yr erlyniad a'r amddiffyniad. Unwaith eto, mae rhywfaint o amrywiad yma i raddau helaeth oherwydd penderfyniadau barnwrol. Trafodwyd hyn yn adroddiad Cyngor y Bar a amlygodd lefel yr amrywiad rhwng canolfannau llysoedd.[141] Mae yna enghreifftiau hefyd o heddlu neu dystion proffesiynol eraill yn mynychu treialon trwy fideo, er bod y niferoedd yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Amrywiad Rhanbarthol

23. Wrth archwilio'r data sydd ar gael gan GLlTEF a HMPPS, mae'n amlwg bod amrywiad rhanbarthol sylweddol ar draws Cymru a Lloegr ar gyfer cyfranogiad o

---

138

139

140

141

bell. Mae data HMPPS yn tynnu sylw at yr amrywiadau rhanbarthol, gyda diffynyddion ar remand mewn carchardai derbyn yn mynychu rhwng 40% a 77% ar draws rhanbarthau o wrandawiadau cymwys drwy fideo.[142] Er bod rhanbarthau ar ben uchel yr ystod hon, ar gyfer contractau cyflenwyr PECS, mae gan HMPPS ragdybiaeth gynllunio genedlaethol o 60% o wrandawiadau cymwys drwy fideo ar gyfer pob math o garchar nad yw'r mwyafrif helaeth o ranbarthau yn ei gyrraedd, gan achosi cyfaint teithiau ychwanegol ar gyfer cyflenwyr PECS (rhwng Ebrill a Gorffennaf 2025, roedd y cyfartaledd cenedlaethol cyffredinol yn 52%).[143] Yn ogystal, mae dadansoddiad gweithredol mewnol GLlTEF gan ddefnyddio data rhestru Llys y Goron hefyd yn awgrymu amrywiad ar draws rhanbarthau ar gyfer gwrandawiadau Llys y Goron yn gyffredinol.[144] Er bod rhai cyfyngiadau ar gapasiti ar gyfer cysylltiadau fideo yn dibynnu a oes gan ranbarth fwy o garchardai gyda VCC neu PCVL, nid yw hyn yn ymddangos yn cyd-fynd â'r data rhanbarthol ar ddefnyddio fideo ar gyfer gwrandawiadau cymwys.

24. Mae HMPPS yn gweithio'n weithredol gyda charchardai a llysoedd yn y rhanbarthau hyn i nodi a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gyrru dewisiadau lleol ar gyfer cynyrchiadau wyneb yn wyneb. Yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, mae hyn wedi cynnwys sefydlu tîm GLlTEF–HMPPS ar y cyd i adolygu a herio ceisiadau cynhyrchu carcharorion gan lysoedd er mwyn sicrhau bod cyfranogiad o bell yn cael ei wneud i'r eithaf (gweler Astudiaeth Achos U). Mae'r tîm hwn yn dangos yr effaith gadarnhaol a all ddod o weithio'n agosach rhwng GLlTEF a HMPPS. P'un a yw ar y ffurf hon neu ffurf arall, mae gweithio'n agos rhwng y ddau bartner

142

143

144

cyfiawnder troseddol hyn yn hanfodol i lwyddiant yr argymhellion yn y bennod hon.

25. Yn y pen draw, penderfyniad barnwrol yw'r penderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu cyfranogiad o bell mewn gwrandawiad neu dreial. Trwy waith ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn, rwyf wedi clywed am yr amrywiaeth eang o safbwyntiau ar gyfranogiad o bell o fewn y farnwriaeth ac nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod hyn yn ffactor sylweddol sy'n cyfrannu at yr amrywiad

Astudiaeth Achos U: Tîm Cyswllt Fideo Carchar â Llys (PCVL) Gogledd-ddwyrain Lloegr

Sefydlwyd tîm PCVL Gogledd-ddwyrain Lloegrfel menter ar y cyd rhwng GLlTEF a HMPPS mewn ymateb i ymgyrch genedlaethol i wella'r defnydd o gysylltiadau fideo carchar yn dilyn fy Adroddiad 2015. Mae'r tîm yn unigryw ledled Cymru a Lloegr ac mae'n gweithio gyda thimau rhestru GLlTEF a charchardai HMPPS ar draws rhanbarthau Gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a Humber i wneud y defnydd gorau o gysylltiadau fideo ar gyfer gwrandawiadau llys. Mae'n gwneud hynny trwy feithrin perthnasoedd cryf â llysoedd a charchardai a herio a chydlynu amseriad gwrandawiadau gydag argaeledd slotiau fideo. Mae hefyd yn herio unrhyw geisiadau cynhyrchu ar gyfer diffynyddion lle nad oes rheswm clir bod angen presenoldeb personol ac yn trosi llawer o'r rhain yn gyswllt fideo.

Mae gwaith y tîm hwn wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar wella'r defnydd o gysylltiadau fideo carchar yn y rhanbarth. Yn y pedwar mis o fis Mehefin 2025, fe wnaethant herio a throsi (gyda chytundeb Barnwrol) dros 460 o gynyrchiadau llys wyneb yn wyneb yn llwyddiannus i wrandawiadau fideo. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 116 o orchmynion cynhyrchu y mis, neu bron i 1400 o orchmynion cynhyrchu y flwyddyn yn cael eu trosi i gyswllt fideo.

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli GLlTEF heb ei gyhoeddi.

rhanbarthol a welir.

26. Mae ymgyrchwyr dros ddioddefwyr a thystion wedi mynegi cefnogaeth i nifer uwch o wrandawiadau syml, di-dreial i gynnwys cyfranogiad o bell er mwyn cyflymu proses y llys. Er enghraifft, yn ei chyflwyniad i'r Adolygiad hwn, galwodd

Claire Waxman (Comisiynydd Dioddefwyr Annibynnol Llundain) am ‘waith meddwl trawsnewidiol’ yn y maes hwn, gan awgrymu y gellid cynnal achosion remand a gwrandawiadau ple euog syml o bell, gyda mwy o hyblygrwydd i wrando achosion mewn rhannau o'r wlad lle mae mwy o gapasiti a gweithredu y tu hwnt i oriau eistedd llys traddodiadol.

27. Ar ôl nodi i ba raddau y mae'r llysoedd troseddol yn defnyddio fideo ar hyn o bryd ar gyfer cymryd rhan o bell, credaf fod dau ffactor y mae'n rhaid eu hystyried cyn cynyddu'r defnydd o gymryd rhan drwy fideo yn y dyfodol. Yn gyntaf, rhaid rhoi sylw i'r mathau o wrandawiadau y byddai'n briodol i bresenoldeb o bell ddigwydd ynddynt. Yn ail, rhaid rhoi sylw i'r cwestiwn pa gyfranogwyr yn y gwrandawiadau hyn y byddai presenoldeb o bell yn briodol iddynt. Yn y cyd-destun hwn, byddaf yn awr yn trafod risgiau a chyfleoedd cynyddu cymryd rhan o bell yn y llysoedd troseddol.

Risgiau a Chyfleodd Mwy o Ddefnydd o Gyfranogiad o Bell: Tystiolaeth sydd ar Gael

28. Mae'n hanfodol ystyried unrhyw effeithiau cyfranogiad o bell ar ansawdd cyfiawnder a sicrhau bod unrhyw risgiau yn y maes hwn yn cael eu lliniaru. Mae hwn yn fater hynod bwysig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion a nodais yn Rhan I ar wneud penderfyniadau teg a sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl. Rhaid pwysleisio bod y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn yn gyfyngedig; rhaid i gasglu a gwerthuso mwy o dystiolaeth fod yn elfen hanfodol o unrhyw becyn o argymhellion.

29. Mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng effeithiau tebygol cyfranogiad o bell o safbwynt gwahanol gyfranogwyr, gan gynnwys diffynyddion, cynrychiolwyr cyfreithiol a thystion proffesiynol; yr effeithiau ar wahanol fathau o wrandawiad; a'r manteision ar y llysoedd troseddol yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys arbedion capasiti posibl mewn ystafelloedd llys lle mae gwrandawiadau cwbl o bell yn briodol. Nodir isod dystiolaeth ar bob un.

Diffynnydd / Diffynyddion

30. Rwyf yn troi yn gyntaf at y dystiolaeth ar ddiffynyddion yn cymryd rhan o bell. Fel y dywedais eisoes, mae fy ystyriaethau yn y maes hwn yn ymwneud yn unig â'r diffynyddion hynny sydd yn y ddalfa, boed hynny mewn gorsaf heddlu neu garchar. Nid wyf yn ystyried bod cymryd rhan o bell yn briodol ar gyfer diffynyddion ar fechnïaeth, ac eithrio gyda chaniatâd eithriadol y llys. Mae'r dystiolaeth a drafodaf yma yn canolbwyntio'n benodol ar ddiffynyddion sy'n ymddangos o bell o orsafoedd heddlu ar gyfer y gwrandawiad cyntaf yn y llys ynadon ac o'r carchar ar gyfer gwrandawiadau di-dreial yn Llys y Goron.

31. Mae rhai o'r rhai rwyf wedi ymgysylltu â nhw yn ystod yr Adolygiad wedi mynegi pryder sylweddol am effaith cyfranogiad o bell diffynyddion yn y llys ynadon. Er enghraifft, mae Transform Justice wedi tynnu sylw at bryderon am gyfranogiad o bell yn cael effaith ar allu diffynyddion i ddeall achosion, ymgysylltu'n effeithiol a'r effaith bosibl ar ganlyniadau achosion.[145]

32. Mae dwy astudiaeth academaidd hefyd yn ystyried y gwrandawiad cyntaf yn y cyd-destun hwn. Ystyriodd gwerthusiad peilot yn 2010 a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder diffynyddion yn cymryd rhan o bell o'r orsaf heddlu, tra bod pob cyfranogwr arall yn ymddangos wyneb yn wyneb yn y llys ynadon.[146]

Canfuwyd gostyngiad sylweddol yn yr amser cyfartalog o gyhuddo i'r gwrandawiad cyntaf ac arbedion i gludiant carcharorion a chostau celloedd yr heddlu. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd bod y gyfradd pleon euog a dedfrydau o garchar yn uwch nag yn y gwrandawiad personol traddodiadol a nodwyd effeithiau negyddol ar ymgysylltiad amddiffyniad–CPS. Daeth gwerthusiad peilot yn 2020 a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Sussex (PCC) i gasgliadau tebyg, gan archwilio hefyd y defnydd o gysylltiadau fideo diffynyddion

---

145

146

yn y gwrandawiad cyntaf.[147] Yn benodol, canfuwyd: mwy o broblemau gydag ymgysylltiad rhwng yr amddiffyniad â'r cleient; roedd diffynyddion yn fwy tebygol o'u cynrychioli eu hunain; a bod tebygolrwydd cynyddol y byddai diffynyddion yn derbyn dedfryd o garchar. Canfu'r ddwy astudiaeth broblemau gydag ansawdd y dechnoleg oedd ar gael.

ddiffynyddion ac eiriolwyr deithio i'r llys. Gallai hyn ganiatáu i nifer o wrandawiadau byr gael eu rhestru cyn i'r treialon ddechrau yn nes ymlaen yn y bore am yr amser cychwyn arferol o 10.30. Byddai hyn yn lleihau tarfu ar achosion treial gan ganiatáu i eiriolwyr fynychu a fyddai fel arall yn cymryd rhan mewn treialon. Gyda mwy o oriau ar gael mewn diwrnod eistedd, dylai'r amser gwrandawiad cynhyrchiol o fewn hyn (amser gwrandawiad fesul diwrnod eistedd) gynyddu hefyd.

Argymhelliad 123: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn casglu ac yn cyhoeddi data ar y defnydd o fideo ar draws pob gwrandawiad llys a threial.

Data Cyfranogiad o Bell

89. Fel y trafodais eisoes, nid yw GLlTEF wedi casglu unrhyw ddata sylweddol ar gyfranogiad o bell ers mis Chwefror 2023. O'r herwydd, mae'n amhosibl deall yn sicr i ba raddau y mae'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol, heb sôn am ar draws gwahanol fathau o wrandawiadau ac ar gyfer gwahanol gyfranogwyr. Mae casglu'r data hwn yn hanfodol er mwyn monitro ehangu parhaus cyfranogiad o bell ar draws y llysoedd troseddol a deall yr effeithiau'n iawn. Felly, rwy'n argymell bod GLlTEF yn ailgychwyn casglu'r data hwn cyn gynted â phosibl.

Cyfieithu ar y Pryd

90. Byddaf yn trafod heriau argaeledd cyfieithwyr ac argymhellion mwy cyffredinol i fynd i'r afael â hyn yn fanwl ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau). Fodd bynnag, i grynhoi, mae heriau sylweddol gyda threfnu cyfieithwyr sy'n arwain at oedi neu ohirio gwrandawiadau. Tynnwyd fy sylw at y ffaith bod hyn yn broblem arbennig wrth ofyn am gyfieithydd 'iaith brin' lle mae niferoedd yn isel iawn ac yn

aml gall ofyn am deithio sylweddol gan y cyfieithydd i fynychu llysoedd ledled y wlad.[174]

91. Trwy ymgysylltu ar gyfer yr Adolygiad hwn, daeth yn hysbys i mi am gynllun peilot blaenorol a ddechreuwyd gan GLlTEF i ddarparu cyfieithu ar y pryd o bell drwy CVP ar gyfer diffynyddion ar remand.[175] Cafodd hyn ei gyflawni gan gyfieithwyr a oedd yn mynychu'r gwrandawiad llys neu'r treial drwy gyswllt fideo ac yn darparu cyfieithu ar y pryd yn uniongyrchol i'r diffynnydd a oedd hefyd yn ymddangos drwy gyswllt fideo. Amcanion y cynllun peilot hwn oedd: asesu dichonoldeb darparu cyfieithu ar y pryd drwy CVP ar gyfer achosion cyfreithiol; gwerthuso ymarferoldeb cynnal cyfieithu ar y pryd tra bod y diffynnydd yn y ddalfa; ac asesu ansawdd cyfieithu ar y pryd. Aeth y cynllun peilot cyn belled ag ymarfer efelychu unigol yn y llys, y cwblhawyd gwerthusiad cychwynnol ohono. Gwnaed nifer o argymhellion i wella'r broses a'r dechnoleg ymhellach wrth i'r cynllun peilot ddatblygu.

92. Rhoddwyd y cynllun peilot ar stop oherwydd cyfyngiadau capasiti GLlTEF, yn rhannol oherwydd llwyth gwaith a grëwyd gan ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi 'Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu yn y llysoedd'.[176] Fodd bynnag, deallaf fod awydd cryf gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot iddo ailddechrau pan fo hynny'n bosibl.

93. Felly, rwyf am gymeradwyo ailgyflwyno'r cynllun peilot hwn. Er y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob iaith, mae ganddo fanteision penodol i ddiffynyddion o

Argymhelliad 124: Rwy'n argymell y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a'r farnwriaeth ailgyflwyno eu cynllun peilot 'Cyfieithu ar y Pryd drwy Blatfform Fideo'r Cwmwl ar gyfer Diffynyddion ar Remand'.

174

175

176

gefndir ethnig amrywiol sydd angen cyfieithu ar y pryd ar gyfer iaith brin er mwyn cael treial teg. Trwy ganiatáu i gyfieithydd fynychu trwy fideo, gellir lleoli cyfieithwyr ledled y wlad ac ni fydd gofyn iddynt deithio i ganolfan llys benodol. O ganlyniad, mae'n ehangu'r gronfa o gyfieithwyr sydd ar gael i'w harchebu gan unrhyw lys. Bydd defnyddio cyfranogiad o bell hefyd yn caniatáu trefnu gwrandawiadau sydd angen cyfieithwyr yn fwy hyblyg, gan alluogi llysoedd i fwrw ymlaen ag achosion yn gynt, lleihau gohiriadau a lleihau gwastraff adnoddau.

Buddsoddiad mewn Seilwaith

94. Mae angen clir am fuddsoddiad parhaus mewn technoleg i gefnogi'r defnydd cynyddol o gyfranogiad o bell a fyddai'n deillio o'r argymhellion hyn. Fel y trafodais ym Mhennod 1 (Cyflwyniad), rwyf yn ymwybodol y bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad ariannol sylweddol.

95. Yn gyntaf, mae angen i GLlTEF barhau i fuddsoddi yn y caledwedd i gefnogi cyfranogiad o bell. Fel y trafodais eisoes, mae'r broses o gyflwyno DAVE hyd yma wedi arwain at gynnydd sylweddol a chroesawgar yn y maes hwn ar draws ystad y llysoedd troseddol. Rhaid i hyn barhau i gefnogi mwy o ddefnydd o fideo a sicrhau'r ansawdd uchaf o gyfranogiad o bell.

96. Mae cael technoleg sy'n gweithio yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod cyfweliadau ABE (y byddaf yn trafod yn fanylach ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau) yn cael eu chwarae'n ôl yn gywir. Bydd ehangu'r defnydd o DAVE yn caniatáu i system safonol gymryd lle offer chwarae hen ffasiwn neu anghyson, gan leihau oedi a achosir gan unrhyw DVDs ddim yn gweithio, anghydnawsedd ffeiliau neu ddelweddau coll a sicrhau na effeithir yn andwyol ar ddioddefwyr gan fethiannau ac oedi wrth chwarae tystiolaeth yn ôl. Bydd buddsoddiad pellach yn DAVE hefyd yn cynorthwyo i chwarae recordiadau adran 28, y trafodaf ymhellach ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau). Mae chwarae digidol dibynadwy yn golygu llai o ohiriadau, gwrandawiadau llyfnach a chanlyniadau achosion cyflymach, gan fuddio holl gyfranogwyr y llys, yn enwedig tystion agored i niwed sy'n dibynnu ar dystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw.

97. Yn ogystal â chaledwedd, mae angen i GLlTEF fuddsoddi yn y feddalwedd a ddefnyddir i gynorthwyo cyfranogiad o bell. Trwy ymgysylltu ar gyfer yr Adolygiad hwn, rwyf wedi cael gwybod am brosiect cyfredol o fewn GLlTEF i adolygu CVP a phenderfynu a yw'n ddigonol ar gyfer holl anghenion cyfranogiad o bell, a ellir ei wella i fodloni unrhyw ofynion ychwanegol neu a oes angen cynnyrch gwahanol. Rwy'n cymeradwyo'r gwaith hwn a byddwn yn annog GLlTEF i ystyried a fyddai opsiynau amgen, gan gynnwys meddalwedd sydd ar gael yn fasnachol, yn darparu gwell ymarferoldeb ar gyfer y llysoedd troseddol. Fel yr eglurais yn flaenorol, mae ymarferoldeb ar gyfer negeseuon gwib ac ystafelloedd ystafell hollt breifat ar gyfer trafodaethau cwnsler-cleient, nodweddion safonol y rhan fwyaf o feddalwedd cynadledda fideo sydd ar gael yn fasnachol, yn hanfodol i wella'r cyfathrebu rhwng partïon cyn gwrandawiad gyda chyfranogiad o bell ac yn ystod gwrandawiad o'r fath.

98. Yn ail, mae angen i HMPPS barhau i fuddsoddi i symud cynlluniau ar gyfer cyflwyno rhagor o VCCs a BVLS yn eu blaen. Mae'r ddau brosiect hyn eisoes wedi profi'n effeithiol wrth gynyddu capasiti ar gyfer cyfranogiad o bell o garchardai ac wrth wella effeithlonrwydd prosesau gweinyddol o amgylch hyn. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai eu hehangu yn parhau i ddod â'r manteision hyn lle nad ydynt wedi'u gwireddu eto.

99. Yn olaf, bydd angen buddsoddiad gan y Swyddfa Gartref a'r heddlu mewn cyfleusterau i alluogi swyddogion heddlu i ddarparu tystiolaeth mewn treial o bell. Os bydd yr agwedd 'profi, dysgu a chostio' a argymhellir ar wrandawiadau cyntaf yn llwyddiannus, bydd angen buddsoddiad sylweddol hefyd mewn caledwedd mewn gorsafoedd heddlu i gefnogi niferoedd cynyddol o gysylltiadau fideo â'r llys, ochr yn ochr â chynnydd priodol mewn cyllid i gydnabod effeithiau adnoddau cefnogi gwrandawiadau o'r fath ar amser yr heddlu.

100. Drwy fuddsoddi mewn technoleg i gefnogi mwy o ddefnydd o gyfranogiad o bell ar draws y system cyfiawnder troseddol, bydd gwrandawiadau a threialon yn gallu bwrw ymlaen gyda llai o oedi a gohiriadau oherwydd methiannau technegol. Mae hefyd yn mynd i'r afael â phryderon a nodwyd yn gynharach yn y

bennod hon ynghylch sut mae cyfranogiad o bell yn effeithio ar ansawdd cyfiawnder. Drwy sicrhau bod y dechnoleg a ddefnyddir o safon uchel ac yn darparu'r holl ymarferoldeb sydd ei angen, bydd profiad holl ddefnyddwyr y llys yn gwella'n fawr.

Argymhelliad 125: Rwy'n argymell y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'r heddlu barhau i fuddsoddi mewn caledwedd a meddalwedd priodol i gefnogi holl argymhellion yr Adolygiad hwn. Dylai hyn gynnwys buddsoddiad parhaus a chyflwyniad 'Esblygiad Sain a Fideo Digidol', Canolfannau Cynadledda Fideo, y 'Gwasanaeth Archebu Dolenni Fideo' a'r cyfleusterau i'r heddlu roi tystiolaeth o bell ac i alluogi diffynyddion i ymddangos o bell yn y gwrandawiad cyntaf.

Casgliad

101. Yn y bennod hon rwyf wedi cyflwyno argymhellion ar sut y byddai cynyddu'r defnydd o gyfranogiad o bell yn cefnogi effeithlonrwydd gwell ar draws y system cyfiawnder troseddol. Pwrpas yr Adolygiad hwn, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, oedd gwneud argymhellion i wella effeithlonrwydd ac amseroldeb prosesau drwy gyhuddiad i euogfarn/rhyddfarn.

102. Fel yr esboniais yn y bennod hon, fy marn i yw, drwy gynyddu'r defnydd o gyfranogiad o bell, y bydd y galw ar gyflenwyr PECS yn cael ei leihau, gan ei gwneud hi'n haws cludo diffynyddion i'r llys mewn pryd pan fyddant yn ofynnol i fynychu'n bersonol. Bydd capasiti gweithwyr proffesiynol cyfreithiol hefyd yn cynyddu drwy ddileu neu leihau eu hamser teithio a chefnogi gweithio mwy hyblyg. Gallai ehangu oriau dyddiau eistedd Llys y Goron ar gyfer y CCBD alluogi rhestru gwrandawiadau yn gynharach yn y dydd a fyddai wedyn yn cynyddu amser gwrandawiad fesul diwrnod eistedd. Dylai buddsoddi ymhellach mewn caledwedd a meddalwedd yn y llysoedd i gefnogi'r argymhellion hyn alluogi gwrandawiadau llyfnach a llai o ohiriadau, gan leihau'r amser gwrandawiad fesul

achos. Yn olaf, mae cyfle drwy wrandawiadau cwbl o bell i symud gwrandawiadau allan o ystafell llys, a thrwy hynny gynyddu capasiti ar gyfer treialon a gwrandawiadau personol eraill, a rhoi cyfle ar gyfer mwy o hyblygrwydd daearyddol mewn perthynas â'r llys y rhestrir y gwrandawiadau hyn ynddo.

103. Er mwyn cyflawni potensial llawn y diwygiadau hyn, rwyf yn argymell profi cynllun o wrandawiadau cyntaf yn llys ynadon yn cael eu cynnal yn rhannol o bell fel rhagosodiad, yn ogystal â gwrandawiadau atgyfeirio SJP yn hollol o bell. Rwyf hefyd yn argymell y dylid cynnal pob gwrandawiad rhagarweiniol (ac eithrio PTPHs) yn rhannol o bell fel rhagosodiad, gyda'r opsiwn ar gyfer gwbl o bell. Rwyf hefyd yn argymell y dylai heddlu a thystion proffesiynol fynychu treialon trwy gyswllt fideo, er y dylai pob parti arall ymddangos wyneb yn wyneb. Rwyf yn argymell, ar gyfer gwrandawiadau dedfrydu, y dylai diffynyddion ymddangos o bell oni bai bod datganiad effaith dioddefwr yn cael ei draddodi yn y llys. Ac yn olaf, rwyf yn argymell bod HMPPS, GLlTEF a'r heddlu yn parhau i fuddsoddi mewn caledwedd a meddalwedd priodol i gefnogi'r holl argymhellion hyn gyda thechnoleg o ansawdd uchel.

104. Mae'r argymhellion yr wyf wedi'u hamlinellu yn cadw at yr egwyddorion o wella prosesau drwy dechnoleg a lleihau gwastraff, gan alluogi i'r system cyfiawnder troseddol i ddefnyddio ei hadnoddau yn fwy effeithiol. Maent hefyd wedi'u seilio ar sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl, hyrwyddo cyfranogiad effeithiol diffynyddion, dioddefwyr a thystion a chynnal egwyddorion cyfiawnder agored.

Ffigur 8.1. Map polisi yn delweddu nodau bwriadedig yr argymhellion a gyflwynir ym Mhennod 8

105. Mae Ffigur 8.1 yn dangos ar ffurf llun sut y disgwylir i'r argymhellion a wnaf yn y bennod hon ddylanwadu ar ganlyniadau ac effeithio ar y metrigau effeithlonrwydd allweddol. Dylid defnyddio'r diagram hwn fel fframwaith darluniadol i asesu effaith bosibl yr argymhellion hyn, gan nodi nad oes llawer o dystiolaeth i ddeall effaith cyfranogiad o bell ar effeithlonrwydd ac ansawdd cyfiawnder.

106. Mae sawl un o'r argymhellion ar gyfer dulliau 'profi, dysgu a chostio' a datblygu prawf o gysyniadau, a'r edefyn allweddol drwyddynt i gyd yw'r angen i fonitro a gwerthuso newidiadau a wneir. O ganlyniad, mae llawer o'r cysylltiadau â chanlyniadau bwriadedig yn theori yn hytrach na'u seilio ar dystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio a chanlyniadau mentrau tebyg. Er enghraifft, dylai gweithredu mwy o wrandawiadau rhannol neu gwbl o bell arwain at lai o bwysau ar gyflenwyr PECS a blaenoriaethu cyfleusterau llys ar gyfer PTPHs a threialon, ond rhaid gwneud rhagor o waith i archwilio sut y byddai'r canlyniadau bwriadedig hyn yn cael eu gwireddu cyn bwrw ymlaen â'r argymhellion.

Pennod 9 – Prosesau Gwrandawiadau

Cyflwyniad

1. Mae effeithlonrwydd achosion llys yn cael ei effeithio'n gynyddol ac yn andwyol gan ddarpariaeth hwyr neu aneffeithiol gwasanaethau allweddol ar draws y system cyfiawnder, gan gynnwys cyrraedd diffynyddion o'r ddalfa yn hwyr, prinder cyfieithwyr cymwys, yr erlyniad neu'r amddiffyniad ddim yn barod i symud ymlaen a llwyth achosion agored wrth ddarparu Adroddiadau Cyn-Dedfrydu (PSRs). Mae'r methiannau hyn yn achosi oedi yn ystod y dydd yn y llys yn ogystal â gohiriadau mynych i achosion, ac mae'r ddau yn arwain at ddefnydd aneffeithlon o amser y llys.

2. Bu gostyngiad hefyd yn yr effeithlonrwydd o ran defnyddio'r diwrnod eistedd a chynnydd yn nifer y treialon aneffeithiol (gweler Pennod 2 (Cyd-destun) am drosolwg cynhwysfawr o heriau presennol y system). Er bod fy argymhellion yn y bennod hon yn eang eu cwmpas, y nod yw lleihau nifer y gohiriadau a'r treialon aneffeithiol, ac felly, lleihau'r amser a gymerir fesul achos a gwella'r defnydd o'r diwrnod eistedd. Dylid ystyried y diwygiadau hyn, wrth gwrs, ar y cyd â fy argymhelliad ehangach a eglurwyd drwy gydol yr Adolygiad hwn i gynyddu dyddiau eistedd.

3. Er mwyn gwella effeithlonrwydd dyddiau eistedd y llys ac achosion (a ddiffinnir gan yr Adolygiad hwn fel ‘y defnydd cymesur ac effeithiol o amser ac adnoddau i sicrhau paratoi cyflym a datrys achosion troseddol yn deg’), rhaid archwilio gwahanol gamau’r broses. Yn gyntaf, sicrhau bod diffynyddion sydd yn y ddalfa yn mynychu eu gwrandawiadau mewn pryd trwy welliannau i weithrediad PECS yn ogystal â sicrhau’r defnydd mwyaf posibl o wrandawiadau fideo lle bo’n briodol, y trafodaf yn fwy manwl ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell). Dylai cyfieithwyr fod ar gael i ddiffynyddion yn yr iaith ofynnol, lle bo angen. Rhaid cyflwyno tystiolaeth a deunydd perthnasol arall i’r llys mewn ffordd glir, gryno ac amserol i gynorthwyo i gyrraedd penderfyniad amserol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth barn arbenigol, tystiolaeth wedi’i recordio ymlaen llaw ar gyfer dioddefwyr a thystion agored i niwed a PSRs i gefnogi penderfyniadau

dedfrydu.[177] I gefnogi hyn, rhaid cadw at orchmynion llys ar reoli achos, fel y trafodir ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus).

4. Yn y bennod hon, rwyf yn ystyried pob un o'r materion hyn yn eu tro, gan ystyried yn gyntaf sut mae prosesau cyfredol yn arwain at aneffeithlonrwydd ac oedi mewn achosion llys, cyn darparu argymhellion a fwriedir i gryfhau gweithdrefnau a lleihau gohiriadau diangen. Rwyf yn archwilio sut y gall gwelliannau i wasanaethau, prosesau a thechnoleg drawsnewid y ffordd y cynhelir treialon a gwrandawiadau eraill i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser y llys. Rwyf yn dod i'r casgliad, drwy gofleidio arloesedd technolegol, cydlynu rhyngasiantaethol cryfach a chontractio gwell gyda darparwyr, y gall y system cyfiawnder troseddol wella'r defnydd o ddyddiau eistedd, gwella mynediad a chyfranogiad a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n effeithlon. Dylid nodi bod y bennod hon yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau data gyda'r nod o roi'r materion mewn cyd-destun yn ddigonol. Er enghraifft, rwyf yn cyfeirio at dreial aneffeithiol drwy gydol y bennod hon ond byddaf yn darparu data ychwanegol lle bynnag y bo modd. Mae adolygu treialon aneffeithiol ar eu pennau eu hunain yn debygol o danbrisio'r problemau a nodir gan nad yw'r data hwn yn ystyried oedi i dreialon nac yn ystyried yr effeithiau ar wrandawiadau nad ydynt yn dreialon.

5. Mae fy argymhellion yn y bennod hon yn dibynnu'n gryf ar galedwedd y llys, er enghraifft i hwyluso tystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw yn effeithiol, a'r angen clir i gadw i fyny â thechnoleg newydd. Er fy mod yn cydnabod y bydd angen buddsoddi parhaus i weithredu llawer o'r argymhellion hyn, rwy'n gweld y buddsoddiad hwn yn hanfodol ar gyfer system llys effeithlon a modern sy'n sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl i bob parti.

177

Gwasanaethau Carcharu a Hebrwng Carcharorion (PECS)

Y System Bresennol a Heriau

6. Er mwyn i dreial neu wrandawiad redeg yn effeithlon, rhaid iddo ddechrau gyda'r holl bartïon perthnasol yn bresennol ar amser, ac yn ystod fy ymgysylltiad, dywedwyd wrthyf dro ar ôl tro am ddiffynyddion sy'n cael eu cludo o'r ddalfa yn cyrraedd yn hwyr. Er fy mod yn gweld cyfle sylweddol i ddefnyddio gwrandawiadau fideo yn fwy i leihau'r aneffeithlonrwydd hyn, fel y nodais yn y bennod flaenorol, pwysleisiaf fod rhai gwrandawiadau lle mae'n hanfodol bod diffynyddion sydd yn y ddalfa yn bresennol yn bersonol, ac felly rhaid gwella'r ffordd y mae cludiant carcharorion yn gweithredu.

7. Mae PECS yn cludo diffynyddion rhwng gorsafoedd heddlu, llysoedd a charchardai. Mae dau gwmni preifat (cyflenwyr PECS) yn cyflawni'r contract ac yn cael eu goruchwylio gan HMPPS, gan wasanaethu Gogledd Lloegr a Chymru a De Lloegr ar wahân. Yn erbyn cefndir poblogaeth remand gynyddol, mae cyfanswm niferoedd teithiau PECS wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ar ôl COVID-19 (o tua 430,000 rhwng Medi 2020 ac Awst 2021 i tua 630,000 rhwng Medi 2023 ac Awst 2024).[178]

8. Mae gan gyflenwyr PECS fflyd o gerbydau sy'n casglu carcharorion a'u danfon i'r llys a charchardai eraill. Maent hefyd yn casglu diffynyddion o orsafoedd heddlu, lle mae'r unigolyn wedi'i gadw dros nos yn dilyn arestiad neu gyhuddiad, a'u danfon i'r llys. Mae hyn yn creu pwysau pellach ar gyflenwyr PECS a gellid ei ddatrys trwy gynyddu'r defnydd o wrandawiadau trwy gyswllt fideo o orsafoedd heddlu, a archwiliwyd ymhellach ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell).

9. Pan fo diffynnydd yn y ddalfa i fod i ymddangos, bydd y llys yn cynhyrchu hysbysiad o wrandawiad llys sydd ar ddod. Unwaith y bydd GLlTEF yn derbyn hysbysiad llys, mae'r carchar yn defnyddio platfform electronig i ofyn i gyflenwyr PECS eu casglu a'u hebrwng mewn modd amserol ar gyfer eu hymddangosiad yn

---

178

y llys. Os cedwir diffynnydd mewn carchar nad yw'n gysylltiedig â'i lys, mae'r Uned Rheoli Poblogaeth yn HMPPS yn ceisio eu symud i garchar agosach cyn dyddiad y llys (gyda'r carchar yn gofyn am y symudiad gyda chyflenwyr PECS), er mwyn lleihau'r siawns o oedi oherwydd teithiau hir. Mae hyn yn profi'n heriol ar hyn o bryd oherwydd pwysau ar ystad y carchardai. Ar y dyddiad(au) perthnasol, mae cyflenwyr PECS yn casglu'r diffynnydd ac yn ei gludo i'r llys perthnasol ar gyfer pob dydd o'i wrandawiad. Rhoddir blaenoriaeth i gludo diffynyddion i Lys y Goron dros y rhai i lysoedd ynadon. Mae cyflenwyr PECS hefyd yn gyfrifol am gludo'r diffynnydd yn ôl i'r carchar o'r llys bob dydd. Rhaid i bob rhan o'r system gydweithio er mwyn i ddiffynnydd gael ei gynhyrchu mewn pryd, o gyfathrebu effeithiol rhwng llysoedd a charchardai i gynhyrchu diffynyddion yn amserol yn y carchar a dyfodiad a thafar amserol faniau cyflenwyr PECS.

10. Mae oedi gyda diffynyddion yn cyrraedd y llys wedi bod yn thema gref yn fy ymgysylltiad, gan gynnwys ar draws fy ymweliadau ac ymgysylltiad â'r farnwriaeth a'r sector cyfreithiol. Yn ôl data PECS gweithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, rhwng Hydref 2024 a Medi 2025 cafwyd oddeutu 4,656 o oriau oedi yn y llys yn Llys y Goron ac oddeutu 4,772 o oriau yn y llys ynadon (ar gost gyfunol o oddeutu £21.9 miliwn ar gyfer awdurdodaeth y llysoedd troseddol) oherwydd methiant i gynhyrchu diffynyddion yn y llys mewn pryd.[179] Canfyddiad y farnwriaeth a staff y llys yw y gall yr oedi fod hyd yn oed yn fwy na'r data a adroddwyd, sydd ymhellach yn dangos pwysigrwydd y broblem. Mae cyrraedd PECS yn hwyr hefyd yn cael effaith ddilynol ar wrandawiadau eraill gan na fydd digon o swyddogion y doc yn y llys, gan fod yr unigolion sy'n gwasanaethu fel swyddogion y doc hefyd yn rhan o'r timau cludo.

11. Mae nifer o faterion ar draws gwahanol asiantaethau yn gyrru'r methiannau hyn, gan gynnwys methiannau cyfathrebu rhwng HMPPS a GLlTEF, effaith yr argyfwng capasiti carchardai ar HMPPSac oedi a achosir gan gyflenwyr PECS. Rwyf wedi clywed enghreifftiau uniongyrchol o effeithiau'r oedi hyn, er enghraifft, dywedodd

179

un ganolfan llys wrthyf eu bod yn colli hanner diwrnod o amser eistedd llys fesul llys yr wythnos. Dywedodd un bargyfreithiwr fod treial llofruddiaeth a restrwyd i gymryd pedair wythnos wedi cymryd bron i wyth, i raddau helaeth oherwydd bod y diffynnydd yn cael ei ddanfon yn hwyr y rhan fwyaf o ddyddiau. Dywedodd aelod arall o'r Bar wrthyf hefyd, mewn canolfan llys wahanol yn ystod eu treial a barhaodd sawl wythnos, na chafodd y diffynnydd ei gynhyrchu unwaith yn y llys cyn 11.00 – awr ar ôl yr amser eistedd a drefnwyd. Mae effeithiau hyn ar ddiffynyddion y mae oedi ar eu cludiant, yn ogystal ag ar staff y llys, rheithwyr, tystion a gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith, yn syml, yn annioddefol, yn enwedig gan ei bod yn debygol o danseilio eu lles ac felly rhaid gweithredu ar unwaith i'w ddatrys.

Rhesymau dros Oedi

12. Ceir rhai achosion o oedi sy'n gyfrifoldeb cyflenwyr PECS (darperir data yn nes ymlaen yn yr adran hon). Deallaf y gall contractwyr wynebu heriau gyda adnoddau, gan gynnwys cyfraddau uchel o dreuliant staff, oedi wrth fetio yn HMPPS a gweithlu llai profiadol sy'n effeithio ar argaeledd gyrwyr cymwys ar gyfer cerbydau 12 cell. Gall teithiau hirach sy'n arwain at oriau ychwanegol y tu allan i oriau gwaith hefyd gael eu cyfyngu gan reoliadau gyrwyr ac oriau gwaith.

13. Fodd bynnag, mae llawer o achosion o oedi hefyd yn digwydd oherwydd rhannau eraill o'r system. Ar ddechrau'r broses, gall y methiannau hyn gynnwys gwallau gweinyddol gyda threfniadau, cyhoeddi rhestrau cynhyrchu yn hwyr neu beidio â'u cyhoeddi o gwbl, methu â rheoli ceisiadau symud trefnedig yn gywir a diffyg cyfathrebu rhwng y llysoedd a'r carchardai, a hynny'n rhannol oherwydd pwysau ar staff y llys. Mae materion yn ymwneud â chyfathrebu ar gyfer PECS a gododd yn fy ymgysylltiad hefyd yn cynnwys diffyg dealltwriaeth ar y cyd yn y llysoedd ynghylch sut mae proses PECS yn gweithio, yn enwedig pan nad oedd pobl yn cael eu danfon mewn pryd.

14. Rwyf hefyd wedi clywed ar nifer o achlysuron am yr effaith enfawr y mae capasiti'r carchardai yn ei chael ar y system cyfiawnder troseddol. Mae'r capasiti cyfyngedig yn ystad y carchardai yn golygu bod carcharorion 'wedi'u dadleoli'

nad ydynt yn cael eu cadw yn eu carchar derbyn lleol. Yn erbyn gwaelodlin ddisgwyliedig HMPPS o 5%, roedd tua 15% o ddiffynyddion yn mynychu'r llys o garchar nad yw'n lleol yn 2024.[180] Mae hyn yn cael effeithiau sylweddol ar gyflenwyr PECS, gan gynnwys teithiau hirach i ddiffynyddion i ac o garchardai lle'r oedd lle ar gael, sy'n effeithio ar oriau staff gyrru a hebrwng a staff dalfa'r llys, ac yn golygu bod diffynyddion yn cyrraedd y llys yn hwyr o garchardai nad ydynt wedi'u halinio â'r llys. Mae galw cynyddol hefyd ar gyflenwyr i gwblhau niferoedd uwch o drosglwyddiadau rhwng carchardai i greu lle mewn carchardai derbyn sy'n gwasanaethu'r llysoedd neu i symud diffynnydd i garchardai newydd, a gall pwysau ar staff y carchar olygu ei bod yn cymryd mwy o amser i gael amser troi o gwmpas yn y carchardai yn y bore.

15. Yn ogystal, mae symudiadau carchar o garchardai nad ydynt wedi'u halinio yn aml yn golygu bod yn rhaid i gyflenwyr PECS ddyrannu adnoddau yn annisgwyl i deithiau hirach y tu allan i'w hardaloedd dan gontract, gan roi straen ar y cyflenwr a lleihau'r defnydd effeithlon ac optimaidd o gerbydau PECS. Mae cyflenwyr PECS yn modelu eu hatebion a'u cynllunio logistaidd yn seiliedig ar aliniad carchar â llys, gan gynnwys lleoliadau canolfannau cerbydau a chriwiau cerbydau, felly mae diffyg aliniad yn achosi aneffeithlonrwydd sylweddol yn y defnydd o gerbydau. Rhwng Rhagfyr 2024 a Thachwedd 2025, ni wnaed unrhyw addasiadau heblaw am brisio'r symudiadau nad ydynt wedi'u halinio hyn, ac mae'r costau'n cael eu hamsugno gan gyflenwyr PECS. Mae'r galw cynyddol yn rhoi pwysau sylweddol ar gyflenwyr PECS, gan arwain at oedi, a byddai lleihau nifer y symudiadau nad ydynt wedi'u halinio yn helpu i wella effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth i lysoedd yn gyffredinol.

16. Gall diffynnydd / diffynyddion nad ydynt wedi'u halinio achosi cymhlethdodau eraill hefyd. Mae gwrthodiad a gwrthwynebiad diffynyddion yn un o brif achosion

---

180

canslo symudiadau carchar i'r llys yn hwyr yn Llys y Goron.[181] Mae llawer o hyn y tu hwnt i reolaeth cyflenwr PECS a chamau gweithredu'r carchar. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd gan staff yn HMPPS yn dangos y gellir priodoli rhywfaint o'r ymddygiad gwrthod hwn i ddiffynnydd yn deall eu bod yn y carchar 'anghywir', yn gyfforddus yn y sefydliad hwnnw ac yn ofni cael eu hailgyfeirio i'w carchar alinio ar ôl eu gwrandawiad llys.

17. Yn olaf, rwyf hefyd wedi cael gwybod am broblemau gyda llysoedd yn hysbysu carchardai am wrandawiad llys sydd ar ddod mewn pryd. Mae llysoedd yn cyhoeddi rhestr gadarn, y dylent ei hanfon tua phythefnos cyn dyddiad gwrandawiad gwirioneddol. Caiff hon ei dilyn gan restrau ychwanegol y diwrnod cyn y gwrandawiad am 11.30 a 13.30, gyda rhestr olaf yn cael ei hanfon am 15.30 y diwrnod cynt. Dylai'r rhestr gadarn alluogi Uned Rheoli Poblogaeth HMPPS i wneud trefniadau i symud diffynyddion i garchar categori addas sydd mor agos at y llys â phosibl, er y gallai hynny fod oriau i ffwrdd o hyd, er mwyn lleihau oedi wrth eu cynhyrchu i'r llys ar ddiwrnod y gwrandawiad. Yna mae'r carchar sy'n cartrefu'r diffynnydd yn defnyddio'r rhestrau dyddiol i ofyn am symudiad PECS fel eu bod yn cael eu casglu mewn modd amserol ar gyfer eu hymddangosiad yn y llys. Fodd bynnag, mae carchardai'n dibynnu ar lysoedd yn anfon y rhestrau cadarn a dyddiol er mwyn paratoi diffynnydd ar gyfer ei symudiad i'r llys mewn pryd ac rwyf wedi clywed yn uniongyrchol o fy ymweliadau â charchardai bod y rhestrau hyn yn aml yn cael eu cynhyrchu'n hwyr a'r trefniant presennol yw bod pob llys ond yn anfon ei restr i'w garchar remand lleol; mae hyn yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at oedi wrth symud carcharorion. Un o'r egwyddorion cyffredinol sy'n llywio'r Adolygiad hwn yw annog diwylliant o gydweithredu ac rwyf o'r farn ei bod yn arbennig o bwysig gwella'r systemau cyfathrebu diffygiol rhwng llysoedd a HMPPS ynghylch lleoliad a symudiad carcharorion.

18. Ar hyn o bryd mae PECS yn mynd y tu hwnt i'r amser disgwyliedig y mae cerbyd yn ei dreulio mewn carchar wrth gasglu diffynnydd ar gyfer y llys. Maent yn ceisio

---

181

mynd i'r afael â hyn drwy i Dîm Rheoli Contractau PECS ddatblygu adroddiadau gwell sy'n cael eu rhannu â GLlTEF a HMPPS ynghyd â chraffu ychwanegol ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal a Llywodraethwr Llywodraethol i geisio gostwng yr amseroedd troi o gwmpas yn unol â'r disgwyliadau. Er bod hyn wedi arwain at rywfaint o welliant mewn rhai carchardai penodol, mae angen newid diwylliant ehangach o fewn y sefydliad a bydd felly'n cymryd amser i weld gwelliannau sylweddol.

19. Rwyf hefyd wedi clywed am oedi i wrandawiadau oherwydd bod y diffynnydd anghywir wedi'i ddwyn i'r llys, neu fod yn rhaid i ddiffynyddion deithio i lysoedd neu garchardai lluosog ar y ffordd i'w cyrchfan olaf, gan achosi oedi wrth gyrraedd y llys neu wrth gael eu cludo'n ôl ar ôl i'w gwrandawiad ddod i ben.[182]

20. Mae problemau hefyd ynghylch capasiti celloedd yn y llysoedd, lle mae yna aml fwy o ddiffynyddion nag o le ar gael. Mae problemau yn y llys yn cael eu gwaethygu gan faint o amser mae'n ei gymryd i ddod â diffynyddion i fyny o gelloedd y llys i'r doc, gan gymryd deg munud neu fwy yn aml tra bod pawb yn eistedd yn y llys ac yn aros, gan gynnwys tystion proffesiynol. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oes digon o swyddogion doc yng nghanolfannau'r llys.

Effaith Oedi

21. Yn ystod yr Adolygiad hwn, rwyf nid yn unig wedi clywed am yr effaith y mae'r methiannau hyn yn ei chael ar effeithlonrwydd y llysoedd, ond hefyd ar les diffynyddion. Byddai cynnydd mewn cyfranogiad o bell, yr wyf yn ei archwilio ymhellach ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell) yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Deallaf hefyd y gall ansicrwydd ynghylch i ble y cânt eu remandio achosi pryder i ddiffynnydd a bod yn rhaid iddynt aros am y daith yn ôl nes bod pob diffynnydd wedi gorffen yn y llys (er mwyn penderfynu pa ddiffynyddion sy'n cael eu remandio i ba leoliadau). Gall niferoedd uchel o symudiadau hefyd lethu capasiti celloedd y llys yn ystod oriau brig, ac oherwydd niferoedd cynyddol o

---

182

garcharorion a'r oedi cyn cyrraedd y llys, mae llysoedd yn aml yn eistedd yn hwyrach, sy'n cael effaith niweidiol ar ddiffynyddion a staff y llys a PECS.

22. Mae'r heriau hyn yn fwyaf acíwt i fenywod a phlant, y mae eu hanghenion yn aml yn gymhleth ac yn wahanol. Mae nifer cyfyngedig o garchardai remand ar gyfer y grwpiau hyn yn arwain at wasgariad daearyddol eang ar draws nifer cyfyngedig o garchardai addas, sy'n golygu bod menywod a phlant yn aml yn dioddef teithiau hir mewn cludiant diogel i fynychu'r llys. Ar yr un pryd, pan fydd llysoedd yn ystyried opsiynau mechnïaeth addas, cânt eu cyfyngu wrth osod amodau addas oherwydd bod cyn lleied o ddewisiadau amgen credadwy yn bodoli. Mae hyn yn golygu, yn y cyfnod cyn y treial ac yn ystod y treial, bod y grwpiau hyn yn aml yn fwy tebygol o gael eu cadw o fewn ystad y carchar oherwydd diffyg dewisiadau amgen priodol yn y gymuned.

23. Mae'r materion hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd yn weithredol i gyflenwyr PECS gynnal casgliadau a danfoniadau lluosog gan ddefnyddio cerbyd a chriw sengl, gan arwain at aneffeithlonrwydd. Er enghraifft, yn ystod ymgysylltiad diweddar â'r farnwriaeth dywedwyd wrthyf sut yr oedd diffynyddion yn dod i'r Llys Troseddol Canolog o Garchar EF Belmarsh, troseddwyr ifanc o Feltham a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Thameside a menywod o Garchar EF Bronzefield, pob un ohonynt yn teithio yn ôl ac ymlaen bob dydd gan gynnwys sawl awr ar y ffordd gyda dechreuadau cynnar iawn a dychweliadau hwyr. Yn ogystal, rwyf hefyd wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd nad yw blaenoriaeth yn aml yn cael ei rhoi i ddiffynyddion benywaidd yn y llys er gwaethaf ceisiadau dro ar ôl tro, sy'n tanseilio eu lles ac yn cyfrannu at oedi. Yn olaf, mae PECS hefyd yn casglu diffynyddion o orsafoedd heddlu i'w danfon i'r llys. Gan fod y symudiadau hyn yn aml yn cael eu harchebu ar y funud olaf, mae tebygolrwydd uwch o oedi gyda'r symudiadau hyn oherwydd bod angen i gyflenwr PECS naill ai ddod o hyd i gerbyd ychwanegol neu wneud taliad ychwanegol i archeb sy'n bodoli eisoes.

24. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylid ystyried trefnu defnydd o lety cymunedol amgen fel y gellir lletya menywod a phlant yn ddiogel heb orfod teithio am oriau neu byddai cryfhau cymorth cymunedol hefyd yn rhoi dewisiadau amgen

ystyrlon i'r llysoedd sy'n diwallu anghenion y rhai y mae'n rhaid eu cludo i'r llys ac yn lleihau'r galw ar y system ehangach.

25. Er gwaethaf bod yn thema gref ac aml yn fy ymgysylltiad, mae data cyhoeddedig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu mai dim ond tua 4% o'r holl dreialon aneffeithiol yn 2024 y mae materion yn ymwneud â'r broses hebrwng carcharorion yn gyfrifol amdanynt.[183] Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn rhoi darlun cyflawn o'r heriau a achosir gan gludiant carcharorion o fewn y system llysoedd, gan y gall treialon fynd rhagddynt ond cymryd mwy o amser llys wrth i'w dechrau gael ei ohirio, ac nid yw hyn yn cipio pob math o wrandawiadau (er enghraifft, gwrandawiadau cyn y treial neu ddedfrydu).

26. Dylai data oedi ystafell llys felly ddarparu mesur mwy defnyddiol. Fel y dangosir yn Ffig. 9.1, rhwng Hydref 2024 a Medi 2025, priodolwyd 29% o oedi ystafell llys yn y llysoedd a oedd yn gysylltiedig â PECS i sefydliadau Carchar EF/Gwasanaethau Carchar. Mae hyn yn cyfateb i tua 4,000 o oriau o oedi ystafell llys. Dim ond mewn tua 8% o achosion y cofnodwyd bod cyflenwyr PECS yn gyfrifol.[184] Fodd bynnag, rwyf wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd nad yw oedi yn cael ei adrodd yn ffurfiol yn aml, yn fwyaf tebygol oherwydd pwysau amser. Ar hyn o bryd, mae oedi llys lle mae'r llys yn ymgymryd â gwaith ystyrlon arall yn cael ei gofnodi mewn adroddiadau PECS ar draws y system, fodd bynnag nid yw'r enghreifftiau hyn wedi'u cynnwys ym metrigau perfformiad cyflenwyr PECS ac nid ydynt yn adlewyrchu effeithiau ar weithwyr proffesiynol cyfreithiol, dioddefwyr, ail-restru a chyflenwyr PECS oherwydd yr adleoliad hwn o lwyth gwaith yr ystafell llys. Er y bydd gwrandawiad neu dreial yn cael ei ohirio ac, mewn rhai achosion, ei ohirio ymhellach os yw diffynnydd yn hwyr, disgwylir yn barod i swyddogion rhestru ail-drefnu gwaith ar fyr rybudd i sicrhau bod y dyddiau eistedd yn cael eu defnyddio'n llawn er eu bod yn aml yn gwneud gwaith

---

183

184

rhagorol wrth wneud hyn. Gall hyn esbonio rhywfaint ar y gwahaniaeth rhwng cryfder y pryderon a godwyd gan gymaint o weithwyr proffesiynol wrth ymgysylltu drwy gydol yr Adolygiad a data oedi'r llys. Ar gyfer y dyfodol, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y dylid cofnodi amseroedd cyrraedd gwirioneddol ac unrhyw oedi canlyniadol (gyda'r contractwr perthnasol a GLlTEF yn cofnodi'r rhesymau) p'un a ellir lleihau effaith yr oedi hwnnw trwy symud gwaith o gwmpas. Dim ond felly y gellir mesur gwir berfformiad.


27. Yn ôl y metrigau perfformiad contractiol diweddaraf sydd ar gael gan gyflenwyr PECS, dim ond 0.13% o symudiadau PECS a arweiniodd at fethiant oherwydd cyflenwyr PECS yn 2024.[185] Nid yw cyflenwyr PECS yn gweithredu ar eu pennau eu hunain a gall nifer o ffactorau effeithio ar ddanfon diffynyddion, gan gynnwys parodrwydd diffynyddion yn y carchar neu'r llys, rhestrau terfynol hwyr, peidio â symud gwaith o gwmpas ar fyr rybudd ac amseroedd prosesu araf wrth dderbyn carcharorion, a weinyddir i gyd gan bartneriaid gwahanol. Yn aml, gwelir cyflenwyr PECS fel y pwynt methu gweladwy pan fyddant yn cyrraedd y llys. Bydd cael metrigau y cytunwyd arnynt ar waith rhwng GLlTEF, HMPPS, cyflenwyr PECS a'r heddlu yn helpu i nodi'n glir lle mae'r oedi wrth ddanfon diffynnydd wedi digwydd fel y gellir mynd i'r afael ag ef yn y dyfodol.

185

Figure 9.1

Percentage of PECS-related courtroom delays by reason

England and Wales: October 2024 – September 2025



Data is drawn from the collation of Court Exception Report Submissions (CERS) which are submitted by HMCTS and PECS suppliers. The CERS record and display the impacts on court business due to a drop in service deliverables which are assured and verified by PECS suppliers and PECS Contract Managers. Where a delay instance has been recorded, this is per court room delay and not always per individual prisoner. Length of delay is counted until the court can commence meaningful work.

Source: Figures sourced from HMPPS unpublished operational management data.

28. Yn y bennod flaenorol, rwyf wedi nodi manteision disgwyliedig defnydd mwy helaeth o gyfranogiad o bell lle nad yw cynhyrchu i'r llys yn angenrheidiol nac yn gymesur. Rwyf wedi gweld yn ystod fy ymweliadau â'r llys enghreifftiau o ddiffynyddion yn cael eu dwyn gerbron y llys ar ôl teithio am oriau i dreulio mater o funudau (ac mewn un achos llai na munud) yn y doc mewn PTPH. Drwy gynnal mwy o wrandawiadau nad ydynt yn dreialon o bell, er efallai na fydd hyn yn lleihau costau'n uniongyrchol, rwy'n gobeithio y bydd gostyngiad sylweddol yn y galw am PECS, gan wella felly eu gallu i gyflwyno diffynyddion mewn pryd lle mae eu hangen fwyaf. Fodd bynnag, lle mae angen i ddiffynyddion fod yn y llys, gwelaf yr angen dybryd i wella sut mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu. Felly, mae fy argymhellion yn canolbwyntio ar wella'r ffactorau sy'n achosi aneffeithlonrwydd PECS.

Argymhellion

29. Y cam cyntaf i sicrhau cludiant effeithiol i garcharorion yw gwella cyfathrebu agored a chydweithredol rhwng carchardai a llysoedd. Ar hyn o bryd, mae rhestrau llys yn cael eu hanfon yn awtomatig gan ddefnyddio platfform Xhibit gan swyddogion rhestru i'r carchar agosaf at y llys, nad yw o reidrwydd lle mae

diffynyddion yn cael eu cadw. Golyga hyn fod y system yn dibynnu ar garchardai yn nodi bod diffynnydd yn cael ei gadw mewn man arall a hysbysu'r carchar hwnnw'n brydlon. Mae hyn yn arbennig o heriol os anfonir rhestrau'n hwyr, sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac yna ni chaiff cyflenwyr PECS eu hysbysu o'r newid tan yn rhy hwyr, a allai olygu bod symudiadau'n cael eu canslo ar ôl i gyflenwyr PECS fod wedi anfon cerbyd yn barod.

30. Mae methiannau gweinyddol o'r fath yn cael eu hesbonio yn achosion a gofnodwyd o symudiadau hwyr/wedi'u canslo ar y diwrnod o'r carchar i'r llys. Symudiadau llys a ganslwyd yn hwyr yw'r rhai a ganslwyd ar ôl 06.00 ar ddiwrnod y symudiad a gynlluniwyd. Er bod effeithiau symudiadau a ganslwyd yn hwyr yn anodd eu meintioli ar gyfer llysoedd, ceir adroddiadau am adnoddau PECS yn cael eu gwastraffu ar fynychu diffynyddion nad oes eu hangen yn y llys neu sydd wedi'u harchebu ddwywaith gyda gwrandawiad fideo, gan ychwanegu straen diangen yn y system. Mae data'n dangos bod tua 17,000 o symudiadau hwyr a ganslwyd i'r Llys y Goron a thua 22,000 o symudiadau hwyr a ganslwyd i'r llys ynadon wedi bod rhwng Hydref 2024 a Medi 2025.[186] Yn Llys y Goron, mae hyn ar gyfartaledd bron i un symudiad llys a ganslwyd fesul canolfan llys bob diwrnod gwaith.[187] O'r achosion hyn o ganslo yn Llys y Goron, roedd 34% oherwydd nad oedd angen y diffynnydd yn y llys mwyach, tra yn y llys ynadon roedd 22% oherwydd y gwasanaeth carchardai neu'r heddlu yn hebrwng y diffynnydd, er gwaethaf ymdrechion gorau staff y llys i geisio hysbysu cyflenwyr PECS.[188]

31. Mae'n hanfodol bod rhestrau'n cael eu rhannu â'r carchar cywir yn y lle cyntaf, yn hytrach na'r carchar aliniol, fel y gellir trefnu symudiad cyn gynted ag y gall y carchar weithredu'r cais hwn. Dylai hyn sicrhau bod y carchar cywir yn darganfod

---

186

187

188

cyn gynted â phosibl pan fo angen symudiad a gellir trefnu'r symudiad wedyn gyda chyflenwyr PECS, gan sicrhau bod y diffynnydd yn cyrraedd y llys mewn pryd. Bydd rhannu manylion cyswllt trwy'r system hon hefyd yn galluogi cyfathrebu haws. Gan y bydd hyn yn cael ei wneud yn ddigidol, dylai hyn hefyd helpu i symleiddio'r broses, a chreu proses fwy tryloyw, gan greu mwy o hyder yn y system felly.

32. Fel y nodir uchod ac o fy ymchwil, lle mae'r llys yn cynhyrchu'r rhestr gadarn bythefnos ymlaen llaw, dylai hynny roi amser i'r Uned Rheoli Poblogaeth yn HMPPS ddod o hyd i lety priodol mewn carchar priodol ac mae'n rhoi pedwar diwrnod dan gontract i gyflenwyr PECS symud diffynyddion. Yn rhesymegol, ac yn eithaf amlwg, y nod yw ceisio symud y diffynnydd i garchar sy'n agosach at y llys lle mae eu hachos yn cael ei wrando. Fodd bynnag, oherwydd pwysau ar ystad y carchardai, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl a chanlyniad hyn yw teithiau hir i ddiffynyddion, sy'n golygu cychwyn yn gynnar iawn ar ddiwrnod y treial a/neu

Argymhelliad 126: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn cydweithio i sicrhau bod ganddynt wybodaeth amserol am leoliad carcharorion a bod manylion cyswllt Uned Rheoli Troseddwyr y carchar ar gael yn rhwydd o fewn un system a bod Swyddogion Rhestru yn dosbarthu rhestrau'r llys i'r carchar lle mae'r diffynnydd yn cael ei gadw.

deithiau dychwelyd hwyr yn ôl i'r carchar, gan arwain weithiau at ddiffynyddion yn methu prydau poeth neu gawodydd. Mae hyn yn effeithio ar blant, pobl ifanc a menywod yn arbennig o ddifrifol gan fod ystadau carchardai'r grwpiau hynny mor fach. Mae llai o sefydliadau diogel lle gellir eu cadw yn agos at lysoedd. Rwy'n cydnabod maint yr her capasiti mewn carchardai ond rwy'n annog cydweithredu parhaus ar flaenoriaethu diffynyddion yn y lle iawn.

33. Rwy'n ystyried ei bod yn bwysig nodi yma bod y prinder ehangach o lety cymeradwy ar gyfer diffynyddion ar fechnïaeth heb gyfeiriad sefydlog yn parhau i fod yn her sylweddol. Rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, gwnaed 995 o atgyfeiriadau i Haen 2 y Gwasanaeth Llety Cymunedol i ddarparu llety dros dro ar

gyfer diffynyddion ar fechnïaeth, gan barhau â thuedd ar i fyny ers 2022.[189] Mae diffyg llety sefydlog yn rhoi straen ar y llysoedd troseddol. Mae diffynyddion heb gyfeiriad sefydlog yn aml yn ei chael yn anodd cydymffurfio ag amodau a osodir gan y llys neu dderbyn hysbysiadau gwrandawiad, sy'n arwain at ohiriadau, galw'n ôl i'r carchar a chostau ychwanegol. Mae llety sefydlog hefyd yn hanfodol ar gyfer adsefydlu a lleihau aildroseddu. Mae data Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos bod gan unigolion digartref neu'n cysgu ar y stryd ar ôl eu rhyddhau gyfradd aildroseddu profedig o 71.6%, o'i gymharu â 35.7% ar gyfer y rhai mewn llety sefydlog.[190] Felly, yn fy marn i, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgymryd â rhagor o waith i gynyddu argaeledd llety sefydlog ar gyfer diffynyddion ar fechnïaeth, er fy mod yn gwerthfawrogi y gallai fod yn anodd iawn cyflawni'r cyfleuster ychwanegol hwn a chymryd amser.

34. Yn ogystal â sicrhau bod diffynyddion yn y lle iawn, drwy fynnu bod y rhestr derfynol yn cael ei hanfon erbyn dyddiad cau cyraeddadwy ond uchelgeisiol y diwrnod cynt ac y caiff ei hanfon i'r carchar sy'n dal y diffynnydd yn unol ag argymhelliad 127, byddai'n rhoi amser i garchardai ymateb o fewn oriau gwaith arferol. Dylai'r rhestr ddyddiol derfynol roi sicrwydd ynghylch pa ddiffynyddion sydd eu hangen yn y llys. Rwy'n argymell y dylid pennu'r dyddiad cau hwn ar gyfer rhestrau dyddiol yn genedlaethol, gan roi amser i garchardai drefnu'r cludiant angenrheidiol. Dylid cyfathrebu unrhyw newidiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad cau hwn drwy eithriad mewn ffordd uniongyrchol ac unigol, sy'n galluogi'r llys i gadarnhau bod y carchar wedi cael hysbysiad o'r newid hwn. Rwy'n cydnabod bod yna lawer o resymau pam y gall rhestr gael ei gohirio neu ei newid, ond dylai gwell cyfathrebu rhwng llysoedd a charchardai liniaru risgiau methiannau gweinyddol wrth archebu.

189

190

35. Mae tystiolaeth o brosiect ar y cyd rhwng y Llys Troseddol Canolog (CCC/Old Bailey), cyflenwyr PECS a CEF Belmarsh yn awgrymu y gellir ennill llawer o'r

Argymhelliad 127: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn anfon rhestrau cadarn o leiaf bythefnos ymlaen llaw a rhestrau dyddiol erbyn terfyn amser cyraeddadwy ond uchelgeisiol ar gyfer y diwrnod cyn y gwrandawiad, y trefn amser penodol i'w gytuno arno ar y cyd ac i gydymffurfio ag o'n genedlaethol, gydag unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gyda'r carchar i ganiatáu amser i drefnu symudiadau carcharorion. Dylid datblygu dangosydd perfformiad allweddol cysylltiedig ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi hefyd i fesur cywirdeb ac amseroldeb.

ffordd hon o weithio. Ym mis Chwefror, mandadwyd bod yn rhaid i CEF Belmarsh dderbyn y rhestr derfynol gadarn o'r Llys Troseddol Canolog erbyn 16.00 bob dydd, a bod yn rhaid cyfathrebu unrhyw newidiadau hwyr eithriadol trwy'r Uned Rheoli Troseddwyr. Er na chafodd ei werthuso'n ffurfiol, yn ôl Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, gostyngodd nifer y symudiadau a ganslwyd yn hwyr i'r llys o CEF Belmarsh o 106 ym mis Chwefror 2024 i tua 40 ym mis Medi 2024 (gostyngiad o tua 60%).[191] Mae hyn yn awgrymu'r posibilrwydd y gall dosbarthu rhestrau cadarn terfynol yn fwy amserol a chyson helpu i leihau oedi yn y llys trwy liniaru symudiadau hwyr i'r llys a ganslwyd, er y dylid cydnabod hyn yn ofalus gan na wnaed unrhyw werthusiad ffurfiol na chadarn i ennyn achos o gydberthyniad.

36. Ffactor arall sy'n cyfrannu at ddiffynyddion yn cyrraedd yn hwyr, sy'n effeithio ar oedi yn yr ystafell llys, yw 'Amser Cwblhau Cerbydau'. Yn syml, dyma'r amser mae'n ei gymryd i gerbyd PECS fynd i mewn i'r carchar, casglu'r diffynnydd a gadael y carchar i'r llys. Y disgwyliad presennol gan HMPPS yw y dylai hyn gymryd

191

32 munud ar gyfartaledd, er y gall hyn newid wrth i HMPPS adolygu'r targed.[192]

Rhwng Hydref 2024 a Medi 2025, roedd yr amser cwblhau cyfartalog ar gyfer carchar derbyn yng Ngogledd Lloegr (gan gynnwys Cymru) tua 49 munud ac 1 awr 9 munud yn Ne Lloegr.[193] Mae fy ymgysylltiad wedi dangos mai'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw problemau staffio'r carchar, problemau cyfathrebu â rhestrau cynhyrchu diffynyddion ac anawsterau gyda rheoli blaenoriaethau cystadleuol wrth lywodraethu carchar. Mae cwblhau hefyd yn haws i garchardai newydd oherwydd gwell dyluniad na'r ystad hŷn.

37. Deallaf fod carchardai dan bwysau sylweddol, fodd bynnag, er mwyn effeithlonrwydd diwrnod y llys, rwy'n ystyried ei bod yn bwysig bod amseroedd cwblhau yn gwella, a gobeithio y bydd gwell cyfathrebu rhwng carchardai a llysoedd yn cefnogi'r nod hwn. Er mwyn canolbwyntio sylw pellach ar y mater hwn, rwyf hefyd yn argymell cyflwyno Dangosydd Perfformiad Allweddol cytunedig i fesur amser cwblhau mewn perthynas â chasglu contractedig PECS o HMPPS. Rwyf hefyd yn argymell bod HMPPS yn sicrhau bod adnodd digonol yn cael ei neilltuo i'r amseroedd codi hanfodol hyn bob diwrnod gwaith. Bydd hyn yn helpu i ddwyn partneriaid system i gyfrif i hybu gwelliant.

Argymhelliad 128: Rwy'n argymell y dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi gytuno ar ddangosydd perfformiad allweddol i asesu amseroedd gweithredu mewn perthynas â chasglu carcharorion dan gontract Gwasanaethau Hebrwng a Chadw Carcharorion o sefydliadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.

38. Fel y nodais eisoes yn gynharach yn y bennod hon, mae cyfanswm niferoedd teithiau PECS wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ar ôl COVID-19, gan gynnwys cynnydd mewn symudiadau o garchardai nad ydynt wedi'u halinio, sy'n golygu

192

193

bod yn rhaid dyrannu adnoddau i deithiau hirach y tu allan i'w hardaloedd contractedig.

39. Un o'r nifer o resymau pam fod diffynyddion yn cyrraedd y llys yn hwyr yw oedi wrth gludo diffynyddion i'r llys oherwydd tagfeydd traffig, yn enwedig ar gyfer Llysoedd y Goron, y mae llawer ohonynt mewn ardaloedd trefol. Ar hyn o bryd, mae amryw o gyfyngiadau ar ddefnyddio lonydd bysiau mewn ardaloedd trefol. Byddai gallu defnyddio lonydd bysiau yn helpu i fynd i'r afael â'r oedi wrth deithio a achosir oherwydd tagfeydd traffig, gan sicrhau felly bod mwy o ddiffynyddion yn cyrraedd y llys mewn pryd ac felly'n lleihau'r angen am ohiriadau a nifer y gwrandawiadau aneffeithiol.

Argymhelliad 129: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod lonydd bws ledled y wlad ar gael i gerbydau Gwasanaethau Hebrwng a Chadw Carcharorion tra byddant yn cludo carcharorion.

40. Fel y tynnais sylw ato uchod, gall data oedi yn yr ystafell llys gynrychioli dangosiad isel o'r gwir oedi, gan ei gwneud yn anos asesu graddfa ac achosion y broblem. Mae problemau yn y broses bresennol a ddefnyddir i gofnodi ac ymchwilio i oedi wrth symud diffynyddion i'r llys ac yn y llys. Deallaf fod y system bresennol ar gyfer cofnodi oedi yn feichus, gan ei bod yn gofyn am gofnodi data â llaw mewn taenlenni a rhwymedigaeth i rannu'r wybodaeth trwy e-bost rhwng partïon. Gall hyn arwain at ddyblygu, fformatau data anghyson a gallu olrhain cyfyngedig. Yn aml, mae clercod y llys a chynghorwyr cyfreithiol yn ei chael yn anodd cwblhau ffurflenni'n gywir oherwydd meysydd aneglur, diffyg dilysu a phwysau amser mewn llysoedd remand prysur. Er mwyn ysgogi gwelliannau yn y system, deallaf fod gwaith ar y gweill i greu system ddigidol newydd ar gyfer adrodd am oedi a fydd yn helpu i wella'r sefyllfa. Byddai'r system ddigidol newydd hon yn system a rennir lle cyflwynir data byw mewn fformat safonol i: alluogi cofnodi digwyddiadau oedi yn gywir ac yn effeithlon; hwyluso adroddiadau misol a thracio perfformiad contractau; lleihau'r baich gweinyddol;

a gwella ansawdd data a chefnogi atebolrwydd ar draws GLlTEF, HMPPSa chyflenwyr PECS.

41. Ar wahân, ceir hefyd dan-amcangyfrif o faint y broblem gan fod y data'n tanbrisio achosion lle y gwneir gwaith ystyrlon arall yn ystod oedi llys. Ni ystyrir y grŵp hwn o achosion ychwaith ym metrigau perfformiad contract cyflenwyr PECS. Rhwng Hydref 2024 a Medi 2025, adroddwyd am y math hwn o oedi (lle y danfonwyd y diffynnydd yn hwyr ond ni chafwyd oedi yn yr ystafell llys). Mae'r tan-adrodd ar y garfan hon yn sylweddol oherwydd, er y gwneir gwaith llys 'ystyrlon', rwy'n disgwyl bod canlyniadau o hyd i'r system ehangach, megis tarfu ar gyfreithwyr sy'n mynychu ar gyfer achos penodol ac annog gor-restru. Deallaf fod Tîm Rheoli Contractau PECS wedi bod yn gweithio gyda GLlTEF i annog gwell adrodd, gan gynnwys annog cyflenwyr PECS i adrodd am achosion lle y bu oedi nad oedd yn eu bai hwy. Mae angen cofnodion mwy cyflawn a chywir o bob problem wrth gyflenwi gan bob rhanddeiliad hyd yn oed pan fo 'methiannau' i bob golwg y tu allan i'w cylch gwaith a'u pryderon.

42. Yr hyn sy'n amlwg i mi yw nad bai un asiantaeth yn unig yw'r problemau yn y system. Felly, er mwyn helpu i fesur perfformiad mewn ystafelloedd llys yn fwy effeithiol a lleihau oedi, tarfu a chanslo, awgrymaf y dylai HMPPS, GLlTEF a chyflenwyr PECS gydweithio i gyflwyno mesurau adrodd a data mwy manwl er mwyn caniatáu mwy o atebolrwydd, a ddylai yn ei dro helpu i nodi a datrys unrhyw faterion sy'n codi.

43. Awgrymaf hefyd, pan ddaw'r amser i negodi a chyflawni contract PECS nesaf, y dylai HMPPS a GLlTEF ystyried pa fesurau perfformiad sydd eu hangen i ddwyn cyflenwyr i gyfrif, ac a yw'r rhain yn adlewyrchu'n ddigonol nid yn unig oedi i ddiwrnod y llys ond tarfu oherwydd newidiadau heb eu cynllunio, er enghraifft data cyrraedd a gohirio'r llys. Drwy ddata gwell dylai fod gwell adnabod problemau a gwell dwyn cyflenwyr i gyfrif am yr effeithiau y mae eu gwaith yn ei gael ar effeithlonrwydd y llysoedd ar yr un pryd ag y sicrheir bod oedi nad yw'n fai ar y cyflenwr yn cael ei gofnodi hefyd.

44. Bydd y mesurau hyn yn helpu i symleiddio'r broses, cefnogi atebolrwydd ar draws GLlTEF, HMPPS a chyflenwyr PECS, lleihau beichiau gweinyddol, gwella ansawdd data a helpu i hwyluso adroddiadau manylach ac olrhain perfformiad contractau. Bydd data gwell hefyd yn helpu i ddeall yn gliriach raddfa'r broblem a lle mae'r tagfeydd fel y gellir mynd i'r afael â'r rhain yn well wedyn.

Argymhelliad 130: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i ddatblygu'r gallu i gasglu data ar oedi yn y llysoedd ac yn ogystal bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a chyflenwyr Gwasanaethau Hebrwng a Chadw Carcharorion yn cydweithio i ddatblygu mesurau perfformiad traws-system mwy manwl, ac i sicrhau bod mesurau perfformiad digon manwl wedi'u cynnwys mewn unrhyw gontractau cyflenwyr Gwasanaethau Hebrwng a Chadw Carcharorion newydd, i nodi methiannau system ehangach ac ysgogi gwelliannau. Byddai hwn yn bwnc priodol i'w godi a'i flaenoriaethu yn y Bwrdd Goruchwylio Perfformiad.

Cyfieithu ar y Pryd

45. Rwyf yn ymwybodol o broblemau wrth ddarparu cyfieithwyr, gyda chyfieithwyr heb eu harchebu neu heb fod ar gael lle a phryd y mae eu hangen ac, o ganlyniad, gall achosion gael eu gohirio oherwydd diffyg cyfieithydd. Bydd y rhan hon o'r bennod yn archwilio gwelliannau i'r ddarpariaeth gyfieithwyr bresennol, yn ogystal â sut y gall datblygiadau mewn technoleg cyfieithu AI ddarparu cymorth ychwanegol yn wyneb prinder yn nifer y cyfieithwyr sydd ar gael.

Y System Bresennol a Heriau

46. Mae cyfieithwyr yn hollbwysig i lysoedd gynnal achosion ac i sicrhau mynediad cyfartal i gyfiawnder. O dan Erthygl 6(3)(e) o Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), 'dylai pawb sy'n cael eu cyhuddo o drosedd gael cymorth cyfieithydd am ddim os na allant ddeall na siarad yr iaith a ddefnyddir yn y

llys'.[194] Mae cyfieithwyr yn hanfodol ar gyfer cydymffurfio â'r hawl treial teg sylfaenol hon, gan eu bod yn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn rhugl yn Saesneg yn gallu deall ac yn cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol. Ar hyn o bryd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn contractio gwasanaethau cyfieithu i un darparwr preifat o'r enw thebigword (TBW), a oedd yn 2024 yn trin tua 8,700 o archebion o'r awdurdodaeth droseddol y mis.[195] Neilltuir cyfieithwyr trwy system sy'n seiliedig ar ap, a threfnir archebion y tu allan i'r contract yn lleol os na all TBW gyflawni ceisiadau mewn pryd.

47. Rwyf wedi cael gwybod, o dan y system bresennol, bod yr heddlu neu asiantaeth ymchwilio arall yn gyfrifol am drefnu cyfieithydd ar gyfer diffynnydd os yw'r diffynnydd yn cael ei remandio i ymddangos gerbron y llys sydd ar gael nesaf o fewn dau ddiwrnod i gael ei gyhuddo. Yn yr un modd, os rhoddir dyddiad mechnïaeth byr i ddiffynnydd i ddod i'r llys (dau ddiwrnod gwaith neu lai) yna rhaid i'r heddlu neu asiantaeth ymchwilio arall drefnu'r cyfieithydd. Byddai'r heddlu neu asiantaethau ymchwilio eraill yn gosod archeb trwy gyflenwr y Weinyddiaeth Gyfiawnder, TBW. Os yw gwrandawiad y diffynnydd wedi'i drefnu i ddigwydd mwy na dau ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad y cyhuddiad, cyfrifoldeb Canolfannau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yw trefnu cyfieithydd.

48. Mae galw mawr am gyfieithwyr ar y pryd. Fel y gwelir yn Ffig. 9.2, yn dilyn gostyngiad yn y galw am nifer yr archebion cyfieithwyr ar y pryd o 2014 i 2020, yn y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd i gyrraedd uchafbwynt degawd mewn galw o dros 78,000 o archebion yn 2024.[196] Yn ogystal, yn 2024 cyrhaeddodd ceisiadau

194

195


196

heb eu cyflawni'r nifer uchaf a welwyd ers degawd (tua 5,000) ac roedd yn cyfateb i tua 7% o'r archebion.[197]

Figure 9.2

The total number of fulfilled and unfulfilled interpreter booking requests in the criminal jurisdiction

England and Wales, 2014 to 2024



Source: Criminal court statistics quarterly: July to September 2025 - GOV.UK

49. Gall ceisiadau nas cyflawnir ohirio gwrandawiadau ac yn eu tro gall hyn effeithio'n andwyol ar effeithiolrwydd gwrandawiadau a rhestrau. Yn 2024, cofnodwyd tua 900 o dreialon fel treialon aneffeithiol oherwydd nad oedd cyfieithydd ar gael (tua 200 yn Llysoedd y Goron a thua 700 mewn llysoedd ynadon), roedd hyn tua 4% o'r holl dreialon aneffeithiol mewn llysoedd ynadon ac 1% yn Llys y Goron.[198] Fodd bynnag, dylid ystyried y ffigurau hyn ochr yn ochr â'r data ehangach a chyfyngiadau cydnabyddedig y data hwnnw. Mae edrych ar dreialon aneffeithiol ar eu pen eu hunain yn debygol o danbrisio'r broblem, er enghraifft nid yw'r data hwn yn cyfrif am oedi neu ganslo gwrandawiadau nad ydynt yn dreialon oherwydd diffyg cyfieithydd na'r anawsterau y gallai arwain

197

198

atynt gyda rhestru. Felly, er bod y ffigurau treialon aneffeithiol yn gymharol fach, yn ysbryd effeithlonrwydd cytunaf â sylw'r Gweinidog Sackman yn y Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus ar 'dystiolaeth lafar heb ei gywiro bod nifer y treialon aneffeithiol oherwydd diffyg cyfieithwyr yn dal i fod yn 'rhy uchel, ac rydym am ostwng hynny'.[199]

50. Nid oes data clir ar berfformiad cyffredinol, sy'n ei gwneud hi'n anodd monitro'r mater yn effeithiol ac yn rhwystro diagnosis o faint a natur y broblem. Nododd Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd Tŷ'r Arglwyddi yn Ymchwiliad y Llys 2025 yr heriau hyn gyda data oherwydd tan-adrodd a hepgoriadau data. Yn benodol, nododd wrthdaro rhwng y data a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adroddiadau am gyfieithu ar y pryd o ansawdd gwael.[200] Tynnodd sylw hefyd nad oedd cyfieithwyr yn cyrraedd ar gyfer aseiniadau neu fod y math anghywir o gyfieithydd wedi'i archebu.[201] Rwyf wedi wynebu her debyg gyda data yn yr Adolygiad hwn. Er enghraifft, nid yw data cyhoeddedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfieithwyr yn ystyried sefyllfaoedd lle nad yw'r angen am gyfieithydd wedi'i nodi neu lle mae methiant wedi bod i ofyn am gyfieithydd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar fy ymgysylltiad ac ymweliadau â llysoedd ledled y wlad, credaf fod hwn yn fater sylweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef.

51. Deallaf fod prinder cyfieithwyr ar y pryd yn y system. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adrodd bod 2,000 o gyfieithwyr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd i weithio yn y llysoedd, sy'n cynnig 97 o ieithoedd unigryw.[202] Fodd bynnag, nid yw pob un o'r cyfieithwyr cofrestredig hyn yn 'weithredol', sy'n golygu efallai nad

---

199

200

201

202

ydynt wedi derbyn archeb yn ystod y chwe mis diwethaf.[203] Mae natur y galw am ieithoedd hefyd yn newid, a all waethygu problemau ynghylch prinder cyfieithwyr ymhellach. Er enghraifft, mae galw cynyddol am wasanaethau Albanieg a Chwrdeg Sorani.[204] Rwyf eisoes wedi argymell ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell) ailgyflwyno cynllun peilot GLlTEF o 'Gyfieithu ar y Pryd drwy Blatfform Fideo'r Cwmwl ar gyfer Diffynyddion ar Remand' sy'n caniatáu i gyfieithydd fynychu drwy fideo. Yn ogystal â phroblemau ynghylch prinder cyfieithwyr, deallaf fod heriau gyda'r broses archebu. Tynnodd Gwasanaethau Cyfieithu Tŷ'r Arglwyddi yn Ymchwiliad y Llysoedd 2025 sylw at y ffaith bod archebion ar fyr rybudd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau ieithoedd. Mae contractwyr yn awgrymu bod 27% o archebion yn cael eu derbyn 'o fewn 24 awr o rybudd' a thraean o'r rheini (9% o archebion) yn cael eu gwneud 'o fewn tair awr' i'r achos fod i fod i gael ei wrando.[205]

52. Deallaf y gall y broses archebu fethu pan na chaiff yr angen am gyfieithydd ei nodi ymlaen llaw. Adroddodd Gwasanaethau Cyfieithu Tŷ'r Arglwyddi yn Ymchwiliad y Llysoedd 2025 fod 'nifer o dystion wedi adrodd am oedi i achos llys oherwydd na chafodd cyfieithwyr eu harchebu, nad oeddent ar gael neu nad ydynt yn cyrraedd pan gawsant eu harchebu'[206]. Felly, mae archebion hwyr o'r fath yn ei gwneud hi'n anodd paru cyfieithwyr yn ddibynadwy.

53. Mewn rhai achosion, dim ond pan fyddant yn cyrraedd eu gwrandawiad cyntaf y mae diffynyddion yn gofyn am gyfieithydd. Mae hyn yn arwain at oedi yn yr achos, ac os na ellir dod o hyd i un ar fyr rybudd, mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid

---

203

204

205

206

bwrw ymlaen heb un (efallai gyda rhywun sy'n rhugl yn yr ieithoedd perthnasol yn bresennol gyda'r diffynnydd) neu ohirio'r gwrandawiad yn fater o farn farnwrol. Cefais wybod ar sail adroddiadau anecdotaidd y gall gofyn am gyfieithwyr yn hwyr ddigwydd oherwydd bod yr heddlu wedi methu â bwcio'r cyfieithydd priodol naill ai oherwydd diffyg adnoddau, diffyg dealltwriaeth o weithdrefnau cyfredol neu'r diffynnydd heb ofyn am gyfieithydd ar adeg cael ei gyfweld gan yr heddlu. Mae'n ofynnol i'r heddlu bwcio cyfieithwyr ar gyfer gwrandawiadau ar fyr rybudd (fel achosion remand dros nos) ar gyfer y rhai sydd o fewn eu cylch gwaith. Mae canllawiau mewnol eisoes yn bodoli yng Nghymru a Lloegr ar gyfer heddluoedd i sicrhau bod cyfieithwyr yn cael eu bwcio'n gyson cyn gwrandawiadau lle mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n disgyn ar yr heddlu. Byddwn yn annog yr heddlu i wreiddio'r wybodaeth a chymhwyso'r canllawiau hyn yn gyson ac i weithio gyda CPS i sicrhau bod gan ddiffynyddion fynediad at gyfieithydd mewn iaith y maent yn rhugl ynddi cyn gynted ag y bo modd pan fo angen. Lle nad yw'r heddlu'n gallu sicrhau cyfieithydd ar gyfer diffynnydd mewn iaith y maent yn rhugl ynddi, dylid rhoi'r opsiwn i'r diffynnydd o ddefnyddio adnodd cyfieithu AI cymeradwy. Rwyf eisoes wedi argymell hyn ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf).

54. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos ei bod yn eithaf cyffredin i ddiffynyddion beidio â chael cyfieithydd tra eu bod yn yr orsaf heddlu, dim ond i wneud cais o'r fath ar ôl cyrraedd y llys ynadon. Yn yr achosion hyn, bydd y llys yn ymdrechu i sicrhau cyfieithydd ar gyfer y diffynnydd, hyd yn oed os yw'n ymddangos bod y diffynnydd yn rhugl yn Saesneg. Fodd bynnag, os bydd y llys yn aflwyddiannus wrth ddod o hyd i gyfieithydd addas, yna mae'r ynadon yn gyfrifol am benderfynu a fydd y gwrandawiad yn mynd rhagddo yn ôl yr amserlen neu'n cael ei ohirio.

55. Mae cyfieithu ar y pryd yn ddrud, yn enwedig gyda'r cynnydd mewn archebion y tu allan i gontract ac archebion munud olaf. Er mwyn ateb y galw am gyfieithwyr ar y pryd, mae archebion y tu allan i gontract yn cael eu defnyddio'n amlach lle nad yw TBW yn gallu dod o hyd i gyfieithydd. Mae'r defnydd o archebion y tu allan i gontract o fewn yr awdurdodaeth droseddol wedi bod yn cynyddu'n raddol ers

2020 i gyrraedd uchafbwynt erioed yn 2024 (o tua 600 i 6,300).[207] Rwyf wedi clywed trwy ymgysylltu â staff GLlTEF bod archebion y tu allan i gontract yn tueddu i fod yn ddrytach gan fod cyfieithwyr yn cael eu harchebu'n breifat os na all y cyflenwr gyflawni cais.

56. Rwyf hefyd yn ymwybodol o bryderon y gall cyfieithu ar y pryd dynol fod yn gymharol anghywir. Nodaf, er bod nifer y cwynion am ansawdd cyfieithu ar y pryd yn isel iawn – wyth yn 2024[208] – mae'n debygol bod cwynion yn cael eu tan-adrodd.[209] Efallai nad yw cwynion ffurfiol yn cael eu cyflwyno, ac mae'n ymddangos bod sawl ffactor yn gyrru hyn, gan gynnwys ymwybyddiaeth isel o'r system gwyno a diffyg amser i gynrychiolwyr cyfreithiol godi cwyn.[210] Priodolodd yr Arglwydd Sandhurst hyn hefyd yn y ddadl Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd yn y Llysoedd (Adroddiad y Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus) i'r ffaith mai dim ond yn Saesneg a Chymraeg y mae'r cwynion ar gael a bod y rhai sydd 'fwyaf mewn angen am help yn meddu ar y gallu lleiaf i gael mynediad iddo'.[211] Soniodd Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i Wasanaethau Cyfieithu ar y Pryd yn y Llys 2025 y 'dylai'r llywodraeth wneud prosesau cwyno yn fwy hygyrch i

---

207

208

209

210

211

siaradwyr nad ydynt yn siarad Saesneg'.[212] Nodaf hefyd fod yna sefyllfaoedd lle gall cyfieithu ar y pryd gwael fod wedi peryglu achosion.[213]

57. Mae'r heriau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar effeithlonrwydd y llys, gan y gall prinder cyfieithwyr a threfniadau archebu ar fyr rybudd arwain at oedi, gohirio a dryswch wrth sicrhau bod achosion yn rhedeg yn esmwyth ac yn deg i bob parti dan sylw. Mae argaeledd cyfyngedig ac ansawdd annigonol cyfieithwyr yn peryglu cyfaddawdu ar gyfranogiad effeithiol ac egwyddorion tegwch i ddiffynyddion, dioddefwyr a thystion.

Argymhellion

Contract Cyfieithydd

58. Hyd yn oed pan fydd anghenion cyfieithu'r diffynnydd yn cael ei nodi'n gynnar yn y broses, mae problem o hyd gyda pha mor hawdd yw cael cyfieithwyr. Ar hyn o bryd, dim ond un cyflenwr cyfieithwyr sydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef TBW. Mae'r monopoli hwn yn cyfrannu at y diffyg cyfieithwyr presennol y mae'r Llysoedd yn ei wynebu. Ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Ymchwiliad Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd yn y Llysoedd Tŷ'r Arglwyddi 2025, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynghori y bydd eu contractau cyflenwyr newydd sy'n dod i rym o fis Hydref 2026 yn 'lleihau ymhellach archebion y tu allan i'r contract' trwy gael ail gyflenwr ar gyfer archebion na ellir eu cyflawni gan y prif gyflenwr.[214] Rwy'n cymeradwyo'r dull gweithredu diwygiedig hwn a ddylai wella argaeledd cyfieithwyr a lleihau'r dibyniaeth ar archebion y tu allan i'r contract, sy'n ffynhonnell gyffredin o bryderon diogelu data a diogelwch. Bydd cynllun lle mae ail gyflenwr dan gontract ar gael yn cynyddu'r tebygolrwydd y gellir cyflawni archebion i'r safon y cytunwyd arni. Dylai hyn leihau'r angen am ohiriadau ac

---

212

213

214

archebion y tu allan i'r contract. Fodd bynnag, lle bo'n gwbl angenrheidiol, dylai'r llysoedd ddilyn canllawiau presennol i gynllunio ymlaen llaw, cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwasanaethau a sicrhau gwerth am arian.

59. Dylai'r dull newydd hwn gyda chyflenwr contractedig eilaidd hefyd effeithio ar y polisi canslo cyfieithwyr ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid yw cyfieithwyr yn cael eu talu oni bai bod eu harcheb yn cael ei chanslo ar ôl 09.00 ar y diwrnod y maent wedi'u harchebu i ymddangos. Bu cwynion dealladwy bod hyn yn gweithredu'n annheg i gyfieithwyr pan fydd archeb yn cael ei chanslo'n hwyr y diwrnod cynt gan fod hynny'n ei gwneud yn annhebygol y bydd y cyfieithydd yn gallu contractio am waith newydd y diwrnod canlynol. Bydd y cynllun newydd a'r contract newydd hwn yn caniatáu i ffi ganslo gael ei thalu i'r cyfieithydd os cânt eu canslo ar y diwrnod gwaith cyn y diwrnod y cawsant eu harchebu ar ei gyfer. Er enghraifft, os oes gan GLlTEF archeb ar gyfer cyfieithydd ar ddydd Mercher, os caiff ei chanslo ar ddydd Llun neu cyn hynny, ni fydd unrhyw ffi yn daladwy.

60. Yn yr Adolygiad hwn rwyf hefyd wedi ystyried defnyddio cyfieithu a alluogir gan AI, a chredaf y dylai hyn chwarae rhan gynyddol bwysig yn yr ystafell llys, a thrafodaf hynny isod. Mae hwn yn faes sy'n datblygu'n gyflym: rhybuddiodd yr Athro Richard Susskind yn Ymchwiliad Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd yn Nhŷ'r Arglwyddi 2025 y byddai 'y datblygiadau arloesol mewn AI yn digwydd bob pum i 10 mlynedd ond bellach yn cael eu gweld bob chwech i 12 mis'.[215] Felly, awgrymaf y dylid monitro perfformiad y ddau gyflenwr dan gontract yng nghyd-destun y dechnoleg sy'n datblygu hon. Disgwylir i'r systemau hyn ddod yn fwyfwy cywir, ac i flaenoriaethu gwerth am arian, dylai'r llywodraeth fod yn ystyried defnyddio cyfieithu ar y pryd dynol traddodiadol gyda hyn mewn golwg.

Argymhelliad 131: Rwy'n argymell, fel rhan o'r contract cyfieithwyr ar y pryd newydd, y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fonitro perfformiad y ddau gyflenwr dan gontract, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd a chywirdeb cyfieithiadau deallusrwydd artiffisial.

215

Y broses cyfieithu ar y pryd

61. Fel y soniwyd uchod, mae proses eisoes ar waith i'r heddlu hysbysu Canolfannau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (CTSCs) drwy e-bost o'r angen i drefnu cyfieithwyr mewn achosion mechnïaeth. Deallaf y gall cydymffurfiaeth â'r weithdrefn hon fod yn anghyson ac o ganlyniad mae llawer o lysoedd unigol yn cynnal eu gwiriad eu hunain o'r wybodaeth ar y Platfform Cyffredin ddau ddiwrnod cyn y gwrandawiad ar hyn o bryd. Mae'r weithdrefn yn dibynnu ar rywun yng ngwarchodaeth yr heddlu yn ymgymryd â chamau â llaw ar hyn o bryd; mae hyn yn hen ffasiwn, a dylid awtomeiddio'r broses. Dylai system yr heddlu naill ai dynnu sylw CTSCs a) a oedd cyfieithydd wedi'i ddefnyddio yn yr orsaf heddlu a b) a oes angen cyfieithydd ar ddiffynnydd yn y llys, gan gynnwys yr iaith ofynnol, pan fo diffynnydd ar fechnïaeth neu, o gofio y byddai'r wybodaeth hefyd ar y Platfform Cyffredin, dylid anfon hysbysiad llif gwaith oddi yno i'r CTSC. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfieithydd yn cael ei neilltuo yn y llys i bob diffynnydd sydd angen un. Fel arall, dylid gwneud gwelliant o fewn y Platfform Cyffredin fel bod hysbysiad llif gwaith awtomataidd yn cael ei anfon o'r Platfform Cyffredin i CTSCs pan fydd yr achos yn glanio.

Argymhelliad 132: Rwy'n argymell, mewn achosion mechnïaeth, y dylai'r heddlu wirio a fydd y diffynnydd angen cyfieithydd yn y llys, ac y dylai fod system awtomataidd i sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen i drefnu cyfieithydd ar gael i Ganolfannau Gwasanaethau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd.

Cyfieithu wedi'i alluogi gan AI

62. Fel rhan o'r Adolygiad hwn, rwyf hefyd wedi ymchwilio i'r potensial ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a alluogir gan AI. Bu peilotiaid cyfyngedig o'r dechnoleg hon mewn gwledydd eraill sydd wedi cael rhywfaint o lwyddiant. Er enghraifft, yn UDA, mae Uchel Lys Orange County wedi datblygu adnodd cyfieithu AI sy'n cyfieithu Sbaeneg a Fietnameg. Adroddwyd ganddynt gywirdeb o 80% ar gyfer Sbaeneg (17% o wallau bach, 3% o wallau mawr) a chywirdeb o 57% ar gyfer Fietnameg (39% o wallau bach, 4% o wallau mawr), yn seiliedig ar 113 o

adrannau wedi'u cyfieithu a adolygwyd gan gyfieithydd ardystiedig Sbaeneg a cyfieithydd ardystiedig Fietnameg, yn ôl eu priod drefn.[216] Priodolwyd lefel is cywirdeb Fietnameg i argaeledd uwch o ddeunyddiau hyfforddi Sbaeneg.[217]

63. Rwyf yn ymwybodol bod mabwysiadu ehangach y dechnoleg hon wedi'i arafu gan bryderon ynghylch cywirdeb ac atebolrwydd cyfieithu AI.[218] Rwy'n cydnabod bod yr angen i gyfieithu AI fodloni'r safonau uchel a ddisgwylir gan gyfieithwyr llys yn allweddol i'w fabwysiadu ymhellach. Rwyf hefyd yn cydnabod bod cywirdeb cyfieithu AI yn amrywio yn dibyn ar nifer o newidynnau gan gynnwys yr iaith dan sylw a'r data hyfforddi sydd ar gael.[219] Mae acwsteg ac ansawdd sain yn heriau ehangach ar gyfer cyfieithu mewn ystafelloedd llys,[220] a bydd hyn hefyd yn effeithio ar gywirdeb cyfieithu AI.[221] Wedi dweud hynny, mae cyfieithu AI yn faes sy'n datblygu'n gyflym[222] ac mae'n ymddangos yn debygol y bydd cyfieithu AI ond yn cynyddu mewn cywirdeb bob blwyddyn.[223] Yn seiliedig ar y cynnydd presennol, gall cyfieithu AI ragori ar gyfieithu dynol yn y dyfodol agos.

216

217

218

219

220

221

222

223

64. Er fy mod yn cydnabod bod angen i gyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial gael ei gyflwyno i safon uchel, nid yw cyfieithiadau a wneir gan gyfieithwyr dynol heb ei fethiannauac mae gwallau yn digwydd.[224] Ar ben hynny, gyda chyfieithwyr dynol yn y llys nid oes dull o nodi'r gyfradd gwallau. Dylai fod safon brofi y cytunir arni felly sy'n diffinio lefelau perfformiad derbyniol, dulliau gwerthuso a throthwyon gweithredol ar gyfer offer cyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial. Gellid meincnodi lefel dderbyniol cywirdeb adnodd cyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial yn erbyn perfformiad canolrifol un neu, yn ddelfrydol, berfformiad canolrifol grŵp o gyfieithwyr dynol y dibynnir arnynt fel rhai cywir.

65. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod cyfieithwyr llys sy'n gweithredu yn y llys yn gymwys ac yn atebol. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion cymhwyster, system gwyno ac asesiad o gyfieithwyr a elwir yn 'asesiadau siopwyr dirgel'. Mae asesiadau o'r fath yn cynnwys asesydd yn yr oriel gyhoeddus neu'n gwrando ar recordiadau achosion ac mae hyn yn cwmpasu 1% o'r archebion a wneir, neu tua 2,000 o asesiadau y flwyddyn.[225] Mae'n bwysig bod craffu trwyadl tebyg hefyd yn cael ei gymhwyso i gyfieithu AI.

66. Mae gwaith llawer mwy datblygedig i gyflwyno trawsgrifiadau wedi'u pweru gan AI o fewn y llysoedd. Drwy redeg trawsgrifiad o'r iaith wreiddiol a thrawsgrifiad o'r iaith a gyfieithwyd, mae'n bosibl gwerthuso cywirdeb y cyfieithiad os oes her. Yn fy marn i, byddai hyn yn gwella tryloywder drwy greu cofnod byw. Byddai technoleg bresennol yn Llys y Goron a fy argymhelliad yn Rhan I i gyflwyno recordio sain yn y llys ynadon yn cefnogi hyn. Bydd safonau clir yn gam pwysig wrth fabwysiadu cyfieithu AI mewn llysoedd.

67. Ymhellach, bydd ansawdd cyfieithu AI yn dibynnu ar fuddsoddiad hirdymor mewn technoleg, a dylid cymryd hyn o ddifrif er mwyn cyflawni effeithlonrwydd

---

224

225

hirdymor. Mae angen buddsoddi i ddiweddaru technoleg ddigidol bresennol a mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag acwsteg a chysylltedd, y dywedir yn aml nad ydynt yn ddigonol gan gyfieithwyr ar y pryd cyfredol.[226] Dylid dilysu'r dechnoleg sydd ei hangen i ddarparu ansawdd sain digonol ar gyfer cyfieithu AI drwy gynllun peilot.

68. Mater allweddol arall, ochr yn ochr ag ansawdd y cyfieithu, yw'r gwahaniaeth rhwng cyfieithu ar y pryd a chyfieithu AI. Deallaf fod cyfieithu ar y pryd yn golygu trosi geiriau llafar rhwng dwy iaith mewn amser real gan berson,[227] a chyfieithu AI yn broses sy'n defnyddio technoleg sy'n trosi geiriau llafar (neu destun) yn awtomatig o un iaith i'r llall.[228]

69. Rwy'n cydnabod y ddadl bod cyfieithu ar y pryd, wrth gyfleu'r neges, yn mynd y tu hwnt i drosi geiriau sylfaenol wrth iddo ddeall cyd-destun ac arlliwiau naws ddiwylliannol,[229] ac efallai na fydd cyfieithu gair am air bob amser yn ddigonol yn y llys.[230] Fodd bynnag, ar yr amod nad yw ystyr yr iaith ffynhonnell yn cael ei camddehongli,[231] credaf y bydd cyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial yn rhoi mwy o dryloywder. Gall liniaru'r risg o ragfarn gyda cyfieithwyr traddodiadol a hyd yn oed osgoi sefyllfaoedd yn y gorffennol lle mae cyfieithwyr wedi cynghori'r

---

226

227

228

229

230

231

person beth i'w ddweud a beth i beidio ag ateb.[232] Ymhellach, rwy'n cydnabod, er bod cyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial yn methu ar hyn o bryd â thrin cyd-destun ac arlliwiau diwylliannol, mae gallu deallusrwydd artiffisial i wneud hynny yn gwella'n gyson gyda chefnogaeth adolygiad a mireinio dynol.[233] Mae datblygiad technolegol yn cymylu'r ffin rhwng cyfieithu ar y pryd a chyfieithu[234] yn barhaus ac rwy'n cefnogi archwilio pellach o'r datblygiadau hyn gyda golwg ar eu defnydd effeithiol mewn achosion treial.

70. Er bod gan bawb sy'n cael eu cyhuddo o drosedd, o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), yr hawl i 'gael cymorth am ddim gan gyfieithydd os na allant ddeall na siarad yr iaith a ddefnyddir yn y llys', nid yw'n eglur a ddylai hyn fod gan gyfieithydd traddodiadol neu a all fod drwy dechnoleg, fel cyfieithu AI – nad yw'n syndod o gwbl o ystyried dyddiad drafftio'r Confensiwn.[235] Dylai cyfieithu ar y pryd traddodiadol barhau i fod y cynnig diofyn ar gyfer y dyfodol agos, gyda defnydd o fideo ac AI i ategu hyn i gynyddu cynhyrchiant a chefnogi ansawdd dehonglwyr dynol. Fodd bynnag, dylai GLlTEF barhau i brofi a threialu cyfieithu AI gyda'r nod o gyrraedd cam lle gellid ystyried y gwasanaeth hwn fel y 'safon aur' i'w gynnig fel yr opsiwn diofyn i'r rheini na allant ddeall na siarad yr iaith yn y llys. Mae'n siŵr y bydd hyn yn cymryd mwy o amser ar gyfer ieithoedd prin lle mae maint y sampl a'r deunydd hyfforddiant sydd ar gael yn effeithio ar gywirdeb. Mae'n debygol hefyd y bydd sefyllfaoedd lle gallai cyfieithu AI fod yr unig opsiwn sydd ar gael. Os na ellir dod o hyd i gyfieithydd, dylid rhoi disgresiwn i'r Barnwr i'w gynnig os yw er budd cyfiawnder.

232

233

234

235

71. Mae cyflwyno'r dechnoleg hon yn codi cwestiynau ynghylch pwy sy'n atebol am ansawdd cyfieithu AI. Dylai'r llywodraeth sefydlu trefn fonitro sy'n pennu'r lefel o gywirdeb sydd ei hangen ac sy'n dwyn darparwyr cyfieithu AI i gyfrif am fod yn gywir, lleihau gwallau i'r eithaf a bod yn dryloyw ynghylch lefel y perfformiad. Mae monitro cyfieithu AI mewn amser real yn hollbwysig, gan fod yn rhaid datgelu unrhyw wallau y mae'r adnodd yn eu gwneud yn ystod y gwrandawiad yn gyflym.

72. Ar yr amod bod y cyfieithu AI yn gywir ac yn ystyried naws, mae yna sefyllfaoedd lle mae defnyddio cyfieithu AI yn peri llai o risg a dylid ei archwilio. Er enghraifft, yn fy marn i, dylai cyfieithu AI fod yn llawer mwy ar gael ar gyfer gwrandawiadau yng nghwrs achos y mae'r diffynnydd yn mynychu lle efallai na fydd yn rhaid iddynt gyfrannu'n helaeth ond rhaid iddynt allu deall yr achos. Rwy'n annog archwilio cyfieithu AI yn ofalus a pharhaus ar gyflymder trwy gynlluniau peilot mewn gwrandawiadau yng nghwrs achos i feithrin hyder a darparu data i lywio cyflwyno ehangach.

73. Mae cyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial mewn lleoliad llys ar ddechrau'r broses archwilio a datblygu o'i gymharu â meysydd eraill, o gofio pa mor gymhleth yw gwerthuso cywirdeb yn yr amgylchedd hwnnw. Mae GLlTEF yn archwilio a all deallusrwydd artiffisial gefnogi cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn effeithiol ar blatfform i gefnogi paratoi achosion barnwrol, ochr yn ochr ag offer crynhoi, trawsgrifio ac anhysbysrwydd. Rwyf yn cymeradwyo archwilio ymhellach gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg gyda chymorth deallusrwydd artiffisial fel rhan o'r nod cyffredinol o sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl.

74. Mae treialon o gyfieithu AI yn mynd rhagddynt mewn meysydd eraill o'r system cyfiawnder troseddol. Trwy ymgysylltu â Gwasanaethau Digidol a Thechnoleg GLlTEF, rwyf wedi cael gwybod bod HMPPS wedi treialu cyfieithu ar y pryd AI ar gyfer trafodaethau anghyfreithiol ac anghlinigol ar draws wyth carchar. Adroddwyd lefelau cywirdeb ar gyfer 91 o ieithoedd yn amrywio rhwng tua 6% a

97%,[236] gyda 29 o ieithoedd â dros 90% o gywirdeb. Nodwyd, er bod rhai ieithoedd yn cael eu profi a'u mireinio, bod yr adnodd yn gyson yn rhagori ar y disgwyliadau ar draws llawer o ieithoedd. Mae GLlTEF yn dymuno datblygu safonau ar berfformiad cyfieithu AI, ac rwyf yn cefnogi hyn. Mae data o'r cynllun peilot hwn yn awgrymu bod cysylltu â cyfieithydd yn cymryd 20 munud ar gyfartaledd o'r adeg y nodir bod angen cyfieithydd, o'i gymharu â thua 5 munud trwy eu adnodd cyfieithu ar y pryd Echo AI. Mae carchardai hefyd wedi adrodd am ostyngiad o 84% yng nghost uned am ddefnyddio'r adnodd AI hwn o'i gymharu â chyfieithu ar y pryd dynol.[237] Ymhellach, mae Gwasanaethau Ieithoedd a Diwylliannol Gwasanaeth Heddlu'r Ddinas yn treialu ap cyfieithu AI.[238] Mae ymdrechion i wella cywirdeb cyfieithu AI yn cael eu gwneud ar hyn o bryd o fewn asiantaethau ar wahân, a nodaf y potensial ar gyfer cydweithredu ar draws y system cyfiawnder troseddol i gyflymu hyn. Rhaid i gynlluniau peilot pellach o gyfieithu AI gynnwys gwerthusiad cadarn o fetrigau cywirdeb, difrifoldeb gwallau a chost-effeithiolrwydd.[239]

75. Os bodlonir y safon ansawdd rhagnodedig ar gyfer cyfieithu AI, gellid defnyddio technoleg cyfieithu AI i arbed amser llys a achosir gan oediadau cyfieithwyr, yn ogystal ag arian o gost cyfieithwyr. Yn y flwyddyn ariannol 2023/24, gwariodd GLlTEF bron i £12.8 miliwn ar gyfieithu a chyfieithu ar y pryd.[240] Gellid ailffocysu adnoddau a wariwyd ar gyfieithu ar y pryd traddodiadol i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r llwyth achosion agored.

236

237

238

239

240

76. Bydd galluoedd AI yn parhau i ddatblygu, drwy ddatblygiad model parhaus y gwahanol gyflenwyr a thrwy'r mireinio y mae sefydliadau'n ei gymhwyso'n fewnol. Caiff mân-diwnio o'r fath ei alluogi gan ddolenni adborth parhaus, lle mae allbynnau AI yn cael eu hailintegreiddio i'r model i fireinio cywirdeb, rhuglder a pherthnasedd cyd-destunol. Pan fydd y llywodraeth yn ystyried y ffordd orau o wneud y mwyaf o ddefnyddio cyfieithu AI, rhaid iddi sicrhau bod y system yn cefnogi dysgu effeithiol, gan alluogi perfformiad model i gael ei fireinio a'i wella'n barhaus drwy'r dolenni adborth hyn. Mae gan y llysoedd troseddol a meysydd eraill o fewn y llywodraeth gyfaint sylweddol o recordiadau sain mewn cyd-destunau proffesiynol mewn amrywiol ieithoedd. Ar yr amod bod y cymeradwyaethau angenrheidiol ar waith, gallai'r llysoedd troseddol fireinio a dilysu'r model cyfieithu AI yn erbyn ansawdd acwstig y recordiadau hyn. Byddai hyn yn ei dro hefyd yn rhoi sicrwydd bod offer yn effeithiol ac yn gywir.

Argymhelliad 133: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn ymchwilio i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial at ddibenion cyfieithu ar y pryd i'w ddefnyddio yn y llysoedd ac yn sefydlu trefn fonitro o ddeallusrwydd artiffisial gyda metrigau i bennu a dwyn i gyfrif lefel y cywirdeb a'r gwallau. Yn amodol ar gymeradwyaeth y barnwr, yn dilyn profi'r cyfleuster, dylid defnyddio cyfieithu deallusrwydd artiffisial hefyd mewn gwrandawiadau cyn treial a gwrandawiadau rhagarweiniol lle nad yw cyfieithwyr ar y pryd traddodiadol ar gael. Bydd hyn yn sicrhau y gwneir cynnydd, hyd yn oed os yw'n fach iawn.

Cyfieithu Tu Hwnt i Ystafell y Llys

77. Llwybr arall yr wyf wedi'i ymchwilio fel rhan o'r Adolygiad hwn yw'r defnydd posibl o gyfieithu AI y tu hwnt i'r ystafell llys, i gefnogi gwaith rheng flaen heddluoedd a CTSC.

Y System Bresennol a Heriau

78. Fel y nodais eisoes, mae'r hawl i gael cymorth ieithyddol wedi'i gorffori yn Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).[241] O ganlyniad, mae mynediad at gyfieithwyr ar gyfer unigolion nad ydynt yn rhugl yn Saesneg yn hollbwysig nid yn unig mewn ystafelloedd llys ond o'r eiliad yr arestir rhywun hyd at euogfarn neu ryddfarn.

79. Y tu allan i ystafelloedd llys, defnyddir cyfieithwyr dynol, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, gan staff rheng flaen, sef heddluoedd a Chanolfannau Cyswllt Gwasanaethau Llysoedd, i gynorthwyo unigolion sydd angen cymorth iaith.

80. Mae CTSC yn darparu arweiniad a chefnogaeth i unigolion sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder mewn canolfannau gwasanaeth canolog. Eu nod yw gwella mynediad at gyfiawnder a datrys ymholiadau yn fwy effeithlon drwy ddefnyddio prosesau digidol, yn hytrach na phrosesau papur, wrth drin ymholiadau achos a thasgau gweinyddol.[242] Yn debyg i achosion llys, ar hyn o bryd mae GLlTEF yn contractio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn CTSC i thebigword. Fodd bynnag, fel y nodais eisoes, mae prinder cyfieithwyr ar y pryd yn gyffredinol, gyda nifer yr ymholiadau heb eu hateb yn cyrraedd y niferoedd uchaf a welwyd ers degawd yn 2024.[243]

81. O ran heddluoedd, mae pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn dilyn Cynllun Cyfieithwyr a Chyfieithwyr ar y Pryd Cymeradwy'r Heddlu ar hyn o bryd, a oruchwylir gan y Coleg Plismona. Mae'r cynllun Cyfieithwyr a Chyfieithwyr ar y Pryd Cymeradwy'r Heddlu (PAIT) yn diffinio'r cymwysterau, y fetio a'r profiad sydd eu hangen ar ddehonglwyr wrth ymgymryd â neilltuadau heddlu yng Nghymru a Lloegr. Fel arfer, caiff gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer plismona eu

---

241

242

243

caffael yn rhanbarthol drwy'r System Brynu Dynamig, lle mae cyflenwyr cymeradwy yn cydymffurfio â gofynion PAIT.[244] Deallaf fod data sydd ar gael ar ddefnydd cyfieithwyr ar y pryd o fewn heddluoedd yn gyfyngedig oherwydd y cymysgedd o wasanaethau a ddefnyddir. Fodd bynnag, o gofio'r prinder cyfieithwyr ar y pryd ar draws y system cyfiawnder troseddol ehangach, mae'n ymddangos yn gredadwy tybio y bydd yr heddluoedd yn wynebu heriau tebyg.

82. Mae prinder parhaus o gyfieithwyr cymwysedig o fewn gwasanaethau rheng flaen yn creu rhwystr difrifol i ddatblygu achosion troseddol. Heb ddigon o gymorth iaith, ni all swyddogion gynnal cyfweliadau'n effeithiol, casglu tystiolaeth na sicrhau tegwch gweithdrefnol. Mae'r cyfyngiad hwn nid yn unig yn gohirio ymchwiliadau ond mae hefyd yn creu risg o gamweddau cyfiawnder gan y gall datganiadau fod yn anghyflawn neu'n cael eu cofnodi'n anghywir. Mae'r effaith gronnol yn dagfa sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod ymchwilio, trwy rwystro penderfyniadau cyhuddo a threfnu llys, ac yn y pen draw yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Yn yr un modd, heb gymorth cyfieithu ar y pryd priodol, gall asiantau mewn CTSCs ei chael hi'n anodd ymateb i ymholiadau mewn modd cywir ac amserol. Mae hyn eto'n arafu datblygiad achosion gan y gall unigolion sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol gamddeall a gallant fethu â darparu gwybodaeth hanfodol mewn pryd.

Argymhelliad

83. Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, fy argymhelliad yw ehangu cyfieithu AI i wasanaethau rheng flaen, yn enwedig heddluoedd a CTSCs, mewn achosion lle nad yw cyfieithwyr ar gael yn rhwydd.

84. Yng Nghymru a Lloegr, bu peilotiaid cyfyngedig ar ddefnyddio'r dechnoleg hon mewn gwasanaethau rheng flaen. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Ieithoedd a Diwylliannol Heddlu Metropolitan wedi dechrau peilota ap cyfieithu AI yn ddiweddar, gyda gwerthusiad yn yr arfaeth.

244

85. Deallaf fod peilotiaid mewn gwledydd eraill, fodd bynnag, wedi dychwelyd canlyniadau cadarnhaol ac rwyf yn cefnogi archwilio pellach sut y gall offer o'r fath wella mynediad effeithlon i gymorth iaith ar draws y system.

86. Er enghraifft, gweithredodd Uchel Lys California, yn UDA, giosg amlieithog wedi'i bweru gan AI i drin ymholiadau rheolaidd a darparu gwybodaeth am brosesau cyfreithiol i siaradwyr nad ydynt yn siarad Saesneg mewn adeiladau'r llys. Mae'r ciosg wedi lleihau llwyth gwaith staff yr adeilad llys, sydd bellach yn gallu canolbwyntio ar achosion blaenoriaeth uchel ac ymholiadau cymhleth sydd angen sylw arbenigol.[245]

87. Ymhellach, mae'r Adolygiad wedi cael gwybod am offer cyfieithu Axon sydd wedi'u galluogi gan AI ac sydd wedi'u hymgorffori mewn camerâu corff, yr wyf yn deall eu bod bellach yn cael eu defnyddio gan Adran Heddlu Joliet yn yr UDA. Deellir bod yr offer hyn yn galluogi swyddogion heddlu i gyfathrebu mewn dros 50 o ieithoedd trwy gyfieithu sgyrsiau yn awtomatig mewn amser real. Mae hefyd yn cofnodi sgyrsiau wedi'u cyfieithu ac yn cynhyrchu trawsgrifiadau y gellir eu chwilio, gan ganiatáu gwiriad dilynol gan gyfieithwyr dynol. Yn gynharach ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf), darparais astudiaeth achos ar sut y gall hyn gynorthwyo i lunio datganiadau.

88. Yn fy marn i, mae'n debygol y bydd cyfieithu a alluogir gan AI yn gwella mynediad unigolion nad ydynt yn rhugl yn Saesneg at gyfiawnder, gan wella effeithlonrwydd hefyd. Drwy alluogi cyfathrebu cyflymach â siaradwyr nad ydynt yn siarad Saesneg, mae faint o amser a gollir gan staff rheng flaen wrth aros i gael mynediad at gyfieithwyr dynol yn cael ei leihau'n sylweddol, a thrwy hynny'n caniatáu i staff gynnal llif gwaith a chyflymu cynnydd achosion.

245

89. Fodd bynnag, fel y nodais yn gynharach yn y bennod hon, rwyf yn ymwybodol, er mwyn galluogi gweithredu cyfieithu wedi'i alluogi gan AI, bod yn rhaid dangos prif amcanion cyn gweithredu offer o'r fath, gan gynnwys sicrhau cywirdeb, gosod safonau a buddsoddiad hirdymor yn y dechnoleg.

Argymhelliad 134: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a'r heddlu yn archwilio'r defnydd o gyfieithu deallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau rheng flaen yr heddlu a Chanolfannau Gwasanaethau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd.

Trawsgrifiad

Y System Bresennol a Heriau

90. Yn ogystal â defnyddio gwrandawiadau fideo a chyfieithu AI, credaf y gallai defnydd gwell o dechnoleg greu effeithlonrwydd pellach yn nydd y llys trwy ddarparu trawsgrifiadau cywir yn gyflymach ac am lai o gost.

91. Ar hyn o bryd, mae Llys y Goron yn gwneud recordiad awtomatig o'i achosion, sy'n caniatáu eu trawsgrifio. Mae GLlTEF yn contractio cwmnïau preifat i gynhyrchu trawsgrifiadau o recordiadau sain a wneir yn Llys y Goron,[246] yn ôl yr angen, sy'n cael eu hadalw naill ai o'r llys ei hun neu o gronfa ddata o'r enw'r system Trosglwyddo a Storio Recordiadau Sain Digidol (DARTS).[247] Cedwir recordiadau o dreialon am saith mlynedd.[248] Mae'r llywodraeth yn talu am drawsgrifiadau o achosion yn yr Uchel Lys a'r Llys Apêl ond nid yn y llysoedd is.

246

247

248

Yn y llysoedd is, cynhyrchir trawsgrifiadau pan ofynnir amdanynt yn benodol.[249] Nid yw llysoedd ynadon yn recordio nac yn trawsgrifio gwrandawiadau ar hyn o bryd.[250] Yn Rhan I o'r Adolygiad hwn, argymhellais y dylid recordio achosion treial a dedfrydu mewn llysoedd ynadon ar ffurf sain ac, os oes angen at ddibenion yr apeliadau, y dylid trawsgrifio rhannau priodol.[251] Mae'r argymhelliad hwnnw'n adlewyrchu'r ffaith y bydd sawl categori o achos mwy difrifol yn cael eu gwrando yn llysoedd ynadon o dan argymhellion Rhan I.[252]

92. Mae sawl her yn codi o ganlyniad i ofyniad trawsgrifio yn y llysoedd. Y brif her yw cost cynhyrchu trawsgrifiadau, sydd i raddau helaeth oherwydd y safonau cywirdeb uchel y mae'n rhaid i drawsgrifio eu cyflawni. Mae'r safon uchel hon o bwys hanfodol ond ni ddylai fod yn rhwystr i dreialu arloesi technolegol a allai ddatgloi effeithlonrwydd.

93. Mae trawsgrifio traddodiadol yn gostus, rhwng tua £90 a £200 yr awr o sain.[253] Fel arfer, mae cost trawsgrifio yn disgyn ar yr un sy'n gwneud y cais a gall hyn fod yn sawl mil o bunnoedd.[254] Mae trawsgrifio AI yn cynnig potensial sylweddol i wella effeithlonrwydd costau. Fodd bynnag, rwyf yn ymwybodol o rwystrau i drawsgrifio AI sy'n ymwneud â chontractau masnachol a safonau ar gyfer cywirdeb trawsgrifiadau.

249

250

251

252

253

254

94. Mae sawl contract masnachol ar gyfer gwasanaethau adrodd a thrawsgrifio llys.[255] Rwy'n ymwybodol o wrthwynebiad i drawsgrifio AI gan endidau masnachol, y dywedir ei fod oherwydd y bygythiad i'w model busnes y gallai trawsgrifio AI ei beri. Mae'r gwrthwynebiad hwn wedi cyfyngu ar allu GLlTEF i dreialu trawsgrifio AI yn y llysoedd troseddol. Fodd bynnag, nid oes gan Siambr Mewnfudo a Lloches gyflenwyr trawsgrifio presennol a gwnaed cynnydd sylweddol gyda thrawsgrifio AI yn y tribiwnlys cenedlaethol hwnnw. Mae trawsgrifio yn yr awdurdodaeth hon yn hollbwysig, ac rwy'n cefnogi'r cynllun peilot hwn.

95. Yr her arall yw cywirdeb. O dan y contract presennol ar gyfer Llys y Goron, mae'n ofynnol i gyflenwyr, drwy gytundeb lefel gwasanaeth, gynhyrchu trawsgrifiadau ar gywirdeb o 99.5%, ac mae hyn yn digwydd drwy broses â llaw.[256] Byddai trawsgrifiadau llys AI yn gofyn am gywirdeb tebyg y mae GLlTEF yn ei dargedu.[257]

Argymhellion

96. Mae tîm yr Adolygiad wedi gweld arddangosiad o brototeip yr adnodd trawsgrifio AI a dreialwyd yn y Siambr Mewnfudo a Lloches.[258] Mae GLlTEF wedi rhannu bod yr adnodd AI hwn yn gallu creu trawsgrifiadau gyda chywirdeb o 92% o recordiadau a gymerwyd gyda seilwaith sain llys presennol, a heb unrhyw brosesu ychwanegol na mireinio AI.[259] Mae rhai anghysondebau'n effeithio ar y ffordd y mae dogfennau'n cael eu fformatio, megis y gair llafar yn erbyn y gair ysgrifenedig a sut y gall yr adnodd ddelio â iaith gyfreithiol benodol. Er bod hyn yn

---

255

256

257

258

259

llai na'r cywirdeb o 99.5% a grybwyllwyd uchod,[260] mae GLlTEF wedi nodi cynlluniau i fynd i'r afael â hyn sy'n cynnwys darparu cyd-destun a hyfforddiant ychwanegol i'r model AI. Yn addawol, gall yr adnodd wahaniaethu rhwng siaradwyr a bydd yn gallu tynnu dyfyniadau neu ddarparu crynodeb ar gyfer y camau nesaf.

97. Mae GLlTEF yn rhoi gwybod i mi, er bod costau ynghlwm wrth berchen ar wasanaeth trawsgrifio AI a'i gynnal, mae'r prosesu yn cael ei gwblhau'n brydlon ac mae'r costau trafod cysylltiedig yn fach. Wrth i wasanaethau trawsgrifio AI gael eu hehangu, byddai'r costau fesul defnyddiwr yn gostwng, gan gefnogi darpariaeth fwy cost-effeithlon. Dywedir wrthyf mai trawsgrifio yw'r cyntaf o lawer o achosion defnyddio AI i gael eu hehangu o fewn GLlTEF. Yn ogystal â chost, gallai trawsgrifio AI gynnig manteision eraill. Yn amodol ar gefnogaeth farnwrol, mae gan drawsgrifiadau AI y potensial i gael eu defnyddio ymhellach i wella effeithlonrwydd amser barnwrol wrth gefnogi gweithgareddau megis ysgrifennu dyfarniadau. Mater i'r farnwriaeth yw hyn.

98. Yn fy ymgysylltiad drwy gydol yr Adolygiad hwn, rwyf hefyd wedi cael gwybod am alluoedd trawsgrifio ar draws y system gyfiawnder ehangach. Ar gyfer swyddogion prawf, mae adnodd trawsgrifio a ddatblygwyd gan Uned AI Cyfiawnder o'r enw Justice Transcribe yn cael ei dreialu i leihau'r beichiau gweinyddol o ysgrifennu crynodebau cymhleth.[261] Datblygwyd Justice Transcribe gan beirianwyr yn Uned AI Cyfiawnder, gan dynnu ar gydrannau ail-ddefnyddiadwy cynnar a dysgu o Minute,[262] yr adnodd trawsgrifio a ddatblygwyd gan Adran Deallusrwydd Artiffisial Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, ac mae'n enghraifft gref o adeiladu ar allu presennol y llywodraeth trwy gydweithrediad

---

260

261

262

effeithiol ar draws y llywodraeth. Mae Justice Transcribe yn helpu i leihau gwaith gweinyddol swyddogion prawf, gan ganiatáu i swyddogion weithio trwy achosion yn fwy effeithlon a meithrin perthnasoedd cryfach gyda'r rhai y maent yn eu cefnogi. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan staff rheng flaen wedi bod yn hynod gadarnhaol hyd yn hyn.

99. Mae GLlTEF wedi cadarnhau i mi y bydd yn gweithio gydag Uned AI Cyfiawnder i addasu fersiwn o Justice Transcribe ar gyfer lleoliad llys. Bydd hyn yn dwyn ynghyd brofiadau cyfunol o'r ddau sefydliad wrth ddatblygu offer trawsgrifio, gan fanteisio ar y gwaith gan GLlTEF i sicrhau cywirdeb mewn lleoliad llys a'r gwaith gan Uned AI Cyfiawnder wrth ddatblygu a graddio cynnyrch trawsgrifio. Rwy'n cymeradwyo'r dull cydweithredol hwn ac yn cefnogi'r arfer o ddod ag arbenigedd ar draws y system cyfiawnder troseddol ynghyd i gyflawni effeithlonrwydd yn y llysoedd troseddol.

100. Mae'n hanfodol cynnal cywirdeb, gan gydnabod pwysigrwydd mawr trawsgrifiadau llys o safon uchel. Fodd bynnag, mae trawsgrifio AI yn gwella bob blwyddyn. Rhaid i'r safonau a bennir adlewyrchu pwysigrwydd anghywirdebau a gynhyrchir gan AI i ddiogelu buddiannau partïon, tystion a dioddefwyr. Gan gadw at y mesurau diogelu hynny, mae gan drawsgrifio AI y potensial i wella effeithlonrwydd cost ac amser a chaniatáu i adnoddau gael eu hadleoli i feysydd eraill yn y llysoedd troseddol.

101. Yn gysylltiedig â fy argymhelliad yn Rhan I y dylid recordio gwrandawiadau ynadon yn glyweledol ac, os oes angen at ddibenion apeliadau, trawsgrifio rhannau priodol, rhaid imi bwysleisio nad wyf am i drawsgrifiadau costus fod yn ganlyniad anfwriadol. Am y rheswm hwn, rwy'n cefnogi'n gryf y defnydd o adnodd trawsgrifio AI i gyflawni hyn, a (yn amodol ar dreial a'i archwilio wedyn) hoffwn weld contractau newydd yn adlewyrchu'r uchelgais hwn i liniaru'r broblem bosibl hon. Nodaf fod cyllid yn rhwystr i gyflawni trawsgrifio AI mewn awdurdodaethau

eraill y tu hwnt i Siambr Mewnfudo a Lloches a hoffwn weld camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Bwndeli Rheithgor Digidol

Argymhelliad 135: Rwy'n argymell y dylid treialu trawsgrifio deallusrwydd artiffisial ac, yn amodol ar ganfyddiadau a threfniadau priodol ar gyfer archwilio, y dylid ei fabwysiadu yn y llysoedd troseddol gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, a dylai pob contract trawsgrifio newydd yn y llysoedd ynadon gynnwys trawsgrifio deallusrwydd artiffisial fel rhagosodiad.

Y System Bresennol a Heriau

102. Gallai technoleg hefyd greu effeithlonrwydd o ran sut y darperir tystiolaeth i'r rheithgor. Ar hyn o bryd, mae llysoedd yn defnyddio bwndeli o'r dystiolaeth (e.e. datganiadau tystion neu amserlenni ffôn) y cyfeirir atynt gan reithgor yn ystod y treial. Ar hyn o bryd, mae llysoedd yn defnyddio bwndeli papur, a gynhyrchir gan CPS. Mae cynhyrchu bwndeli rheithgor papur yn cymryd llawer o amser, gydag amcangyfrifon amser cyfartalog, o sawl ffynhonnell, yn amrywio o rhwng tua 30 munud[263] a 90 munud[264] fesul treial, yn dibynnu ar hyd, cymhlethdod a math y drosedd. Mae CPS yn cyflogi un person fesul achos i baratoi bwndeli papur ac yn 2024 amcangyfrifwyd bod 330,000 o fwndeli papur wedi'u danfon ar gyfer dros 30,000 o dreialon yn Llys y Goron.[265] Yn yr ystafell llys, mae swyddog yn rheoli bwndeli papur ac yn gyfrifol am eu dosbarthu i'r rheithgor.

103. Gall defnyddio bwndeli papur gymryd cryn dipyn o amser yn y llys. Pan fydd Barnwr yn penderfynu bod eitem o dystiolaeth yn annerbyniol, ond bod CPS

263

264

265

eisoes wedi cynnwys cyfeiriad at y dystiolaeth honno yn y bwndel, rhaid diwygio'r bwndeli, eu llungopïo a'u hailddosbarthu i'r rheithwyr, a all achosi oedi ac aflonyddwch i dreial. Mae hyn yn arbennig o amlwg lle mae CPS a'r llysoedd yn brin o adnoddau ac nid oes ganddynt fynediad uniongyrchol i gyfleusterau copïo. Mae bwndeli papur hefyd yn creu problemau ar gyfer cyfathrebu yn y llys. Nid yw'n anghyffredin i eiriolwyr gwahanol gael cyfeiriadau gwahanol at y tudalennau yn y bwndel sydd gan y rheithwyr. Rwyf yn ymwybodol (ac wedi cael profiad personol) o lawer o achosion lle mae tudalennau wedi'u rhifo'n anghyson ar draws dogfennau a ddosberthir rhwng rheithwyr, tystion, barnwyr a chyfreithwyr. Mae'r dryswch sy'n deillio o'r gwallau hyn yn gwastraffu amser gyda gweithgareddau diangen i arwain partïon at wybodaeth berthnasol.

Argymhellion

Treialu bwndeli rheithgor digidol i arbed amser yn y llys

104. Gallai disodli bwndeli papur â bwndeli rheithgor digidol leihau oedi treialon a'r baich ar adnoddau. Mae bwndeli rheithgor digidol yn cael eu creu trwy lwytho a threfnu dogfennau sy'n berthnasol i wrandawiad ar ddyfais ddigidol (tabled) sy'n cael ei dosbarthu i bob rheithiwr. Y buddiannau posibl i CPS yw lleihau'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu bwndeli papur.[266]

Pan fydd angen tynnu tystiolaeth annerbyniol o'r bwndel digidol, gellir gwneud hynny'n electronig a bydd diweddariadau'n cael eu hadlewyrchu ar holl ddyfeisiau'r rheithwyr, gan osgoi ailargraffu a ailddosbarthu deunyddiau papur sy'n cymryd llawer o amser. Byddai'r rheolaeth bwndeli digidol hon hefyd yn sicrhau bod gan bob parti fynediad at yr un fersiwn o ddogfennau, gan ddileu anghysondebau sy'n rhwystro cyfathrebu. Mae bwndeli rheithgor digidol hefyd yn cynnig buddiannau cynaliadwyedd posibl trwy leihau'r defnydd o bapur, a gwelliannau hirdymor mewn effeithlonrwydd cost a gwell profiad i reithwyr. Ymhellach, mae bwndeli rheithgor digidol yn cynnig arbedion effeithlonrwydd

266

gan y gallant alluogi rheithwyr i chwilio a dod o hyd i wybodaeth yn haws yn ystod eu trafodaethau.

105. Mae pecynnau rheithgor digidol yn cael eu treialu yn Llys y Goron Abertawe ac, o fis Medi 2025, roeddent wedi'u defnyddio mewn 104 o dreialon.[267] Fel rhan o'r broses, mae pob rheithiwr yn cael sesiwn hyfforddi 40 munud gan gydlynydd pwrpasol ar sut i ddefnyddio'r dyfeisiau digidol. Mae heriau sylweddol i'r broses fusnes wedi'u nodi yn ystod y cynllun peilot cychwynnol, megis oedi cyn hyfforddiant rheithwyr, anawsterau wrth reoli mynediad i becynnau yn ystod treialon a thrin dyfeisiau. Felly mae cynlluniau i ail-dreialu'r fenter hon gyda model gweithredu amgen. Yn fy marn i, gellid goresgyn rhai o'r problemau proses fusnes hyn drwy atebion syml, megis ymgorffori hyfforddiant yn nhrefn sefydlu rheithwyr cyn y treial neu ddarparu cyfarwyddiadau fideo cyn y treial drwy ddolen ar y gwŷs rheithgor.[268] Croesawaf hefyd y penderfyniad i symleiddio pecynnau rheithgor digidol trwy ddisodli'r defnydd o anodiadau digidol gyda phad nodiadau papur traddodiadol. Bydd hyn yn mynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u nodi gyda thrin dyfeisiau ac yn lliniaru pryderon ehangach ynghylch nodiadau rheithwyr yn cael eu storio ar wasanaeth a reolir gan yr erlyniad. Rwy'n cymeradwyo'r ail-dreial yn Abertawe i ddatrys problemau a nodwyd cyn i gynlluniau peilot pellach o becynnau rheithgor digidol, yn Llysoedd y Goron Preston a Croydon, ddilyn.

106. O ystyried y problemau gyda'r cynllun peilot presennol, nid oes tystiolaeth eto o botensial arbed amser bwndeli rheithgor digidol yn ymarferol. Er ei bod yn amlwg y byddant yn mynd i'r afael â'r dwyster adnoddau sydd ei angen i baratoi a rheoli bwndeli papur, cyn ac yn ystod y treial, rhaid ystyried y baich gweithredol ac ariannol newydd y mae eu defnydd yn ei achosi. Mae dyfeisiau a meddalwedd yn gofyn am fuddsoddiad cychwynnol a pharhaus, a rhaid i lysoedd gynnal

---

267

268

cynlluniau wrth gefn ar gyfer methiannau system, gan gynnwys opsiwn papur ar gyfer gwytnwch a hygyrchedd.[269] Bydd gweithredu effeithiol yn dibynnu ar ddigon o hyfforddiant a chefnogaeth i bob rheithiwr, gan sicrhau mynediad cyfartal at dystiolaeth waeth beth fo llythrennedd digidol; hebddo, gall rheithwyr ei chael hi'n anodd llywio dyfeisiau, gan achosi tarfu yn ystod treialon.[270]

107. Rwyf hefyd yn ymwybodol y bydd bwndeli rheithgor digidol yn cyflwyno heriau gwahanol i wahanol asiantaethau. Er y byddai staff CPS yn elwa ar lai o alw am fwndeli papur, mae gan ddryswyr GLlTEF a staff eraill gyfrifoldebau ychwanegol wrth reoli bwndeli rheithgor digidol, hyfforddi a datrys problemau. Mae hyn, yn ddealladwy, wedi bod yn rhwystr ond, mewn system cyfiawnder troseddol fwy cydweithredol, ni ddylai hyn fod yn wir. Mae angen i CPS a GLlTEF ystyried buddion system ehangach ac i gydnabod lle y gellid rhannu buddion net cyffredinol, megis capasiti cynyddol ar gyfer paratoi achosion yn well, a gallai hyn fod yn rôl ar gyfer pennod llywodraethu 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol).

108. Gall strategaethau i oresgyn heriau wrth weithredu bwndeli rheithgor digidol ddod o feysydd eraill lle mae bwndeli digidol wedi'u defnyddio, megis mewn treialon twyll cymhleth.[271] Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn dweud wrthyf ei fod wedi cael profiadau cadarnhaol o fwndeli rheithgor digidol. Nodaf hefyd fod bwndeli digidol neu 'e-fwndeli' wedi'u defnyddio yn y llys teulu[272] a gellid bwrw ymlaen â gwersi a ddysgwyd oddi yno. Adroddodd gwerthusiad o Wasanaethau Digidol Diwygio GLlTEF adborth cymysg gan Farnwyr ynghylch bwndeli digidol, gyda rhai yn eu croesawu ar sail eu rhinweddau diogelwch,

---

269

270

271

272

hygyrchedd a hyblygrwydd – a rhai eraill wedi codi pryderon am eu gwytnwch pan fydd systemau'n methu.[273] Mae cyfle clir i dynnu ar y gwersi hyn i ddatblygu dull mwy gwydn, effeithlon a hawdd ei ddefnyddio o ran bwndeli rheithgor digidol.

109. Er gwaethaf yr heriau hyn, rwyf yn hyderus bod bwndeli rheithgor digidol yn cynnig y potensial i leihau'r amser a dreulir yn yr ystafell llys yn ailargraffu bwndeli trwy alluogi diweddariadau digidol amser real i fwndeli rheithgor ac mae enillion effeithlonrwydd posibl mawr i CPS yn amlwg. Felly, rwyf yn argymell bod y fenter yn parhau i gael ei threialu i gasglu tystiolaeth gadarn ar yr arbedion effeithlonrwydd y mae bwndeli rheithgor digidol yn eu cynnig. Rwyf yn cymeradwyo parhau i dreialu'r fenter bwndel rheithgor digidol i gasglu rhagor o dystiolaeth ar y manteision a'r costau posibl.

110. Hyd yn hyn yn y bennod hon, rwyf wedi ystyried ble y gellir creu effeithlonrwydd yn y prosesau sy'n arwain at achosion yn yr ystafell llys ac yn ystod yr achos. Mae'r adran hon yn parhau â'r thema hon trwy ystyried sut y gall effeithlonrwydd wrth dderbyn tystiolaeth effeithio ar ddefnyddio amser y llys. Yn Rhan I, nodais gymhlethdod cynyddol tystiolaeth fel prif ysgogydd cynnydd yn y llwyth achosion, ac felly mae'n bwysig fy mod yn ystyried y mathau hyn o dystiolaeth yn fwy penodol.

Tystiolaeth Arbenigol

111. Tyst arbenigol yw rhywun sydd â'r cymwysterau i roi barn ac sy'n darparu datganiad barn i'r llys ar unrhyw fater derbyniol sy'n galw am arbenigedd.[274] Pwrpas tyst arbenigol yw darparu cymorth annibynnol i'r llys ar ffurf barn wrthrychol a diduedd mewn perthynas â materion o fewn eu harbenigedd.[275]

273

274

275

112. Mae amlder galw arbenigwyr erlyniad i roi tystiolaeth wedi bod yn codi'n araf ers y pandemig, gyda chynnydd blynyddol mawr (o bron i 50%) yn y flwyddyn ariannol 2024/25 i tua 9,900.[276]

113. Mae'r Llysoedd yn dibynnu ar wybodaeth arbenigol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wyddor fforensig, seiciatreg a fforensig ddigidol. Mae'n ofynnol i arbenigwyr gyflwyno eu barn i'r rheithgor mewn fformat dealladwy er mwyn iddynt allu datrys materion y tu hwnt i brofiad person lleyg. Mae Rhan 19 o Reolau Trefniadaeth Droseddol yn rhoi arweiniad ar y modd y mae'n rhaid cyflwyno adroddiadau.[277] Mae Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2023 7.1.2 yn nodi'r fframwaith ar gyfer asesu dibynadwyedd tystiolaeth arbenigol at ddibenion derbynioldeb.[278] Mae Cod y Rheolydd Gwyddor Fforensig yn nodi bod 'gwyddor fforensig yn rhan hollbwysig a phwysig o ymchwiliadau troseddol ... nid yn unig i adnabod troseddwyr a darparu tystiolaeth arbenigol i'r llys, ond hefyd fel un o'r mesurau diogelu cryfaf yn erbyn honiadau ffug ac euogfarn anghywir'.[279]

Y System Bresennol a Heriau

114. Yng nghyd-destun tystiolaeth arbenigol sy'n gynyddol gymhleth, rwy'n ystyried bod canllawiau clir a hyfforddiant i'r farnwriaeth yn hanfodol. Cefais wybod, er nad oes hyfforddiant penodol ar dystiolaeth arbenigol ar gael i Farnwyr, bod y pwnc yn cael sylw mewn hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant parhaus. Mae hyfforddiant sefydlu ar gyfer barnwyr newydd yn cyflwyno trin tystiolaeth tra bod hyfforddiant parhaus yn cael ei gynnig yn flynyddol neu bob yn ail flwyddyn, wedi'i deilwra i rôl ac awdurdodaeth barnwr, gan gwmpasu agweddau ar

---

276

277

278

279

dystiolaeth, derbynioldeb ac adnoddau digidol hefyd. Mae'r cwrs Gwneud Penderfyniadau, sy'n rhan o'r hyfforddiant parhaus, yn mynd i'r afael â thystiolaeth arbenigol, gan sicrhau bod barnwyr: yn deall dyletswydd tyst arbenigol i fod yn ddiduedd ac yn wrthrychol; yn cymhwyso Rhan 19 o Reolau Trefniadaeth Droseddol[280] a Chyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2023 7.1.2;[281] ac yn asesu methodoleg arbenigol, rhwymedigaethau datgelu, cymwysterau a hygrededd yr arbenigwr, a pherthnasedd a dibynadwyedd y dystiolaeth.

115. Yn dilyn fy adroddiad yn 2015 ar yr Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol lle argymhellais yr angen i wella dealltwriaeth o dystiolaeth arbenigol gymhleth yn y llys,[282] cyflwynodd y Coleg Barnwrol a'r Gymdeithas Frenhinol lyfrau cyntaf barnwrol yn 2017 ar amrywiaeth o bynciau.[283] Rwy'n deall bod y llyfrau cyntaf hyn yn adnodd defnyddiol i farnwyr yn ogystal â'r canllawiau yn Compendiwm y Llys y Goron ar gyfer barnwyr.[284] Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, rwy'n ymwybodol o'r angen parhaus am welliannau mewn llythrennedd gwyddonol a thechnegol yn yr ystafell llys.[285]

116. Mae'n debygol y bydd tystiolaeth arbenigol yn dod yn gynyddol bwysig, gan gynnwys yn benodol arbenigedd mewn fforensig digidol a data cyfathrebiadau, o ystyried y cynnydd mewn maint a chymhlethdod tystiolaeth ddigidol, fel y

---

280

281

282

283

284

285

crybwyllwyd ym Mhennod 2 (Cyd-destun). Mae elfen ddigidol[286] i'r dystiolaeth yn bodoli yn y rhan fwyaf o achosion: yn ôl rhai amcangyfrifon, mae'n cyrraedd 90% o achosion troseddol.[287] Mae'r cynnydd hwn yng nghyfaint a chymhlethdod tystiolaeth ddigidol yn golygu ei bod yn dod yn fwyfwy heriol i nodi'r deunydd digidol perthnasol i gefnogi erlyniad. Mae fforensig digidol yn mynd i chwarae rhan gynyddol bwysig mewn ymchwiliadau. Rwyf yn ymwybodol bod achosion yn dechrau gyda, neu'n chwalu o ganlyniad i, ddadansoddi data cyfathrebiadau. Rhaid i'r heddlu, CPS a'r llysoedd troseddol i gyd gymryd safbwynt rhagweithiol, pendant a dominyddol i drin fforensig digidol.

117. Mae HMICFRS yn adrodd nad yw'r heddlu wedi cadw i fyny â maint y heriau sy'n eu hwynebu ac nad oes dealltwriaeth ddigonol o waith fforensig digidol.[288] Nid oes digon o arbenigedd o fewn yr heddlu mewn perthynas â gwaith fforensig digidol a gall hyn effeithio ar amseroldeb yr heddlu wrth brosesu tystiolaeth. Dywedwyd wrthyf y bydd Papur Gwyn Swyddfa Gartref sydd ar ddod ar ddiwygio'r heddlu yn amlinellu cynlluniau mawr ar gyfer diwygio fforensig. Mae hyn yn debygol o gynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â'r angen am arbenigedd heddlu gwell mewn fforensig ac am yr angen am well hyfforddiant ar draws y system cyfiawnder troseddol wrth ddehongli gwaith fforensig digidol.[289]

118. O edrych ar y darlun ehangach o wyddor fforensig, o fewn darlun sy'n gynyddol gymhleth, mae angen clir am gydweithredu effeithiol rhwng partneriaid perthnasol. Trwy ymgysylltu â'r Rheolydd Gwyddor Fforensig, deallaf fod y deialog rhwng y Rheolydd Gwyddor Fforensig a'r system cyfiawnder troseddol yn

---

286

287

288

289

gyfyngedig i gyfarfodydd rheolaidd gyda CPS. Mae risg o ragfarn tuag at flaenoriaethau erlyniad, a pherygl y gall y diffyg ymgysylltiad amddiffyn atal ymateb y system cyfiawnder troseddol i ddatblygiadau ac anghenion fforensig sy'n esblygu. Yn ogystal, mae heriau mewn arweinyddiaeth a llywodraethu. Nid yw gwyddor fforensig yn dod o dan gylch gwaith uniongyrchol unrhyw Weinidog yn y Swyddfa Gartref ac, o ganlyniad, mae'n rhaid i'r Rheolydd fel arfer gyfathrebu â'r Gweinidog Plismona, a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Er ei bod yn hanfodol i'r Rheolydd Gwyddor Fforensig sefydlu'r sail wyddonol, dylent gydweithredu wedyn â phartneriaid cyfiawnder i sicrhau bod pob asiantaeth yn ymgysylltu, a thrwy hynny sicrhau'r dystiolaeth o'r ansawdd uchaf. Gall digonolrwydd y ddarpariaeth mewn gwyddor fforensig fod yn bwnc y gallai'r Bwrdd Goruchwylio Perfformiad ei ystyried. Rwyf hefyd yn annog gwaith ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Arglwyddi, yn enwedig gan fyfyrio ar argaeledd gwyddor fforensig i'r gymuned amddiffyn.

Argymhellion

119. Yn fy Adroddiad 2015 ('Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol'), argymhellais y dylai llysoedd ddefnyddio'u pŵer yn amlach i gyfarwyddo trafodaeth rhwng arbenigwyr gyda'r nod y gallant gytuno ar y cyd, mor gynnar â phosibl, cyn treial ar y materion y maent yn cytuno arnynt a'r materion nad ydynt yn cytuno arnynt, a pharatoi datganiad ar y cyd i'w ddefnyddio fel tystiolaeth yn nodi graddau eu cytundeb a chrynodeb o'r rhesymau dros eu hanghytundeb.[290]

Rwy'n parhau i ystyried hyn fel arfer da, lle bynnag y bo modd.

Coleg Barnwrol i adolygu hyfforddiant

120. Fel yr esboniais, mae tystiolaeth arbenigol wedi cynyddu mewn cymhlethdod ac mae'n debygol o barhau i wneud hynny. Gyda chymhlethdod cynyddol tystiolaeth arbenigol sy'n ymateb i ddatblygiadau gwyddonol, mae barnwyr a rheithgorau yn

---

290

wynebu deunydd sy'n fwy technegol ac anodd ei ddeall yn barhaus a gall hyn arwain at fwy o amser llys yn ofynnol i gyflwyno a chraffu ar y dystiolaeth.

121. Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod barnwyr yn meddu ar yr offer i reoli'r dystiolaeth niferus a chymhleth hon. Felly rwy'n argymell bod y Swyddfa Farnwrol yn parhau i weithio ar y cyd â'r Gymdeithas Frenhinol i wella hyfforddiant a diweddaru cyflwyniadau elfennol i barnwyr yn Llys y Goron. Gallai hyn gynnwys cyflwyniadau elfennol newydd ar bynciau addas, er enghraifft ar niwroamrywiaeth. Rwyf hefyd yn argymell, lle bo'n briodol, ddarparu hyfforddiant ar ddefnyddio tystiolaeth wyddonol arbenigol i Barnwyr Rhanbarth (llysoedd ynadon) yn dilyn gweithredu fy argymhellion yn Rhan I lle bydd Barnwyr Rhanbarth (llysoedd ynadon) yn fwy tebygol o wrando achosion mwy cymhleth. Fy nod yw sicrhau bod barnwyr yn meddu ar yr offer da i reoli tystiolaeth arbenigol yn effeithlon yn awr ac yn y dyfodol, gan leihau'r amser a dreulir yn egluro pethau technegol yn ystod gwrandawiadau. Gallai sicrhau bod barnwyr yn gallu asesu dibynadwyedd, perthnasedd a derbynioldeb tystiolaeth arbenigol yn hyderus arwain at lai o achosion yn cael eu gohirio oherwydd heriau neu geisiadau am farn arbenigol ychwanegol. Yn ogystal â bod yn fesur pwysig ar gyfer effeithlonrwydd, mae'r mesur hwn yn hanfodol ar gyfer diogelu canlyniadau a threfniadau treial teg, gan gynnwys drwy sicrhau bod barnwyr yn gallu cynorthwyo rheithgorau, tystion a phartïon eraill i ddeall y trefniadau, a lliniaru rhag rhagfarn anymwybodol wrth ddehongli achosion cymhleth.

Argymhelliad 136: Rwy'n argymell bod y Coleg Barnwrol yn adolygu'n barhaus hyfforddiant sydd ar gael i farnwyr yn Llys y Goron ac i farnwyr Rhanbarth (llysoedd ynadon) ar ddefnyddio tystiolaeth wyddonol arbenigol. Rwyf hefyd yn annog Y Gymdeithas Frenhinol i barhau i gyhoeddi a diweddaru cyflwyniadau ar gyfer barnwyr. Dylid cynnal ymgynghoriad gyda'r Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig a'r heddlu i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn addas i'r pwrpas.

Gwairh fforensig digidol

122. Fel y trafodais ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae rhy ychydig o arbenigwyr fforensig, gan gynnwys ymchwilwyr cyfryngau digidol. Mae'r unigolion hynny sydd â sgiliau digidol a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i fod yn arbenigwyr fforensig yn aml yn cael eu denu i feysydd gwaith eraill sy'n talu'n well. Ar ben hynny, efallai na fydd cymhellion gweithio yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys gweithio er budd y cyhoedd, yn ddigon i gadw'r talent gorau[291] a rhaid gwneud ymdrechion mwy i nodi ffyrdd o ddenu gweithwyr proffesiynol cymwys addas.[292]

Argymhelliad 137: Rwy'n argymell bod yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn buddsoddi mewn gwasanaethau fforensig digidol ac yn recriwtio mwy o arbenigwyr fforensig digidol.

123. Mae mwy o arbenigedd fforensig digidol yn debygol o ddarparu tystiolaeth o well ansawdd i gefnogi erlyniad ac, os felly, gallai hyn arwain at fwy o bleon euog a lleihau'r amser a gymerir fesul achos. O ystyried ehangder y broses cyfiawnder troseddol, bydd niferoedd mwy o arbenigwyr fforensig digidol yn sicrhau y gellir dadansoddi dyfeisiau electronig yn gyflymach, a fydd yn ei dro yn arwain at

291

292

achosion troseddol yn symud yn gyflymach drwy'r system, gan leihau'r llwyth achosion agored.

Deepfakes

124. Un agwedd ar dreialon troseddol lle rwy'n rhagweld y bydd angen mwy o farn arbenigol dros y blynyddoedd nesaf yw'r angen am ddadansoddi a gwirio dilysrwydd tystiolaeth ddigidol. Mae 'deepfakes, sef 'cynnwys a grëwyd ac a addaswyd yn ddigidol, yn aml ar ffurf delweddau, fideos a recordiadau sain ffug',[293] eisoes yn broblem. Mae'n bosibl y bydd angen arbenigedd arbenigol ar lysoedd i dderbyn tystiolaeth ynghylch canfod deepfakes. Fel y soniais ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i derbyn i mewn i gofnod 'cadwyn ddalfa' er mwyn cynnal cywirdeb.[294] Fodd bynnag, o gofio amlder cynyddol tystiolaeth ar ffurf ddigidol sy'n cael ei chyflwyno mewn treialon troseddol, mae tebygolrwydd cynyddol y gallai deepfakes gael eu derbyn fel tystiolaeth.[295] Mae'n debygol y bydd amser gwerthfawr y llys yn cael ei dreulio yn archwilio cywirdeb tystiolaeth o'r fath, a allai oedi achosion. Nid oes unrhyw ystadegau ar gael ar faint o oedi sydd i wrandawiadau llys oherwydd tystiolaeth sy'n cael ei herio fel deepfake.

125. Nid yw'r broblem o sicrhau dilysrwydd tystiolaeth o fewn Cylch Gorchwyl yr Adolygiad, ond mae hon yn fater a fydd yn effeithio ar effeithlonrwydd ac mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae gan y llysoedd gyfrifoldeb am sicrhau dibynadwyedd a pherthnasedd tystiolaeth yn ogystal â'r modd y cyflwynir y dystiolaeth. Un agwedd ar y cyfrifoldeb hwn yw sicrhau dilysrwydd tystiolaeth pan gaiff ei herio yn y llys. Mae gwaith eisoes ar y gweill ar draws y system

---

293

294

295

cyfiawnder troseddol ar gyfer atebion i fynd i'r afael â deepfakes, megis trwy archwilio offer canfod a chreu setiau data 'safon aur' i brofi'r offer hyn yn effeithiol.[296] Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd technoleg canfod deepfakes yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â soffistigeiddrwydd cynyddol deepfakes.[297]

Rhaid i'r llysoedd troseddol fod yn ymwybodol o'r bwlch bregusrwydd hwn a graddfa'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y llysoedd troseddol. Bydd angen i'r llysoedd troseddol fod yn hyderus bod meini prawf derbynioldeb yn ddigon cadarn pan godir heriau ynghylch dilysrwydd tystiolaeth. Rwy'n cymeradwyo'r Canllawiau AI ar gyfer Deiliaid Swyddi Barnwrol, sy'n nodi y dylai barnwyr fod yn ymwybodol o'r heriau a achosir gan dechnoleg deepfake.[298]

126. Nid oes amheuaeth bod deepfakes yn peri risg i'r system treial troseddol gyda'r potensial i greu camweddau cyfiawnder, rhyddfarnau di-haeddu yn ogystal â chyflwyno oedi posibl yn y broses wrth i ddilysrwydd tystiolaeth gael ei brofi'n gadarn. Gan ymateb i'r risgiau hyn, dylai fod dealltwriaeth fwy a pharhaus o'r oedi posibl ac mae angen mwy o ddata i fesur effaith deepfakes ar effeithlonrwydd y llysoedd troseddol. Gellid cael hyn trwy i CPS gofnodi enghreifftiau o deepfakes a hefyd trwy wneud dewis i ddewis deepfakes, neu amheuaeth o deepfakes, fel rheswm dros dreial a ddad-restrwyd neu dreial aneffeithiol, megis yn system gwybodaeth reoli GLlTEF. Rwyf hefyd yn disgwyl i CPS a'r cwnsler amddiffyn nodi'n ffurfiol bryderon ynghylch deepfakes yn y ffurflen PET neu PTPH er mwyn lleihau oedi yn y treial. Bydd deall effaith dadlau dilysrwydd tystiolaeth synthetig ar oedi i achosion llysoedd troseddol yn cynorthwyo i ymateb i'r heriau hyn. Bydd yn galluogi llysoedd i nodi achosion lle bydd heriau o'r fath yn codi a thrwy hynny sicrhau dyraniad amser a rhestru priodol. Gorau po fwyaf o wybodaeth y gellir ei darparu am dystiolaeth synthetig,

---

296

297

298

a than yr amgylchiadau hyn gallai fod yn destun dogfen ‘primer’ gan y Gymdeithas Frenhinol. Wrth i'r dechnoleg hon ddatblygu, rhaid cadw hyfforddiant yn gyfredol.

Argymhelliad 138: Rwy’n argymell bod y llywodraeth yn cymryd camau i gofnodi data ar ba mor gyffredin yw tystiolaeth synthetig yn y llysoedd troseddol, gan gynnwys casglu data ar i ba raddau y mae deepfakes yn effeithio ar achosion llys, a nodi pa fath o droseddau y gallai deepfakes neu deepfakes posibl effeithio arnynt fwyaf.

Cydweithio

127. Gallai sefydlu mecanwaith adborth strwythuredig rhwng y Rheolydd Gwyddor Fforensig a'r system cyfiawnder troseddol sicrhau bod y Rheolydd yn cael adborth cytbwys gan bob un o'r sectorau dan sylw. Gallai hyn sicrhau y gellir cyflawni gwelliannau ansawdd ac effeithlonrwydd mewn gwyddor fforensig gyda chydlyniant traws-lywodraethol. Yn yr un modd, gallai rôl arweinyddiaeth newydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Fforensig a grëwyd gan y Swyddfa Gartref gynorthwyo i ddarparu lefel uwch o gyfrifoldeb am wyddor fforensig yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd hefyd yn adlewyrchu fy argymhelliad yn 2015 ar gyfer cynrychiolaeth ar y lefel uchaf.[299]

128. Bydd cyflwyno mecanwaith adborth ar draws y system cyfiawnder troseddol yn helpu'r Rheolydd Gwyddor Fforensig i gael mewnwelediad cliriach a mwy dibynadwy i gyfyngiadau tystiolaeth fforensig. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth farnwrol, yn lleihau amwysedd yn y llys ac yn sicrhau bod unrhyw ansicrwydd mewn tystiolaeth yn cael ei gyfathrebu'n dryloyw a'i gyfieithu â chysondeb.

299

Argymhelliad 139: Rwy'n argymell y dylid gweld mwy o gydweithredu rhwng y Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig, y Labordy Gwyddor Fforensig ac asiantaethau priodol ar draws y system cyfiawnder troseddol – Y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi – i sicrhau lefel briodol o lywodraethu ac, wedi hynny, cydymffurfiaeth ddilynol â Chod y Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig er mwyn deall ei effaith ar achosion llys.

Tystiolaeth a Recordiwyd ymlaen Llaw

129. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y gwahanol fathau o dystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw sy'n cynnwys prif dystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw, (ABEs (a elwir hefyd yn Gyfweliadau Fideo a Recordiwyd (VRIs)), a holi ar y groes a recordiwyd ymlaen llaw, adran 28 (adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA)). Mae tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw yn fath pwysig o fesur arbennig o dan y YJCEA[300] sy'n caniatáu i ddioddefwyr a thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth roi tystiolaeth[301] lle na fyddai'r tyst hwnnw fel arall yn barod nac yn gallu oherwydd yr ofn a'r straen y gall ei brofi.[302] Mae adrannau 16 a 17 o'r YJCEA (fel y'u cefnogir gan y CrimPR (CrimPR 18.9)), yn diffinio'r categorïau o dystion sy'n gymwys ar gyfer cyfweliadau ABE a'r broses ar gyfer penderfynu a yw'r mesur yn berthnasol yn yr achos penodol, yn ogystal â'r modd y mae'n rhaid cofnodi'r datganiadau hynny er mwyn iddynt fod yn dderbyniol yn y treial.[303]

300

301

302

303

130. Mae mesurau arbennig eraill y bydd rhai tystion yn gymwys ar eu cyfer yn cynnwys cysylltiadau byw, tynnu wigiau a gwniau oddi ar farnwyr a bargyfreithwyr, sgriniau, cyfryngwyr[304] a chymhorthion cyfathrebu.

131. Mae rhywfaint o ymchwil yn dangos manteision rhoi'r opsiwn i ddioddefwyr a thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth o ddefnyddio mesurau arbennig. Adroddodd Arolwg Boddhad Dioddefwyr a Thystion CPS 2015 fod 'mesurau arbennig yn cael eu dymuno'n eang ac mae ganddynt effaith gadarnhaol ar brofiad dioddefwr neu dyst'.[305] Canfu astudiaeth empirig a gynhaliwyd gan Dr Samantha Fairclough, a oedd yn edrych ar brosesau penderfynu mesurau arbennig ledled Cymru a Lloegr rhwng Mai a Rhagfyr 2022, eu bod yn addas iawn ar gyfer plant ifanc, hen bobl, y rhai sydd â phroblemau cof sylweddol neu drawma (gan gynnwys troseddau rhywiol hynod o erchyll). Yn yr un astudiaeth, adroddodd bargyfreithwyr fod croesholi wedi'i recordio ymlaen llaw o dan adran 28 yn helpu i leihau straen ac i roi pobl yn eu hwyliau.

132. Mae dioddefwyr a thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth yn gymwys ar gyfer y mesurau arbennig a nodir yn Neddf YCJEA,[306] ond nid yw'n orfodol eu defnyddio. Gall dioddefwyr a thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth roi tystiolaeth yn y ffordd arferol os dymunant. Os dymunant ddefnyddio unrhyw fesurau arbennig y maent yn gymwys ar eu cyfer, mae'r canllawiau ABE presennol yn nodi 'y dylid paratoi dioddefwyr a thystion cyn rhoi tystiolaeth, gan gynnwys rhoi gwybodaeth iddynt am broses y llys, egluro mesurau arbennig iddynt, a rhoi cyfle iddynt fynegi eu dymuniadau'.[307]

304

305

306

307

133. Rwy'n cydnabod ei bod yn hollbwysig bod mesurau arbennig yn cael eu cynnig i ddioddefwyr a thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth lle bo angen i'w cynorthwyo i allu darparu tystiolaeth, a bod dioddefwyr yn cael dewis gwybodus ynghylch yr hyn sy'n briodol iddynt.

Y System Bresennol a Heriau: ABEs

134. Mae canllawiau ABE yn nodi arferion gorau ar gyfer cynnal y cyfweliadau hyn â thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth, yn enwedig plant, mewn achosion troseddol.[308] Mae recordiad ABE yn caniatáu i ddioddefwyr ddarparu eu tystiolaeth eu hunain trwy recordio o flaen llaw, ond bydd yn dal i ofyn i'r tyst fynychu'r llys ar gyfer croesholi. Os yw'r llys yn penderfynu y gall ansawdd tystiolaeth tyst gael ei leihau oherwydd ofn neu ofid sy'n gysylltiedig â thystio yn yr achos, mae'r tyst yn gymwys i gael mesurau arbennig a amlinellir yn adran 27 o'r YJCEA.[309] Os yw tyst yn recordio dan adran 27, yn y treial gall y croesholi ddigwydd gyda mesurau arbennig, er enghraifft sgriniau, cyswllt o bell ac ati.

135. Er bod ABEs yn fesur pwysig ar gyfer dioddefwyr a thystion agored i niwed, rwyf yn ymwybodol o nifer o heriau i ansawdd cyffredinol ABEs. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o adroddiad Comisiynydd Dioddefwyr yn 2021 (cyn i'r canllawiau diweddaraf ar ABEs gael eu cyhoeddi), 'Camau nesaf ar gyfer mesurau arbennig', fod 84% o Farnwyr Llys y Goron yn teimlo bod ABEs naill ai'n effeithiol neu'n effeithiol iawn wrth leihau straen a phryder i dystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth. Fodd bynnag, er bod 42% o'r barnwyr yn teimlo bod ABEs yn effeithiol iawn wrth leihau straen a phryder, dim ond 26% oedd yn teimlo eu bod yn effeithiol iawn wrth sicrhau'r dystiolaeth orau.[310]

308

309

310

136. Tynnodd adborth ansoddol gan y farnwriaeth fel rhan o'r ymchwil hwn sylw at sawl rheswm sylfaenol dros bryderon ynghylch effeithiolrwydd cyfweliadau ABE. Yn gyntaf, nododd rhai Barnwyr fod y cyfweliadau hyn yn aml yn ddiffygiol o ran ffocws ac nad oeddent bob amser yn cael eu cynnal i safon uchel. Yn ail, roedd anawsterau technegol, megis namau technegol yn ystod chwarae yn ôl ac ansawdd sain a gweledol gwael neu leoliad gwael y camera, yn aml yn rhwystro cyflwyniad tystiolaeth yn y llys. Yn drydydd, roedd nifer o Farnwyr yn teimlo bod effaith tystiolaeth y tyst yn llai oherwydd eu habsenoldeb o'r ystafell llys, gan awgrymu y gallai peidio â chael y tyst yn gorfforol bresennol leihau effaith gyffredinol eu tystiolaeth.[311]

137. Mae'r materion hyn wedi'u hadleisio mewn ymchwil arall. Tynnodd canfyddiadau o weithdai Ymgyrch Soteria[312] sylw at y ffaith, er bod polisi a chanllawiau ar ‘gefnogi cynllunio a chyfweld o safon, [yn bodoli, nid ydynt] bob amser yn hysbys ac yn cael eu gweithredu'n anghyson’.[313]

138. Mewn adroddiad yn 2019 gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) am brofiad tystion ifanc, adroddwyd bod sawl barnwr wedi beirniadu ansawdd ABE, gan eu disgrifio weithiau fel rhai ‘o ansawdd truenus’ a ‘dryslyd’. Dywedodd barnwyr a gyfwelwyd fod ABE yn ‘wael o ran strwythur’, gyda 32 o 40 barnwr (80%) yn dweud bod angen golygu ABE bron bob amser a bod 29 o 36 o gyfreithwyr (81% o Erlynwyr y Goron, bargyfreithwyr ac eiriolwyr cyfreithwyr) yn cytuno.[314]

311

312

313

314

139. Mae ansawdd ABE yn hollbwysig wrth sicrhau treial teg; fodd bynnag, mae eu heffeithiolrwydd hefyd yn cael goblygiadau sylweddol ar gyfer effeithlonrwydd. Beirniadaeth gyffredin yw bod ABE yn aml yn ormodol o hir ac yn annigonol o ran ffocws, sy'n arwain atynt yn gofyn am lawer o waith i'w golygu cyn y treial a gallant arwain at wastraff amser llys diangen. Tynnodd ymgynghoriad diweddar gan Gomisiwn y Gyfraith a oedd yn edrych ar Dystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol sylw at yr un mater, sef, canfu rhanddeiliaid barnwrol fod cyfweliadau ABE yn rhy hir, heb ffocws ac yn gofyn am lawer o olygu.[315] Gall problemau technegol yn ystod chwarae achosi tarfu ychwanegol yn yr ystafell llys a all, yn ei dro, arwain at oedi gormodol pellach a/neu ohiriadau. Hysbysodd aelodau o'r farnwriaeth Gomisiwn y Gyfraith bod 'chwarae cyfweliadau ABE yn cael ei effeithio gan ystafelloedd llys â chyfarpar gwael gyda chyfleusterau clyweledol o ansawdd gwael'.[316] Cyfeiriodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith hefyd at argymhelliad gan Gomisiynydd Dioddefwyr ar gyfer GLlTEF 'i gyhoeddi archwiliad o gyfleusterau ar draws llysoedd gan sicrhau bod ansawdd y cyfleusterau clyweledol yn cael ei asesu fel rhan o'r broses hon'.[317]

140. Yn fy Adroddiad yn 2015, disgrifiais y defnydd o ABE at ddibenion ymchwilio a thystiolaethol fel un sy'n cyflwyno heriau penodol.[318] Gall defnyddio un cyfweliad i wasanaethu'r swyddogaeth ymchwilio (casglu trywydd, archwilio cefndir) ac fel y prif dystiolaeth yn y llys wneud y cyfweliad yn hirach, yn fwy

---

315

316

317

318

cymhleth ac yn anos i'w olygu neu ei gyflwyno'n glir.[319] Mae'n amlwg, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, bod materion tebyg yn parhau.

141. Canfu gweithdai ymchwil gydag arbenigwyr cyfreithiol a gynhaliwyd fel rhan o Ymgyrch Soteria yn edrych ar y defnydd o ABEs mewn achosion RASSO y dylai 'ABEs fod wedi'u strwythuro'n dda ac yn gryno a gellir defnyddio golygu priodol i gael gwared ar ddeunydd amherthnasol neu ailadroddus'. Tynnodd yr un sesiwn friffio sylw hefyd na fydd 'terfynau o ran hyd yn hyfyw i lawer o ddioddefwyr-oroeswyr a mathau o droseddau a gallant rwystro'n sylweddol y tebygolrwydd o gyflawni "tystiolaeth orau" gan awgrymu y bydd rhai ABEs yn debygol o fod yn hirach nag eraill er mwyn cynhyrchu cynnyrch addas'.[320]

142. Gall prinder hyfforddiant gyfrannu at ddiffyg ffocws ac ABEs o ansawdd gwaeth. Trwy fy ymgysylltiad yn yr Adolygiad hwn, deallaf mai swyddogion dibrofiad yn aml sy'n cynnal ABEs, ac efallai nad yw eu hyfforddiant yn ddigonol. Mewn astudiaeth a gynhaliwyd ar draws un heddlu o'r enw 'Archwiliad o brofiadau swyddogion heddlu o'r broses gyfweld wrth weithio gyda thystion agored i niwed a/neu oedolion sy'n cael eu bygwth, nododd cyfranogwyr bod hyfforddiant parhaus yn brin, gan ei ddisgrifio fel 'rydych chi'n cael eich gadael i ymdopi ag ef' a 'nid ydym yn cael unrhyw hyfforddiant atgyfnerthu'.[321]

143. Pwysleisiodd yr NSPCC, er mwyn sicrhau bod y cyfweliadau hyn yn cael eu cynnal yn effeithiol, ei bod yn hanfodol bod swyddogion wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn deall protocolau ABE yn drylwyr. Mae hyn yn cynnwys cynllunio a theilwra cyfweliadau'n ofalus, a thrwy wneud hynny bydd anghenion penodol

---

319

320

321

plant yn cael eu diwallu'n fwy effeithiol.[322] Heb roi'r modd i swyddogion heddlu gynnal eu cyfweliadau ABE yn briodol, naill ai drwy hyfforddiant rheolaidd a/neu adnewyddu, mae'n annhebygol y bydd gwelliant yng nghyflwr y cyfweliadau ABE sy'n cael eu cynhyrchu.

144. Mae adolygiad trylwyr Comisiwn y Gyfraith o Dystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol yn cofnodi, er bod cyfweliadau ABE yn cael eu defnyddio'n eang, bod cwestiynau ynghylch eu haddasrwydd fel prif dystiolaeth lawn yn holl achosion troseddau rhywiol.[323] Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r llywodraeth ystyried adolygiad pellach o a ddylai cyfweliadau ABE barhau i gael eu defnyddio fel prif dystiolaeth mewn achosion troseddol neu a ddylid eu diwygio at y diben hwn. Barn yr wyf i'n ei chymeradwyo yw hon. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref yn ddiweddar gynllun y llywodraeth i gyflwyno timau ymchwilio RASSO arbenigol ym mhob heddlu yng Nghymru a Lloegr erbyn 2029.[324] Disgwylir i hyn wella ansawdd cyfweliadau ABE a gynhelir mewn achosion troseddau rhywiol, gan y bydd staff sy'n eu cynnal wedi'u hyfforddi'n ddigonol i reoli achosion mor gymhleth.

145. Er nad yw adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn gwneud argymhelliad ar y pwnc hwn, mae'n awgrymu defnyddio 'arholwyr arbenigol i gynnal cyfweliadau ABE yn hytrach na swyddogion heddlu'. Yn olaf, mae'n tynnu sylw at welliannau ehangach o ran defnyddio tystiolaeth fideo a mesurau arbennig sy'n rhyngweithio â sut mae ABE yn cael eu cynnal a'u defnyddio. Yn unol â hyn, rwy'n gwneud dau argymhelliad i wella proses bresennol ABE, gan sicrhau bod swyddogion yn cael eu hyfforddi'n ddigonol ac i gynorthwyo i ddatblygu ABE o ansawdd gwell yn

---

322

323

324

seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i mi.[325] Rwyf hefyd yn gwneud argymhelliad ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf), ynghylch defnyddio AI i gynhyrchu datganiad cronolegol o gyfweliad ABE.

Argymhellion

Ehangu ABE/defnydd o Esblygiad Clyweledol Digidol (DAVE)

146. Rwyf eisoes wedi gwneud argymhelliad ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell) ynghylch GLlTEF yn parhau i gyflwyno'r prosiect technoleg presennol, DAVE, i chwarae tystiolaeth yn ôl. Bydd cael technoleg sy'n gweithio fel DAVE yn hollbwysig i sicrhau bod ABEs yn cael eu chwarae'n ôl yn gywir. Bydd ehangu ei ddefnydd yn dileu problemau gyda hen offer ac, felly, yn lleihau oedi. Bydd hefyd yn sicrhau bod pob dioddefwr yn elwa ar brosesau gwneud penderfyniadau teg a chymesur trwy gyflwyno tystiolaeth ddibynadwy, gan arwain at lai o ohiriadau a datrysiadau achosion cyflymach, yn enwedig ar gyfer tystion agored i niwed sy'n dibynnu ar dystiolaeth a recordiwyd.

Hyfforddiant ar gyfer swyddogion heddlu

147. Trwy'r Adolygiad hwn, rwyf wedi darganfod bod yr agwedd o fewn heddluoedd tuag at y broses ABE yn amrywio ledled y wlad. Er gwaethaf y llawlyfr ABE o 2022, mae amrywiad sylweddol a diffyg cysondeb ar draws heddluoedd yn parhau.[326]

148. Mae hyfforddiant o ansawdd da yn hanfodol er mwyn cynnal ABEs o ansawdd uchel sy'n cipio'r dystiolaeth orau. Mae hyn yn cefnogi parodrwydd achosion cadarn gan arwain yn y pen draw at achosion llyfnach heb yr angen i ail-gyfweld ac felly'n gwneud defnydd mwy effeithlon o amser y llys. Felly, rwy'n argymell bod Coleg Plismona yn adolygu'r hyfforddiant, yn ei ddylunio ac yn goruchwylio'r

---

325

326

ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael i swyddogion sy'n cynnal cyfweliadau tystiolaeth orau a recordiwyd o flaen llaw, mewn ymgais i hyrwyddo cysondeb ar draws heddluoedd. Dylai hynny gynnwys yr hyfforddiant cychwynnol a'r hyfforddiant adnewyddu a gynigir fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Er mwyn ategu hyfforddiant gwell, rwy'n argymell datblygu a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer asesu ABEs. Gellid defnyddio hwn yn fewnol i reoli ansawdd ABE a gall fod yn adnodd defnyddiol i HMICFRS ddarparu goruchwyliaeth allanol. Dylai hyn helpu i safoni ansawdd ar draws rhanbarthau, a thrwy hynny leihau anghysondebau yn ansawdd ABE.

149. Rwyf hefyd yn argymell bod Coleg Plismona a'r NPCC yn adolygu hyfforddiant ar gyfer cynnal Cyfweliadau ABE ac yn ystyried a ddylai fod grŵp arbenigol o swyddogion yn cynnal Cyfweliadau ABE, yn hytrach na'i ystyried yn sgil cyfweld gyffredinol. Dylai'r llywodraeth gefnogi gweithredu eu hargymhelliad. Fel y crybwyllwyd eisoes uchod, mae hyn yn adleisio tystiolaeth a gyflwynwyd i astudiaeth ddiweddar y Comisiwn y Gyfraith a amlygodd awgrym ar gyfer defnyddio 'arholwyr arbenigol i gynnal cyfweliadau ABE yn lle swyddogion heddlu'.[327] Fel y nodais eisoes, mae cynnal cyfweliad at ddibenion ymchwilio a thystiolaethol yn heriol iawn, a gallaf weld rhinweddau mewn gweithlu arbenigol sydd wedi'u nodi fel rhai sydd â'r set sgiliau priodol ac sy'n datblygu eu profiad trwy gynnal y mathau hyn o gyfweliadau yn rheolaidd. Trafodaf isod y model Goleudy sy'n dod â sawl asiantaeth ynghyd i gynnal Cyfweliadau ABE gyda phlant, gan gynnig cymorth arbenigol i'r plentyn a'i deulu.[328]

150. Bwriedir i'r argymhellion hyn gefnogi gwell defnydd o amser llys drwy sicrhau bod prif dystiolaeth y tyst (ABE) yn glir, yn gydlynol ac yn gyflawn, gan leihau'r angen am eglurhad neu gwestiynau atodol. Dylent hefyd wella profiad tyst, gan gynyddu

---

327

328

hyder a lleihau erydiad drwy i ddioddefwyr dynnu'n ôl o achosion a'i gwneud yn fwy tebygol iddynt gymryd rhan yn y broses gyfiawnder heb orfod mynychu'r llys.

151. Bydd ABEs o well ansawdd yn cynorthwyo CPS i wella ei benderfyniadau cyhuddo cynnar ac, mewn achosion lle mae ansawdd yr ABE yn argyhoeddiadol yn gynnar, gallai hyn hefyd arwain at gynnydd mewn pleon euog cynnar.

Argymhelliad 140: Rwy'n argymell bod y Coleg Plismona yn adolygu'r hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer cynnal cyfweliadau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, gan gynnwys hyfforddiant gloywi, ac yn datblygu fframwaith sicrhau ansawdd i asesu'r ansawdd. Rwyf hefyd yn argymell bod y Coleg Plismona yn ystyried defnyddio swyddogion arbenigol mewn cyfweliadau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau.

Y System Bresennol a Heriau: Adran 28 o Ddeddf Tystiolaeth Ieuenctid a Throseddol 1999

152. O dan y gyfraith bresennol, mae dwy garfan o dystion agored i niwed yn gymwys ar gyfer adran 28: a) dan 18 oed neu'r rheini sy'n dioddef o anhwylder neu nam meddyliol neu gorfforol a fyddai'n gostwng ansawdd eu tystiolaeth (o dan adran 16 Deddf YJCEA), a b) is-set o dystion sy'n cael eu bygwth: dioddefwyr sy'n oedolion o droseddau rhywiol neu gaethwasiaeth fodern (o dan adran 17). Cyflwynwyd cymhwysedd o dan b) yn fwy diweddar, gyda chynllun peilot a ddechreuodd yn 2019 a chyflwyniad cenedlaethol llawn yn dod i ben yn 2022, gan ehangu'r defnydd o adran 28 i ddioddefwyr RASSO a dioddefwyr caethwasiaeth fodern.[329] Mae'r CrimPR (CrimPR 18.9)[330] yn rhoi canllawiau manwl ar gymhwyso adran 28 i'r gwahanol gategorïau o dystion o dan adran 16 a'r rheini o dan adran 17 o Ddeddf YJCEA.[331] Mae'n bwysig nodi bod recordiadau

329

330

331

adran 28, er eu bod yn cael eu cynnal cyn y treial ei hun, yn cael eu dosbarthu fel rhan o'r treial sydd ag oblygiadau ar gyfer eu rheoli a'u trin.

153. Mae gwrandawiadau Adran 28 yn caniatáu i achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol gael eu croesholi a'u hailholi wedi'u recordio ymlaen llaw cyn y treial. Er mwyn i recordiad adran 28 gael ei gynnal, rhaid i achwynydd agored i niwed a thyst sy'n cael ei fygwth fod wedi cynnal ABE yn gyntaf ar gyfer eu prif dystiolaeth, ar ôl iddynt gael eu hasesu fel rhai addas gan yr heddlu. Ar ôl i'w tystiolaeth gychwynnol gael ei rhoi trwy gyfweliad heddlu wedi'i recordio ar fideo, gall yr erlyniad ofyn i holi pellach gael ei gynnal mewn gwrandawiad ar wahân cyn y treial, heb i'r rheithgor fod yn bresennol. Felly mae gwrandawiad ychwanegol yn ystod y broses dreial. Fel arfer, bydd yr achwynydd yn rhoi tystiolaeth o ddolen fideo fyw o ystafell y tystion gyda'r barnwr, cynrychiolwyr cyfreithiol a'r diffynnydd yn yr ystafell llys. Mae hyn yn galluogi'r achwynydd i gwblhau ei dystiolaeth ymhell cyn y treial llawn[332] ac yn caniatáu i'r ABE a'r croesholi gael eu chwarae yn y treial heb i'r tyst fod yn yr ystafell llys.

154. Nod gwrandawiad adran 28 yw gwella ansawdd a dibynadwyedd tystiolaeth trwy wella profiad achwynydd o groesholi, gan ganiatáu yn y pen draw i achwynwyr agored i niwed roi eu tystiolaeth orau – weithiau lle na fyddent efallai'n darparu tystiolaeth o gwbl fel arall. Trwy gofnodi prif dystiolaeth a chroesholi cyn y treial, mae adran 28 yn rhyddhau achwynwyr rhag straen mynychu'r treial ac yn caniatáu iddynt roi'r profiad y tu ôl iddynt ar gam cynharach. Mynegodd Comisiynydd Dioddefwyr ei chefnogaeth i ddefnydd effeithiol o adran 28;[333] fodd bynnag, mae'n hanfodol bod achwynwyr a thystion sy'n oedolion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt yn darparu tystiolaeth trwy recordio adran 28 o flaen llaw neu trwy ddefnyddio rhyw fesur

---

332

333

arbennig arall. Mae nifer y recordiadau adran 28 y flwyddyn wedi codi dros 400 ers cyflwyno RASSO,[334] o 1,351 yn 2021 i 1,787 yn 2024.[335]

155. Rwy'n cydnabod bod trafodaeth gyhoeddus sylweddol wedi bod am adran 28, ac yn benodol pryder ynghylch ei heffaith bosibl ar gyfraddau euogfarnau. Rwy'n ymwybodol o astudiaeth gan yr Athro Cheryl Thomas sy'n awgrymu bod adran 28 yn gysylltiedig â gostyngiad o tua 8.6 pwynt canran mewn euogfarnau ym mhob dyfarniad rheithgor euog a gostyngiad o tua 18.1 pwynt canran mewn euogfarnau am dreisio dynes 16 oed neu hŷn.[336] Fodd bynnag, canfu prif ganfyddiadau o 'Werthusiad Effaith holi croes wedi'i recordio ymlaen llaw [adran 28]' Weinyddiaeth Gyfiawnder a adolygwyd gan gymheiriaid nad oedd adran 28 yn ymddangos i gael effaith ar benderfyniad y rheithgor i ryddfarnu neu euogfarnu achos ac nid yw'n ymddangos ei fod yn cael effaith hirdymor ar ganran y treialon aneffeithiol yn y llys.[337] Heb geisio datrys yr anghysondeb hwn mewn adroddiadau, mae'n parhau i fod yn hollbwysig i'r llywodraeth barhau i fonitro unrhyw effeithiau adran 28 mewn ffordd dryloyw, fel y cefnogir gan Katrin Hohl yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Cyfiawnder.[338]

156. Cododd cyflwyniad gan Gomisiynydd Dioddefwyr Llundain her gyffredin ynghylch achos adran 28 (yn debyg i gyfweliadau ABE) yn ymwneud â seilwaith technolegol annigonol. Yn gyffredinol, mae angen cynnal gwrandawiadau adran 28 o fewn llys lle mae camera sefydlog wedi'i osod, yn hytrach nag o bell. Tynnodd Comisiynydd Dioddefwyr Llundain sylw at y ffaith 'bod problemau

---

334

335

336

337

338

ffilmio, gyda chamerâu wedi'u lleoli'n wael'.[339] Rwyf eisoes wedi argymell parhau i gyflwyno DAVE, a fydd yn gwella chwarae tystiolaeth adran 28 yn ôl yn yr ystafell llys. Rwyf hefyd yn annog y dylid cipio recordiadau adran 28 o ansawdd uchel yn y lle cyntaf.

157. Un her aml sy'n gysylltiedig â recordio tystiolaeth adran 28 yw ei botensial i amharu ar dreialon eraill sy'n mynd rhagddynt. Pan fydd recordiad adran 28 i fod i gael ei wneud, mae hynny'n gofyn am bresenoldeb y Barnwr a'r ddau gwnsler, y mae'n debygol y bydd pob un ohonynt yn ymwneud â threialon eraill sy'n mynd rhagddynt a fydd yn gorfod cael eu hatal i ganiatáu iddynt gynnal gwrandawiad adran 28 ac mae'n annhebygol iawn y bydd yn yr un ganolfan llys â'r rhai y mae'r cwnsler yn ymddangos ynddynt bryd hynny. Gall yr amharu hwn fod yn cynyddu wrth i nifer y recordiadau adran 28 gynyddu ers 2022.[340]

158. Tynnodd gwerthusiad proses y Weinyddiaeth Gyfiawnder sylw at hyn: 'Roedd eiriolwyr yn y treial a staff y llys yn credu bod adran 28 yn cael effaith negyddol ar amserlennu a rhestrau llys oherwydd y gwrandawiad ychwanegol, ailchwarae'r groesholi yn y treial a gofyniad bod yr un barnwr a'r un eiriolwyr ar gael yn yr holl wrandawiadau.'[341] Mae diffyg cysondeb cenedlaethol yn amserlennu gwrandawiadau adran 28 ledled y wlad, mater sydd wedi'i amlygu'n gyffredin drwy gydol fy ymgysylltiad ac sy'n cyfuno problemau ynghylch tarfu ar dreialon eraill.

159. Mae cyflwyniadau i'r Adolygiad a rhyngweithio â staff y llys hefyd wedi dangos bod treialon lle mae adran 28 wedi'i gorchymyn yn fwy tebygol o gael oedi unwaith y bydd tystiolaeth yr achwynydd wedi'i sicrhau, gan nad yw'r achosion

339

340

341

hyn yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer rhestru mwyach.[342] Trwy fy ymgysylltiad â'r heddlu a thimau gofal tystion, canfûm y gall y diffyg blaenoriaethu ar gyfer achosion adran 28 RASSO sy'n cynnwys dioddefwyr plant arwain at gyfnodau achos estynedig, a all gael effeithiau parhaol ar y plant hynny. Er bod y plentyn achwynydd wedi cael y cyfle i gofnodi'r dystiolaeth ac i'r graddau hwnnw yn gallu symud ymlaen o'r profiad, nid oes ganddynt unrhyw benderfyniad terfynol o'r honiadau nes bod y treial wedi'i gwblhau. Gall hynny effeithio'n andwyol ar eu lles. Fy mwriad ar gyfer yr Adolygiad hwn yw gwella amseroldeb ar gyfer pob achos. Rwyf wedi argymell, fel rhan o fframwaith rhestru cenedlaethol, y dylai'r farnwriaeth geisio sicrhau bod achosion sy'n cynnwys tystion agored i niwed yn cael blaenoriaeth briodol. Rwy'n gobeithio, trwy leihau faint o amser y mae'n rhaid i achwynwyr aros am dreial, y gall fod llai o angen am wrandawiadau adran 28 lle mae'r oedi yn chwarae rhan yn y penderfyniad hwn, er fy mod yn cydnabod y byddant yn dal i chwarae rhan bwysig i lawer o achwynwyr.

160. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae adroddiad diweddar Comisiwn y Gyfraith yn canolbwyntio ar adran 28 yn ogystal ag ABEs.[343] Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod adran 28 yn cael ei defnyddio bellach ond bod cymhwysedd a mynediad yn anghyson, gan danseilio tegwch ac felly'n argymell symud i fodel o hawl i fesurau safonol. Mae'n argymell ehangu mynediad at dystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw hyd yn oed heb ABE derbyniol, gyda phrif dystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw mewn gwrandawiad ar wahân a gynhelir gan yr erlyniad. Ystyriodd yr adroddiad hefyd argymhellion ehangach ar gyfer mesurau arbennig; nid wyf wedi gwneud sylw ar y rhain yn fy Adolygiad.

342

343

Argymhelliad: Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999

161. Bydd Adran 28 yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi achosion achwynwyr a thystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth, ac felly mae fy argymhellion yn canolbwyntio ar sicrhau bod y broses o gyflwyno'r dystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw yn y llys yn cael ei chefnogi drwy dechnoleg o ansawdd da a bod y broses ar gyfer cynnal recordiadau adran 28 mor effeithlon â phosibl. Dylai fy argymhelliad ar gymeradwyo cyflwyno DAVE ym Mhennod 8 (Cyfranogiad o Bell) gefnogi gwrandawiadau adran 28 o well ansawdd.

Y Model Goleudy

162. Er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau ABE ac adran 28 yn cael eu cynnal yn y ffordd orau bosibl, mae'n hanfodol bod gan ddioddefwyr fynediad at yr amgylchedd a'r cymorth gorau posibl lle gallant recordio'r rhain yn gyfforddus. Yn ystod fy ymgysylltiad, ymwelais â'r Lighthouse yn Camden, sy'n gweithredu yn unol â model Barnahus rhyngwladol, dull sy'n dod ag asiantaethau lluosog ynghyd mewn un amgylchedd sy'n addas i blant. Mae'r Lighthouse yn darparu cymorth cynhwysfawr, arbenigol i blant sydd wedi bod yn ddioddefwyr camdriniaeth rywiol a'u teuluoedd, mewn amgylchedd sy'n briodol yn ddatblygiadol ac sy'n addas i blant. Mae'r ganolfan hon yn dod â gwasanaethau iechyd a therapiwtig, diogelu, gorfodi'r gyfraith, cyfiawnder troseddol a rheoli achosion ynghyd, yn ogystal â gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth arbenigol.[344]

Mae'r math hwn o ddull cydweithredol yn enghraifft o egwyddor diwylliant cydweithredu datrys problemau.

163. Ar hyn o bryd, Y Lighthouse yn Camden yw'r unig le yn Lloegr sy'n darparu gwasanaeth Barnahus llawn. Felly, rwyf yn cefnogi'r cyhoeddiad gan y llywodraeth ar 17 Rhagfyr 2025 o ehangu'r model hwn i holl ranbarthau'r GIG ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr, gyda chefnogaeth buddsoddiad o £50 miliwn ac rwyf yn argymell ei fod yn caniatáu ar gyfer recordiadau ABE yn ogystal â

344

gwrandawiadau adran 28.[345] Pwrpas allweddol y model hwn yw sicrhau bod cyfweliadau ymchwiliol cynnar o ansawdd uchel yn cael eu cynnal gan weithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi mewn datblygiad plant ac arfer sydd wedi'i lywio gan drawma mewn amgylchedd sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion datblygiadol. Mae'r model hwn yn cynnig ABE/VRI i bob plentyn sy'n ddioddefwr waeth a ydynt wedi ailadrodd eu honiad i swyddog heddlu ai peidio.

164. Adroddodd Adroddiad Blynyddol Lighthouse 2020/21 ei fod wedi 'cyrraedd 374 o blant a phobl ifanc ac wedi darparu 132 o ymgynghoriadau proffesiynol' yn ystod y flwyddyn.[346] Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod 96% o blant a phobl ifanc wedi cyflawni eu nodau lles neu wedi eu cyflawni'n rhannol. Nid yn unig hynny, adroddodd 100% o rieni a oedd yn rhan o'r rhaglen y flwyddyn honno fod eu lles wedi gwella tra bod 89% wedi adrodd am gynnydd mewn hyder.[347] Mae'r ystadegau hyn yn dystiolaeth glir o'r effaith gadarnhaol y mae'r model hwn yn ei chael ar blant a'u teuluoedd, gan ddangos ei effeithiolrwydd wrth gefnogi lles a meithrin hyder.

165. Byddai ehangu'r model hwn ledled Cymru a Lloegr yn rhoi gwell cymorth i blant sy'n ddioddefwyr a'u teuluoedd drwy broses drawmatig. Byddai'n darparu cymorth cynnar integredig a chydgysylltu a fyddai'n gwella parodrwydd achosion ar gyfer y llys a gallai leihau gohiriadau a achosir gan dystiolaeth anghyflawn neu faterion yn ymwneud â thystion.

166. Byddai model hwb amlddisgyblaethol sengl yn gwella amseroldeb cofnodi a rhannu tystiolaeth ABE rhwng yr heddlu, CPS a'r llysoedd, gan leihau dyblygu ymdrechion a methiannau technegol yn ystod chwarae yn ôl a dangos datrys problemau ar y cyd ar waith ar draws y system cyfiawnder troseddol. Ar ben

---

345

346

347

hynny, os yw ABEs a gwrandawiadau adran 28 i'w cwblhau'n gynnar, gallai ganiatáu i'r llys restru treialon yn fwy effeithlon.

167. Bydd ehangu model Llighthouse yn lleihau unrhyw anghysondebau daearyddol, gan sicrhau triniaeth gyfartal i blant waeth beth fo'u lleoliad neu eu cefndir ethnig.

168. Dylai ABEs a gefnogir yn dda a chroesholi a recordiwyd ymlaen llaw olygu bod plant yn rhoi tystiolaeth gliriach a mwy cywir, gan wella uniondeb tystiolaethol a thegwch i bob parti. Gallai'r model hwn gryfhau cyfranogiad trwy roi'r cymorth ymarferol ac emosiynol sydd ei angen ar ddioddefwyr ifanc i roi tystiolaeth yn effeithiol ac yn hyderus. Gallai model cyson fel Lighthouse hefyd helpu i dawelu meddwl teuluoedd bod y system cyfiawnder yn blaenoriaethu lles plant.

169. Gallai'r model hwn wella effeithlonrwydd y llysoedd troseddol trwy wella ansawdd ac amseroldeb cyfweliadau ABE a gwrandawiadau a.28 trwy gydlynu amlasiantaethol cynnar sydd wedi'i lywio gan drawma. Trwy sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n dda, bod tystiolaeth yn cael ei chasglu i safon uwch, a bod achosion yn cael eu rheoli'n agos, gan leihau'r angen am gyfweliadau dro ar ôl tro ac felly leihau gohiriadau.

Model Rhestru Cenedlaethol ar gyfer Adran 28

170. Ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith), argymhellais fodel rhestru cenedlaethol i ddarparu mwy o gysondeb cenedlaethol. Fel rhan o'r dull hwn, rwy'n argymell dull cyson o ran sut mae gwrandawiadau adran 28 yn cael eu rhestru. Byddai dull rhestru cenedlaethol safonol yn lleihau amrywiad lleol ac felly'n galluogi barnwyr a chyfreithwyr i ddyrannu eu hamser yn fwy priodol a lleihau tarfu ar dreialon eraill. Fel rhan o'r diwygio hwn, rwyf hefyd yn argymell y dylid rhoi sylw i'r cwestiwn a ellid cynnal gwrandawiadau adran 28 gyda chwnsler, y Barnwr a'r achwynydd yn ymddangos o bell drwy CVP, gan ganiatáu iddynt fod mewn gwahanol leoliadau os oes angen. Nodaf, o dan y broses bresennol, fod tyst yn cael ei roi mewn ystafell cyswllt byw lle mae bargyfreithiwr amddiffyn yn ei groesholi mewn ystafell wahanol. Dadleuir y dylai cael y

gwrandawiadau hyn o bell gael effeithiau negyddol cyfyngedig ar y tyst a gallai arwain at lai o darfu ar dreialon lle mae cwnsler yn cymryd rhan ar yr un pryd mewn treial sy'n cael ei gynnal mewn man arall, gan y gallent ymuno o bell.[348]

171. Gallai Llysoedd, eiriolwyr ac Unedau Gofal Tystion ddyrannu amser a staff yn fwy effeithiol pe bai slotiau gwrandawiad adran 28 yn cael eu hamserlennu o dan fframwaith unedig a fyddai hefyd yn caniatáu i farnwyr ac eiriolwyr sydd angen iddynt fynychu gwrandawiad adran 28 a'r treial diweddarach gynllunio'n fwy effeithiol. Yn yr un modd, byddai'r heddlu yn elwa o gael llinellau amser cliriach ar gyfer paratoi tystion, yn enwedig mewn achosion ABE.

172. Gallai amserlennu rhagweladwy ac amserol hefyd leihau pryder ymhlith achwynwyr a thystion, gan gynyddu eu hyder a gwella eu hymgysylltiad ag achosion. Yn ogystal, gallai gwrandawiadau adran 28 brydlon olygu bod tystiolaeth yn cael ei chymryd pan fydd cof yn fwy ffres a allai wella ansawdd y dystiolaeth.

Argymhelliad 141: Rwy'n argymell, fel rhan o fodel rhestru cenedlaethol, y dylid cyflwyno cysondeb i'r ffordd y mae gwrandawiadau adran 28 yn cael eu hamserlennu, a gallai hyn gynnwys ystyried cynnal treialon peilot o groesholi adran 28 yn rhannol o bell.

Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSRs)

Y System Gyfredol

173. Mae Adroddiadau Cyn-dedfrydu yn rhan annatod o sicrhau achos teg ac effeithlon yn y llys trwy ddarparu gwybodaeth wedi'i theilwra am amgylchiadau diffynnydd euog i gefnogi dedfrydu. Mae Adroddiad Cyn-dedfrydu yn darparu asesiad gwrthrychol a gynhyrchir gan y Gwasanaeth Prawf sy'n helpu'r llys i ddeall ymddygiad, risg ac opsiynau dedfrydu troseddwr wrth ystyried dedfrydau

348

cymunedol neu garchar.[349] Pan gânt eu darparu'n brydlon ac yn gywir, mae Adroddiadau Cyn-dedfrydu yn lleihau'r angen am ohiriadau i asesu opsiynau dedfrydu, gan ganiatáu i'r broses ddedfrydu fynd rhagddi heb oedi. Fodd bynnag, deallaf fod oedi yn digwydd yn rhy aml wrth ddarparu Adroddiadau Cyn-dedfrydu. Canfu cyflwyniad i'r Adolygiad gan Transform Justice ar eu prosiect CourtWatch London (prosiect arsylwi llys torfol lle mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn arsylwi gwrandawiadau llys ynadon ac yn nodi eu canfyddiadau), o'r dros 2000 o wrandawiadau a arsylwyd ganddynt, arweiniodd 25% at oedi neu ohiriad – roedd 16% o'r holl wrandawiadau gohiriedig neu ohiriedig oherwydd bod y llys yn aros am Adroddiad Cyn-dedfrydu.

174. Felly, rwyf yn archwilio PSRs yn y bennod hon i ddeall y ffyrdd y maent yn effeithio ar effeithlonrwydd y llys a pha gamau y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol.

175. Ar hyn o bryd mae tri math gwahanol o Adroddiadau Cyn Dedfrydu:

1. Cyflwyniad llafar cyflym – fel arfer, cwblheir PSR llafar o fewn 24 awr i euogfarn oherwydd faint cyfyngedig o wybodaeth sydd ei hangen ar y llys dedfrydu.[350]

2. Adroddiad Cyn Dedfrydu ysgrifenedig cyflym – gellir cwblhau Adroddiad Cyn Dedfrydu ‘cyflym’ ar ddiwrnod y ddedfryd gan swyddogion llys prawf. Bydd y math hwn o adroddiad yn addas dim ond pan fo'r achosion o 'ddifrifoldeb isel' neu 'ddifrifoldeb cymedrol a phan fo'r llys yn nodi bod dedfryd gymunedol yn cael ei hystyried.

3. PSR dosbarthiad safonol – mae PSR safonol wedi’i seilio ar asesiad llawn ac mae’n addas ar gyfer achosion difrifoldeb ‘cymedrol’ ac ‘uchel pan fydd

---

349

350

y llys wedi nodi bod dedfryd gymunedol bosibl neu ddedfryd o garchar yn cael ei hystyried. Bydd swyddog prawf yn cynnal cyfweliad â'r troseddwr yn ogystal â chasglu gwybodaeth arall sy'n berthnasol i risg, megis cofnodion euogfarnau blaenorol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y camau sydd ynghlwm wrth baratoi PSRs yn Fframwaith Gwasanaethau Llys Prawf.[351]

Fel arfer, mae'n cymryd 15 diwrnod gwaith i baratoi'r adroddiadau hyn, er y gall hyn amrywio yn dibyn ar gymhlethdod ac argaeledd adnoddau.[352]

176. Rhoddodd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol bwyslais newydd ar ddefnyddio dedfrydau cymunedol yn lle dedfrydau o garchar, lle bo'n briodol, a fydd yn debygol o roi hyd yn oed fwy o alw ar yr angen am Adroddiadau Cyn-dedfrydu. Mae'r Mesur Dedfrydu a fydd yn deddfu llawer o'r diwygiadau a gynigiwyd yn yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol bellach gerbron y Senedd.[353]

177. Bu dirywiad yng nghyfanswm y PSRs y blynyddoedd diwethaf, ar draws pob math o PSR. Rhwng 2012 a 2019, gostyngodd y defnydd o PSRs 47% i tua 103,000, gan adlewyrchu'r duedd ar i lawr o ran nifer y troseddwyr a ddedfrydwyd yn yr holl lysoedd.[354] Fodd bynnag, ers 2022 bu cynnydd yn y defnydd o PSRs, o tua 83,000[355] i ychydig dros 99,000 yn 2024.[356]

351

352

353

354


355

356

Figure 9.3

Number of Pre-Sentence Reports used in Crown and Magistrates' Courts

England and Wales, 2014 - 2024



Source: Offender management statistics quarterly: October to December 2024 - GOV.UK

178. Mae'r newid yn y defnydd o PSRs yn ystod y cyfnod hwn yn digwydd yn erbyn cefndir ad-drefnu a phreifateiddio heriol rhan o'r Gwasanaeth Prawf yn 2014, lle cafodd troseddwyr risg isel eu monitro gan gwmnïau preifat tra bod troseddwyr risg uwch yn cael eu rheoli gan HMPPS. O ganlyniad i hyn, roedd llawer o bwysau ar staff prawf presennol. Mewn un arolwg, dewisodd rhai swyddogion prawf nad oeddent yn gallu treulio digon o amser gyda chleientiaid a bod targedau'n afrealistig.[357] Ailunwyd y gwasanaethau yn 2021, ond mae'r Gwasanaeth Prawf yn dal i fod dan lawer iawn o bwysau gyda llwythi achosion uchel a phrinder staff.

179. Y mathau mwyaf cyffredin o PSR yn ystod y deng mlynedd diwethaf fu fformatau llafar cyflym a fformatau ysgrifenedig cyflym. Bu newid i fformatau ysgrifenedig cyflym o fewn y pum mlynedd diwethaf ac ail-ddefnyddio adroddiadau PSR ar gyfer troseddwyr sy'n ailadrodd troseddau gyda diweddariadau llafar neu ysgrifenedig yn cael eu darparu gan y Gwasanaeth Prawf. Dengys data fod tua

357

17,900 o adroddiadau PSR llafar cyflym yn 2024,[358] gostyngiad o 14% o 2023,[359] a 75,500 o adroddiadau PSR ysgrifenedig cyflym, cynnydd o 15% o 2023 yn llysoedd ynadon a Llys y Goron.

180. Dengys ymchwil fod Adroddiadau Cyn-Dedfrydu (PSRs) yn arf gwerthfawr ar gyfer dedfrydu. Mae eu gwerth yn mynd y tu hwnt i gynorthwyo'r Barnwr yn y gwrandawiad ei hun. Adroddodd astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod troseddwyr sy'n cael PSRs cyflym neu lafar yn fwy tebygol o gwblhau eu gorchmynion llys yn llwyddiannus, o'u cymharu â'r rhai na chawsant PSR.[360] Mae ystadegau ar wahân gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adrodd, yn 2024, bod tua 88% o ddedfrydau carchar uniongyrchol a gynigiwyd mewn PSRs wedi arwain at roi'r ddedfryd honno.[361] Hwn oedd y cysondeb uchaf rhwng y ddedfryd a gynigiwyd a'r ddedfryd a roddwyd (ac eithrio Gorchmynion Dedfryd Ohiriedig).[362]

181. Mae'r ymgysylltiad drwy'r Adolygiad hwn yn awgrymu bod absenoldeb PSRs a orchmynnwyd yn flaenorol yn achos sylweddol o ohiriadau, fodd bynnag, nid oes data monitro mewnol ar ohiriadau oherwydd oedi PSR. Yn aml, ni chaiff PSRs eu cwblhau oherwydd bod diffynyddion yn methu â bod yn bresennol yn eu cyfweliadau PSR, ond gall rhesymau hefyd gynnwys salwch yr awdur, diffyg

---

358

359

360

361

362

capasiti swyddogion prawf ac argaeledd cyswllt fideo i gael mynediad at ddiffynyddion yn y ddalfa.

182. Yn ogystal â materion yn ymwneud ag amseroldeb, mae fy ymgysylltiad yn awgrymu bod PSRs wedi dod yn fwy dwys o ran adnoddau ac yn fwy llafurus ac y gall ansawdd adroddiadau amrywio. Mae Gwybodaeth Rheoli HMPPS yn awgrymu bod canran y PSRs a gyflwynwyd o fewn pedair wythnos yn llys ynadon wedi gostwng o 60% i 54% o Ch2 2024/25 i Ch1 2025/26 ac o 40% i 35% yn Llys y Goron yn yr un amserlen.[363]

183. Mae paratoi Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSRs) wedi dod yn ymarfer mwy cymhleth sy'n gofyn am gyfeirio at lawer mwy o ffynonellau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ymrwymiadau a nodir yn 'Dull Doethach o Ddedfrydu (2020)',[364] ynghyd â rhwymedigaethau sy'n deillio o arolygiadau thematig Arolygiaeth Prawf EF (HMIP), wedi ehangu cwmpas yr hyn y disgwylir i PSRs ei ystyried. Mae'n ofynnol bellach i ymarferwyr prawf gynnal dadansoddiadau cynhwysfawr o risg trwy dynnu ar offer asesu strwythuredig lluosog, yn ogystal â chynnal gwiriadau gorfodol gyda'r heddlu a gofal cymdeithasol plant, yn ogystal â gwirio gwybodaeth gydag asiantaethau megis gwasanaethau iechyd, tai a chamddefnyddio sylweddau. O ganlyniad, mae paratoi PSR llawn bellach yn cynnwys ystod ehangach o ymholiadau ac asesiadau wedi'u teilwra'n unigol, ac felly'n cymryd mwy o amser i'w gwblhau er mwyn bodloni'r gofynion ehangedig hyn.

184. Cyflwynodd HMIP ymchwil ym mis Awst 2024 yn adolygu sut yr oedd y Gwasanaeth Prawf yn cyflwyno PSRs ar ôl y pandemig ac ad-drefnu'r gwasanaeth. Canfu'r ymchwil fod llai na hanner yr adroddiadau llys a archwiliwyd yn eu sampl yn cael eu barnu'n ddigon dadansoddol a phersonol i

---

363

364

gefnogi gwneud penderfyniadau. Roedd adroddiadau llafar yn bodloni safonau mewn 4 achos allan o 10, fformat byr mewn 5/10, a chyflwyniad safonol mewn dros 6/10. Roedd dirywiad cyffredinol yn ansawdd o 2020 wrth ddefnyddio'r holl wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys diogelu plant a data cam-drin domestig. Yn yr un modd, dim ond yn hanner yr achosion lle'r oedd yn ofynnol y gwnaed ymholiadau gyda'r heddlu a gwasanaethau plant. Canfuwyd hefyd bod adroddiadau ar gyfer unigolion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gael eu hystyried yn ddigon dadansoddol a phersonol.[365] Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu, er bod enghreifftiau lle gall ansawdd PSRs fod yn wael, bod yr adborth cyffredinol o arolwg barnwrol ac aelodau'r farnwriaeth yn dangos bod safon PSRs yn parhau i fod yn foddhaol. Trwy ymgysylltu â Phrif Arolygydd y Carchardai, rwyf yn ymwybodol, fodd bynnag, bod HMIP yn ystyried ar hyn o bryd arolygiad thematig o'r wybodaeth a'r cyngor cyn-dedfrydu a ddarperir gan y gwasanaeth prawf i gefnogi gwneud penderfyniadau yn y llys. Mae hyn yn dilyn canfyddiadau arolygu diweddar sy'n awgrymu bod y Gwasanaeth Prawf yn wynebu heriau oherwydd lefelau staffio annigonol, profiad cyfyngedig ymhlith staff a llwythi achosion na ellir eu rheoli.

185. Rwyf yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Prawf yn gweithredu mewn cyd-destun heriol, gyda phrinder sylweddol o swyddogion prawf, er gwaethaf y parhau i ymdrechu i recriwtio mwy. Mae hyn yn cael ei waethygu gan ryddhau cynnar ar fyr rybudd i leddfu pwysau ar draws ystad y carchardai. Yn ogystal, mae Troseddau Pellach Difrifol (TFOs) diweddar a phroffil uchel (troseddau treisgar a rhywiol penodol a gyflawnir gan bobl sydd o dan oruchwyliaeth prawf neu sydd wedi bod o dan oruchwyliaeth prawf yn ddiweddar iawn ar adeg y drosedd)[366] wedi arwain at fwy o ffocws ar reoli risg ac amlder cyfarfodydd dilynol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), sy'n cymryd llawer o amser

---

365

366

i gyd. Mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at faint o amser sydd ei angen i swyddog prawf gymhwyso'n llawn.

186. Ar 30 Medi 2025, roedd prinder o tua 1,600 o gyfwerth amser llawn o swyddogion prawf ar draws y Gwasanaeth Prawf, sef 28% o'r holl staff yn y swydd.[367] O ganlyniad, mae'n rhaid i Swyddogion Gwasanaeth Prawf (PSOs) gamu i mewn yn aml yn lle swyddogion prawf i gynnal PSRs. Mae gwahaniaeth rhwng y math o adroddiad y gall pob gradd ei baratoi. Er bod swyddogion prawf wedi'u hyfforddi'n ffurfiol ac yn tueddu i ysgrifennu adroddiadau mwy manwl o risg uwch ac adroddiadau mwy cymhleth yn gyffredinol, nid oes gan PSOs yr un cymhwyster a byddant felly'n ysgrifennu adroddiadau am unigolion sy'n peri risg is ac o bosibl hefyd yn llai parod i gwblhau'r adroddiad o'r un ansawdd ag y byddai swyddog prawf. Fodd bynnag, byddai llawer o PSOs yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant ffurfiol gyda'r nod o gymhwyso yn y pen draw fel swyddog prawf.

187. Yn ogystal â hynny, mater arall a godwyd gan y Gwasanaeth Prawf drwy ymgysylltu oedd ei ddiffyg llety yn y llys. Heb ofod swyddfa a gofod cyfweld addas, sy'n galluogi swyddogion prawf i gael eu lleoli yn y llys, mae'r gallu i gynllunio a chynnal PSRs mewn ffordd effeithlon ac ymatebol yn gyfyngedig. Gwn fod heriau mewn gwahanol ganolfannau llys, ac anogaf i asiantaethau barhau i weithio i fynd i'r afael â'r mater hwn ar lefel leol.

188. Rwyf hefyd wedi clywed y gall fod yn heriol i'r Gwasanaeth Prawf gael mynediad at droseddwyr yn y ddalfa, yn rhannol oherwydd prinder staff carchardai a charchardai gorlawn. Pan nad yw'r drefn carchar yn gweithredu'n effeithiol, mae'n dod yn fwyfwy heriol i sicrhau cefnogaeth staff y carchar i hwyluso cyfweliadau rhwng unigolyn a staff y Gwasanaeth Prawf. Rhesymau eraill bod staff y Gwasanaeth Prawf yn cael trafferth cael mynediad at droseddwyr yn y ddalfa yw bod yr unigolyn yn gwrthod cydweithredu a materion logistaidd megis peidio â chael mynediad at slot gwrandawiad fideo.

367

189. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau hyn, mae'n hanfodol bod PSRs yn cael eu darparu mewn pryd, eu bod o ansawdd uchel a'u bod yn darparu lefel briodol o fanylion. Bydd gweithio gyda Barnwyr Cyswllt Prawf (y mae eu rôl yn cynnwys darparu goruchwyliaeth farnwrol arbenigol ac arweinyddiaeth ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau prawf)[368] yn helpu i gyflawni hyn trwy gynnal deialog agored rhwng y prawf a'r Llysoedd ar unrhyw oedi, y mathau o adroddiadau a ofynnir ac a ddarperir ac unrhyw faterion ansawdd y gall fod angen mynd i'r afael â nhw. Felly, rwy'n annog ac yn cymeradwyo parhau i ddefnyddio Barnwyr Cyswllt Prawf. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithrediadau'r llys yn parhau i fod yn effeithlon, a bod oedi yn cael ei leihau.

Argymhellion

190. Rwyf yn gwneud cyfres o argymhellion gyda'r nod o wella effeithlonrwydd y broses PSRs trwy sicrhau bod lefel y manylion a ddarperir bob amser yn gymesur â natur yr achos a'r diffynnydd dan sylw a gwneud gwell defnydd o dechnoleg lle bo hynny'n bosibl. Mae'r Gwasanaeth Prawf eisoes yn treialu adnodd trawsgrifio AI o'r enw Justice Transcribe, a grybwyllwyd uchod, a gobeithio y bydd offer fel hwn hefyd yn cefnogi cwblhau PSRs yn amserol ac yn effeithlon.

Adolygiad o PSRs gan HMPPS

191. O ystyried yr heriau o ran adnoddau yn y Gwasanaeth Prawf a'r cynnydd yn y defnydd o PSRs, yn enwedig PSRs ysgrifenedig cyflym, mae'n hanfodol bod lefel y manylion a ddarperir mewn adroddiadau bob amser yn gymesur ag anghenion yr achos. Felly, rwy'n argymell bod HMPPS yn parhau â'i waith i adolygu hyn a gwneud hynny'n gyflym. Fodd bynnag, bydd hyn fwyaf priodol ar gyfer adroddiad llafar cyflym. Bydd adolygu'r broses hon yn galluogi symud i ffwrdd oddi wrth adroddiadau manwl lle bo'n briodol mewn achosion llai cymhleth, ond yn dal i fod â'r gallu i ddarparu gwybodaeth llawer mwy manwl ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth.

368

192. Gallai safoni a symleiddio manylder adroddiadau yn seiliedig ar y math o drosedd, risg, neu gymhlethdod leihau'r amser paratoi adroddiadau, gan alluogi datrysiadau cyflymach i droseddwyr. Gallai hyn hefyd olygu bod llysoedd yn fwy tebygol o symud ymlaen i ddedfrydu ar ddiwrnod yr euogfarn os yw fformat yr adroddiad yn cyfateb i angen yr achos (e.e. cryno ar gyfer risg isel, manylion llawn ar gyfer achosion cymhleth). Dylai lleihau amser fesul adroddiad, lle bo'n briodol, leihau'r pwysau ar adnoddau swyddogion prawf. Drwy wneud y broses yn fwy effeithlon, dylai fod llai o ohiriadau a llai o wrandawiadau ailadrodd drwy ddarparu gwybodaeth berthnasol ac amserol i'r llys. Os caiff model PSR haenog ei gynllunio'n briodol, byddai'n sicrhau bod grwpiau agored i niwed yn dal i gael adroddiadau llawn lle bo angen, tra bod eraill yn cael crynodebau cymesur. Fel rhan o hyn, bydd yn bwysig cynnal deialog agored rhwng Barnwyr Cyswllt Prawf a phrawf ynghylch yr oedi, y math o adroddiadau a ofynnir ac a ddarperir ac unrhyw faterion ansawdd y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw. Bydd hefyd yn bwysig cael cefnogaeth gan HMIP ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir i gynnwys gofynnol PSRs.

Argymhelliad 142: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn adolygu lefel y manylion sydd eu hangen mewn Adroddiadau Cyn Dedfrydu i'w gwneud yn fwy cymesur.

Adroddiad dilysu

193. Er mwyn darparu lefelau manylion mwy cymesur a ddarperir mewn PSRs, rwyf hefyd yn cymeradwyo'r cynllun peilot parhaus sy'n cael ei gynnal gan HMPPS ar ffurf yr Adroddiad Dilysu (VR).

194. Adroddiad cryno yw'r VR i wirio addasrwydd unigolyn ar gyfer gofynion cosbol yn unig. Mae wedi'i dargedu at achosion risg isel, cymhlethdod isel ac mae'n fath o gyngor prawf yn hytrach nag adroddiad PSR safonol. Fe'i darperir ar y diwrnod ar gyfer y gwrandawiad cyntaf a bydd yn cyfrannu at y nod o alluogi nifer cynyddol o ddedfrydau a roddir yn y gwrandawiad cyntaf. Ei bwrpas yw cynnig llwybr mwy effeithlon ar gyfer achosion nad oes angen PSR llawn arnynt i arbed amser ac adnoddau. Byddai'n helpu i sicrhau bod PSRs llawn yn cael eu cadw ar gyfer

achosion sy'n debygol o elwa ar elfennau adsefydlu, gan arbed amser ac adnoddau.

195. Yn Rhan I o fy Adolygiad, tynnais sylw y gall barnwr, ar gais y diffynnydd, nodi'r uchafswm dedfryd a fyddai'n berthnasol pe bai ple euog yn cael ei gofnodi ar y pryd a rhaid rhoi'r arwydd hwn mewn llys agored.[369] Mae'r VR yn canolbwyntio ar addasrwydd yn hytrach na difrifoldeb ac, felly, nid wyf yn credu y byddai'r VR yn rhyngweithio â'r broses Goodyear, h.y. arwydd ymlaen llaw o ddedfryd.

196. Bydd yn mynd i'r afael â pha mor addas yw unigolyn ar gyfer amodau megis gwaith di-dâl, cyrffyw dan fonitro electronig neu barth gwaharddiad dan fonitro electronig. Nod y VR yw cefnogi dedfrydu cyflym a diogel ar gyfer troseddwyr nad oes angen asesiad PSR llawn arnynt ac sy'n addas ar gyfer dedfryd bur gosbol. Mae gan y VR y potensial i wneud y mwyaf o'r posibilrwydd bod dyraniad dedfrydau cymunedol gyda gofynion adsefydlu ar gyfer y rheini sydd fwyaf tebygol o elwa. Mae wedi'i brofi yn rhanbarth Canol De Lloegr y Gwasanaeth Prawf a bydd yn ehangu i Gaint, Surrey a Sussex a Dwyrain Lloegr nesaf.

197. Yn dilyn pwyslais Adolygiad Dedfrydu Annibynnol ar gyfiawnder cyflym, cymesur a phrydlondeb PSR gwell, rhagwelir bod angen cynyddol am VRs, gan ei fod yn cyd-fynd â'r weledigaeth o gadw PSRs llawn ar gyfer achosion mwy difrifol/cymhleth wrth alluogi dedfrydu amserol a gwybodus ar gyfer achosion llai difrifol.

198. Bydd VR yn caniatáu i'r Gwasanaeth Prawf gyflwyno asesiadau cyflymach sy'n cyd-fynd ag anghenion unigolyn a gallai helpu llysoedd i symud ymlaen i'r ddedfryd fwyaf priodol (gan gynnwys elfen gosbol) ar y diwrnod, gan leihau gohiriadau oherwydd diffyg PSR. Wrth i bwysau capasiti'r llysoedd a'r Gwasanaeth Prawf barhau, bydd ehangu'r defnydd o VR y tu hwnt i Ganol De Lloegr i Gaint, Surrey a Sussex a Dwyrain Lloegr yn helpu i gynnal

---

369

effeithlonrwydd, lleihau gohiriadau, a sicrhau bod penderfyniadau dedfrydu yn parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur.

Argymhelliad 143: Rwy'n argymell mabwysiadu a chyflwyno cynllun peilot 'adroddiad dilysu' gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn genedlaethol, gan y gellir ei gynhyrchu'n gyflymach nag Adroddiad Cyn Dedfrydu traddodiadol i gefnogi cyngor yn y llys ar y diwrnod cyn gynted ag y bydd gwelliannau o'r cynllun peilot yn caniatáu.

Templed PSR digidol a system rheoli achos

199. Ynghyd ag adolygu lefel y manylion sydd eu hangen i alluogi llysoedd i wneud penderfyniadau dedfrydu effeithiol, hoffwn hefyd weld gwell defnydd o dechnoleg i gefnogi effeithlonrwydd. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd camau i wella'r broses ddigidol ar gyfer PSRs, gan ganolbwyntio ar ddau brif ddatblygiad: dylunio templed PSR digidol newydd a chyflwyno system rheoli achosion wedi'i moderneiddio. Bydd y templed PSR newydd yn disodli'r Adroddiad Fformat Byr a'r Adroddiad Cyflawni Safonol, sef y ddau fformat o PSRs gohiriedig a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Prawf. Drwy ddefnyddio templed sengl ar gyfer pob PSR Dedfrydu gohiriedig, bydd hyn yn dileu'r angen i awduron adroddiadau ddewis rhwng fformatau lluosog, gan sicrhau cysondeb yn fformat y PSR a gyflwynir i'r llys. Bydd y templed digidol newydd yn arwain awduron adroddiadau drwy'r broses, gan gynnig arweiniad clir ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys, a theilwra cynnwys i'r ffactorau penodol sy'n berthnasol i bob achos unigol.

200. Drwy gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a theilwra'r gofynion i bob achos, dylai'r templed ei gwneud yn gyflymach ac yn haws i baratoi adroddiadau, gan leihau'r amser a dreulir ar adrannau amherthnasol. Bydd y fformat strwythuredig hefyd yn helpu i wneud manylion pwysig yn gliriach, lleihau dryswch, gan leihau'r angen am ymholiadau dilynol gan y llys ac yn y pen draw yn caniatáu i swyddogion prawf ganolbwyntio ar eu prif dasgau yn hytrach na delio ag oedi.

201. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu adnodd digidol newydd o'r enw Paratoi Achos ar gyfer Dedfryd (PACFS). Mae hwn yn system ddigidol sy'n dwyn ynghyd wybodaeth o GLlTEF a systemau prawf. Nod PACFS yw galluogi adnabod a threfnu achosion yn gynnar, gan helpu staff i gael y manylion angenrheidiol sydd eu hangen arnynt yn gyflymach ac yn haws er mwyn pennu'r math mwyaf priodol o Adroddiad Cyn Dedfrydu. Ar ôl treialon llwyddiannus yn rhanbarth Canol De Lloegr yn seiliedig ar ymgysylltu â chydweithwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae PACFS i fod i gael ei gyflwyno'n genedlaethol erbyn diwedd 2026. Bydd y fenter newydd hon yn galluogi safoni pellach, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth achos berthnasol yn cael ei chasglu'n systematig, gan leihau amrywiad rhanbarthol. Bydd y defnydd o ffurflenni digidol a mewnbynnu data strwythuredig hefyd yn gwella cywirdeb, yn lleihau dyblygu ac yn cefnogi llysoedd wrth wneud penderfyniadau dedfrydu yn gyflymach.

Argymhelliad 144: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau â'r gwaith o wella'r broses ddigidol ar gyfer Adroddiadau Cyn Dedfrydu, gan gynnwys dylunio templed Adroddiad Cyn Dedfrydu digidol newydd a chyflwyno system rheoli achosion newydd.

Cyllid y Gwasanaeth Prawf

202. Er y bydd yr argymhellion a wneuthum yn helpu i wella ansawdd yr wybodaeth a gynhyrchir, mae hefyd yn hanfodol bod Gwasanaeth Prawf yn cael adnoddau da. Yng ngoleuni'r Mesur Dedfrydu newydd, bydd mwy o bwysau ar adnoddau prawf gan y bydd angen rhagor o PSRs. Argymhellodd Argymhelliad 7.1 o'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol diweddar hefyd 'cynyddu buddsoddiad yn y Gwasanaeth Prawf i gefnogi capasiti a gwytnwch'.[370]

370

203. Yn ogystal â hyn, codwyd pwysigrwydd ariannu gwasanaeth prawf mewn adroddiadau ac astudiaethau lluosog a gynhaliwyd gan adrannau eraill o'r llywodraeth. Mewn cyfweliad diweddar, soniodd Martin Jones, Prif Arolygydd Prawf, am y diffyg ariannu mewn gwasanaeth prawf, a dywedodd 'oni bai bod y llywodraeth yn meddwl yn ofalus iawn, iawn am sut y mae'n defnyddio adnoddau prawf ... byddwn yn sefydlu'r Gwasanaeth Prawf i fethu'.[371] Felly, rwyf hefyd yn cefnogi unrhyw fenter i barhau i gefnogi adnoddau gwell i staff prawf i sicrhau bod gwasanaethau prawf yn cael digon o adnoddau i ateb y galw cynyddol.

Argymhelliad 145: Rwy'n argymell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod yn ystyried lefel gynaliadwy a phriodol o gyllid a ddyrannwyd i'r Gwasanaeth Prawf, gan adlewyrchu'r pwysau cynyddol sydd ar y Gwasanaeth Prawf yn dilyn newidiadau i'r Mesur Dedfrydu.

Profiad y Llys i Ddiffynyddion, Dioddefwyr a Thystion

204. Mae defnyddwyr yn ei chael hi'n anodd llywio'r system cyfiawnder troseddol[372] oherwydd dealltwriaeth gyfyngedig o'r broses a'r iaith gyfreithiol gymhleth a ddefnyddir mewn deunyddiau.[373] Er bod gwybodaeth ar gael ar wahanol gamau, gan gynnwys mewn gorsafoedd heddlu ac ar-lein, mae defnyddwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r hyn sy'n berthnasol.[374] Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn arwain at oedi, camddealltwriaeth a mwy o amser staff yn cael ei dreulio ar esboniadau.[375] Mae rhai ymdrechion wedi'u gwneud i

---

371

372

373

374

375

gynhyrchu geirfâu syml a siartiau llif, ond mae angen gwneud mwy. Fodd bynnag, mae'n werth nodi na fyddai unrhyw fath o adnodd AI yn disodli'r cymorth a ddarperir gan dimau gofal tystion yr heddlu sy'n chwarae rhan hanfodol wrth roi gwybod i ddioddefwyr a thystion am gynnydd eu hachos. O gofio'r amser estynedig y mae'n aml yn ei gymryd i achosion gael eu gwrandawiad, bydd cynnal y perthnasoedd cryf a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn yn parhau i fod yn bwysig.

205. Gall adnodd AI gwybodaeth ganolog sydd â mynediad at gynnwys GOV.UK penodol a goruchwyliaeth gan arbenigwyr dynol liniaru'r risgiau hyn. Mae pobl yn disgwyl fwyfwy i wasanaethau'r sector cyhoeddus ddarparu chatbots AI fel rhan o'u cymorth i gwsmeriaid. Mae galwadau ar y system cyfiawnder i ddarparu adnodd wedi'i bweru gan AI i helpu pobl i ddeall eu materion cyfreithiol mewn achosion sifil.[376] Dylid sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl a'i ategu â chanllawiau. Mae angen i bobl, gan gynnwys diffynyddion, dioddefwyr a thystion, ddeall beth fydd yn digwydd iddynt yn y system cyfiawnder troseddol.

206. Croesawaf ymdrechion Uned AI Cyfiawnder wrth archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno adnodd gwybodaeth cyhoeddus wedi'i bweru gan AI i gynorthwyo'r cyhoedd i lywio prosesau cyfiawnder.[377] Mae'r llywodraeth hefyd yn treialu chatbot wedi'i bweru gan AI sydd â'r bwriad o alluogi defnyddwyr i gael atebion personol yn seiliedig ar ganllawiau ar GOV.UK[378] ac mae wedi mabwysiadu dull cadarn o liniaru'r risgiau o ymatebion camarweiniol, neu ymatebion a allai fod yn niweidiol, gan y chatbot.[379] Bydd chatbots AI wedi'u curadu'n ofalus ar GOV.UK

376

377

378

379

sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn gwella mynediad at wybodaeth am y system cyfiawnder troseddol. Byddai hyn yn galluogi unigolion i gael gwell mynediad at wybodaeth gyfredol, o ansawdd gwell, clir a chywir yn gyflym, helpu i leihau dryswch ac ansicrwydd, a hyrwyddo mwy o dryloywder a dealltwriaeth i bob parti sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol.


Argymhelliad 146: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydlynu datblygiad deallusrwydd artiffisial wedi'i guradu'n ofalus ar GOV.UK i'w ddefnyddio gan y cyhoedd er mwyn gwella mynediad at wybodaeth am y system cyfiawnder troseddol.

Casgliad

207. Yn y bennod hon, rwyf wedi archwilio'r gwahanol ffactorau a fydd, er eu bod ar wahân, yn cael effaith yr un ar gefnogi defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau yn y Llysoedd. Mae hyn yn cynnwys symleiddio prosesau, gwella cydweithrediad rhwng asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, cofleidio'r dechnoleg ddiweddaraf a mynd i'r afael â heriau gweithredol hirsefydlog.

208. Dangosir yr argymhellion a gyflwynaf yn y bennod hon ar ffurf luniau yn Ffig. 9.5 sy'n dangos sut y maent yn anelu at ddylanwadu ar ganlyniadau yn y system ac effeithio ar y metrigau effeithlonrwydd allweddol. Dylid defnyddio'r diagram hwn fel fframwaith darluniadol i asesu effaith bosibl yr argymhellion hyn, gan nodi bod ffactorau gweithredol a diwylliannol eraill sy'n dylanwadu ar effeithlonrwydd nad ydynt wedi'u dal.

Ffigur 9.5. Map polisi yn delweddu nodau bwriadedig yr argymhellion a gyflwynir ym Mhennod 9



Some recommendations will also affect cross-system efficiency drivers, which are not included in this policy map

209. Os cânt eu cyflawni fel y bwriadwyd, bydd yr argymhellion a wnaf yn y bennod hon yn cynyddu amser gwrandawiad fesul diwrnod eistedd, yn cynyddu capasiti traws-system ac yn lleihau amser gwrandawiad fesul achos. Bydd argymhellion sydd â'r nod o wella cludiant diffynyddion ar remand i'r llys, gwella darpariaeth PSRs a gwneud defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf trwy gyfieithu AI yn arwain at lai o ohiriadau ac oedi i achosion treial sydd â'r nod o gynyddu'r amser gwrandawiad fesul diwrnod eistedd. Dylai gwelliannau i'r defnydd o dystiolaeth arbenigol a thystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw arbed amser yn y llys, ac felly leihau amser gwrandawiad fesul achos. Mae hyfforddiant a buddsoddiad yn y defnydd o dystiolaeth arbenigol hefyd yn anelu at gynnal effeithiolrwydd gwrandawiadau a ddylai gynyddu'r amser gwrandawiad sydd ar gael fesul diwrnod eistedd. Yn olaf, dylai cynyddu effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd gwasanaethau trawsgrifio, cynhyrchu bwndeli rheithgor a rhestru gwrandawiadau adran 28 yn gyson alluogi i adnoddau gael eu cyfeirio i rannau eraill o'r system a fydd yn cyfrannu at gynyddu capasiti traws-system.

Pennod 10 – Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol

Cyflwyniad

1. Mae angen gweithlu cyfiawnder troseddol effeithiol o ansawdd uchel sydd â'r adnoddau cyflawn ar ei gyfer ar draws y system: mae'r farnwriaeth, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol ac eraill yn y gweithlu sy'n ymwneud â chyflawni cyfiawnder yn elfen hanfodol. Mae eu gwaith yn amhrisiadwy i gymdeithas a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

2. Yn y bennod hon, rwyf yn archwilio'n bennaf yr heriau sy'n wynebu'r gweithwyr proffesiynol hyn. Gyda'r gweithlu cyfreithiol, rwyf yn cyfeirio at erlynwyr, ymarferwyr cymorth cyfreithiol troseddol, cyfreithwyr amddiffyn a CPS eraill, cynghorwyr cyfreithiol yn llysoedd ynadon a'r farnwriaeth (gan gynnwys ynadon, ynghyd â barnwyr cyflogedig a barnwyr a delir ffioedd) sy'n eistedd yn y llysoedd troseddol. Ar ddiwedd y bennod hon, rwyf yn archwilio'r gweithlu cyfiawnder troseddol ehangach, gan gynnwys yr heddlu a staff y carchardai, a sut y gall offer digidol sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu rolau.

3. Drwy gydol y bennod hon, mae themâu rheolaidd yn ymwneud â'r camau y credaf sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau o fewn pob gweithlu unigol. Mae angen dulliau gweithredu wedi'u teilwra i wella a chyflymu recriwtio ac adeiladu capasiti. Yn ogystal, mae angen rhoi sylw i gymhellion ar gyfer cadw'r gweithwyr proffesiynol hyn a chreu llwybrau gyrfa cynaliadwy deniadol ar eu cyfer.

4. I gynghorwyr cyfreithiol, rwyf yn gwneud argymhellion wedi'u targedu at wella eu cadw i gefnogi'r llys ynadon i wneud y mwyaf o'r amser yn y llys. Rwyf yn annog camau i greu tegwch rhwng y rôl hon a gwaith cyfreithiol llywodraethol cymharol arall, a gwella cyfleoedd i'r staff amrywio profiad neu arbenigo yn seiliedig ar ddiddordebau unigol.

5. Ar gyfer cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, mae fy argymhellion yn annog y llywodraeth a'r gweithlu cyfreithiol i feddwl yn greadigol am recriwtio mwy o gyfreithwyr i weithio mewn gwaith cymorth cyfreithiol troseddol. Ym Mhennod I, argymhellais y dylai'r llywodraeth gyd-ariannu prentisiaethau ar gyfer bargyfreithwyr, ac rwyf yn falch bod y llywodraeth wedi dewis gweithredu'r argymhelliad hwn, ond credaf fod angen iddynt wneud mwy i fynd i'r afael â heriau ehangach yn y gweithlu cyfreithiol. Rwy'n rhoi mwy o fanylion drwy gydol y bennod ar ba mor hanfodol yw'r argyfwng gweithlu hwn, yn y gweithlu sy'n heneiddio a'r niferoedd llai o gyfreithwyr ar ddyletswydd ac erlynwyr, ond mae'n hanfodol cymryd camau i newid tro'r trai ar yr her hon cyn gynted â phosibl.

6. Mae archwilio problemau gyda'r gweithlu, hefyd yn golygu bod angen ystyried rhai o'r pryderon ynghylch ffioedd cymorth cyfreithiol. Fe wnes i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn yn fy argymhellion Rhan I ac, unwaith eto, rwyf yn falch o weld bod y llywodraeth wedi cyhoeddi cynnydd i ffioedd cymorth cyfreithiol mewn ymateb.[380] Fodd bynnag, yn yr Adolygiad hwn, rwyf wedi gwneud argymhellion pellach ar gyflogi sy'n anelu at wella'r system bresennol ac annog cynrychiolwyr yr amddiffyniad i ymgysylltu'n gynharach. Gallai'r cymhellion hyn arwain at fwy o achosion yn cael eu datrys yn gynharach lle bo'n briodol; yn ogystal â hynny, rwyf am sicrhau bod cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu talu'n briodol, ac rwy'n credu y bydd hynny yn ei dro hefyd yn cefnogi eu cadw.

7. Rwyf hefyd yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r farnwriaeth sydd wedi'u cynllunio i symleiddio a gwneud effeithlonrwydd i brosesau recriwtio ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio ymddeoliad i gefnogi rhagolygon dyddiau eistedd gwell, yn ogystal â mynd i'r afael â heriau ynghylch pa mor ddeniadol yw

---

380

gwahanol rolau, creu llwybrau gyrfa mwy deniadol a darparu gwell cefnogaeth i'r rhai sydd mewn rolau barnwrol.[381]

8. Hoffwn gydnabod bod costau yn gysylltiedig â'r argymhellion hyn, a deallaf, yng nghyd-destun Adolygiad o Wariant sydd wedi'i setlo'n ddiweddar, y bydd dod o hyd i arian ychwanegol i fwrw ymlaen â'r mentrau hyn yn her. Yn Nhermau Cyfeirio'r Adolygiad hwn, gofynnwyd i mi roi sylw dyledus i'r hinsawdd gyllidol a dyna pam yr wyf wedi penderfynu peidio â gosod amserlenni penodol o amgylch gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn tynnu oddi wrth frys y materion yr wyf wedi'u nodi yn y bennod hon, ac rwyf eisiau gweld y llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn, fel pecyn, cyn gynted â phosibl, er mwyn osgoi'r risg barhaus o fethiant system. Mae'r gwariant cychwynnol yn fuddsoddiad angenrheidiol i sicrhau gweithlu cynaliadwy.

9. Rwy'n hyderus y byddai fy argymhellion yn y bennod hon, pe cânt eu gweithredu, yn cael effaith sylweddol ar feithrin capasiti o fewn gweithlu cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, byddai'n esgeulus ohonof pe na bawn yn sôn am effaith ystad y llysoedd ar recriwtio a chadw'r gweithlu hwn. Mae'r problemau gyda llysoedd adfeiliedig yng Nghymru a Lloegr yn effeithio'n andwyol ar lesiant gweithwyr proffesiynol cyfreithiol. Trwy gydol fy ymgysylltiad, codwyd cyflwr ystad y llysoedd dro ar ôl tro fel maes o bryder a rhywbeth sy'n atal pobl rhag ystyried gyrfa yn gweithio yn y llysoedd troseddol. Disgwylir i'r farnwriaeth a'r gweithlu cyfreithiol weithio mewn adeiladau sydd â thoeau'n gollwng a hyd yn oed, rwyf wedi clywed, sydd wedi bod heb ddŵr yfed a chyfleusterau toiled sy'n gweithio ar adegau. Dywedir wrthyf mewn rhai adeiladau llys rhestredig, bod y tymheredd yn mynd mor boeth fel y gall y llysoedd fynd yn anaddas i'w defnyddio. Mae hyn yn gwbl annerbyniol, ac er fy mod yn credu'n gryf bod gyrfa fel gweithiwr proffesiynol cyfreithiol sy'n arbenigo mewn cyfraith droseddol yn hynod ddiddorol a gwerthfawr, rwy'n ymwybodol iawn bod amgylcheddau gwaith

---

381

o’r fath yn ei gwneud yn anneniadol. Archwiliaf broblemau gydag ystad y llysoedd yn fanylach ym Mhennod 11 (Materion Cyfiawnder Ehangach).

10. I grynhoi, mae'r bennod hon yn nodi pwysigrwydd y gweithlu cyfreithiol a'r farnwriaeth, a'r angen i fynd i'r afael â'u pryderon er mwyn osgoi methiant y system.

Gweithlu Cyfreithiol

Cynghorwyr cyfreithiol

11. Cyfreithiwr cymwys neu fargyfreithiwr yw cynghorydd cyfreithiol sy'n cefnogi ac yn cynghori ynadon yn uniongyrchol ar y gyfraith, arferion a threfniadaeth.[382]

Maent yn gyfrifol am sicrhau bod ynadon yn deall y gyfraith a'i chymhwyso mewn achosion penodol, gan alluogi ynadon i wneud penderfyniadau gwybodus. Maent yn chwarae rhan greiddiol yn rheolaeth llys ynadon gan eu bod nid yn unig yn darparu'r cyngor hwn i ynadon, ond maent hefyd yn ganolog wrth reoli achosion llys a sicrhau bod pob parti yn deall y broses.

12. I weithio fel cynghorydd cyfreithiol, gall cyfreithwyr neu fargyfreithwyr gael mynediad at raglen hyfforddi a gyflwynir gan GLlTEF; maent yn ymuno â'r gwasanaeth fel hyfforddeion ac yna'n cymhwyso i ddod yn gynghorwyr cyfreithiol Haen 1 ac yna Haen 2 ac yn y pen draw gallant symud i swyddi rheoli.[383] Mae'n werth nodi ar hyn o bryd bod GLlTEF yn derbyn ceisiadau gan y rhai sydd wedi cwblhau eu cymwysterau academaidd priodol, sef y Cwnsler Proffesiynol Trwyddedig neu Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr Un a Dau ar gyfer cyfreithwyr, y Cwrs Hyfforddiant Bar ar gyfer bargyfreithwyr, a Diploma Lefel 6 ar gyfer Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEX). Mae GLlTEF yn cefnogi'r contractau hyfforddi neu brofiad gwaith cymhwyso ar gyfer cyfreithwyr dan

---

382

383

hyfforddiant, a'r portffolio a'r profiad gwaith cymhwyso ar gyfer CILEX, gan ganiatáu iddynt gyflawni cymhwyster proffesiynol llawn ar gyfer ymarfer. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni all GLlTEF gynnig disgybliaeth i fargyfreithwyr – sef eu cyfwerth o brofiad gwaith cymhwyso. Mae hon yn drefniadaeth hanesyddol, a byddwn yn annog Bwrdd Safonau'r Bar i newid ei reolau i ganiatáu disgybledd o fewn GLlTEF er mwyn cydraddoldeb ac i gynyddu cyfleoedd i fargyfreithwyr.

13. Mae GLlTEF yn llwyddiannus wrth recriwtio cynghorwyr cyfreithiol dan hyfforddiant gan fod y cyfle i hyfforddi yn y maes hwn a'r cyflog cychwynnol deniadol, ochr yn ochr â buddion y Gwasanaeth Sifil, yn gwneud hwn yn opsiwn gyrfa apeliadol. Er fy mod yn ymwybodol bod heriau lleol i recriwtio, gyda rhai ardaloedd yn ei chael yn anos i recriwtio nag eraill, y prif her gyda chynghorwyr cyfreithiol yw eu cadw o fewn GLlTEF. Mae hyn wedi'i godi dro ar ôl tro trwy gydol fy ymgysylltiad, ac mae'n cael effaith sylweddol ar allu GLlTEF i adnoddau nifer y llysoedd sydd eu hangen i ymateb i'r llwyth achosion cynyddol.

14. Mae cadw cynghorwyr cyfreithiol wedi bod yn her ers rhai blynyddoedd, ac o ganlyniad mae GLlTEF bellach yn bwriadu gor-recriwtio i'r swyddi hyn, yn aml i 110% o'r adnoddau gweithredu sydd eu hangen, er mwyn cyfrif am y lefel uchel o dreuliant a'r amser arweiniol o ddwy flynedd i hyfforddi recriwtiaid newydd yn llawn.[384] Daw hyfforddi cynghorwyr cyfreithiol am gost sylweddol. Dros ddwy flynedd, amcangyfrifir bod cost lawn recriwtio a hyfforddi cynghorydd cyfreithiol newydd oddeutu £62,000 ar hyn o bryd.[385]

15. Mae gweithdrefnau troseddol, yn enwedig yn llys ynadon, yn cael ei diwygio'n aml. Cynghorwyr cyfreithiol sy'n ysgwyddo'r baich o sicrhau bod y newidiadau cyfreithiol yn cael eu mabwysiadu ym brosesau'r llys. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynghorwyr cyfreithiol wedi profi dau newid sylweddol i'r systemau rheoli

---

384

385

sy'n cofnodi canlyniadau yn y llys: yn gyntaf, Cofnodi'n Ddigidol, ac yn fwy diweddar y Platfform Cyffredin. Dywedir bod y newidiadau hyn wedi bod yn ffactor cyfrannol sylweddol wrth i gynghorwyr cyfreithiol hŷn, mwy profiadol adael y proffesiwn, gyda gostyngiad o ganlyniad yn nifer y cynghorwyr cyfreithiol sydd ar gael i gynghori yn y llysoedd. Deallaf fod y sefyllfa hon wedi sefydlogi i raddau helaeth erbyn hyn, ac rwy'n gwerthfawrogi gwaith cydweithwyr GLlTEF wrth gefnogi mabwysiadu'r system ddigidol newydd a ddefnyddir yn y llysoedd, ac rwy'n ymwybodol bod rhai heriau o hyd gyda'r Platfform Cyffredin a'i effaith ar rôl ddyddiol y cynghorydd cyfreithiol sy'n ei gwneud yn fwy heriol i gadw staff.

16. Rwyf hefyd yn clywed, yn achlysurol, fod CPS yn denu llawer o weithwyr proffesiynol cyfreithiol GLlTEF: yn 2024/25, roedd erydiad ymhlith Cynghorwyr Cyfreithiol Haen 1 yn 11%, gyda thua 40% o'r rhai a adawodd yn ymuno ag adran arall o'r llywodraeth. Mae data'n dangos bod rhwng Medi 2023 a 2025, 10% o Erlynwyr y Goron ac Uwch Erlynwyr y Goron a gyflogwyd yn newydd yn CPS wedi dod o GLlTEF.[386]

17. O'i gymharu â GLlTEF, mae gan CPS well cyfleoedd gyrfa gan fod gwahanol rolau o fewn y graddau, ac o ganlyniad gwell cyflog, a mwy o gyfleoedd i arallgyfeirio setiau sgiliau ynghyd â mwy o gyfle i ddatblygu gyrfa. Mae CPS yn cynnig prentisiaeth i Erlynwyr y Goron a chynlluniau fel 'Ewch i Erlyn' i ailintegreiddio erlynwyr yn ôl i'r gweithlu a allai fod wedi gadael am resymau personol – gan ddangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol a chreu mwy o gyfleoedd i staff.[387] Ymhellach, yn 2022, fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddileu'r cyflog arbenigol ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol GLlTEF, a gwaethygodd hyn anghydraddoldeb cyflog â CPS. Ni all GLlTEF gystadlu â'r gwahaniaeth cyflog hwn a'r diffyg cyfleoedd datblygu gyrfa.

386

387

18. Credaf fod angen mwy o gydraddoldeb rhwng y rolau hyn a gwell cydweithio rhwng CPS a GLlTEF ar eu strategaethau i recriwtio cyfreithwyr. Ar hyn o bryd, mae'r ddau adran lywodraethol hyn yn cystadlu â'i gilydd i recriwtio o'r un gronfa o weithwyr proffesiynol cyfreithiol, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar gapasiti o fewn y gweithlu cyfreithiol, ac ar allu'r llysoedd wedyn i redeg yn effeithlon. Rwyf wedi mynd i'r afael â sut i ddatblygu rôl cynghorydd cyfreithiol trwy gynyddu pwerau ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus) a chredaf y gallai CPS a GLlTEF gydweithio i ystyried sut y gallant annog cadw staff o fewn rôl y mae person wedi cael hyfforddiant pwrpasol a drud ar ei gyfer, gan alluogi gweithwyr proffesiynol i arallgyfeirio eu profiad trwy weithio ar draws gwahanol adrannau'r llywodraeth. Bydd y cyfle i ystyried beth allai gyrfa erlyn ei olygu, yn ogystal â gyrfa yn GLlTEF, o fudd i bob gweithiwr proffesiynol cyfreithiol wrth iddynt ystyried eu cyfleoedd gyrfa. Fodd bynnag, rhaid i hyblygrwydd o'r fath roi sylw dyledus i unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig a all godi o symud rhwng yr amddiffyniad, yr erlyniad a GLlTEF. Yn unol â Phennod 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol), credaf yn gryf y dylai fod gwell perthnasoedd gweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac mae hyn yn enghraifft arall o fanteision yn dilyn trefniadau gweithio o'r fath.

19. Er mwyn mynd i'r afael â chadw cynghorwyr cyfreithiol, dylai GLlTEF fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn cyflog. O leiaf, dylai adfer y cynnig cyflog arbenigwr cyfreithiol ar gyfer cyfreithwyr GLlTEF, er mwyn sicrhau gwell cadw staff a lleihau'r bwlch rhwng eu hystodau cyflog a rhai CPS. Yn ogystal â hyn, dylai GLlTEF ystyried sut y gall gadw cynghorwyr cyfreithiol yn fwy effeithiol trwy sefydlu llwybrau gyrfa gwell, a dylai hyn gynnwys ymgysylltu â Chyngor y Bar i archwilio'r posibilrwydd o gynnig prentisiaeth i fargyfreithwyr.

20. Hoffwn hefyd weld camau'n cael eu cymryd i osgoi defnyddio cynghorwyr cyfreithiol yn cyflawni rôl Cymdeithion Llys trwy eistedd gyda Barnwr Rhanbarth

Argymhelliad 148: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn sefydlu llwybrau gyrfa a chyfleoedd datblygu cliriach ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol, gan gynnwys darparu prentisiaethau.

(llys ynadon) a Dirprwy Farnwr Rhanbarth (llys ynadon). Fel barnwyr proffesiynol llawn amser a rhan amser, nid oes angen cynghorydd cyfreithiol arnynt ond dylent gael cydymaith llys i'w cefnogi. Ar hyn o bryd, mae cynghorwyr cyfreithiol yn eistedd gyda nhw yn rôl cymdeithion llys oherwydd y diffyg cydweithwyr sydd ar gael i staffio'r ystafell llys.[388] Mae hyn yn wastraff sylweddol ar adnodd cynghorydd cyfreithiol gwerthfawr a drud. Mae hefyd yn tanseilio'r rolau fel cynghorwyr cyfreithiol a gall effeithio ar y gallu i redeg y llysoedd. Credaf y dylai GLlTEF ystyried creu cronfeydd o Cymdeithion Llys fel y gellir eu defnyddio'n well i gefnogi Barnwyr Rhanbarth (llys ynadon) a Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (llys ynadon). Yn nes ymlaen yn y bennod hon, rwy'n gwneud argymhellion ar recriwtio a chadw barnwriaeth gyflogedig a barnwriaeth a delir fesul dydd yn llys ynadon. Os bydd nifer y Barnwyr Rhanbarth (llys ynadon) a'r Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (llys ynadon) yn cynyddu, mae'n debygol y bydd y sefyllfa gyda chynghorwyr cyfreithiol yn staffio'r llysoedd hyn yn gwaethygu yn hytrach na gwella os na fydd nifer y Cymdeithion Llys sydd ar gael yn cynyddu hefyd; byddai hyn yn arwain at lai o effeithlonrwydd.

Gweithlu Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Recriwtio

21. Yn y rhan hon o'r bennod, ceisiaf fynd i'r afael â phryderon o fewn gweithlu cymorth cyfreithiol troseddol. Yn Rhan I o'r Adolygiad hwn, gwnes argymhellion yn mynd i'r afael â phryderon recriwtio a chadw bargyfreithwyr troseddol, ac mae'r llywodraeth wedi mabwysiadu fy argymhelliad i gyfateb i gyllido prentisiaethau ers hynny. Cydnabûm hefyd heriau tebyg sy'n wynebu gweithlu CPS ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf)

Argymhelliad 149: Rwy'n argymell bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi yn sefydlu cronfa o Gymdeithion Llys ledled y wlad er mwyn i'r farnwriaeth yn y llys ynadon gael cymorth sy'n fwy hyblyg a hygyrch.

388

ac fel yr amlinellaf yn y Cyflwyniad, rhagwelaf y bydd fy argymhellion yn effeithio ar y grŵp ehangach o gyfreithwyr, felly byddaf yn canolbwyntio'r rhan hon o'r Adolygiad ar gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol.

22. Mae'r gweithlu cyfreithiol troseddol yn wynebu argyfwng sylweddol yn nifer y cyfreithwyr cymorth cyfreithiol, gan gynnwys cyfreithwyr ar ddyletswydd.[389] Gostyngodd nifer y cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol bron i draean rhwng 2014/15 a 2023/24 (14,800 i 10,200), fel y dangosir yn Ffig. 10.1, ac mae hyn yn bennaf o ganlyniad i lai o bobl yn symud i'r maes gwaith hwn nag sydd o bobl yn gadael y gweithlu.[390] Ar ben hynny, mae nifer y cyfreithwyr sy'n cymryd rhan yng nghynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd yn gostwng yn sylweddol; roedd tua 5,200 yn 2017 ac yn 2024 gostyngodd hyn i 3,900 fel y dangosir yn Ffig. 10.2.[391]

389


390

391

Figure 10.2

Number of duty solicitors (shown by duty solicitor update period)

England and Wales, 2017 - 2025



Source: Legal aid statistics quarterly: January to March 2025 - GOV.UK

23. Fel y dangosir yn Ffig. 10.3, mae cyfran fawr o gyfreithwyr ar ddyletswydd rhwng 50 a 59 oed, ac mae nifer isel o gyfreithwyr iau yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol yn destun pryder wrth ystyried capasiti'r gweithlu yn y dyfodol. Er enghraifft, gostyngodd cyfran y cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol 54 oed ac iau o tua 79% yn 2014/15 i tua 73% yn 2023/24.[392] Ymhellach, ymhen deng mlynedd, bydd y rhai sydd ar hyn o bryd yn 55 oed ac uwch wedi ymddeol o bosibl neu'n agosáu at ymddeoliad. Ynghyd â hyn, mae ymchwil gan Dr Vicky Kemp ym Mhrifysgol Nottingham[393] yn dangos bod ceisiadau am gyngor cyfreithiol mewn gorsafoedd heddlu yn cynyddu, fel yr egluraf ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Iawn y Tro Cyntaf). Oni bai bod yna ymdrech

392


393

ymwybodol i ailadeiladu'r gweithlu hwn i ateb y galw cynyddol hwn, credaf fod y system cymorth cyfreithiol troseddol mewn perygl o fethu.

Figure 10.3

Number of duty solictors by age group and sex

England and Wales, 2024



Source: Bar Council, The Law Society, Legal Aid Agency& MoJ, Criminal Legal Aid Data Share dashboard (unpublished)

24. Mae Adran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor sicrhau bod system o gyngor cyfreithiol troseddol, cymorth a chynrychiolaeth ar gael. Mae'r heriau recriwtio acíwt ymhlith y gweithlu hwn yn peri'r risg na fydd yr Arglwydd Ganghellor yn gallu cyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu system o'r fath.

25. Mae cael gweithlu cyfreithwyr ar ddyletswydd sydd â diffyg adnoddau yn creu heriau i unigolion dan amheuaeth wrth iddynt geisio cael cyngor mewn gorsafoedd heddlu ac mae'n effeithio ar ansawdd y cyngor a roddir drwy gydol achos gan fod cyfreithwyr yn gorweithio. Os nad oes cynrychiolydd yr amddiffyniad ar gael, gall diffynnydd ddewis cynrychioli ei hun, ond mae treialon a gwrandawiadau sy'n cynnwys diffynyddion heb gynrychiolydd bob amser yn ymestyn hyd achos a gallant fod yn ddrutach o ran amser llys. Nid problemau

ymarferol yn unig yw'r problemau; effeithir ar faterion egwyddor sy'n greiddiol i'r Adolygiad hwn: mae gweithlu cymorth cyfreithiol troseddol llai gyda llai o brofiad yn effeithio ar y gallu i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf, yn lleihau cyfranogiad effeithiol diffynyddion, ac nid yw'n arwain at gael system cyfiawnder troseddol sy'n cael ei chefnogi gan arbenigedd.

26. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol sesiwn 2023 i 2024 yn cydnabod yr argyfwng hwn ac yn argymell yn benodol bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu strategaeth gweithlu sy'n ystyried y ffrwd o gyfreithwyr cymorth cyfreithiol yn y dyfodol a'u hyfforddiant.[394] Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y materion cynaliadwyedd o fewn y farchnad a sut mae hyn yn peryglu amcan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau mynediad at gyfiawnder os nad yw'r cyflenwad yn y dyfodol yn ddigonol ac nad yw'n galluogi'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Gallai cost darparu mwy o argaeledd cymorth cyfreithiol gydbwyso effeithiau ariannol a safon cyfiawnder negyddol diffynyddion heb gynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol gwael.

27. Rwyf yn clywed, yn achlysurol, bod cyfreithwyr iau a hyd yn oed myfyrwyr y gyfraith yn cael eu hannog yn weithredol i beidio â gweithio yn y gyfraith droseddol. Dywedir wrthynt fod potensial enillion gwell mewn meysydd eraill o'r gyfraith a bod y gyfraith droseddol yn anneniadol oherwydd oriau gwaith anghymdeithasol a llai o hyblygrwydd gweithio. Er gwaethaf hyn, trwy fy ymgysylltiad â nifer fawr o gyfreithwyr troseddol, mae pob un ohonynt yn adrodd bod eu swydd yn hynod o ddiddorol a gwerth chweil, a gallaf dystio i hyn. Mae teimlad cyffredin ymhlith y gweithwyr proffesiynol hyn, os gellir annog mwy o bobl i mewn i'r proffesiwn, unwaith y byddant yn profi'r rôl, y byddant yn fwy tebygol o aros.

28. Mae llawer o brifysgolion yn gweithredu clinigau cyfreithiol, neu ganolfannau cyngor, i amlygu myfyrwyr y gyfraith i gyfraith ymarferol. Mae manteision hyn

---

394

wedi'u harchwilio'n fanwl gan Brifysgol Northumbria, a'u Clinig Cyfreithiol, ac mae Astudiaeth Achos V isod yn tynnu sylw at effaith dysgu trwy brofiad a'i ddylanwad ar fyfyrwyr sy'n dilyn gyrfaoedd a ariennir yn gyhoeddus.[395]

Astudiaeth Achos V: Prifysgol Northumbria: A all dysgu trwy brofiad ddylanwadu ar fyfyrwyr i ddilyn gyrfaoedd a ariennir yn gyhoeddus?

Yn yr Unol Daleithiau, mae dysgu trwy brofiad yn elfen arwyddocaol orfodol ym mhob cwricwla Ysgol Gyfraith America i helpu i bontio'r bwlch rhwng ymarfer a damcaniaeth y gyfraith. Yn ogystal, mae darparu Addysg Gyfreithiol Glinigol yn cael ei hyrwyddo'n eang fel ffordd o hyrwyddo ymwybyddiaeth o, ac ymrwymiad gan, fyfyrwyr y gyfraith i gyfiawnder cymdeithasol gan gynnwys elfennau hanfodol cydraddoldeb, urddas dynol, rhyddid, addysg sylfaenol, gofal iechyd a chyfiawnder. Drwy gyflwyno myfyrwyr i'r profiad o gynrychioli grwpiau difreintiedig, mae'r eiriolwyr hyn yn honni bod model rôl ar gyfer cyfreithwyr budd y cyhoedd yn galluogi myfyrwyr i ystyried dewis gyrfaoedd cyfreithiol sy'n hyrwyddo mynediad at gyfiawnder. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r cwestiwn cysylltiedig ynghylch a yw'r profiadau pro bono hyn yn arwain rhai myfyrwyr i ymrwymo i waith pro bono (neu waith a ariennir yn gyhoeddus) wedi'i brofi'n drylwyr.

Fodd bynnag, mae ymchwil i Addysg Gyfreithiol Glinigol wedi dangos y gall profiadau cynrychioliadol wedi'u strwythuro'n ofalus feithrin hyder myfyrwyr a meithrin hunaniaeth broffesiynol (gan eu galluogi i weld eu hunain yn y dyfodol fel cyfreithwyr) yn enwedig myfyrwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogiad.

395

Drwy ddarparu'r profiadau hyn ym maes cyfiawnder troseddol, bydd cyfle i fyfyrwyr gael profiad o werthoedd a hunaniaeth broffesiynol y rhai sy'n ymarfer yn y maes hwn ac adeiladu'r hyder sy'n angenrheidiol i geisio'r gyrfaoedd hyn.

Swyddfa Gyfraith Myfyrwyr (SLO) ym Mhrifysgol Northumbria

Yn amodol ar waith achos sydd ar gael, mae myfyrwyr yn dewis maes o'r gyfraith sydd o ddiddordeb iddynt ac yna'n cael eu rhoi mewn 'cwmnïau' o ddeg myfyriwr. Unwaith y bydd y myfyrwyr wedi'u dyrannu i'w cwmnïau, maent yn gweithio ar achosion go iawn, byw mewn grwpiau o ddau i dri ohonynt. Mae pob achos y maent yn ei gymryd yn cael ei oruchwylio gan gyfreithiwr sy'n ymarfer, fel arfer Cyfreithiwr Goruchwylio Clinigol (CSL), sydd â phrofiad ym maes y gyfraith a ddewiswyd. Mae CSLs yn gweithio ochr yn ochr â thiwtoriaid academaidd sy'n cynnal 'cyfarfodydd cwmni' wythnosol gyda'r myfyrwyr. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Gyfraith Myfyrwyr yn cyflogi un CSL llawn amser sy'n arbenigo mewn gwaith cyfraith droseddol, sy'n rhedeg tri chwmni sy'n canolbwyntio ar gyfraith droseddol.

Gwaith achos cyfraith droseddol yn yr SLO

Mae myfyrwyr yn cael cipolwg gwerthfawr ar ymarfer troseddol, gan gwmpasu achosion o'r cyfarwyddiadau cychwynnol i'r cyngor terfynol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â chleientiaid a'u cyfweld. Os oes angen gwrandawiad llys, cynhelir hyn gan y Cyfreithiwr Goruchwylio Clinigol gyda'r myfyrwyr yn bresennol. Mae mynychu'r llys a dod i adnabod ei gilydd yn ffactor allweddol yn addysg gyfreithiol glinigol y myfyrwyr yn y cwmnïau trosedd.

Anogir myfyrwyr i fynychu Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron lleol ac yna cymharu a chyferbynnu eu profiad o bob un. Trefnir ymweliadau drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae gan y myfyrwyr y cyfle i weld gwrandawiadau llys a hefyd i gyfarfod a rhwydweithio â chyfreithwyr a staff llys eraill sy'n gweithio yn y maes hwnnw. O ganlyniad, mae hyn yn lleihau'r 'dirgelwch' o ran prosesau'r llys ac yn sicrhau bod y myfyrwyr yn llawer llai pryderus wrth ystyried dyfodol mewn gwaith eiriolaeth droseddol a chymorth cyfreithiol.

Mae myfyrwyr sydd wedi ymwneud â gwaith achosion sy'n gysylltiedig â chyfraith droseddol (ac wedi mynychu'r llys fel rhan o'r broses) wedi mynd ymlaen i sicrhau profiad gwaith gyda chwmnïau cyfraith droseddol cymorth cyfreithiol lleol, mewn llawer o achosion oherwydd bod cyfreithwyr lleol wedi cael cyfle i ymgysylltu â'r myfyrwyr yn uniongyrchol. Mae budd sylweddol yn cael ei ennill o fynychu'r llys yn rheolaidd, o ran datblygu brwdfrydedd dros eiriolaeth a gwaith cymorth cyfreithiol, ynghyd â darparu cipolwg cywir a realistig ar natur a gofynion ymarfer troseddol.

Tystiolaeth gan fyfyriwr graddedig yn 2023: *'Cyn dechrau fy ngradd yn y gyfraith, roeddwn yn argyhoeddedig y byddwn yn dilyn gyrfa mewn cyfraith gorfforaethol. Dyna'r llwybr yr oeddwn wedi'i ddychmygu erioed i mi fy hun. Fodd bynnag, dim ond pan enillais brofiad ymarferol yn swyddfa gyfraith y myfyrwyr y darganfyddais fod fy angerdd wirioneddol mewn cyfraith droseddol. Rhoddodd gweithio yn Swyddfa Gyfraith y Myfyrwyr brofiad ymarferol amhrisiadwy i mi a dealltwriaeth wirioneddol o rôl y cyfreithiwr. Trwy'r profiad hwn, sylweddolais fy mod eisiau gyrfa lle gallwn wneud gwahaniaeth pendant, a chefais y pwrpas hwnnw o fewn y system cyfiawnder troseddol. Nawr, fel cyfreithiwr ifanc dan hyfforddiant ym maes trosedd, rwyf wrth fy modd â'r gwaith rwy'n ei wneud, ac rwy'n gobeithio parhau i ymarfer yn y maes hwn drwy gydol fy ngyrfa.'*

Er nad oes ffigurau penodol sy'n dangos faint o fyfyrwyr aeth ymlaen i weithio mewn cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol ar ôl yr SLO, mae'n hysbys bod o leiaf ddau fyfyriwr o garfan 2024/25 wedi sicrhau lleoliadau profiad gwaith mewn cwmnïau lleol, ac un wedi sicrhau Contract Hyfforddi, a phob un ohonynt â phwyslais ar waith cyfraith droseddol. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i fynychu'r llys a sefydlu cysylltiad â'r cyfreithwyr dan sylw a gallu dangos eu bod wedi ymwneud â gwaith achosion cleientiaid byw mewn cyd-destun ymarfer troseddol.

Tystiolaeth gan fyfyriwr graddedig yn 2023: *'Rwy'n credu bod yr SLO yn le perffaith ar gyfer meithrin cyfreithwyr troseddol y dyfodol, a byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei gwobrwyo pe bai'n gweithio gyda'r SLO i gynhyrchu cyfreithwyr troseddol y dyfodol. Yn fy marn i, mae diffyg cyfreithwyr amddiffyn troseddol yn ein cymdeithas yn peryglu egwyddorion sylfaenol ein cyfansoddiad, gan wanhau rheolaeth y gyfraith o bosibl ac rwy'n falch bod yr Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymddangos yn gwneud ymdrechion i fynd i'r afael â hyn.'*

Sources:
University of Northumbria Law School: Prepared by Associate Professor Adam Jackson. Contributors: Lisa Callum (Clinical Supervising Lawyer), Assistant Professor Katherine Dunn, Associate Professor Dr Jonny Hall, Assistant Professor Dr Ana Speed, Assistant Professor Tony Storey, Sarah Wade (Senior Clinical Supervising Lawyer).

The Evolution of Experiential Legal Education, November 2025 Chilton, Adam and Hovenkamp, Erik and Joy, Peter A. and Rozema, Kyle, (August 21, 2025).
Adrian Evans et al, Best Practices: Australian Clinical Legal Education (Report for Office of Teaching and Learning, 2013); If We Could Instil Social Justice Values Through Clinical Legal Education, Should We? (Journal of International and Comparative Law 143, 2018) 5(1), Preparing Students for 21st Century Practice: Enhancing Social Justice Teaching in Clinical Legal Education (International Journal of Clinical Legal Education 5, 2021) 28(1)
Tamara Walsh, Putting Justice Back into Legal Education (2007) 17(1-2)
Paul McKeown, Pro Bono: What's in It for Law Students? The Students' Perspective (International Journal of Clinical Legal Education, 2017) 24 (2)
Jill Alexander, Modelling employability through clinical legal education: building confidence and professional identity (The Law Teacher, 2023) 57 (135)

29. Mae angen dull gweithredu wedi'i dargedu ac amlhaenog er mwyn ailadeiladu gweithlu cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, ac rwyf yn annog y dylid cymryd camau ar unwaith. Mae angen ymdrech ymwybodol i ddenu cyfreithwyr iau i'r proffesiwn a dylid ategu hyn gyda newidiadau ehangach i wella cadw staff; byddaf yn dychwelyd at fy argymhellion sy'n canolbwyntio ar gadw staff yn nes ymlaen yn y bennod hon.

30. Y cam cyntaf yn fy null i fynd i'r afael â materion capasiti cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yw cymell cwmnïau cyfreithiol i gefnogi hyfforddeion i weithio yn y gyfraith droseddol. Nid yw hon yn syniad newydd ac fe'i hargymhellwyd mewn gwirionedd gan yr Arglwydd Bellamy CB yn ei 'Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol' (CLAIR) yn 2021, lle galwodd am 'ariannu rhagor o grantiau hyfforddi i gefnogi hyfforddeion mewn cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol'.[396] Deallaf fod y llywodraeth wedi ymgynghori ar gynigion i gyflwyno grantiau contract hyfforddi, ac er bod ymatebion yn croesawu'r cysyniad o grantiau yn gyffredinol, ar y pryd roedd yn teimlo y byddai

396

arian yn cael ei wario'n well ar ffioedd cyfreithiwr a chymorth cyfreithiol troseddol yn lle hynny.[397]

31. O fy ymgysylltiad â'r sector, deallaf fod pryderon ariannol ymhlith llawer o gwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol na allant fforddio cymryd hyfforddeion. Mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd y farchnad ac mae'n destun pryder, yn enwedig gyda data'n tynnu sylw at duedd proffesiwn sydd â gweithlu sy'n heneiddio. Yr hyn sy'n allweddol er mwyn cynyddu'r gweithlu yw cael y lle i'w hyfforddi, a dyna pam y credaf fod angen i'r llywodraeth fabwysiadu dull deuol.

32. I weithio fel cyfreithiwr ar ddyletswydd, rhaid i ymarferwyr cymwys sefyll Cymhwyster yr Orsaf Heddlu (PSQ) a Chymhwyster Llys yr Ynadon (MCQ). Mae'r PSQ yn galluogi cyfreithiwr i weithio mewn gorsaf heddlu, a rhaid cael yr MCQ os yw cyfreithiwr eisiau cynrychioli diffynnydd yn llys ynadon. Er mwyn cael yr MCQ, rhaid i gyfreithiwr fod wedi cael ei PSQ, gan wneud cyfreithwyr ar ddyletswydd yn gymwysedig ddeuol i weithio yn yr orsaf heddlu a chynrychioli yn y llysoedd.

33. Cynigir y hyfforddiant hwn gan Brifysgol Caerdydd a Datalaw, a'r costau llawn yw £2,135[398] a £2,297+ TAW[399] yn ôl eu trefn. Mae'r PSQ yn cynnwys tri cham, sy'n cynnwys portffolio o naw achos a phrawf digwyddiad critigol, ac mae gan yr MCQ ddau gam sy'n cynnwys portffolio o 25 achos a chyfweliad byw o'r enw'r Asesiad Cyfweliad ac Eiriolaeth.[400] Unwaith y bydd cyfreithwyr wedi'u cymhwyso, mae

---

397

398

399

400

angen iddynt wneud cais i ymuno â'r Cynllun Achredu Ymgyfreitha Troseddol sy'n costio £309.60 gydag achrediad yn para am bum mlynedd.[401]

34. Yn Rhan I, argymhellais y dylai'r llywodraeth gyd-ariannu prentisiaethau ar gyfer bargyfreithwyr mewn cyfraith droseddol ac rwyf am adlewyrchu hyn ar gyfer cyfreithwyr a argymell y dylai'r llywodraeth gyd-ariannu'r cymwysterau hyn ar gyfer cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol. Rwy'n gobeithio, drwy ddileu unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â chyllid, y dylai hyn annog mwy o weithwyr proffesiynol i sefyll y cymhwyster hwn.

Argymhelliad 150: Rwy'n argymell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyd-ariannu hyfforddiant Cymhwyster Gorsafoedd Heddlu a Chymhwyster Llysoedd Ynadon ar gyfer cyfreithwyr ar ddyletswydd.

35. Yn ogystal â hyn, hoffwn hefyd weld y llywodraeth yn gweithredu argymhelliad arall gan yr Arglwydd Bellamy CB yn CLAIR, sydd wedi'i gefnogi gan y Bwrdd Cynghori Cymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAAB). Hynny yw, cynnig grant hyfforddai i dalu am rai o'r costau a dynnir gan gwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol wrth hyfforddi cyfreithwyr iau. Fel y soniwyd, pan ymgynghorodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynigion i weithredu'r argymhelliad hwn yn y gorffennol, roedd yn well ganddynt gynnydd cyffredinol i ffioedd ar y pryd. O ystyried y buddsoddiad diweddar mewn ffioedd cymorth cyfreithiol, gobeithio y byddai'r sector yn cefnogi argymhelliad o'r fath ac wrth weithredu argymhelliad o'r fath, anogaf y llywodraeth i ystyried sut i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cael ei dargedu a'i glustnodi ar gyfer hyfforddi cyfreithwyr newydd.

36. Gallai'r grant hwn gael ei weinyddu gan yr LAA i gwmnïau sydd eisoes yn darparu cymorth cyfreithiol, a gellid ei roi tuag at gyflogau hyfforddeion, gan ryddhau cyllideb i ganiatáu i gwmnïau gymryd hyfforddeion ychwanegol a meithrin eu capasiti. Byddai hyn yn targedu'r diffyg yn nifer y cyfreithwyr sy'n gweithio mewn gwaith cymorth cyfreithiol troseddol yn uniongyrchol ac mae'n hanfodol bod

---

401

unrhyw fuddsoddiad yn cael effaith amlwg ar nifer y cyfreithwyr sy'n gweithio mewn cymorth cyfreithiol troseddol.

37. I ategu hyn, mae angen ystyried dulliau o ddenu pobl i'r proffesiwn i fanteisio ar gynigion o'r fath ac i fynd i'r afael â diffygion recriwtio cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn y tymor hwy.

38. Er fy mod yn cydnabod y gall cyflog cyfreithiwr cymorth cyfreithiol troseddol fod yn ddeniadol o'i gymharu â phroffesiynau eraill, mae eu henillion posibl o'u cymharu â gwaith cyfreithiol arall a ariennir yn gyhoeddus yn effeithio ar recriwtio. Mae'r cyfle i weithio yn y gyfraith droseddol yn darparu llwybr gyrfa gwerth chweil ac yn addas i'r rheini sydd wedi'u cymell gan gyflawni cyfiawnder cymdeithasol ac sy'n ymwybodol o'u cymuned. Er ei bod yn heriol mesur cyflogau cymorth cyfreithiol troseddol a chymorth cyfreithiol teulu, rwyf wedi clywed bod cyflogau cyfreithwyr cymorth cyfreithiol teulu yn sylweddol uwch na'u cymheiriaid troseddol.

39. Rwy'n gwerthfawrogi bod gan bobl gymhellion gwahanol ar gyfer eu gyrfaoedd, ond dylid rhoi sylw i'r ffaith heb gyfreithwyr ar ddyletswydd a chyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, bydd y system cyfiawnder troseddol yn dirywio a gallai chwalu – ni fydd diffynyddion (llawer ohonynt yn aelodau agored i niwed o'r gymdeithas) yn cael eu cynrychioli, ni fydd modd cynnal achosion, ac ni fydd dioddefwyr yn cael cyfiawnder. Fel y tynnwyd sylw ato yn Astudiaeth Achos V Prifysgol Northumbria, gall datgelu gwaith cymorth cyfreithiol troseddol i gyfreithwyr iau ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu tebygolrwydd o ddilyn gyrfa yn y gyfraith droseddol. Gan gofio hynny, credaf fod angen i'r llywodraeth gymryd camau uniongyrchol i ddenu cyfreithwyr iau i'r maes hwn.

40. Wrth ystyried sut i ddenu pobl i broffesiwn, mae enghreifftiau ar draws y sector cyhoeddus y gallaf dynnu ysbrydoliaeth ohonynt. Mae enghreifftiau o gymhellion ariannol, er enghraifft, mae maddeuant benthyciad myfyriwr yn bodoli ar gyfer athrawon. Mae yna hefyd raglenni recriwtio pwrpasol fel Teach First sy'n

canolbwyntio ar recriwtio athrawon a hyd yn ddiweddar, Unlocked Graduates ar gyfer swyddogion carchar.[402]

41. Yn ogystal, mae ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd proffil uchel i fynd i'r afael â heriau recriwtio ymhlith gweithluoedd penodol. Er enghraifft, mae ymgyrch 'Get into Teaching' yr Adran Addysg wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio mwy o athrawon. Mewn gwirionedd, mae'r llywodraeth bellach yn torri ei thargedau recriwtio ar gyfer ysgolion uwchradd bron 20% wrth iddynt weld niferoedd cryf o geisiadau a gwell cadw athrawon. Mae recriwtio ar gyfer addysgu pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), fel cyfrifiadura a ffiseg, bob amser wedi bod yn her ac mae nifer yr ymgeiswyr bellach 40% yn uwch.[403]

42. Mae mynd i'r afael â phroblem recriwtio yn arbennig o heriol gan nad yw cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn weithlu sector cyhoeddus yn unig, ar wahân i'r Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus, felly nid yw rhai o'r cynlluniau cymharol a weithredir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran Addysg yn gwbl briodol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, credaf y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried sicrhau bod cyllid ar gael i ddenu graddedigion y gyfraith i'r maes hwn trwy gymhellion ariannol a lansio ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan amlygu gwerth gweithio yn y maes hwn.

43. Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio mewn cymorth cyfreithiol troseddol er mwyn cadw i fyny â'r galw. Dylai buddsoddiad cychwynnol a chydnabyddiaeth am ymrwymiad cyfreithiwr iau i weithio yn y maes cyfraith hwn arwain at fwy o bobl yn cymryd diddordeb cychwynnol yn y llwybr gyrfa hwn, a phan gaiff ei weithredu ochr yn ochr â fy argymhellion eraill

---

402

403

sy'n canolbwyntio ar wella'r amodau gwaith, dylai hyn arwain at gyfraddau cadw staff uwch.

44. Felly, rwyf yn argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chymdeithas y Cyfreithwyr yn archwilio manylion cymhelliant ariannol o'r fath ac rwyf yn pwysleisio pwysigrwydd meddwl yn greadigol am recriwtio gan ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â'r diffygion presennol a'r argyfwng capasiti sydd ar droed.

45. Rwy'n cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer yr argymhellion hyn sy'n canolbwyntio ar recriwtio cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol. Fel y soniais ar ddechrau'r bennod hon, rwy'n ymwybodol o'r hinsawdd ariannol bresennol ac y gallai fod heriau o ran canfod yr arian i wireddu'r argymhellion hyn. Fodd bynnag, ni allaf bwysleisio digon ar yr argyfwng sydd ar y gorwel oherwydd niferoedd isel o gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol a'r angen i adeiladu capasiti yn ôl i'r gweithlu hwn. Mae gweithlu sydd heb ddigon o adnoddau ac sy'n ddi-brofiad yn effeithio'n andwyol ar egwyddorion cyfranogiad ac arbenigedd yn y system cyfiawnder troseddol ac mae'n cael canlyniad ehangach ar ei gallu i weithio'n effeithlon.

Argymhelliad 151: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi grantiau i gwmnïau cyfreithiol cymorth cyfreithiol troseddol cofrestredig i ariannu cytundebau hyfforddi ar gyfer cyfreithwyr troseddol iau a bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda chyrff proffesiynol i gynllunio ymgyrchoedd recriwtio i ddenu cyfreithwyr iau i ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol troseddol.

46. Yn ogystal â chynyddu nifer y cyfreithwyr newydd gymhwyso, rwyf eisiau i'r llywodraeth ystyried sut y gall ddefnyddio adnoddau presennol yn y maes cyfreithiol yn fwy effeithiol.

47. Yn CLAIR, argymhellodd yr Arglwydd Bellamy CB y dylai'r LAA a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygu'r darpariaethau ynghylch derbyn aelodau CILEX fel cyfreithwyr ar ddyletswydd. Deallaf fod y rhwystr i aelodau CILEX weithredu fel cyfreithwyr ar ddyletswydd yn ganlyniad i'r hyfforddiant a gânt trwy eu

hachrediad ac ar hyn o bryd, nid yw'r hyfforddiant hwnnw'n ddigonol i ganiatáu iddynt weithio mewn gorsaf heddlu. Er mwyn cael eu hychwanegu at rota cyfreithwyr ar ddyletswydd trwy gontract LAA, mae'n ofynnol i gyfreithwyr ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr i sicrhau aelodaeth Cynllun Achredu Ymgyfreitha Troseddol, sy'n cynnwys y PSQ a'r MCQ. Mae'r cam ychwanegol hwn yn creu cyfleoedd a gollwyd i ennyn diddordeb pobl yn y math hwn o waith.

48. Credaf y dylid cyflwyno'r argymhelliad a wnaed gan yr Arglwydd Bellamy CB i'r llywodraeth eto. Bydd gwella'r hyfforddiant hwn a chaniatáu i aelodau CILEX gael eu derbyn yn ffurfiol fel cyfreithwyr ar ddyletswydd trwy eu hachrediad eu hunain, gyda gwiriadau safon ansawdd priodol a monitro fel sy'n wir am gyfreithwyr, yn adeiladu ymhellach ar gapasiti cyfreithwyr ar ddyletswydd o fewn y system ac yn lleddfu baich prinder cyfreithwyr. Mae aelodau CILEX hefyd yn dod â phrofiadau a llwybrau gyrfa amrywiol gyda nhw, a thrwy gynyddu cyfleoedd i'r cyfreithwyr hyn, gall helpu i feithrin gyrfaoedd mwy cynaliadwy ar gyfer grwpiau dan sylw yn y gweithlu cyfreithiol a chreu mwy o hygyrchedd i'r proffesiynau cyfreithiol.

Argymhelliad 152: Rwy'n argymell bod y Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol yn gwella ei hyfforddiant i ganiatáu i gyfreithwyr gael eu cydnabod yn ffurfiol fel cyfreithwyr ar ddyletswydd ar ôl iddynt gymhwyso.

49. Rwy'n ymwybodol bod her arall sy'n wynebu'r proffesiwn yn y blynyddoedd diweddar yn ymwneud â chadw cyfreithwyr oherwydd diffyg polisïau gweithio hyblyg. Rwy'n deall bod natur y gwaith yn ei gwneud hi'n anodd gweithio o bell neu fabwysiadu oriau rhan amser, ond mae'r anallu i wneud hynny'n golygu bod y gweithlu'n colli niferoedd sylweddol o weithwyr proffesiynol cymwys sy'n ei chael hi'n anodd rheoli'r oriau heriol a'r llwyth gwaith sylweddol, ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu – boed hynny'n ofal plant, yn cefnogi rhieni yn eu henaint neu fel arall.

50. Mae'r broblem hon yn arbennig o acíwt ymhlith menywod sy'n gweithio fel cyfreithwyr. Mae menywod, yn bennaf yn eu diwedd eu 30au a dechrau eu 40au,

yn gadael y proffesiwn ac nid ydynt yn dychwelyd i'r un swyddi (gweler Ffig. 10.4).[404] Roedd y grŵp oedran 30 i 49 oed yn cyfrif am gyfartaledd o oddeutu 69% o fenywod a oedd yn gadael swydd cyfreithiwr ar ddyletswydd rhwng 2018 a 2024, tra bod y grŵp oedran cyfatebol o ddynion yn cyfrif am oddeutu 36% yn unig.[405] Yn nes ymlaen yn y bennod hon, rwy'n trafod diwygio ehangach ar y farchnad, a sut y gallai newid i'r model gweithredu presennol arwain at well cadw staff ar draws y gweithlu hwn yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, credaf y dylid gwneud gwaith nawr i ystyried sut i wella cadw'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sut i'w hannog yn ôl i'r gweithlu.

51. Rwyf wedi clywed ar lafar fod CPS wedi sylwi ar batrwm tebyg o dreuliad ymhlith ei Uwch Erlynwyr y Goronac, mewn ymateb, wedi lansio cynllun newydd, sef 'Ewch i Erlyn' yn haf 2025 sy'n anelu at ddenu'r rhai a adawodd y gweithlu oherwydd cyfrifoldebau gofalu, menywod yn bennaf, yn ôl i'r gwaith.[406] Mae'r cynllun yn cynnig secondiad blwyddyn, gyda'r opsiwn i ymestyn i ddwy flynedd, ar gyfer cyfreithwyr neu fargyfreithwyr canol gyrfa sy'n ystyried dychwelyd i gyfraith troseddol i roi cynnig ar amrywiaeth o waith i weld beth sydd fwyaf addas ar gyfer profiad a phatrwm gweithio'r unigolyn. Yn y rolau hyn, gallent fod yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys llys ynadon, Llys y Goron neu uned RASSO.

52. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth datblygu pwrpasol i alluogi pobl i wella eu sgiliau erlyn ac adennill hyder mewn arfer troseddol. Mae CPS yn cynnig gweithio hyblyg lle bynnag y bo modd, gan gynnwys oriau rhan-amser, oriau cywasgedig neu waith yn ystod y tymor yn unig. Mae'r rhai a benodir yn gymwys ar gyfer buddion eraill y Gwasanaeth Sifil, sy'n cynnwys pensiwn a gwyliau blynyddol.

404

405

406

53. Dros haf 2025, derbyniodd CPS 79 o geisiadau am rolau fel Uwch-erlynwyr y Goron tra bod y recriwtio'n fyw, ac ers hynny mae 31 o ymgeiswyr wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael cynnig swyddi.[407] Mae'r cynllun hwn yn dal yn ei fabandod ond mae'n dangos effeithiolrwydd cynnig trefniadau gweithio hyblyg i recriwtio a chadw talent. Rwy'n cydnabod bod CPS, fel adran o'r llywodraeth, mewn sefyllfa well i weithredu cynlluniau fel hyn ac y bydd hyn yn anos i gwmnïau cyfreithiol a siambrau. Fodd bynnag, mae meithrin system cyfiawnder troseddol sy'n seiliedig ar arbenigedd yn egwyddor graidd i'r Adolygiad hwn ac rwyf o'r farn bod gwersi cadarnhaol y gellir eu dysgu o'r fenter hon a'u cymhwyso'n gyffredinol i ddenu gweithwyr proffesiynol profiadol yn ôl i'r gweithlu.

Argymhelliad 153: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried y ffordd orau o ail-ymgysylltu â'r gweithlu cymorth cyfreithiol troseddol sydd wedi gadael y proffesiwn oherwydd cyfrifoldebau gofalu, gan weithio ar y cyd â'r gweithlu cyfreithiol troseddol i fynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer bargyfreithwyr a

Cadw staff

54. Yn ogystal â chynyddu nifer y cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, mae'n hanfodol bod y llywodraeth yn ymdrechu i gael cadw staff mwy effeithiol yn y gweithlu. Mae'r un peth yn wir am fargyfreithwyr. Dangosodd arolwg diweddar gan y Bar Troseddol fod un o bob tri bargyfreithiwr troseddol yn ceisio'n weithredol i adael y Bar, gan nodi rhesymau megis tâl nad yw'n adlewyrchu nifer yr oriau o waith dan sylw a llwyth gwaith uchel.[408] Heb weithlu â digon o adnoddau, bydd yn amhosibl adeiladu system cymorth cyfreithiol gynaliadwy, a bydd yn parhau i effeithio'n andwyol ar effeithlonrwydd y llysoedd.

407

408

55. Rwyf hefyd yn cydnabod y broblem benodol gyda bargyfreithwyr troseddol sy'n gallu cynnal achosion RASSO, y mae Rape Crisis yn ei thrafod yn eu hadroddiad diweddar 'Living in Limbo'.[409] Mae'r materion ynghylch cadw staff a archwiliwyd yn y bennod hon yn cael eu gwaethygu ymhellach gan natur heriol y gwaith sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn. Gobeithio y bydd fy argymhellion yn y bennod hon, sydd â'r nod o gynyddu recriwtio a chadw staff, hefyd yn cefnogi cynyddu argaeledd cyfreithwyr sy'n gallu cynnal yr achosion hyn.

56. Mae fy ymgysylltiad â'r gweithlu cyfreithiol wedi atgyfnerthu i mi fod arian yn un o'r prif heriau i gadw staff, gyda chyfleoedd i ennill mwy mewn meysydd eraill o'r gyfraith. Fodd bynnag, fel y sylwais, credaf fod gweithio yn y gyfraith droseddol yn hynod ddiddorol a gall arwain at yrfa hir a chyflawn. Nodaf hefyd fod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud mewn ffioedd cymorth cyfreithiol yn y blynyddoedd diwethaf, a bod mentrau eraill a allai fynd i'r afael â heriau'r gweithlu, ac rwy'n archwilio'r rhain yn nes ymlaen yn y bennod hon. Fodd bynnag, sylweddolaf nad yw'r system yn berffaith a bod gwelliannau y gellir eu gwneud o hyd a allai arwain at well cadw staff.

57. Mae ffioedd yn sail i'r system cymorth cyfreithiol ac yn sicr mae angen eu hystyried fel rhan o'r sgwrs ehangach hon am weithlu. Mae effeithiau ar gadw staff oherwydd ffioedd annigonol a chymhellion wrthnysig ymgorfforedig yn cael effaith ar allu'r llysoedd troseddol i weithredu'n effeithlon ac yn cyfuno llawer o'r materion eraill yr wyf wedi'u nodi drwy gydol yr Adolygiad hwn, megis ymgysylltiad cynnar a dargyfeiriad mwy effeithiol. Er bod yr adran hon o'r bennod yn ymdrin â ffioedd cymorth cyfreithiol, hoffwn gydnabod nad wyf wedi cynnal adolygiad manwl o gymorth cyfreithiol, a byddwn yn annog y llywodraeth i fwrw ymlaen â'r argymhellion o CLAIR yr Arglwydd Bellamy CB, a ddeilliodd o adolygiad manwl. Wrth ddatblygu'r argymhellion hyn, cyfarfûm â'r Arglwydd

---

409

Bellamy CB i ddeall ei farn ar yr hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â'r argyfwng gweithlu presennol ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr Adolygiad hwn.

58. Rwyf hefyd yn cydnabod y broblem benodol gyda'r nifer o gyfreithwyr troseddol profiadol sydd ar gael i gynnal achosion RASSO, y mae Rape Crisis yn ei thrafod yn eu hadroddiad diweddar 'Living in Limbo'.[410] Mae'r materion yn ymwneud â chadw staff a archwilir yn y bennod hon yn cael eu gwaethygu ymhellach gan natur heriol y gwaith sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn. Rwy'n gobeithio y bydd fy argymhellion yn y bennod hon, sydd â'r nod o gynyddu recriwtio a chadw staff, hefyd yn cael effaith gadarnhaol trwy gynyddu argaeledd cyfreithwyr sy'n gallu cynnal yr achosion hyn.

Gwella'r system bresennol

59. Yn 2021, argymhellodd yr Arglwydd Bellamy CB gynnydd o 15% o leiaf i bob ffi cymorth cyfreithiol troseddol.[411] Ymatebodd y llywodraeth gyda chynnydd o 12% a chafwyd Adolygiad Barnwrol a heriodd pam nad oedd argymhellion yr Arglwydd Bellamy CB wedi'u gweithredu'n llawn.[412] Ers hynny, ymrwymodd y llywodraeth i gynnydd pellach o 12% mewn ffioedd ar draws y bwrdd.[413]

60. Roedd y cynnydd i ffioedd a gyflwynwyd yn 2024 y cynnydd sylweddol cyntaf mewn 25 mlynedd, a chafodd hyn groeso gan y gweithlu cyfreithiol troseddol. Fodd bynnag, mae pryderon nad yw ffioedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac felly maent yn mynd yn anghyson â chwyddiant yn gyflym ac, mewn termau real, nid ydynt yn adlewyrchu lefelau sy'n briodol i gynnal practis cyfreithiol. Mae cyfraddau ffioedd yn ddadleuol ac mae angen cynllunio ymlaen llaw gwell i dalu

---

410

411

412

413

cyfreithwyr yn briodol er mwyn denu a chadw pobl mewn gwaith cymorth cyfreithiol troseddol.

61. Rwyf yn argymell bod y llywodraeth yn ymrwymo i adolygiad rheolaidd o ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol. Drwy ddyfarnu tâl priodol i gyfreithwyr, mae'r llywodraeth yn lleihau'r risg o ddisbyddu'r proffesiwn oherwydd gwaith sy'n talu'n well, recriwtio aflwyddiannus a gweithlu â chymhelliant gwael. Ar y cyd, mae hyn yn peryglu methiannau yn y system oherwydd diffyg gweithlu effeithiol.

62. Mae adolygiad rheolaidd o ffioedd cymorth cyfreithiol wedi'i gynnig gan lawer o bartïon drwy gydol fy ymgysylltiad, ac rwy'n deall y byddai'n cael ei ystyried yn gam croesawgar tuag at gydnabod cyfraniadau a gwaith cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol. Nid dyma'r tro cyntaf i adolygiad annibynnol awgrymu ymrwymiad o'r fath. Mae CLAAB, canlyniad CLAIR, wedi galw am adolygiad tebyg, gyda chynlluniau a chyfraddau ffioedd naill ai wedi'u cysylltu â mynegai neu'n cael eu hadolygu i ddarparu incwm a fyddai'n cynnal pob cam o yrfa yn y Bar.

Argymhelliad 154: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ymrwymo i adolygu ffioedd cymorth cyfreithiol ac yn adrodd ar hyn yn flynyddol o 2027 ymlaen.

63. Credaf ei bod yn hanfodol cadw cyfraddau ffioedd cymorth cyfreithiol yn ddeniadol a dylai'r llywodraeth eu hadolygu'n flynyddol, a'u cynyddu'n ddigonol, lle bo'n briodol. Nid yw'n gynaliadwy cadw at y dull presennol lle mai dim ond argyfwng sy'n sbarduno ymateb adweithiol.

64. Fel rhan o adolygiad o'r fath o ffioedd, byddwn hefyd yn annog y llywodraeth i roi sylw dyledus i gyflog tystion arbenigol a sicrhau bod ffioedd yn talu'n briodol i'r gweithwyr proffesiynol hyn i gefnogi marchnad gynaliadwy. Mae naws ac arbenigedd y tystion hyn yn hanfodol i achos. Mae'r Llysoedd yn dibynnu fwyfwy ar y wybodaeth arbenigol hon wrth i arbenigwyr gael eu galw i gyflwyno eu barn, mewn fformat ddealladwy, i'r rheithgor i'w galluogi i ddatrys materion y tu allan i brofiad cyffredin. Ym Mhennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau), rwyf yn gwneud

argymhellion i sicrhau'r defnydd gorau o dystiolaeth arbenigol ac wrth i dystiolaeth fynd yn fwyfwy cymhleth.

65. Maes arall o bryder a godwyd gyda mi yw sut y rhoddir cyfrif am gyllid cymorth cyfreithiol, a sut y pennir y gyllideb. Yn ymarferol, prin iawn yw'r rheolaeth dros nifer yr hawliadau a gyflwynir i'w talu. Mae llawer o'r gronfa cymorth cyfreithiol yn cael ei harwain gan y galw gyda fawr ddim dulliau i reoli'r gyllideb, heblaw am ohirio taliadau neu gyfyngu ar ddyddiau eistedd i reoli nifer yr achosion sy'n cael eu datrys ar draws blwyddyn ariannol. Ni all fod yn iawn bod rheolaeth y gronfa cymorth cyfreithiol yn dod cyn anghenion dioddefwyr, tystion a diffynyddion. Mae hyn yn gwrth-ddweud egwyddorion cyfiawnder, ac fel y nodais eisoes, ni ddylai fod gostyngiad gwirioneddol i gyflog y proffesiwn cyfreithiol, drwy rewi ffioedd, er mwyn rheoli'r gyllideb.

Mynediad at gymorth cyfreithiol troseddol

66. Fel y soniwyd, mae cadw cyfreithwyr troseddol yn mynd ymhellach na thâl yn unig, ac yn yr adran hon, rwyf yn archwilio sut y gall gwelliannau i'r system ffioedd gael effaith gadarnhaol ar y system ehangach y mae cyfreithwyr yn gweithredu ynddi.

67. Yn ogystal â'r diffyg adolygiad rheolaidd o ffioedd, bu methiant tebyg i gadw dan adolygiad y trothwy y bydd diffynnydd yn gymwys ar ei gyfer ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol. Yng Nghymru a Lloegr, mae cymorth cyfreithiol yn talu am gyngor, cymorth a chynrychiolaeth yn y llysoedd ar gyfer unigolion sydd angen y gwasanaethau hyn, ac ar hyn o bryd, mae mynediad at y cymorth hwn yn cael ei brofi o ran adnoddau. Os na all diffynnydd fforddio talu am gyfreithiwr, gallant wneud cais am y prawf adnoddau ac mae'r broses hon yn ystyried incwm unigolyn, amgylchiadau ei deulu, megis nifer y plant, a'i gostau byw hanfodol, megis morgais neu rent.[414]

414

68. Ar hyn o bryd, mae'r trothwy incwm gros is ar gyfer cymorth cyfreithiol yn y ddau lys yn £12,475. Detholwyd y trothwy hwn gyda'r bwriad o leihau'r baich gweinyddol ar ymgeiswyr, darparwyr a'r LAA, drwy nodi ymgeiswyr y mae eu hincwm gros mor isel fel ei bod yn dra thebygol y byddant yn pasio'r prawf incwm gwario. Fodd bynnag, mae'r tebygolrwydd y bydd person a gyhuddir o drosedd yn anghymwys i gael cymorth yn arbennig o acíwt yn y llys ynadon gan fod y trothwyon presennol, ar y lefel uwch, yn sylweddol is na'r rhai yn Llys y Goron. Ar hyn o bryd, mae'r trothwy incwm gros uchaf yn £22,325, yn y llys ynadon, felly yn ymarferol bydd unrhyw un y mae ei incwm gros yn uwch na hyn yn anghymwys i gael cymorth.

69. Nid yw trothwyon presennol y prawf modd yn adlewyrchu chwyddiant a'r argyfwng costau byw. Mae chwyddiant cyflog sylweddol yn golygu bod cyfran y boblogaeth sydd bellach yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol wedi gostwng. Rhwng 2012/13 a 2020/21, gostyngodd cyfran y trethdalwyr incwm yng Nghymru a Lloegr a oedd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion troseddol yn llysoedd ynadon 16 pwynt canran (53% i 37%).[415]

70. Yn 2022, arweiniodd y llywodraeth ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar adolygu'r prawf modd o fewn y system cymorth cyfreithiol.[416] Canolbwyntiodd yr adolygiad ar effeithiolrwydd y prawf modd presennol a cheisiodd fewnbwn gan y cyhoedd ar y newidiadau arfaethedig a oedd â'r nod o alluogi mynediad cyflymach i gyfiawnder, a sicrhau mynediad i gymorth ariannol i'r rhai oedd ei angen fwyaf. Mae'r broses hon ar gyfer penderfynu a yw diffynnydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol yn creu oedi yn y system gan y bydd gan bobl bryderon wrth geisio cyngor cyfreithiol os nad ydynt yn siŵr a allant ei fforddio. Un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad oedd cynyddu'r trothwyon ar gyfer cymhwysedd

---

415

416

cymorth cyfreithiol yn y llys ynadon, er mwyn ystyried cynnydd ym mhwysau costau byw a ffioedd cyfreithiol preifat.

71. Cynigiodd yr ymgynghoriad gynyddu'r trothwy yn llys ynadon i £13,000 a chefnogwyd hyn i raddau helaeth gan yr ymatebion, ond roedd pryderon bod y swm yn dal i fod yn rhy isel.[417] Cynigiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd gynyddu'r trothwy incwm gros uchaf i £34,950, i fyny o £22,325, yn llys ynadon.[418] Roedd ymatebion yr ymgynghoriad yn gadarnhaol eto o'r cynnydd hwn, gan nodi ei fod yn hen bryd, ond roedd pryderon a fyddai'n adlewyrchu chwyddiant yn gywir. Mae swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hyderus bod gosod y trothwy uchaf i incwm gros blynyddol canolrifol yn deg ac yn rhesymol, ac mae'n creu aliniad o fewn y system cymorth cyfreithiol, gan y byddai hyn yn adlewyrchu prawf moddion cymorth cyfreithiol sifil.

72. Ymrwymodd y llywodraeth ar y pryd i fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn, ond mae'r cynnig wedi'i oedi ers hynny gan y llywodraeth bresennol, gyda newidiadau wedi'u gohirio wrth eu gweithredu o eleni i 2026.[419] Deallaf fod yr oediadau hyn yn rhannol oherwydd problemau gyda systemau digidol, ac er bod yr Awdurdod Cymorth Cyfreithiol yn canolbwyntio ar adferiad yn dilyn ei ddigwyddiad seiberddiogelwch, efallai nad yw'r diwygio hwn yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a ddarparwyd yn Nhrydydd Adroddiad ar Hugain y Sesiwn ar Werth am Arian[420] gan Gymorth Cyfreithiol yn tynnu sylw at frys y mater hwn. Mae trothwyon ar hyn o bryd yn seiliedig ar setiau data 2019/20 ac mae pryder ynghylch yr effaith y mae hyn yn ei chael ar fynediad at gyfiawnder.

417

418

419

420

73. Wrth i nifer y bobl sy'n cael eu prisio allan o gael cymorth cyfreithiol gynyddu, gall hyn arwain at gyfran fwy o ddiffynyddion heb gynrychiolaeth yn y llysoedd. Mae'r system cyfiawnder troseddol wedi'i hadeiladu ar y rhagdybiaeth y bydd gan ddiffynyddion fynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol. Mae Adran 1 o LASPO yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor sicrhau bod system o gyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol troseddol ar gael. Mae adroddiadau gan Transform Justice, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Ganolfan Ddata Cyhoeddus yn darparu tystiolaeth ansoddol rymus bod diffyg cynrychiolaeth yn peri heriau materol i degwch, effeithlonrwydd ac uniondeb yr achos.[421] Mae gan ddiffynyddion heb gynrychiolaeth ddealltwriaeth gyfyngedig o brosesau'r llys, sy'n effeithio ar eu gallu i lywio a chymryd rhan yn effeithiol yn yr achos a gall arwain at wrandawiadau hirach, gyda chynnydd achos arafach, a llai o debygolrwydd o bleon euog cynnar oherwydd dealltwriaeth wael o'r cynllun gostyngiad ar gyfer ple euog cynnar. Mae anawsterau gyda chroesholi tystion yn gwaethygu'r problemau hyn ymhellach, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar yr egwyddorion allweddol sydd wedi llywio'r Adolygiad hwn o degwch a chyfranogiad.

74. Rwy'n cydnabod bod data meintiol cyfyngedig iawn ar gael i gadarnhau nifer y diffynyddion heb gynrychiolydd dros amser neu i fesur eu heffaith ar oedi. Heb dystiolaeth gadarn, ni all y Weinyddiaeth Gyfiawnder ganfod yn ddigonol yr hyn sy'n gyrru'r ffaith bod diffynyddion heb gynrychiolydd a'u heffaith ar oedi yn y Llysoedd, er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau i amseroldeb a thegwch.

75. Serch hynny, mae sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl yn un o'r egwyddorion craidd sy'n sail i'r Adolygiad hwn, a chredaf fod cynyddu'r trothwy ar gyfer cymorth cyfreithiol er mwyn hybu gwell mynediad i'r rheini sy'n wynebu caledi ariannol yn angenrheidiol, nid yn unig i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn fwy effeithiol ond hefyd i leihau oedi a'r baich gweinyddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyfreithiol. Trwy gydol fy ymgysylltiad, mynegwyd teimlad cyffredin y dylai cynifer o bobl â phosibl gael eu cynrychioli yn y llysoedd

---

421

troseddol, ac rwyf yn cymeradwyo hyn. Felly, rwy'n argymell bod y llywodraeth yn cynyddu'r trothwy is yn llys ynadon a Llys y Goron, a'r trothwy uchaf yn Llys y Goron.

76. Mae'r Adolygiad hwn yn canolbwyntio ar sut y gellir gwneud y system llysoedd troseddol yn fwy effeithlon, ac fel gyda fy holl argymhellion, credaf y dylid gweithredu'r argymhellion hyn fel pecyn. Ni fyddai'n gwneud synnwyr ystyried rhannau eraill yn gwella'r system ar waith heb fynd i'r afael â chymorth ariannol i'r cyhoedd o fewn y system.

Argymhelliad 155: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynyddu terfynau isaf ac uchaf trothwyon incwm ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn y llys ynadon i £13,000 a £34,250, yn ôl eu trefn, yn unol ag argymhellion Adolygiad y Prawf Modd.

Argymhelliad 156: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn casglu ac yn cyhoeddi data ar nifer y diffynyddion heb gynrychiolydd a'r effeithiau ar effeithlonrwydd y llys.

Annog ymgysylltiad cynnar gweithwyr proffesiynol yn yr achos

77. Fel y nodais ym Mhennod 5 (Proses y Llys Ynadon) yn Rhan I, mae'r system ffioedd cymorth cyfreithiol bresennol yn gymhleth a gall greu cymhellion ac anghymhellion i ymarferwyr – gan ddylanwadu ar benderfyniadau gan gynnwys pa achosion y mae ymarferwyr yn ymgymryd â nhw, a'u parodrwydd i ymgysylltu ag achosion yn gynharach yn y broses.

78. Un maes lle mae hyn yn broblem arbennig o amlwg yw lle mae eiriolwyr lluosog yn cael eu cyfarwyddo ar un achos, gyda phob un yn cynnal cam gwahanol o'r gwaith. Rwyf yn ymwybodol bod y tâl am bob un yn aml yn isel, gan fod y ffi sengl yn cael ei rhannu rhwng sawl eiriolwr sy'n gweithio ar draws achos. Rwyf hefyd yn ymwybodol o ganlyniad y gall eiriolwyr fod allan o'u poced yn sylweddol, yn enwedig bargyfreithwyr iau, a bod taliad am y gwaith yn cael ei ohirio tan gwblhau'r achos. Er bod ffi – y ffi paratoi a wastraffwyd – sy'n bodoli ar gyfer

achosion fel hyn, ac sy'n galluogi'r bargyfreithiwr i adennill enillion a gollwyd, mae trothwy'r oriau a weithiwyd i gael mynediad at y taliad hwn yn hynod o uchel.

Argymhelliad 157: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gostwng y trothwy ar gyfer taliadau paratoi a wastraffwyd. Bydd hyn yn sicrhau bod eiriolwyr a gyfarwyddwyd yn cael eu talu'n briodol am eu gwaith paratoi a dosbarthiad cymesur o ffioedd yn gynharach yn y broses, gan annog ymgysylltiad cynnar a gwella'r gwaith o baratoi achosion.

79. Credaf y bydd talu tâl priodol i eiriolwyr am eu gwaith yn Llys y Goron a chyflwyno dosbarthiad mwy cymesur o ffioedd ar gyfer ymgysylltu cynnar yn cael effaith gadarnhaol ar y gweithlu. Byddai'n annog eiriolwyr i ymgysylltu â'r gwaith hwn yn gynharach yn y broses, gan wybod, os bydd y cynrychiolaeth mewn achos yn newid dwylo, y cânt dâl o hyd am eu gwaith ar yr achos. Bydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o baratoi achos yn well, gyda phob gweithiwr proffesiynol dan sylw yn ymdrechu i'w gael yn iawn y tro cyntaf.

80. Roedd meysydd ffocws Rhan I yn cynnwys cynyddu Dargyfeiriadau, effeithiolrwydd PTPHs a sut mae'r system ffioedd bresennol yn creu heriau yn y ffordd y telir tâl i weithwyr proffesiynol mewn perthynas â'r agweddau hyn ar y system. Mae gwaith ar y gweill gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gytgordio taliadau rhwng cynlluniau ffioedd ac adolygu'r system. Rhoddodd fy nghefnogaeth i'w hymgynghoriad ar ddiwygio ffioedd cyfreithwyr yn Rhan I ac mae eu hymateb i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2025, yn nodi y byddant yn gweithredu cymhareb sefydlog rhwng canlyniadau ar draws pob math o drosedd ar gyfer ffioedd sylfaenol a dyrchafu ffioedd sylfaenol ar gyfer y math o drosedd sy'n cael ei thalu leiaf, sef cynigion y cefnogais.[422]

81. Er mwyn annog ymgysylltiad cynnar ymhellach, rwyf wedi cael gwybod ei bod yn bosibl i ffi gael ei thalu i gyfreithiwr ar ddyletswydd sy'n ymwneud â gwaith cyn-cyhuddo o fewn y system. Deallaf fod hon yn ffi sy'n cael ei than-ddefnyddio i

---

[422]

raddau helaeth, er bod cyllid ar gael. Gallai'r nifer fach sy'n manteisio arni fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth bod y ffi hon yn bodoli, y cymhellion wrthnysig i ddiffynyddion y cyfeiriaf atynt yn Rhan I neu'r potensial ar gyfer taliadau ffioedd cymorth cyfreithiol uwch i gyfreithwyr os bydd achos yn symud ymlaen.[423]

82. Fy uchelgais ar gyfer yr Adolygiad hwn yw y bydd mabwysiadu'r argymhellion yn arwain at gynnydd cyflymach a mwy effeithlon o achosion drwy'r system cyfiawnder troseddol, a gyda hyn, y bydd cyfreithwyr wedyn yn gallu prosesu achosion yn gyflymach heb boeni am pryd y bydd ffioedd yn cael eu talu. Fodd bynnag, hyd nes y daw'r diwygiadau i rym ac y byddant yn cynhyrchu llwyth achosion sydd wedi'i leihau'n sylweddol a datrysiad cyflymach o achosion, rwyf yn argymell bod yr LAA yn hyrwyddo'r ffi ymgysylltu cyn-cyhuddo ac yn annog ei defnydd yn weithredol yn fwy effeithiol nag a fu hyd yma.

Argymhelliad 158: Rwy'n argymell bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn hyrwyddo'r ffi ymgysylltu cyn-cyhuddo i gyfreithwyr ar ddyletswydd ac yn annog ei defnydd yn weithredol i hwyluso mwy o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

83. Yn gynharach yn y bennod hon, pwysleisiais nad wyf wedi cynnal adolygiad manwl o gymorth cyfreithiol fel rhan o'r Adolygiad hwn ac yn lle hynny, rwyf wedi cynnig argymhellion ar feysydd lle y credaf y dylai'r llywodraeth fynd ymhellach i wneud gwelliannau i'r system. Er bod y rhain wedi canolbwyntio ar annog ymgysylltiad cynharach a gwneud gwelliannau i'r system bresennol i fynd i'r afael â phryderon tâl, clywaf dro ar ôl tro bod prydlondeb taliadau yn broblem i gyfreithwyr. Rwyf wedi cydnabod y rhwystredigaethau hyn, ond mae gennyf bryderon nad yw'r strwythur ffioedd presennol yn cymell paratoi achosion o safon ac felly'n effeithio wedyn ar effeithlonrwydd yn y llysoedd.

423

84. Yn dilyn fy argymhelliad yn Rhan I i sefydlu Adran y Fainc yn Llys y Goron a chyhoeddiad y llywodraeth i weithredu model o'r fath, bydd angen i'r LAA ystyried sut y bydd ffioedd yn cael eu gweinyddu o fewn y rhan newydd hon o'r broses. Felly, credaf ei bod yn amserol ac yn briodol ystyried symud i strwythur talu gwahanol.

85. Rwy'n ystyried y dylai'r LAA ddatblygu model talu sydd ynghlwm wrth gwblhau gwaith ar wahanol gamau o'r broses gyfiawnder. Bydd model newydd yn galluogi'r LAA i wario ei arian yn fwy effeithiol, mewn ffordd a fydd yn gweld tâl rheolaidd i gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol, yn lleihau'r risg o gymhellion wrthnysig, yn annog datrys achosion mor gynnar â phosibl ac yn arwain at dreialon sydd wedi'u paratoi'n well, gan leihau'r tebygolrwydd o dreialon aneffeithiol. O ran y camau y dylid gwneud taliadau arnynt, rwy'n argymell bod yr LAA yn ystyried alinio eu model talu newydd â pharatoi ar gyfer y PTPH, y PTPH ei hun, y treial ac ar gyflwyno dedfryd.

Argymhelliad 159: Rwy'n argymell bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn gweithredu system dalu newydd wrth ddosbarthu ffioedd cymorth cyfreithiol ac yn symud i system dalu fesul cam i gymell ymgysylltiad cynharach, talu cyfreithwyr mewn modd mwy amserol a chymell perfformiad da.

86. Hyd yn hyn, mae fy argymhellion wedi canolbwyntio ar dâl priodol i gyfreithwyr troseddol a sicrhau bod y taliadau hyn yn amserol er mwyn mynd i'r afael â phryderon cadw staff, ond rwy'n ymwybodol iawn o'r amrywiaeth eang o gyfleoedd eraill sydd ar gael i weithwyr proffesiynol cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus lle cânt dâl gwell a gallant arallgyfeirio eu profiad, megis cyfraith teulu, cyfraith mewnfudo ac ymchwiliadau.

87. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r llywodraeth wedi cynyddu nifer yr ymchwiliadau cyhoeddus yn sylweddol i ymateb i sgandalau neu feysydd pryder o fewn cymdeithas. Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Llywodraeth, ers 2005, pan weithredwyd y Ddeddf Ymchwiliadau, lansiwyd 63 o ymchwiliadau o'i gymharu â 41 yn yr 20 mlynedd flaenorol. Mae ymchwiliadau hefyd yn cymryd llawer mwy o amser ac ers 1997, ni fu erioed lai na phum ymchwiliad cyhoeddus yn rhedeg ar

unrhyw un adeg. Ym mis Ionawr 2026, mae 27 o ymchwiliadau ar y gweill neu wedi'u cyhoeddi – y mwyaf erioed ar un adeg.[424]

88. Mae ymchwiliadau'r llywodraeth yn gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol ac mae cost hyn yn cael ei reoli gan adran 40 o Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Nid yw ffioedd ar gyfer ymchwiliadau yn seiliedig ar gyfraddau cymorth cyfreithiol ac, o'i gymharu, mae'r llywodraeth yn gwario symiau sylweddol ar gynrychiolaeth gyfreithiol yn ystod ymchwiliadau cyhoeddus, ac maent yn darparu gwaith sefydlog, hirdymor a phroffidiol i gwmnïau cyfreithiol ac aelodau o'r Bar.

89. Er enghraifft, mae gwariant Ymchwiliad COVID-19 ar gwnsler a chyfreithwyr ers ei sefydlu yn 2023 wedi bod yn £48.5 miliwn ac ar gostau cyfreithiol sy'n ymwneud ag adran 40, mae costau cronnus ar hyn o bryd yn £42.9 miliwn.[425] Mae'r Ymchwiliad hwn wedi'i estyn i redeg tan ddiwedd 2026 a bydd costau cyfreithiol yn parhau i gynyddu. Hyd yn oed ar ben isaf y raddfa gwariant, roedd Ymchwiliad Thirlwall wedi gwario £2.4 miliwn ar gynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer 2023/24, a chynyddodd y gwariant cyfanswm ar gyfer 2024/25 i £8.6 miliwn.[426]

90. Mae'r potensial enillion sylweddol i weithwyr proffesiynol cyfreithiol sy'n ymwneud ag ymchwiliad yn rhoi straen ar feysydd eraill o waith a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys y LAA a rolau cyfreithiol eraill, gan na all y meysydd hynny gystadlu â thâl o'r fath ac ar hyn o bryd nid oes sylw dyledus i waith cyfreithiol llywodraethol arall. Er mwyn adnoddau'r ymchwiliadau hyn, yn aml tynnir bargyfreithwyr o'r un gronfa â'r rhai sy'n delio â threialon troseddol, ac mae hyn yn anochel yn effeithio ar yr adnodd cyfreithiol sydd ar gael i'r system cyfiawnder troseddol. Mae gwaith ychwanegol ar gael hefyd ar gyfer

---

424

425

426

disgyblaethau proffesiynol, er nad yw'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, sy'n rhoi straen ar yr adnodd yn y system.

91. Credaf fod y diffyg cysondeb yng nghyflogau gwahanol feysydd gwaith y mae'r llywodraeth yn eu cynnig yn cael effaith niweidiol ar y gweithlu cyffredinol sydd ar gael ym maes cyfiawnder troseddol. Fy ffocws yma yw deall y mecanwaith y mae lefel y ffioedd ar gyfer y math hwn o waith yn cael ei phennu drwyddo o'i gymharu â'r ffioedd sydd wedi'u pennu ar gyfer gwaith cymorth cyfreithiol mewn cyfraith droseddol. Y pryder yw bod ymarferwyr yn gadael ymarfer troseddol am fathau eraill o waith sydd hefyd yn cael eu hariannu'n gyhoeddus ac mae risg y bydd yn anos annog ymarfer mewn trosedd sydd mor hanfodol i weithrediad priodol cymdeithas: mae angen archwilio'r mater hwn.

92. Er mwyn gwella cadw cyfreithwyr troseddol ar draws y proffesiynau, byddai'n fuddiol cael gwell dealltwriaeth o'r gwahanol resymau pam mae cymaint yn gadael y gweithlu, a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Gwelaf enghreifftiau o gasglu gwybodaeth o'r fath drwy'r Arolwg Blynyddol o Agweddau'r Farnwriaeth. Mae'r arolwg hwn a arweinir yn fewnol yn rhoi cipolwg defnyddiol ar y gweithlu, morâl a'r heriau sy'n wynebu'r farnwriaeth.

93. Argymhellodd adroddiad blynyddol CLAAB fonitro data rheolaidd o'r Bar i fesur cynaliadwyedd y proffesiwn, a chasglu setiau data mwy manwl i asesu pa feysydd o'r gwaith yn y Bar Troseddol sydd angen y sylw mwyaf yn hyn o beth.

94. Ar hyn o bryd, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gytundeb rhannu data gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr a Chymdeithas y Bar Troseddol i alluogi'r adran i gasglu gwybodaeth am y gweithlu. Yn ei hadroddiad diweddaraf, ceir data cyfreithwyr, eiriolwyr cyfreithiol a bargyfreithwyr ar lefel uchel, sy'n rhoi trosolwg defnyddiol o'r adnoddau presennol yn y gweithlu. Cytunaf â CLAAB ynghylch gwerth rhannu data mwy manwl yn rheolaidd. Yn fwy penodol, byddai'n ddefnyddiol gwybod a oes digon o fargyfreithwyr a chyfreithwyr yn y gweithlu i ateb anghenion ar draws gwahanol waith cyfreithiol troseddol, amrywiaeth o fewn y gweithlu, y math a faint o waith y mae'r gweithwyr proffesiynol ym maes y

gyfraith hyn yn ei wneud ac a oes cynrychiolaeth ddigonol o gleientiaid a nifer ddigonol o siambrau a chwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol.

95. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn defnyddio'r cytundeb rhannu data presennol hwn i gasglu a monitro data Bar a chyfreithwyr mwy manwl ar gyfer ei gyflwyno yn y CLAAB. Bydd casglu'r data hwn yn caniatáu ar gyfer sgyrsiau agored a thystiolaethol gyda chyrff cynrychiolwyr ar y materion sy'n effeithio ar eu haelodau a gellir ei ddefnyddio i nodi meysydd pryder o fewn y gweithlu i alluogi'r LAA i ymateb yn unol â hynny.

Argymhelliad 160: Rwy'n argymell bod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn casglu data mwy manwl am fargyfreithwyr a chyfreithwyr, gan ddefnyddio'r cytundeb rhannu data presennol sydd ganddynt gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr a Chymdeithas y Bar Troseddol, i ddeall cynaliadwyedd y

Diwygio'r Farchnad

96. Hyd yn hyn yn y bennod hon, rwyf wedi nodi newidiadau i ffioedd cymorth cyfreithiol, o fewn y strwythur presennol, i dalu cyfreithwyr yn fwy effeithiol a gwobrwyo gwaith o safon ac amserol. Mae'r argymhellion hyn wedi'u seilio ar fy egwyddor graidd o sicrhau ei fod yn gywir y tro cyntaf a lleihau gwastraff. Ymhellach, ochr yn ochr â hyn rwyf wedi gwneud argymhellion ar sut i wella recriwtio a chadw cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol (a bargyfreithwyr), gan feithrin a chadw arbenigedd o fewn y system cyfiawnder troseddol.

97. O'm rhan i, credaf nad yw'r camau hyn yn unig yn ddigonol i ddiogelu dyfodol y gweithlu cyfreithiol troseddol. Fel y soniais, mae nifer y cyfreithwyr ar ddyletswydd a'r cyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf (gweler Ffigurau 10.1 a 10.2). Mae'r prinder yn y gweithlu yn cael effaith ar allu'r llysoedd troseddol i weithredu'n effeithlon ac mae'n cael effeithiau dilynol mewn sawl rhan o'r system a archwiliwyd yn yr Adolygiad hwn yr wyf yn eu nodi fel meysydd pryder, megis gwella'r cydweithio rhwng yr amddiffyniad a CPS, a PTPHs mwy effeithiol.

98. Wrth ysgrifennu'r Adolygiad hwn, yn weddol agos at gyhoeddi CLAIR, mae'n codi'r cwestiwn a oes angen diwygio mwy sylfaenol. Gwn fod awydd am ddiwygio ehangach yn y gweithlu, gyda chynigion yn canolbwyntio ar gydgrynhoi'r farchnad neu symud i fodelau o bell, a allai olygu bod cyfreithwyr yn darparu cyngor o bell yn yr orsaf heddlu, fel yr argymhellaf ym Mhennod 4 (Sicrhau ei fod yn Iawn y Tro Cyntaf) neu ar gyfer ymddangosiadau yn y llys. Roedd 1,150 o gwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol ledled Cymru a Lloegr yn 2023/24, ac er bod gofynion fel rhan o gontractau LAA i gadw swyddfeydd mewn ardaloedd lleol, mae nifer pur y cwmnïau cyfreithiol sy'n gweithredu yn y maes hwn yn anghynaladwy.[427] Ni fydd gweithio yn y modd hwn yn caniatáu i'r gweithlu dyfu ac addasu, gan gyfyngu ar y gallu i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol, ystyried gwahanol fodelau tâl neu weithredu newidiadau i wella'r amodau gwaith i wella cadw staff. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod angen ystyried unrhyw newidiadau o'r math hwn yn ofalus iawn ac mewn cydweithrediad â'r rhai sy'n ymarfer yn y farchnad ei hun.

99. Er mwyn sicrhau marchnad gynaliadwy, gallaf yn sicr weld rhinwedd rhyw fath o gydgrynhoi, boed hyn yn golygu cydgrynhoi gwaith neu'r cwmnïau eu hunain. Gallai'r ffurf y gallai hyn ei gymryd ddibynnu ar y ffordd y mae'r fframwaith cymorth cyfreithiol yn cael ei drefnu, sy'n gyfrifoldeb yr Arglwydd Ganghellor ac felly'n gyfrifoldeb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ei phennu. Rwy'n cydnabod bod materion sy'n effeithio ar y farchnad cymorth cyfreithiol yn gymhleth ac nid yw'r Adolygiad hwn yn addas i nodi (heb sôn am ragnodi) atebion. Y cyfan y gallaf ei wneud yw argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn archwilio modelau gweithredu gwahanol ar gyfer cymorth cyfreithiol ac yn gwneud hynny mewn cydweithrediad agos â'r rhai y mae unrhyw newid a allai gael ei wneud yn effeithio arnynt.

Argymhelliad 161: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r proffesiynau cyfreithiol i bennu'r model gweithredu gorau ar gyfer y farchnad cymorth cyfreithiol o ystyried yr amgylchiadau presennol.

427

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

100. Yn ogystal â'r heriau y mae'r gweithlu amddiffyn cymorth cyfreithiol yn eu hwynebu, rwyf yn ymwybodol bod heriau sylweddol hefyd yn wynebu gweithlu'r asiantaeth erlyn. Wrth ystyried hyn, byddaf yn canolbwyntio ar weithlu CPS, er fy mod yn cydnabod bod heriau eang ar draws awdurdodau erlyn lluosog.

101. Mae llwyth gwaith erlynwyr yn chwarae rhan sylweddol yn amseroldeb ac ansawdd penderfyniadau cyhuddo. Mae erlynwyr yn CPS yn gyfrifol am adolygu ffeiliau achos cymhleth a chymhwyso Prawf llawn y Cod gan roi cyngor ar dystiolaeth tra hefyd yn rheoli llwythi achosion uchel yn y llysoedd hefyd, fel y trafodaf ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf).

102. Trwy ymgysylltiad yr Adolygiad, rwyf wedi clywed y gall erlynwyr unigol fod yn gyfrifol am bortffolios o tua 200 o achosion agored, sy'n rhoi pwysau sylweddol ar eu capasiti i wneud penderfyniadau amserol a thrylwyr. Gall y swm hwn o waith, ynghyd â'r angen i ymateb i gyflwyniadau o ansawdd gwael a therfynau amser afrealistig, arwain at oedi ac aneffeithlonrwydd wrth symud achosion yn eu blaen.

103. Pan fo Erlynwyr dan straen, mae'r risg o golli cyfleoedd i ymgysylltu neu oruchwylio'n gynnar yn cynyddu; mae gan hyn y potensial (ar hyn o bryd) i greu cynlluniau gweithredu dro ar ôl tro ac arafu cynnydd achosion. Mae mynd i'r afael â'r pwysau hyn drwy well ansawdd ffeiliau, offer digidol gwell a chynllunio strategol ar gyfer y gweithlu yn hanfodol er mwyn gwella effeithlonrwydd a thegwch y broses gyhuddo.

104. Mae llwyth achosion cyn-cyhuddo CPS yn adlewyrchu nifer yr unigolion dan amheuaeth sy'n aros am gyngor cynnar neu benderfyniad cyhuddo, neu lle mae angen ymchwiliad pellach gan yr heddlu. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli faint o achosion a atgyfeiriwyd i CPS gan yr heddlu am benderfyniad. Rhwng Ch1 2019 a Ch2 2025, cynyddodd y llwyth achosion hwn 10.6%, gan godi o 54,910 i

60,708.[428] Mae'r duedd ar i fyny hon yn dangos bod galw cynyddol ar gapasiti gwneud penderfyniadau CPS, sydd ag oblygiadau ar gyfer amseroldeb ac effeithlonrwydd ar draws y system cyfiawnder troseddol.

105. Er mwyn ateb y galw hwn, mae CPS wedi ehangu ei weithlu, yn enwedig ymhlith Uwch Erlynwyr y Goron, sef y grŵp sy'n bennaf gyfrifol am adolygu achosion a gwneud penderfyniadau cyhuddo. Rhwng y flwyddyn yn diweddu Awst 2019 ac Awst 2025, cynyddodd nifer cyfwerth amser llawn Uwch Erlynwyr y Goron 32.9%, o 1,407 i 1,869.[429] Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn capasiti, mae'r ffaith bod y llwyth achosion cyn-cyhuddo wedi parhau i dyfu dros yr un cyfnod yn awgrymu bod pwysau ehangach, megis gofynion tystiolaeth mwy cymhleth a gofynion trefniadol, yn effeithio'n negyddol ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd y system.

106. Yn ogystal â'r pwysau llwyth gwaith, mae data demograffig yn tynnu sylw at heriau posibl yn y dyfodol. Ym mis Awst 2025, roedd 57.5% o gyfwerth amser llawn Uwch-erlynwyr y Goron yn 45 oed neu'n hŷn, ac roedd 28% dros 55 oed, sy'n dangos gweithlu sy'n heneiddio, yn debyg i weithlu'r cyfreithwyr ar ddyletswydd.[430] Mae hyn yn codi pryderon am gynaliadwyedd hirdymor, gan y gall cyfran sylweddol o erlynwyr profiadol ymddeol yn y blynyddoedd i ddod. Heb gynllunio gweithlu strategol a buddsoddi mewn recriwtio a chadw staff, mae CPS yn peryglu colli arbenigedd gwerthfawr, a allai roi straen pellach ar ei allu i reoli llwythi achosion cynyddol a chynnal penderfyniadau cyhuddo amserol.

107. Mae pob un o'r ffactorau a amlinellir yn yr adran hon yn effeithio'n uniongyrchol ar allu erlynydd i wneud penderfyniadau cyhuddo effeithiol. Ym Mhennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Sicrhau ei fod yn Gywir y Tro Cyntaf), canolbwyntiais yn

---

428

429

430

fwriadol ar dechnoleg fel thema ganolog wrth effeithio ar benderfyniadau cyhuddo, gan fy mod yn credu ei bod yn un o'r cymhellion i ddatrys llawer o'r problemau systemig ac i gefnogi erlynwyr yn eu rolau. Nid yw moderneiddio seilwaith digidol yn ymwneud â gwella effeithlonrwydd gweithredol yn unig; mae hefyd yn ymwneud â chefnogi lles erlynwyr sy'n rheoli llwythi achosion cynyddol gymhleth a chyfaint uchel. Wrth i'r galwadau ar y system cyfiawnder troseddol barhau i esblygu, rhaid i brosesau CPS gyd-fynd â'r tirlun newidiol hwn.

108. Yn y bennod hon, rwyf wedi canmol ymgyrch recriwtio 'Ewch i Erlyn CPS, i annog gweithwyr proffesiynol cyfreithiol cymwys yn ôl i'r gweithlu, ac rwyf yn canmol ymdrechion y DPP i feithrin capasiti ac arbenigedd ar draws CPS. Fodd bynnag, yn anochel, daw llawer o recriwtiaid o gyfreithwyr ac o fargyfreithwyr amddiffyn sy'n ymarfer, a thrwy hynny effeithio ar y garfan sydd ar gael i amddiffyn achosion troseddol. Er nad wyf wedi gwneud argymhellion penodol ar gyfer CPS, rwy'n gobeithio, trwy gynyddu nifer y bobl sy'n ymuno â'r proffesiynau cyfreithiol troseddol trwy fy argymhellion yn Rhan I ac yn y bennod hon, y byddaf yn cefnogi gallu CPS i feithrin capasiti heb leihau'r gymuned amddiffyn. Fy nod yw y dylai'r cynnydd hwn yng nghapasiti cyffredinol ar draws y system cyfiawnder troseddol, ynghyd â'm cynigion ar gyfer atebion technolegol i leihau gofynion eu gwaith a drafodir drwy gydol Rhan II, gefnogi gweithlu cadarn a chynaliadwy.

Y Farnwriaeth

109. Hyd yn hyn yn y bennod hon, rwyf wedi gwneud argymhellion sy'n canolbwyntio ar welliannau i recriwtio a chadw'r gweithlu cyfreithiol. Yn yr adran hon, byddaf yn mynd i'r afael â themâu tebyg fel y maent yn ymwneud â'r farnwriaeth.

Ynadon

Recriwtio

110. Fel y nodir yn Rhan I o'r Adolygiad hwn, mae'r llys ynadon yn delio â dros 90% o achosion troseddol, felly byddaf yn dechrau trwy fynd i'r afael â'r pryderon

ymhlith y gweithlu hwn.[431] Yn Rhan I, rwy'n rhoi trosolwg manwl o'r system ynadon bresennol, ond yn gryno, gwirfoddolwyr yw ynadon sy'n eistedd o leiaf 13 diwrnod llawn (neu 26 hanner diwrnod) am o leiaf bum mlynedd hyd at 75 oed.[432] Nid ydynt wedi'u hyfforddi'n gyfreithiol ac fe'u cynorthwyir yn eu rôl gan gynghorwyr cyfreithiol – ac rwy'n esbonio sut maent yn gweithio gyda'i gilydd yn gynharach yn y bennod hon.

111. Mae llys ynadon yn gwrando cyhuddiadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o droseddau ac, o ran ei waith treialu, mae'n chwarae rhan hanfodol yn y system cyfiawnder troseddol, gan ymdrin ag amrywiaeth eang o achosion yn amrywio o droseddau bach i droseddau mwy difrifol. Mae llys ynadon yn gallu pasio dedfrydau gan gynnwys dedfrydau o garchar ac amrywiaeth o orchmynion ategol gan gynnwys cosbau penodol ar gyfer traffig ffordd a gwaharddiadau. Mae ynadon yn rhan annatod o bwrpas pennaf y system llysoedd – cyflwyno cyfiawnder.

112. Er gwaethaf eu pwysigrwydd i gyflawni cyfiawnder troseddol, mae nifer yr ynadon wedi gostwng yn raddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan ostwng o tua 28,300 i 14,600 yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.[433] Ar 1 Ebrill 2025, o'r 14,600 o ynadon yn y gweithlu, recriwtiwyd tua 900 ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod nifer yr ynadon wedi gostwng, mae'r llwyth gwaith yn parhau i fod yn uchel gyda nifer y derbyniadau yn 2024 yn dychwelyd i lefelau a welwyd cyn pandemig COVID-19, gan ragori ar y rhai yn 2018 ond ychydig yn is na'r lefelau yn 2019.[434] Yn ôl rhagolygon Weinyddiaeth Gyfiawnder, rhagwelir y bydd y galw ar lys ynadon

---

431

432

433

434

yn codi ar gyfradd sy'n gostwng yn raddol, gyda'r galw yn llys ynadon ym mis Mawrth 2030 9% yn uwch na'r lefel a welwyd yn ystod y 12 mis hyd at fis Mehefin 2025.[435]

113. Rwyf yn pryderu am y gostyngiad hwn yn nifer yr ynadon, ac y bydd y gweithlu hwn dan straen pellach wrth i nifer yr achosion a ddelir yn llysoedd yr ynadon godi ymhellach yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth i ddileu'r hawl i ethol yn ei gyfanrwydd ac i gynyddu pwerau dedfrydu yn llys yr ynadon i 18 mis ar gyfer trosedd neillffordd. Nid yw sicrhau nifer digonol o ynadon yn y system yn broblem newydd ac mae'n rhywbeth y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol ohono ac wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael ag ef. Er bod y rhan hon o'r bennod yn canolbwyntio ar ynadon, rwyf am bwysleisio pwysigrwydd fy argymhelliad yn Rhan I i gynyddu penodiadau i'r swydd fel Barnwr Rhanbarth Dirprwyol (llys yr ynadon) i ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw yn y llys hwn er mwyn sicrhau bod y llys yn cael ei adnoddau'n gyfan gwbl.

114. Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer yr ynadon i sawl ffactor, gan gynnwys y baich a roddir ar ynadon, fel gwirfoddolwyr, ar eu cyllid a'u hamser, y gweithlu sy'n heneiddio a dirywiad cyffredinol cyfraddau gwirfoddoli yng nghymdeithas heddiw.[436]

115. Goruchwylir recriwtio ac anwytho ynadon gan Bwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch. Mae'r rhain yn gyrff cyhoeddus adrannol an-ymgynghorol, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr, sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr Arglwydd Ganghellor. Mae 23 o Bwyllgorau Ymgynghorol

---

435

436

ledled Cymru a Lloegr, ac mae ganddynt ddwy swyddogaeth, ac un ohonynt yw recriwtio. Maent yn pennu ac yn goruchwylio cylchoedd recriwtio ar lefel leol.

116. Rwyf yn ymwybodol bod diddordeb gan lawer o aelodau'r cyhoedd mewn bod yn ynad, gyda ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus yn digwydd. Mae dros 4,000 o geisiadau wedi'u gwneud ym mhob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf ac roedd uchafbwynt o fwy na 2,000 o apwyntiadau yn cael eu gwneud yn 2023/24.[437] Fodd bynnag, un o'r prif broblemau gyda manteisio ar y diddordeb hwn yw hyd y broses recriwtio a chyflwyno; ymhellach, mae sawl ffactor sy'n gwaethygu'r hyd amser sy'n mynd heibio rhwng y cais a'r cymeradwyaeth i eistedd.

117. Yn gyntaf, cyhoeddir swyddi gwag ar gyfer ynadon yn lleol, yn aml dim ond unwaith y flwyddyn, ac mae hyd y ffenestr recriwtio yn amrywio. Gall hyn arwain at ddarpar ynad â diddordeb yn 'methu'r' dyddiad cau ac yn gorfod aros hyd at 12 mis cyn y gallant wneud cais eto, gan dybio bod ganddynt ddiddordeb o hyd. Yn aml nid yw'r rowndiau recriwtio lleol yn cyd-fynd â ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol, a gall hyn greu cyfleoedd a gollwyd os nad yw pobl yn gallu gwneud cais neu os nad ydynt yn glir ynghylch pryd fydd y rownd recriwtio nesaf.

118. Mae'r broses bresennol ar gyfer rhagweld nifer y swyddi gwag yn Ynadaeth yn gymhleth ac mae'n gwaethygu heriau recriwtio ymhellach oherwydd ei hanhyblygrwydd. Mae'r broses i bennu recriwtio yn cynnwys cyfrifiad mathemategol yn seiliedig ar nifer cyfartalog yr eisteddiadau gan ynadon fesul Mainc yn y blynyddoedd blaenorol, maint disgwyliedig y Fainc a'r sesiynau a gynllunnir yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn ystyried recriwtio sydd eisoes wedi'i gymeradwyo, ymddeoliadau hysbys a lwfans ar gyfer ymadael annisgwyl. Nid yw rhagweld targedau recriwtio fel hyn yn ategu model recriwtio treigl a gall arwain at gyfnodau lle nad oes unrhyw recriwtio yn digwydd ac yna cyfnodau lle mae angen recriwtio cymaint o ynadon â phosibl. Gall dull o'r fath arwain at fainc

437

sydd â nifer anghymesur o ynadon mewn grŵp oedran penodol. Gyda llwyth gwaith cynyddol, bydd angen i nifer yr ynadon gynyddu yn y blynyddoedd i ddod ac mae angen i hyn gynnwys recriwtio cyson: mae angen inni symud oddi wrth sefyllfa o ormodedd neu brinder.

119. Yn ail, rwyf wedi clywed ar lafar fod rhai ymgeiswyr yn adrodd y gall y broses bresennol, o wneud cais i gael eich penodi, gymryd bron i flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys arsylwi llysoedd, cyfweliadau, a chwblhau'r gwiriadau perthnasol cyn ffurfioli'r penodiad. Hyd yn oed ar ôl y broses hir hon, gall dechrau eistedd gael ei ohirio ymhellach yn dibynnu ar pryd y cynhelir cyrsiau hyfforddi. Os bydd ynad newydd wedyn yn cwblhau hyfforddiant yn fuan ar ôl i rota'r llys gael ei gyhoeddi, sef bob chwe mis, gall hyn arwain at ynadon newydd gymwysedig yn gorfod aros sawl mis cyn iddynt ymddangos yn rota'r llys i eistedd. Nid yw hyd y broses, a beth yn union y mae'n ei olygu, yn cael ei egluro i ddarpar ymgeiswyr ac mae yna ddatgysylltiad ynghylch disgwyliadau.

120. Gwelaf yr angen dybryd am newid o fewn y system bresennol i greu proses reolaidd a mwy amser effeithlon ar gyfer recriwtio ac anwytho ynadon. Fodd bynnag, mae'r amrywiad ar lefelau lleol o ran faint o amser y mae pethau'n ei gymryd, a'r diffyg dull canolog, yn ei gwneud hi'n anodd gwneud newidiadau i'r broses. Gallai dull canolog hwyluso recriwtio parhaus, ei gwneud hi'n haws i ragweld anghenion capasiti a symleiddio nifer y bobl sy'n ymwneud â'r broses recriwtio.

121. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi llunio rhaglen waith, gyda phrosiectau cysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer yr ynadon trwy wella'r broses recriwtio o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer ynadon, yn ogystal â chynnig cymorth a chydnabyddiaeth. Mae piler cyntaf y rhaglen hon yn canolbwyntio ar ddenu a recriwtio ynadon newydd, a rhai o gefndiroedd amrywiol, mewn niferoedd gofynnol a chynaliadwy. Er mwyn deall beth fydd yn gweithio i gael gwared ar rwystrau i recriwtio mwy o ynadon, lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder beilot o broses recriwtio ddiwygiedig ym mis Tachwedd 2025 ar draws tri maes blaenoriaeth (De-orllewin, Gogledd-orllewin a De-ddwyrain Lloegr). Defnyddir y

meysydd hyn i brofi effeithiolrwydd y newidiadau wrth gynyddu trwygyrch, gwella amseroldeb a nodi a mynd i'r afael â heriau capasiti.


122. Bydd y cynllun peilot yn ceisio dangos effeithiolrwydd y newidiadau arfaethedig i'r broses recriwtio a nodi lle y gellid ei symleiddio. Mae hyn yn cynnwys yr amserlen recriwtio a symud i gylchoedd recriwtio mwy rheolaidd sydd wedi'u safoni ledled y wlad i gynyddu cyfleoedd i wneud cais; lleihau nifer y bobl sy'n ymwneud â'r broses cyn cyfweliad a'r broses gyfweld i gyflymu'r camau hyn a gweld recriwtio cyflymach; a dileu profion cymhwyso i leihau oedi cyn penodi.

123. Fel y dangosir yn Ffig. 10.6 isod, yn 2025, roedd dros 50% o'r ynadon eistedd presennol dros 60 oed. Gan fod rhai o'r ynadon hyn yn fwy tebygol o fod wedi ymddeol o'u gyrfaoedd, mae hyn yn eu galluogi i eistedd yn sylweddol fwy na'u cyfoedion iau ac yn aml yn fwy na'r nifer lleiaf o ddyddiau. Nid yn unig y mae hyn yn cyflwyno'r un heriau y cyfeiriais atynt mewn perthynas â'r gweithlu cyfreithiol, fel y bydd cyfran sylweddol o'r rhain yn rhoi'r gorau i wirfoddoli ymhen deng mlynedd, ond rhaid i'r ymdrechion i recriwtio ynadon iau roi sylw dyladwy i'w hargaeledd. Byddant yn rheoli eu cyflogaeth a'u cyfrifoldebau gofalu, a bydd hyn yn effeithio ar eu gallu i eistedd ar eu capasiti, yn ogystal ag ar fyr rybudd. Rwyf hefyd wedi clywed ar lafar am achosion lle mae rhai cyflogwyr yn amharod i ganiatáu i'w gweithwyr eistedd fel ynadon, ac mae hyn yn peri pryder o ran adeiladu'r Ynadaeth.

Figure 10.6

Percentage of magistrates in post in each age group on 1 April of each year

England and Wales, 2017 - 2025



As of 2024, the 60+ category became 60-69 and a 70+ category was added.

Source: MoJ Diversity of the judiciary: 2025 statistics

124. Cefais fy nghalonogi gan yr ymdrechion a wneir eisoes gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ateb y galw am ynadon a'i chynllunio ymlaen ar recriwtio ynadon ychwanegol i ateb y galwadau disgwyliedig sy'n deillio o weithredu argymhellion Rhan I o'r Adolygiad hwn. Fodd bynnag, wrth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymdrechu i recriwtio Ynadaeth fwy amrywiol o ran oedran, rhaid iddi ystyried patrymau gwirfoddoli gwahanol ynadon iau wrth gynllunio ymlaen.

Argymhelliad 162: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau â'i hymdrechion i fynd i'r afael â'r heriau o ran denu a recriwtio ynadon, gyda datrysiadau sy'n mynd i'r afael â chyflymder y broses recriwtio a pha mor aml y mae recriwtio yn digwydd. Rwyf yn annog y Weinyddiaeth Gyfiawnder i weithredu ar ganfyddiadau o'r cynlluniau peilot yn gyflym er mwyn recriwtio'r nifer gofynnol o ynadon cyn gynted â phosibl.

125. Ynghyd â chynyddu maint yr Ynadaeth, rhaid iddynt fod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl wrth eistedd, gyda'r ynadon presennol yn gallu blaenoriaethu eu hamser yn briodol.

126. Er mwyn eistedd fel ynad, rhaid i ymgeiswyr ymgymryd â phroses hyfforddi a sefydlu drylwyr sydd ar waith i sicrhau bod person lleyg yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i eistedd yn llys ynadon. Nid oes gofyn iddynt gael hyfforddiant cyfreithiol, ond yn hytrach disgwylir iddynt ganolbwyntio ar feithrin eu crefft fel aelod o'r farnwriaeth. Cytunir ar yr hyfforddiant hwn ar y cyd rhwng GLlTEF a'r Coleg Barnwrol, ond fe'i darperir gan GLlTEF ac, ar gyfer ynadon, fe'i cefnogir gan Barnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon). Mae'n rhan hanfodol o'r broses gan ei bod yn paratoi penodigion i fod yn ynadon effeithiol ac yn gwarantu ansawdd yr Ynadaeth. O'r herwydd, ni ddylid brysio'r hyfforddiant.

127. Mae hyfforddiant ynadon yn cymryd rhwng 15 ac 18 mis i'w gwblhau, ac mae'r broses wedi'i rhannu'n sawl cam. Cyn eistedd, mae ynadon yn ymgymryd â Hyfforddiant Craidd (sy'n anelu at eu croesawu i'r llys ac yn eu harfogi â'r sgiliau digidol a dealltwriaeth o systemau TG) ac maent yn eistedd yn y llys gyda'u mentor. Ym mlwyddyn gyntaf eistedd, maent yn parhau i ymgysylltu â'r mentor ac yn myfyrio ar brofiadau ac yn ymgymryd ag e-ddysgu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o brosesau llys, gan gynnwys amrywiaeth a thriniaeth gyfartal, y Gwasanaeth Prawf a datblygu gwybodaeth arbenigol am feysydd megis caethwasiaeth fodern, cam-drin domestig a niwroamrywiaeth. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae ynadon yn meithrin ac yn atgyfnerthu eu dysgu profiadol ac yna'n ymgymryd ag arfarniad.

128. Er mwyn hwyluso sefydlu ynadon newydd, disgwylir i ynadon sy'n eistedd gefnogi cyfweliadau (os ydynt ar y Pwyllgor Ymgynghorol Recriwtio) a chynnig eu hamser i fentora a sefydlu pobl yn y rôl, gan weithredu'n aml fel mentor am hyd at 18 mis. Mae hyn yn rhan werthfawr o hyfforddiant, ond gyda'r ymgyrch i recriwtio niferoedd uchel o ynadon ac i wneud y mwyaf o gapasiti ynadon presennol, ni ddylai hyn rwystro recriwtio. Rhaid rhoi ystyriaeth felly i sut y caiff ynadon eu sefydlu ac a yw'r model presennol ar gyfer sut mae ynadon presennol yn cymryd rhan yn y broses sefydlu a hyfforddi yn gynaliadwy ac yn addas i'r diben.

129. Credaf hefyd fod teilyngdod mewn archwilio disgrifiad swydd ynad a'r cyfrifoldebau ychwanegol y maent yn ymgymryd â hwy. Ar hyn o bryd caiff ynadon eu gwerthuso bob pedair blynedd, gyda Ynadon Llywyddol yn cael eu gwerthuso bob dwy flynedd, a chaiff hyn ei wneud gan ynadon eraill sydd wedi'u hyfforddi a'u cymeradwyo fel gwerthuswyr.[438] Gall ynadon hefyd wneud cais i fod yn aelodau ar y pwyllgorau amrywiol sy'n cefnogi prosesau gweinyddol yr Ynadaeth, megis y Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio ac Ymddygiad unigol. Yn y rolau hyn, maent yn darparu cymorth pwysig i'r Arglwyddes Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn eu cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer recriwtio barnwrol a disgyblaeth yn cynnwys ynadon.

130. Mae'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn cymryd amser gwirfoddoli gwerthfawr ac mae'n fwyaf tebygol eu bod yn cael eu hysgwyddo gan ynadon sydd yn fwy ymroddedig i'w rôl, gan ymestyn eu capasiti ymhellach. Er fy mod yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau ac na fyddwn yn dymuno gweld newidiadau sy'n dileu agweddau ystyrlon a datblygiadol ar y rôl, a allai yn ei dro gefnogi cadw staff, rwyf hefyd yn cydnabod yr effaith y gall hyn ei chael ar draws y system ar gapasiti'r llys. Prif gyfrifoldeb Arglwyddes Brif Ustus yw rôl yr ynad, ac felly rwyf yn cyfeirio fy argymhelliad i'w swyddfa hi i barhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried beth y gellid ei wneud i leddfu'r pwysau mewn swyddi penodedig er mwyn rhyddhau capasiti yn yr Ynadaeth a bod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio'r aelodau i'w capasiti mwyaf.

Argymhelliad 163: Rwy'n argymell bod yr Uwch Farnwriaeth yn parhau i weithio'n agos â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth iddi ddiwygio rôl ynad, gan gynnwys sut y cânt eu hyfforddi, eu derbyn i'r ynadaeth a swyddogaethau'r rôl.

131. Cefais fy nghalonogi gan waith presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella'r broses recriwtio o'r dechrau i'r diwedd drwy edrych ar sut y gellir symleiddio ac adnewyddu recriwtio cyn cynnydd disgwyliedig yn y galw am waith yn y llys ynadon. Rwyf hefyd yn cydnabod rôl hir sefydlog Pwyllgorau Ymgynghorol lleol

438

wrth drefnu recriwtio a chyflawni eu swyddogaethau ar ran yr Arglwydd Ganghellor. Fodd bynnag, credaf fod mwy i'w wneud o ran moderneiddio – yn benodol, byddwn yn annog ystyried model cenedlaethol ar gyfer recriwtio i gynyddu effeithlonrwydd a gwella recriwtio, cyfnodau sefydlu a hyfforddiant.

132. Mae'r cynllun peilot presennol sy'n cael ei redeg gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi cyfle i adolygu sut mae'r system yn gweithredu a gwneud gwelliannau. P'un ai drwy symud i ddull mwy canolog, cenedlaethol, o ragweld recriwtio neu drwy leihau nifer y pwyllgorau cynghori yn syml, ni ddylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder osgoi newid. Mae'r Ynadaeth wedi bodoli ers i Ddeddf Ynad Heddwch ddod i rym ym 1361 ac mae wedi esblygu'n raddol i ddiwallu anghenion y gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu.[439] Sefydlwyd Pwyllgorau Ymgynghorol i greu tegwch o fewn yr Ynadaeth drwy ddileu penodiadau trwy gysylltiadau personol. Wrth i ffyrdd mwy modern o weithio gael eu cofleidio, mae angen i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder addasu hefyd.

cadw staff

133. Mae angen i'r argymhellion sy'n canolbwyntio ar recriwtio a meithrin capasiti yn yr Ynadaeth gael eu cefnogi gan ymdrechion i wella eu cadw. Dyma bolisi yr wyf yn ei hyrwyddo yn y bennod hon mewn perthynas ag eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol. Mewn perthynas â'r Ynadaeth, bu newid yn y cyfnod y mae pobl yn barod i'w wasanaethu, gyda rhesymau'n amrywio o ymrwymiad amser, newid agweddau tuag at wirfoddoli neu o ganlyniad i beidio â theimlo'n cael eu gwerthfawrogi.

134. Pan ofynnwyd i ynadon pam eu bod yn gwirfoddoli, dywedodd y rhai a ymatebodd eu bod yn falch o fod yn rhan o wasanaeth cyhoeddus, a chyfeiriasant at ymdeimlad cryf o ymwybyddiaeth ddinesig a'u hymdeimlad o ddyletswydd i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned fel y rhesymau pwysicaf pam eu bod yn gwirfoddoli. O blith y rhai a ymatebodd i arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas

---

439

yr Ynadon, cytunodd 98% â'r datganiad, 'Rwy'n darparu gwasanaeth pwysig i'm cymuned trwy fod yn ynad.'[440] Mae'n amlwg bod yr Ynadaeth yn cynnwys y rhai sydd wedi ymrwymo i wasanaeth cyhoeddus, ac os na wneir mwy i'w cadw, bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar gapasiti'r system ehangach ac yn gwrth-ddweud ymdrechion recriwtio. Ymhellach, cyn belled ag y bydd ynadon cymwysedig yn parhau i chwarae rhan graidd yn y broses o gyflwyno ynadon newydd, heb ddigon ohonynt i gefnogi hyfforddiant recriwtiaid newydd, bydd yn creu tagfeydd o fewn y broses recriwtio, ac ni fydd y llys yn gweld manteision o ymdrechion recriwtio gwell.

135. Un ffordd o wella cadw ynadon, yw ystyried sut i wobrwyo a chydnabod eu gwasanaethau i gymdeithas. Deallaf fod y cyfrifoldebau ar gyfer gwobrwyo a chydnabod wedi'u rhannu rhwng y llywodraeth a'r Swyddfa Farnwrol, gyda'r llywodraeth yn dal cyfrifoldebau ar gyfer treuliau a'r Swyddfa Farnwrol yn berchen ar bolisïau ynghylch cydnabod. Fodd bynnag, credaf fod angen dull ar y cyd i gydnabod cyfraniad ynadon.

136. Canfu adroddiad 2022 gan Gymdeithas yr Ynadon 'Ni ddylai costio i wirfoddoli' fod 73% o'r ymatebwyr wedi nodi bod bod yn ynad wedi creu rhywfaint o gost ariannol iddynt a dywedodd 57% bod eistedd fel ynad ym mis Mawrth 2022 wedi eu gadael â mwy o golled ariannol nag a wnaeth flwyddyn ynghynt.[441] Gall ffactorau allanol gyfrannu at hyn, fel costau trafnidiaeth cynyddol, ond y teimlad cyffredinol yw nad yw'r system dreuliau bresennol yn adlewyrchu cost wirioneddol gwirfoddoli.

137. Mae gan GLlTEF ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei weinyddu'n gywir ac yn briodol o dan Ddeddf y Llysoedd 2003. Diweddarwyd costau ynadon ddiwethaf yn 2021 ac, yn 2024, ymrwymodd yr Arglwydd

---

440

441

Ponsonby, yr Is-Ysgrifennydd Seneddol Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y pryd, i adolygiad arall o gostau ynadon, a oedd i fod i ddigwydd yn 2025 i ddechrau, ond y disgwylir iddo ddigwydd yn 2026 erbyn hyn. Gwn fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn paratoi ymgynghoriad ar ddiweddaru Polisi Costau Ynadon, ac rwyf yn hyderus ei bod yn deall pwysigrwydd iawndal priodol i ynadon er mwyn cynorthwyo i'w cadw a'u cefnogi.

138. Nid wyf am ymyrryd â'r gwaith parhaus i gynhyrchu'r ymgynghoriad hwn ac yn dilyn hynny ddiwygio treuliau ynadon. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i wneud y broses hon yn haws. Mae Adran 15 o Ddeddf y Llysoedd 2003 yn rhagnodi'r categorïau o dreuliau y mae ynadon yn gymwys i'w hawlio, megis teithio a chynhaliaeth. Nodir hyn mewn prif ddeddfwriaeth ac o ganlyniad mae'n cyfyngu ar y gallu i wneud gwelliannau amserol i dreuliau i ymateb i anghenion ynadon. Er mwyn cynyddu hyblygrwydd a hwyluso gwneud newidiadau o'r fath, byddwn yn annog Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried symud hyn i ddeddfwriaeth eilaidd.

Argymhelliad 164: Rwy'n argymell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud y pŵer a geir mewn prif ddeddfwriaeth sy'n manylu ar dreuliau gwirfoddolwyr i ddeddfwriaeth eilaidd i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth wneud newidiadau i dreuliau ynadon, gan alluogi ymatebion cyflymach i newidiadau mewn gofynion treuliau.

Byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddiwygio'r drefn dreuliau yn y dyfodol, pe bai angen, wrth i natur gwaith ynadon esblygu.

139. O blith yr ynadon sydd wedi ystyried ymddiswyddo cyn yr oedran gofynnol o 75, dywedodd 66% nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel prif reswm dros ystyried gwneud hynny.[442] Un enghraifft o'r ffyrdd y mae cydnabyddiaeth yn wahanol i ynadon nag i weision sifil eraill yw ar wobrwyo medalau gwasanaeth hir. O gymharu'r gydnabyddiaeth o weision sifil, ynadon

[442]

yw'r unig brif grŵp o wirfoddolwyr yn y sector cyhoeddus nad ydynt yn derbyn medal gwasanaeth hir. Maent yn derbyn tystysgrif ar ôl deng mlynedd, 20 mlynedd a 30 mlynedd o wasanaeth, ond, er enghraifft, mae gwirfoddolwyr Ambiwlans St John yn derbyn medal ar ôl deng mlynedd o wasanaeth ynghyd â bar bob pum mlynedd ar ôl hynny, wedi'i aur-baentio ac aur, ac mae criwyr tref yn derbyn medal ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth.[443] Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn derbyn y wobr hon hyd yn oed mewn rolau cyflogedig, ac er bod ffyrdd eraill o gydnabod y cyfraniadau yn y sector cyhoeddus, mae bwlch cydnabyddiaeth clir i ynadon.

140. Deallaf fod cydnabyddiaeth o'r natur hon yn swyddogaeth farnwrol, a byddai Swyddfa Farnwrol yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod ynadon yn teimlo eu bod yn cael eu gweld a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Fodd bynnag, i gyd-fynd â'r rhaglenni gwaith presennol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i feithrin capasiti o fewn yr Ynadaeth, rwy'n annog y Swyddfa Farnwrol i ystyried sut y gallant gydnabod cyfraniadau ynadon yn fwy effeithiol i gynorthwyo i'w cadw o fewn y gweithlu.

Argymhelliad 165: Rwy'n argymell bod y Swyddfa Farnwrol yn ystyried y ffordd orau o gydnabod cyfraniadau ynadon.

141. Mae'n bwysig bod llysoedd ynadon yn adlewyrchu'r cymunedau lle maent yn gweithredu, gan sicrhau'n arbennig bod yr ynadon eu hunain yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau lleol. Credaf y gellir cadw cysylltiadau â chymunedau lleol, wrth ymdrechu i fod yn fwy effeithlon gydag amser a safoni dulliau gweithredu i greu mwy o gysondeb, tra hefyd yn parhau i sicrhau mynediad teg a chyfartal.

443

Barnwyr Cyflogedig a Barnwyr a Dalwyd am Ffioedd

Recriwtio

142. Yn Rhan I, argymhellais y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder anelu at gynyddu nifer y dyddiau eistedd i 130,000 pan fo hynny'n bosibl (gan gofio am gyllid, ochr yn ochr â'r capasiti ar draws y system cyfiawnder troseddol) er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r diwygiadau arfaethedig. Argymhellais hefyd y dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr â newid deddfwriaethol i weithredu Adran Mainc Llys y Goron. Er mwyn bodloni'r disgwyliad hwn, rhaid darparu adnoddau llawn i'r farnwriaeth a'i harfogi i ymdrin â'r cynnydd mewn trwygyrch achosion mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae ffigurau recriwtio mewnol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dangos bod targedau mewn perthynas â recriwtio'r farnwriaeth (yn enwedig y farnwriaeth a delir ffioedd) yn cael eu bodloni i raddau helaeth.[444]

Gwn nad yw hyn heb heriau a bod gwelliannau y gellir eu gwneud i brosesau recriwtio i wneud hyn yn haws ac yn fwy syml.

143. O fewn y farnwriaeth sy'n eistedd yn y llysoedd troseddol, ac at ddibenion yr adran hon o'r bennod, byddaf yn cyfeirio at Farnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon) a Barnwyr Cylchdaith cyflogedig, a Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon) a Chofiaduron fel eu cymheiriaid sy'n cael eu talu fesul ffi.

144. Wrth gymharu barnwyr a sy'n derbyn ffi a barnwyr cyflogedig, gellir aml weld rolau sy'n derbyn ffi fel rhai mwy deniadol na rolau cyflogedig. Gall barnwyr sy'n derbyn ffi (sy'n gyfansoddol adnodd hyblyg, wedi'i ddefnyddio i ranbarthau penodol i lenwi bylchau) barhau mewn practis preifat, cânt hyblygrwydd mwy ar eu hamserlen waith a delir iddynt yn ôl nifer y dyddiau eistedd a weithir.[445]

Barnwyr cyflogedig, er bod ganddynt sicrwydd swydd ac wedi'u lleoli mewn un lleoliad, yn gyffredinol ni allant ddychwelyd i bractis preifat ac yn eistedd yn rheolaidd ar achosion mwy cymhleth gan y gallant gefnogi treialon hirach, tra

---

444

445

hefyd yn rheoli cyfrifoldebau arweinyddiaeth a gweinyddol. Ar ben hynny, oherwydd her gyfreithiol, mae barnwyr sy'n derbyn ffi a barnwyr cyflogedig bellach yn derbyn yr un budd-daliadau gan gynnwys pensiynau, felly o safbwynt ariannol yn unig efallai y bydd ychydig o fudd-daliadau i swydd gyflogedig.

145. Mae effaith hyn ar nifer y barnwyr llys cyflogedig yn amlwg. Mae wedi cynyddu bron i 10% rhwng Ebrill 2017 ac Ebrill 2025, tra bod barnwyr sy'n derbyn ffi wedi cynyddu dros 17.5% yn yr un cyfnod (gweler Ffig. 10.7).[446]

146. Archwiliwyd pa mor ddeniadol yw swyddi cyflogedig yn ddiweddar gan Dr Sophie Turenne o Brifysgol Caergrawnt yn ei hadroddiad 2025 'Cymhellion i wneud cais am swydd farnwrol gyflogedig'.[447] Canfu Dr Turenne, er bod cyflog yn ffactor pwysig a dylid ei ystyried fel rhan o'r cynnig ar gyfer Barnwr cyflogedig, bod meysydd pryder critigol eraill y dylid mynd i'r afael â nhw fel rhan o becyn cyfan. Mae hyn yn cynnwys potensial llonydd mewn swyddi cyflogedig, llwyth gwaith cynyddol canfyddedig, heriau gyda gweithio oriau rhan-amser, ansicrwydd ynghylch lleoliad y defnydd a phrosesau recriwtio hir.

147. Ym mis Mai 2025, comisiynodd yr Arglwydd Ganghellor y Corff Adolygu Cyflogau Uwch (SSRB) i gynnal Adolygiad Sylweddol o strwythur Cyflog y Farnwriaeth.[448] Comisiynwyd Adolygiad Sylweddol gan yr SSRB ddiwethaf yn 2018, ac mae'r ymarferion hyn yn rhoi cyfle i archwilio'r materion sylfaenol sy'n effeithio ar gyflog barnwrol gyda mewnbwn ac ymgynghoriad gan brif gynrychiolwyr i sicrhau bod cynigion wedi'u hysbysu'n dda. Disgwylir i ganfyddiadau'r Adolygiad Sylweddol

---

446

447

448

gael eu cyflwyno i'r Arglwydd Ganghellor ym mis Tachwedd 2026, ac mae argymhellion yn debygol o ran materion allweddol megis prinder recriwtio, atyniad swyddi barnwrol a threfniadaeth ac arweinyddiaeth.

148. Er, yn amlwg, nid wyf yn gwybod beth fydd yr Adolygiad Sylweddol yn ei argymell, rwyf yn hyderus o'i Gylch Gorchwyl y bydd yn darparu atebion ymarferol i'r materion y rhoddwyd gwybod i mi amdanynt trwy ymgysylltu yn yr Adolygiad hwn.[449] Mae hyn yn cynnwys: heriau recriwtio daearyddol a rôl-benodol; rhoi sylw dyledus i gyfrifoldebau ychwanegol barnwyr cyflogedig yn eu rolau arweinyddiaeth; y llwyth gwaith cynyddol canfyddedig; ac ystyried rôl barnwyr sy'n derbyn ffi a sut maent yn cefnogi swyddogaeth weinyddol y llysoedd lle maent yn eistedd.[450]

149. Fodd bynnag, cyn cyhoeddi'r Adolygiad Sylweddol, manteisiaf ar y cyfle i dynnu sylw at feysydd eraill sy'n peri pryder sydd wedi'u rhannu â mi drwy gydol fy ymgysylltiad ar gyfer yr Adolygiad hwn. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r broses gyffredinol ar gyfer llenwi swyddi gwag barnwrol, o'r pwynt cyflogi hyd at ymddeoliad.

150. Fel y crybwyllwyd yn adroddiad Dr Turenne, ystyrir hyd y broses sy'n gysylltiedig â recriwtio barnwrol yn ataliad i rai a allai fod yn ystyried gwneud cais am swydd gyflogedig. Roedd adlewyrchiadau gan aelodau o'r farnwriaeth yn yr adroddiad yn cynnwys sylwadau am hyd y broses, gyda'r rhan fwyaf yn canfod bod yr amser a gymerwyd yn ormodol.[451] Amcangyfrif amser y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) ar gyfer ymarferion recriwtio canolig i fawr, yw hyd at 30 i 50

449

450

451

wythnos o ddyddiad cau ceisiadau hyd at argymhellion i'r awdurdod priodol.[452]

Yn ogystal â'r amser a gymerir i argymell ymgeisydd ar gyfer swydd, rwyf wedi cael gwybod am yr heriau sydd wedyn yn codi wrth i farnwr newydd ddechrau yn ei swydd. Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymiadau presennol a bydd angen iddynt roi rhybudd a gorffen gwaith presennol cyn eistedd yn eu rôl newydd ac ystyried adleoli daearyddol.

151. Mae'r oedi wrth lenwi swyddi gwag yn effeithio ar allu llys i weithredu ar ei lawn botensial. Mae'n creu pwysau ychwanegol ar staff gweithredol i addasu amserlenni ac ystyried canlyniadau rhestru, ac mae'n effeithio ar y farnwriaeth y bydd eu llwyth gwaith yn cynyddu tra bo'r llys yn aros i swyddi gwag gael eu llenwi, heb sôn am y llwyth achosion agored. Credaf fod gwelliannau y gellir eu gwneud i'r broses recriwtio, gan symud tuag at fodel mwy hyblyg sy'n gweld recriwtio rheolaidd a mwy amserol.

152. Yn ogystal â hyd cyffredinol yr amser ar gyfer recriwtio, mae'r system ddefnyddio ac ansicrwydd daearyddol sy'n dod gyda hystyried swydd gyflogedig yn rhwystr i ddarpar Farnwyr. Deallaf y gall yr Adolygiad Sylweddol ystyried y broses hon, fodd bynnag, un maes sydd o ddiddordeb arbennig i mi yw gweithredu system 'rhestr aros' i reoli apwyntiadau barnwrol. Ar hyn o bryd, gall gwybodaeth ddaearyddol ar hysbysebion swyddi gwag fod yn amwys ac os na all ymgeisydd llwyddiannus ddechrau swydd yn y rhanbarth sydd ar gael am ba reswm bynnag, byddai'n ofynnol iddynt fynd trwy'r broses recriwtio eto pe byddent eisiau swydd farnwrol yn y dyfodol.

153. Mae'n bwysig rhoi sylw dyladwy i leoliad rolau gan fod y ffactor hwn yn cael effaith sylweddol ar debygolrwydd ceisiadau'n cael eu gwneud gan rai ymgeiswyr. Mae'n debygol y bydd gan ddarpar ymgeiswyr wreiddiau mewn ardal benodol gyda'u ffrindiau a'u teulu gerllaw a phlant mewn ysgolion lleol, ac mae'n ddisgwyliad heriol y byddai rhywun yn dadwreiddio ei fywyd, ar frys, i ymgymryd â

452

swydd newydd mewn ardal newydd neu i deithio cryn bellteroedd i ffwrdd o'r cartref teuluol yn ystod yr wythnos waith.

154. Byddai system ‘rhestr aros’ yn galluogi’r rheini sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y broses o gael apwyntiad barnwrol i benderfynu a ydynt am fanteisio ar swydd sydd ar gael ar y pryd, os yw’n gweithio o blaid eu hamgylchiadau personol, neu a ddylid cadw eu gwybodaeth am gyfnod penodol o amser er mwyn caniatáu iddynt aros i swydd wag fwy cyfleus godi. Byddai hefyd yn cefnogi llyfnder gweithrediad y llysoedd gan y byddai cronfa o ymgeiswyr llwyddiannus ar gael yn barod i’w defnyddio i lenwi swyddi gwag sydd ar ddod. Er mai mater i’r JAC yw hyn, fy marn i yw na ddylai’r rheini a roddir ar y ‘rhestr aros’ fod yn ofynnol iddynt wneud cais pan fydd y gystadleuaeth nesaf yn cychwyn (sydd yn ddigalon ac a allai greu dicter); dylid caniatáu iddynt fanteisio ar swydd nad yw, efallai, yn gyrchfan o’u dewis, yn y cyfnod cyn i’r gystadleuaeth nesaf ddod i ben.[453]

155. Wrth weithredu system o'r fath, bydd angen i'r Swyddfa Farnwrol ystyried yn ofalus sut i osod ffiniau o amgylch cynllun o'r fath fel na chaiff ei gamfanteisio arno ac nad oes ganddo ganlyniadau anfwriadol. Rwyf yn ymwybodol o'r goblygiadau y gall hyn eu cael ar ardaloedd lle mae heriau penodol o ran recriwtio, megis De-ddwyrain a Gogledd-ddwyrain Lloegr, gan y byddai hyn yn ychwanegu mwy o ddewis i'r broses yn ei hanfod, ond credaf y dylai fod dull mwy pwrpasol o recriwtio yn yr ardaloedd hyn i fynd i'r afael â heriau hirsefydlog.

156. O edrych ar ben arall tymor swydd farnwrol, gall y broses ymddeol hefyd greu heriau i recriwtio digon o farnwyr ar gyfer pob ardal. Nid oes unrhyw gyfnod rhybudd gofynnol y mae'n rhaid i farnwyr ei roi os ydynt yn dymuno ymddeol. Er bod canllawiau'n ymwneud â phensiynau, nid oes proses safonol o ran rhoi rhybudd o safbwynt gweithredol. Clywaf yn anecdotaidd y gall fod rhywfaint o ragweld o ran symud o fewn yr uwch-farnwriaeth, yn enwedig wrth geisio dyrchafiad neu wrth nesáu at yr oedran ymddeol. Fodd bynnag, deallaf ei bod yn

---

453

anos mesur y pwynt olaf hwn bellach bod yr oedran ymddeol wedi codi o 70 i 75. Cynyddodd nifer y barnwyr a oedd yn gadael ac a oedd yn 70 oed a throsodd o 52 yn 2022/23 i 64 yn 2024/25 ac o'i gymharu â'r gyfradd recriwtio, mae diffygion cyson o ran cyflawni'r niferoedd swyddi gwag.[454]

157. Er bod rhai penodiadau barnwrol yn cael eu gwneud i'r rhai sydd dan 40 oed, ym mis Ebrill 2025 roedd bron i 68% o holl barnwyr y llysoedd[455] dros 50 oed (gweler Ffig. 10.8).[456] Mae angen profiad sylweddol i wneud cais am rôl gyflogedig yn y farnwriaeth, ac o ganlyniad gall hyn arwain at geisiadau gan y rhai sydd ymhellach ymlaen yn eu gyrfa. Ar ben hynny, wrth ymgymryd â rôl gyflogedig, yn gyffredinol nid yw'n bosibl dychwelyd i bractis preifat, ac mae'r penderfyniad i geisio swydd amser llawn yn cynnwys ystyried y canlyniadau ariannol a all, i ymarferydd sy'n ennill llawer, fod yn llai deniadol yn gynharach yn ei yrfa. Gan gofio hyn, mae angen ystyried yr uwch-farnwriaeth a pha mor hir y byddant yn aros yn eu swyddi.

454


455

456

Figure 10.8

Percentage of judges in post grouped by age

England and Wales, 2015 - 2025



As of 2024, the 60+ category became 60-69 and a 70+ category was added.

Source: MoJ Diversity of the judiciary: 2025 statistics

158. O ran ymddeoliad, gall anghysondeb y gofyniad am rybudd greu heriau wrth ragweld ac ymateb i anghenion recriwtio. Fodd bynnag, nid yw gwneud argymhelliad ar sut y gellid gwella'r broses hon yn syml. Mae'r ffordd y mae prosesau recriwtio'r JAC yn gweithredu, a sut mae llysoedd lleol yn datblygu eu 'ceisiadau' i lenwi swyddi gwag, yn golygu bod angen ystyried y broses recriwtio ehangach gan nad oes unrhyw werth mewn gofyn am rybudd os nad yw'n cyd-fynd â'r broses geisio neu pan lansir ymgyrchoedd recriwtio.

159. Rwyf wedi myfyrio ar yr heriau gweithredol sy'n bodoli gyda phroses y Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol (JAC) ar ddechrau a diwedd gyrfa farnwrol, o recriwtio i'r broses ymddeol, ac wedi nodi sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd. Byddwn yn annog y JAC i adolygu ei brosesau presennol fel eu bod yn llai beichus ac yn llai o wastraff amser yn ystod y cyfnod ymgeisio, ac yn annog y Swyddfa Farnwrol i ystyried sut y gallai gweithredu cyfnod rhybudd gofynnol gefnogi rhagolygon recriwtio effeithiol. Yn ogystal â hyn, mae yna fater a chyfrifoldeb ehangach i'r JAC feddwl am sut i sicrhau rheoleidd-dra rowndiau recriwtio amserlen, adnodd

a chyfle digonol ledled y wlad, a gwell defnydd. Wrth i'r JAC groesawu cadeirydd newydd yn 2026, edrychaf ymlaen at weld sut y byddant yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn, a beth fyddant yn ei wneud gyda'r broses apwyntiadau yn ehangach.

160. Hyd yn oed yn fwy anodd yw'r rhybudd a roddir gan Farnwyr o'u bwriad i gymryd absenoldeb. Bydd y rhan fwyaf yn trafod trefniadau gyda'u gweinyddwyr llys ymhell ymlaen llaw i sicrhau y gellir cymryd trefniadau priodol i drefnu cyflenwi. Fel y deallaf, fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i wneud hynny. Yn fy marn i, dylai fod gofyniad i wneud hynny.

Argymhelliad 166: Rwy'n argymell bod y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn adolygu ei brosesau recriwtio, gan symud tuag at fodel mwy hyblyg erbyn 2027 (gan ganiatáu i ymgyrchoedd recriwtio presennol ddod i ben) er mwyn hwyluso rhagolwg gwell o adnoddau o fewn llysoedd.

Argymhelliad 167: Rwy'n argymell bod y Swyddfa Farnwrol yn gweithredu cyfnodau rhybudd gofynnol ar ymddeoliad ar gyfer y farnwriaeth, gan weithio'n agos â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wrth ddylunio a gweithredu'r cyfnod hwn i ystyried prosesau recriwtio ehangach. Dylid gofyn am rybudd addas hefyd mewn perthynas â chymryd cyfnod o absenoldeb.

161. Unwaith y caiff barnwyr eu recriwtio, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl i ddiwallu anghenion y llysoedd. Rwyf yn ymwybodol bod hyn yn broblem sylweddol ar gyfer un categori o farnwr a delir fesul achos. Nid yn unig nad oes digon o Barnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon), y credaf fod angen mynd i'r afael â hynny, ond mae'r ffordd ganolog o ddefnyddio Barnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon) hefyd yn creu heriau ar adnoddau lleol. Mae'n cael canlyniadau ar gapasiti'r llysoedd, a chredaf y gallai'r system hon weithredu'n fwy effeithlon.

162. Ar hyn o bryd, mae'r Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Ynad) yn gyfrifol am leoli Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon). O ystyried niferoedd cymharol isel y

Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon) (88 ledled Cymru a Lloegr ar 1 Ebrill 2025), mae hyn yn gwneud synnwyr ac yn caniatáu dosbarthiad cyfartal o'r adnodd hwn ledled y wlad pan nad yw Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) yn gallu eistedd.[457] Fodd bynnag, yr adnodd barnwrol hwn yw'r unig un nad yw'n cael ei oruchwylio ar lefel ranbarthol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu ardal leol i ymateb i anghenion unigol, er enghraifft os ydynt yn dymuno cynnal llys 'blitz'.[458] Mae canlyniadau'r cyfyngiad hwn yn dod yn fwy amlwg pan fo'n rhaid ymateb i gynnydd sydyn mewn galw, megis protestiadau lleol neu newidiadau ym mlaenoriaethau plismona. Rwyf wedi clywed ar lafar ei bod yn gallu bod yn anodd ymateb i alw o'r fath pan nad oes rheolaeth ar lefel leol ar sut i gael mwy o adnoddau.

163. Fel y soniais sawl gwaith yn y bennod hon, mae tebygolrwydd sylweddol y bydd galw cynyddol ar lysoedd ynadon pe bai'r llywodraeth yn gweithredu fy argymhellion o Ran I (a phe bai, fel y cyhoeddwyd, yn mynd ymhellach drwy ddileu'r hawl i ethol, mae'r cynnydd hwnnw'n anochel). Rwy'n ymwybodol o waith parhaus rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r JAC sy'n canolbwyntio ar recriwtio Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon) i ateb y galw presennol. Os bydd yr ymdrechion hyn yn llwyddiannus, bydd hyn yn cynyddu'r prydlondeb y gellir datrys gwaith llys yr ynadon ag ef. Fodd bynnag, mae angen hefyd i gynyddu capasiti'r carfan o Farnwyr Rhanbarth (Llys Ynadon) sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gweithrediad llys yr ynadon (yn ogystal â chyflawni rhan bwysig mewn dyfarniadau carchar).

457

458

164. Gyda hynny mewn golwg, credaf fod angen dull gweithredu systemau cyfan hefyd i wneud newidiadau i sut y caiff y barnwyr hyn eu defnyddio. Byddai hyn yn cynnwys sylw dyledus i sut y caiff cyllid ei ddyrannu i'r Uwch Farnwr Rhanbarth Hŷn (Prif Ynad) i benderfynu dyddiau eistedd rhwng barnwyr a delir ffioedd a barnwyr cyflogedig a beth fyddai canlyniadau dyrannu yn ôl rhanbarth (o leiaf yn rhannol) i sicrhau mynediad teg at adnoddau ledled y wlad. Ymhellach, dylid ystyried y canlyniadau ar staff y llys, yn enwedig yng ngoleuni'r her y mae cynghorwyr cyfreithiol yn ei hwynebu o orfod cyflawni rolau cysylltiadau llys.

Argymhelliad 168: Rwy'n argymell bod y Swyddfa Farnwrol yn gweithio gyda'r Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Ynad) i adolygu'r broses leoli ar gyfer Barnwyr Rhanbarth a Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (llysoedd ynadon) ac yn gweithredu model sy'n cydbwyso anghenion lleol a goruchwyliaeth genedlaethol briodol yn fwy effeithiol.

Cadw staff

165. Ar gyfer barnwyr cyflogedig presennol, mae arolygon diweddar yn dangos dirywiad mewn lles. Mae'r gweithwyr proffesiynol cyfreithiol profiadol ac arbenigol yn allweddol i weithrediad ac effeithlonrwydd llysoedd, ac rwyf am sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau er mwyn gwella eu lles a'u cadw.

166. Canfu'r Adroddiad Blynyddol ar Uwch Gyflogau o 2024 fod nifer y barnwyr sydd eisiau dychwelyd i arfer preifat wedi cynyddu o 23% yn 2014 i 39% yn 2024 a bod 70% o barnwyr sy'n derbyn ffi yn adrodd bod modd rheoli eu llwyth gwaith yn o'i gymharu â 48% o barnwyr cyflogedig.[459] Pan gaiff hyn ei ddadansoddi yn ôl rôl, mae Barnwyr Cylchdaith yn adrodd am y straen mwyaf.[460] Rwyf hefyd yn

459

460

ymwybodol o’r effaith sylweddol y gall gwrandawiad achosion RASSO dro ar ôl tro ei chael ar les barnwyr o ganlyniad i drawma dirprwyol.

167. Yn ogystal, ac o bwys mawr, bu cynnydd amlwg yn y pryderon diogelwch ymhlith y farnwriaeth ac mae yna fater difrifol o ymosodiadau personol.[461] Mae ystod o safonau, polisïau a gweithdrefnau diogelwch barnwrol cadarn ar waith i amddiffyn deiliaid swyddi barnwrol y tu mewn i'r llys, y tu allan i'r llys ac ar-lein, ac mae GLlTEF yn gweithio ar y cyd â Swyddfa Farnwrol a'r heddlu i gyflawni'r rhain. Er gwaethaf hyn, canfu Arolwg Agweddau Barnwrol o 2024 fod 39% o'r barnwyr yn poeni am ddiogelwch, o'i gymharu â 27% yn 2022. Ymhellach, mae nifer y barnwyr sy'n pryderu am eu diogelwch y tu allan i'r llys hefyd wedi cynyddu, o 19% yn 2022 i 26% yn 2024.[462] Yn ei hymddangosiad diweddar gerbron y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder, tynnodd yr Arglwyddes Brif Ustus sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud gan GLlTEF i wella diogelwch corfforol adeiladau'r llys, ond mae monitro cyfryngau cymdeithasol a chamdriniaeth ar-lein yn arbennig o anodd i'w reoli.[463] Mae dros £20 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2025/26 wedi'i ddyrannu i raglen o waith i gryfhau ymhellach y trefniant diogelwch llys presennol ac mae Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLlTEF yn gweithio gyda'r Tasglu Diogelwch, a gomisiynwyd gan yr Arglwyddes Brif Ustus i ystyried cyfleoedd ar gyfer gwella ymhellach. Mae'n hanfodol ystyried sut mae'r farnwriaeth yn cael ei chefnogi a'i hamddiffyn yn eu rolau.

168. Rwyf eisoes wedi tynnu sylw at yr Adolygiad Sylweddol o Strwythur Cyflog y Farnwriaeth yn y bennod hon fel ffordd o fynd i’r afael â heriau ehangach yng nghyrff swyddogaethau barnwyr cyflogedig ac wedi gwneud awgrymiadau ynghylch a ddylid rhoi ystyriaeth i wneud gwelliannau i’r swyddogaethau hyn.

461

462

463

Rwy'n teimlo mai'r maes nesaf i fynd i'r afael ag ef yw'r angen i ddarparu gwell cymorth i'r rhai sydd mewn swyddi cyflogedig.

169. Wrth ymgymryd â swydd farnwrol uwch, fel Barnwr Preswyl (RJ) canolfan llys, mae cyfrifoldebau arweinyddiaeth ychwanegol a gofynion y rôl, gan gynnwys goruchwylio busnes y llys, monitro perfformiad y llys a chysylltu â phartneriaid allweddol yn y system cyfiawnder troseddol. Rhaid talu tâl priodol am ymgymryd â swydd o'r fath a gwn y bydd yr SSRB yn ystyried tâl ac arweinyddiaeth fel rhan o'i Adolygiad Mawr sydd ar ddod.[464] Mae'r Coleg Barnwrol yn gyfrifol am sefydlu RJ newydd ac, wrth ymgymryd â'r swydd, mae RJ newydd yn aml yn cael eu cefnogi gan farnwr profiadol sydd wedi'i leoli mewn man arall. Mae'r Coleg Barnwrol yn cynnig rhaglen traws-awdurdodaethol ar arweinyddiaeth ar gyfer arweinwyr barnwrol newydd eu penodi yn y llysoedd. Mae hyn yn digwydd dros dri chwrs undydd ac mae'n anelu at ddeall y rôl a'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i ganolbwyntio'n bennaf ar gymwyseddau ymddygiadol arweinyddiaeth, ac nid y tasgau y gallent fod yn ofynnol iddynt eu cyflawni fel rhestru a goruchwylio rheolaeth y llys.

170. Rwyf wedi clywed yn achlysurol, ac yn gwybod yn rhy dda o fy mhrofiad fel Uwch Farnwr Llywyddol a Llywydd Adran Mainc y Frenhines (fel y swydd ar y pryd), bod RJ ymgysylltiol yn cael effaith gadarnhaol ar redeg llys yn llyfn. Ar hyn o bryd, mae anghysondeb yn y ffordd y cânt eu sefydlu a'u gallu dilynol i reoli llys yn effeithiol. Er y gall rheolwyr gweithrediadau gefnogi gyda hyfforddi RJs newydd, credaf y dylai'r Coleg Barnwrol ddarparu hyfforddiant mwy penodol at y diben hwn a hystyried sut y gall gynllunio a darparu hyfforddiant o natur fwy pwrpasol sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol barnwyr yn y rolau pwysig hyn.

171. Mae sicrhau bod y farnwriaeth wedi'i hyfforddi'n dda yn eu rolau yn hanfodol. Credaf fod angen hefyd hyfforddiant mwy manwl ar sut y gall barnwyr ddefnyddio data ac offer gwybodaeth reoli wrth oruchwylio gweithrediadau'r llys. Yn ogystal,

---

464

mae angen hyfforddiant ar rôl yr YH wrth fynychu a gwylio Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs), wrth sicrhau bod persbectif barnwrol ar gael i'r rhai sy'n ceisio sicrhau dull cydgysylltiedig o gyfiawnder troseddol.[465]

172. Dylid sicrhau bod hyfforddiant pellach gan y Coleg Barnwrol ar gael i gefnogi gweithredu a mabwysiadu'r system ddigidol yr wyf yn ei hargymell ym Mhennod 7 (Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli Achosion Parhaus) sy'n cefnogi atebolrwydd y proffesiynau. Yn benodol, mae angen i'r farnwriaeth fod yn gyfarwydd â'r ffyrdd y gallant godi pryderon gyda'r LAA lle mae tystiolaeth o gydymffurfiaeth wael a/neu lynu gwael gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol â chyfarwyddiadau a phrydlondeb gwael. Er mwyn sicrhau ymuno pellach â'm hargymhellion o'r Adolygiad hwn, byddai hyfforddiant ar restru hefyd yn werth chweil, yn enwedig os yw'r llywodraeth yn dewis gweithredu fy argymhelliad ar fframwaith rhestru cenedlaethol, fel y trafodir ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith).

173. Er fy mod yn cydnabod y bydd rhai ardaloedd lleol yn teilwra cyflwyniad Barnwyr Rhanbarth newydd i'w ffyrdd lleol o weithredu, a bod rhai Barnwyr Rhanbarth yn brofiadol yn y rôl honno, credaf fod angen dull cyson a fabwysiedir yn genedlaethol i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd pob Barnwr Rhanbarth yn y rolau pwysig hyn. Bydd hyn yn gosod y naws ar gyfer pob llys, yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer staff gweithredol, ac yn cyfrannu at lai o amrywiad rhanbarthol yn gweithrediad y llys.

174. Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn, deallaf fod cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng y Swyddfa Farnwrol, fel hwyluswyr y hyfforddiant, a GLlTEF fel yr arweinwyr

Argymhelliad 169: Rwy'n argymell bod y Coleg Barnwrol, mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, yn adolygu adnoddau hyfforddi ar gyfer Barnwyr Preswyl newydd eu penodi, gan ganolbwyntio'n arbennig ar oruchwylio prosesau'r llys, i gefnogi eu cyfnod sefydlu a sicrhau bod Llysoedd y

465

gweithredol. Mae angen dull gweithredu ar y cyd i ystyried y pecyn hyfforddi hwn, a byddwn hefyd yn argymell bod hyfforddiant ar gael yn fwy rheolaidd. Ar fy argymhellion sy'n ymwneud â phrosesau CAG, nodais fod un rhwystr i barnwyr eistedd ar eu capasiti llawn yn ymwneud â pha mor gyflym y gallant gael mynediad at yr hyfforddiant y mae'n ofynnol iddynt ei wneud er mwyn dechrau eistedd ar ôl cael eu penodi. Nid yw hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ddigon rheolaidd a gall achosi oedi. Gan gofio hynny, dylid sicrhau bod gweithredu cynllun hyfforddiant sefydlu o'r fath ar gael mewn modd amserol i atal rhwystr pellach i brosesau recriwtio effeithlon.

b. Caiff amser fesul achos ei gyfrifo fel swm yr holl wrandawiadau sy'n gysylltiedig ag achos. Defnyddir amseroedd gwrandawiadau cyfartalog o 2018/19 fel amseroedd gwrandawiadau sylfaenol ar gyfer rhagamcanion, gan fod yr amseroedd gwrandawiadau dros y cyfnod hwn yn fwy adlewyrchol o'r achosion sy'n parhau yn y llwyth achosion agored.

c. Ers Rhan I o'r Adolygiad hwn, mae rhagamcanion llwyth achosion y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'u diweddaru ac felly byddant yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu effaith yn Rhan I.

29. Nid yw effeithiau Rhan I o'r Adolygiad hwn wedi'u cynnwys yn y senario gwaelodlin, ac nid yw maint llawn yr effeithiau wedi'i fodelu ar fesurau effeithlonrwydd yn Llys y Goron. Ymhellach, gallai effeithiau Rhan I ar ragamcanion canolog llys ynadon gynyddu cyfaint a chymhlethdod achosion yn y llys ynadon, a fyddai'n gofyn am gynnydd pellach i werthoedd y 'pwynt troi' o datrysiadau SJP a rhai nad ydynt yn SJP fesul diwrnod eistedd a nodwyd.

30. Er mwyn adlewyrchu pa mor hir y mae'n ei gymryd i welliannau effeithlonrwydd gyrraedd eu heffaith lawn yn y system llysoedd, defnyddir y proffil graddol canlynol:

Tabl 12.3 Proffil cynyddu'n raddol ar gyfer effeithiau effeithlonrwydd i gyrraedd eu heffaith lawn gyda rhesymeg a awgrymir

Blwyddyn	Canran o newid effeithlonrwydd a gyflawnwyd	Dehongliad
0 (25/26)	0%	Blwyddyn yr Adolygiad a phenderfyniadau seneddol.
1 (26/27)	0%	Ychydig iawn o argymhellion a weithredwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl yr Adolygiad. Cynlluniau peilot cynnar. Dim effaith ar fetrigau oherwydd oedi achosion yn dod drwy'r system ac yn cael eu gweld yn y data.

2 (27/28)	15%	Effaith is yn sgil oedi mewn data, a bod angen newidiadau system ehangach cyn i effeithiau llawn gael eu cyflawni.
3 (28/29)	30%	Yn ystod gweithredu argymhellion.
4 (29/30)	65%	Cyflymu gweithredu argymhellion, a gweld effeithiau.
5 (30/31)	100%	Effaith lawn.

31. Felly, mae unrhyw allbynnau sy'n datgan bod HT/SD neu HT/C yn gorfod cyrraedd lefel benodol er mwyn cyflawni pwynt tro yn tybio mai dim ond ar ôl y cyfnod pum mlynedd y cyrhaeddir y lefelau hyn.

32. Mae'r proffil hwn yn cydnabod bod newidiadau effeithlonrwydd yn cymryd amser i'w gweithredu'n ymarferol, a bod oedi cyn i effeithiau gael eu hadlewyrchu mewn metrigau allweddol. Ni fydd mesurau effeithlonrwydd yn effeithio'n *syth* ar HT/SD na HT/C unwaith y cânt eu cyflwyno; mae angen newidiadau diwylliannol a systemig ehangach, ac mae amgylchiadau presennol fel ôl-groniadau, pwysau capasiti carchardai a chymysgedd achosion yn creu cylch adborth sy'n arafu gwelliannau i effeithlonrwydd.

33. Cydnabyddir bod hwn yn farn optimistaidd o ran y cyflymder y gallai effeithlonrwydd wella arno; os bydd argymhellion effeithlonrwydd yn cael eu gohirio wrth eu gweithredu, neu os bydd y llwyth achosion agored yn parhau i gynyddu ac nad yw symptomau sy'n gysylltiedig â maint y llwyth achosion agored yn newid yn y cyfnod amser hwn, gall y ffigurau pwynt tro fod yn wahanol.

34. Mae pob allbwn pwynt tro yn tybio nad oes unrhyw newid i'r system bresennol.
    a. Er bod capasiti yn cael ei ystyried yn un o'r metrigau allweddol sy'n gyrru effeithlonrwydd, mae'r dadansoddiad pwynt tro yn tybio nad oes unrhyw newidiadau i gapasiti uwchlaw'r hyn a ddefnyddir yn y rhagamcanion llwyth achosion llinell sylfaen.
    b. Tybir bod y llysoedd yn eistedd mewn dwy sesiwn 2.5 awr (pum awr) y dydd. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn edrych ar sefyllfa lle ychwanegir amser ychwanegol at ddiwrnod eistedd.

c. Mae pob senario yn tybio bod blaenoriaethu achosion, rhannu achosion a difrifoldeb yn parhau i fod yr un fath dros amser. Mae'n annhebygol y bydd hyn yn wir os, er enghraifft, y cyflwynir argymhellion o Ran I.


35. Mewn gwirionedd, efallai nad yw hyn yn wir. Er enghraifft, gallai gostyngiad yn HT/C arwain at fwy o achosion yn cael eu trin bob dydd, ac felly cynnydd mewn amser segur rhwng gwrandawiadau a allai mewn gwirionedd arwain at ostyngiad yn HT/SD.

36. Mae rhagamcanion sylfaenol llys ynadon o ran y galw sydd ar ddod ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragolygon galw Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwaith troseddol. Rhagdybir bod gwaith an-droseddol (gan gynnwys unrhyw achosion sifil, gorfodi neu geisiadau gwarant a ddelir yn llys ynadon) yn gyson, nad yw o bosibl yn adlewyrchu newidiadau yn y dyfodol.

37. Nid yw datrysiadau fesul diwrnod eistedd yn llys ynadon yn ystyried cymhlethdod achosion chwaith, sy'n golygu y gallai gwelliannau mewn effeithlonrwydd gael eu cuddio gan newidiadau yn y cymysgedd achosion. Dylid ystyried y cyfyngiadau hyn wrth ddehongli tueddiadau, ac wrth asesu dichonoldeb cyflawni datrysiadau uwch fesul diwrnod eistedd.

Methodoleg Rhagamcanion Llwyth Achosion Llys Ynadon

Ffigur 12.5: prif gydrannau modelu rhagamcan llwyth achosion agored llys ynadon



38. Mae'r modelu o ran y galw sy'n dod i mewn (sy'n seiliedig ar dri senario credadwy y cytunwyd arnynt rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref a CPS ac y cyhoeddwyd manylion amdanynt fel rhan o ragolygon poblogaeth y

carchardai[557] ym mis Rhagfyr 2025), yn darparu ffigurau ar gyfer derbyniadau troseddol disgwyliedig yn y llys ynadon. Fodd bynnag, mae'r rhagamcanion hyn yn ymdrin â gwaith troseddol sy'n deillio o erlyniadau (85% o'r galw cyfan) ac felly nid ydynt yn cipio'r holl waith newydd y mae'n rhaid i'r llys ynadon ei brosesu. Mae modelu GLlTEF yn ymestyn y rhagamcanion hyn i gynnwys achosion a dderbynnir mewn categorïau gwaith eraill (gwaith sifil a gorfodi yn bennaf). Mae hyn yn edrych ar dderbyniadau diweddar yn y categorïau hyn ac yn tybio bod y galw yn parhau ar y lefel hon.

39. Mae'r model yn cymryd rhagamcanion o ddiffynyddion yn dod i'r llys (derbyniadau llys) ac yn eu gwahanu'n ddau grŵp: achosion y gellir eu trin drwy'r Weithdrefn Un Ynad (SJP) ac achosion na ellir. Yna mae'n cymhwyso cyfraddau datrysiadau hanesyddol i bob grŵp i amcangyfrif faint o waith y bydd angen ei gwblhau. Yn olaf, mae'r model yn defnyddio amcangyfrifon o gapasiti'r llys i benderfynu faint o'r gwaith hwn y gellir ei drin yn realistig (h.y. nifer yr achosion y gellir eu datrys).

40. Yna, mae'r rhagamcan o'r llwyth achosion agored yn dibynnu ar y rhagamcanion derbyn a gwario hyn yn seiliedig ar fodel stoc-lif. Ychwanegir y derbyniadau a ragwelir at y llwyth achosion agored presennol a chaiff y gwariant a ragwelir ei dynnu oddi wrth hynny. Mae'r llwyth achosion agored yn y cyfnod t+1 yn hafal i'r llwyth achosion agored yn y cyfnod t ynghyd â'r derbyniadau yn y cyfnod t+1 ac eithrio'r gwariant yn y cyfnod t+1. Dangosir rhagamcan llwyth achosion agored llys ynadon yn Nhabl 12.4 isod.

41. Ceir ansicrwydd cynhenid yn y rhagamcaniad hwn, ac mae'n debygol y bydd y llwyth achosion agored gwirioneddol yn y dyfodol yn gwyro oddi wrth yr amcangyfrif. Nid yw'r rhagamcanion hyn yn cynnwys effaith polisïau sydd eto i'w cymeradwyo gan y senedd ac felly nid yw rhagamcanion llwyth achosion agored ar gyfer llysoedd yn cynnwys unrhyw effeithiau o Ran I o'r Adolygiad hwn na'r

---

557

Mesur Dedfrydu. Mae ansicrwydd allweddol arall yn cynnwys y galw disgwyliedig yn y dyfodol i mewn i lysoedd (derbyniadau), y llwybr y bydd achosion yn ei gymryd drwy'r system a chapasiti a chynhyrchiant y llysoedd yn y dyfodol.

Tabl 12.4 Rhagamcaniadau blynyddol o lwyth achosion agored llys ynadon sy'n cwmpasu gwaith troseddol, sifil a gorfodi[558]

Dyddiad	Isel	Canolog	Uchel
31 Mawrth 2025	365,000	365,000	365,000
31 Mawrth 2026	425,000	425,000	425,000
31 Mawrth 2027	502,000	602,000	660,000
31 Mawrth 2028	540,000	775,000	910,000
31 Mawrth 2029	541,000	938,000	1,166,000
31 Mawrth 2030	543,000	1,114,000	1,442,000

Grwpiau Treialon Aneffeithiol

42. Mae llawer o resymau wedi'u cofnodi dros dreialon aneffeithiol. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder setiau data sy'n nodi 29 o resymau.[559] At ddibenion yr Adolygiad hwn, rwyf wedi crynhoi'r 29 rheswm unigol hyn yn naw grŵp sydd, yn fy marn i, yn cynrychioli'r amrywiol ysgogwyr. Y grwpiau a ddefnyddiwyd yw:

    a. Mae parodrwydd yr erlyniad yn cynnwys: ‘Erlyniad ddim yn barod – hysbysiad hwyr o dystiolaeth ychwanegol wedi’i gyflwyno i’r amddiffyniad’ ac ‘Erlyniad ddim yn barod – arall’.

558

559

b. Mae parodrwydd yr amddiffyniad yn cynnwys: ‘Amddiffyniad ddim yn barod – problemau datgelu (gan gynnwys hysbysiad alibi hwyr)’ a ‘Amddiffyniad ddim yn barod – arall’.

c. Mae argaeledd diffynyddion yn cynnwys: ‘Diffynnydd absennol – ni aethpwyd rhagddo yn ei absenoldeb (disgresiwn barnwrol)’, ‘Diffynnydd absennol – yn methu â bwrw ymlaen gan nad yw'r Diffynnydd wedi'i hysbysu o le ac amser y gwrandawiad’, ‘Diffynnydd yn sâl neu'n anaddas fel arall i fwrw ymlaen’ a ‘Diffynnydd heb ei gynhyrchu gan wasanaethau dalfa hebrwng carcharorion’.

d. Mae argaeledd tystion yr erlyniad yn cynnwys: ‘Tyst yr erlyniad yn absennol – heddlu’, ‘Tyst yr erlyniad yn absennol – gweithiwr proffesiynol/arbenigwr’ a ‘Tyst yr erlyniad yn absennol – arall’.

e. Mae argaeledd tystion yr amddiffyniad yn cynnwys: ‘Tyst yr amddiffyniad yn absennol’.

f. Mae argaeledd erlyniad yn cynnwys: ‘Eiriolwr yr erlyniad yn ymwneud â threial arall’ ac ‘Eiriolwr yr erlyniad wedi methu â bod yn bresennol’.

g. Mae argaeledd yr amddiffyniad yn cynnwys: ‘Eiriolwr yr amddiffyniad yn brysur mewn treial arall’ ac ‘Eiriolwr yr amddiffyniad wedi methu â bod yn bresennol’.

h. Mae gor-restru yn cynnwys: ‘Gor-restru (nid yw digon o achosion yn gollwng allan/arnofwyr/cefnogwyr wedi'u cyrraedd)’.

i. Mae "Arall" yn cynnwys yr holl resymau sy'n weddill.[560]

560

I nodi, mae'r rhain yn wahanol i'r grwpiau a ddefnyddiwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Mawrth 2025 ‘Lleihau'r ôl-groniad yn Llys y Goron’.[561]

[561]

1. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
2. Rwyf wedi cael gwybod am enghreifftiau penodol o hyn mewn Llysoedd y Goron unigol. Fodd bynnag, nid wyf yn cyhoeddi'r manylion penodol hyn er mwyn peidio ag ymyrryd â thrafodaethau ar lefel leol am gapasiti a dyddiau eistedd.
3. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–17 (GLlTEM, Gorffennaf 2017).
4. Dogfen Fframwaith 2014 (GLlTEM, Ionawr 2014).
5. Dogfen Fframwaith 2014 (GLlTEM, Ionawr 2014).
Nod: Rhedeg system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol, sy'n fodd i gynnal rheolaeth y gyfraith ac yn darparu mynediad at gyfiawnder i bawb.
Amcanion GLlTEF yw: darparu cymorth i weinyddu system llysoedd a thribiwnlysoedd teg, effeithlon a hygyrch; cefnogi barnwriaeth annibynnol wrth iddi weinyddu cyfiawnder; gyrru gwelliant parhaus o ran perfformiad ac effeithlonrwydd ar draws pob agwedd ar weinyddiad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd; cydweithio'n effeithiol â sefydliadau ac asiantaethau cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, gwella mynediad at gyfiawnder; gweithio gydag adrannau a sefydliadau'r llywodraeth, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd ac amseroldeb eu penderfyniadau er mwyn lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.
6. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016–17 (GLlTEM, Gorffennaf 2017).
7. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024–25 (GLlTEF, Gorffennaf 2025).
8. Cyllid ychwanegol i lysoedd i gyflawni cyfiawnder cyflymach i ddioddefwyr (MoJ, Hydref 2025).
9. Deddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.
10. I nodi y bydd angen ystyried Adran Mainc Llys y Goron yn y dyfodol.
11. Gweler adran A.1 o Gyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2015 Adran XIII: Rhestru.
12. Rhaid bod Barnwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol a bod ganddynt y 'tocyn' perthnasol i wrando dosbarthiadau penodol o achos.
13. Mae rhywedd yn berthnasol ar gyfer rheoli capasiti celloedd y llys ac amseroedd trosglwyddo PECS ar gyfer diffynyddion benywaidd ar remand gan fod carchardai merched yn fwy gwasgaredig yn ddaearyddol.
14. Cyrhaeddodd llwyth achosion agored Llys y Goron a llwyth achosion agored y llys ynadon uchafbwyntiau o bron i 80,000 a thua 373,000 ym mis Medi 2025, yn ôl eu priod drefn. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
15. Mi wnaeth cyfran y diffynyddion yn Llys y Goron a wnaeth bledio'n euog i bob cyhuddiad yn y pedwerydd, pumed a chweched gwrandawiad (neu fwy) bron dyblu o 12% yn 2019 i 22% yn 2024. Noder, mae hyn allan o'r holl ddiffynyddion a wnaeth bledio'n euog cyn y treial (gan ddileu niferoedd anhysbys o wrandawiadau). Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
16. Yn 2024, roedd y nifer cymedrig o wrandawiadau ar gyfer pob treial yn Llys y Goron yn 5.4 o'i gymharu â 4.4 yn 2016. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
17. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025). I gael rhagor o ddadansoddiadau o resymau, gweler Atodiad E (Atodiad Technegol).
18. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).

19. Yn y llys ynadon, cofnodwyd bod argaeledd y diffynnydd yn rheswm dros 24% o dreialon aneffeithiol yn 2024, tra cofnodwyd bod parodrwydd yr amddiffyniad a'r erlyniad yn rheswm dros 15% a 7% o dreialon aneffeithiol yn ôl eu trefn (cyfanswm o 22%) yn 2024. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
20. Rhesymau craidd eraill sy'n gyrru'r gyfran uchel o dreialon aneffeithiol yw argaeledd y diffynnydd (21% o dreialon aneffeithiol yn Llys y Goron yn 2024), a pharodrwydd yr amddiffyniad a'r erlyniad (12% a 10% yn ôl eu trefn o dreialon aneffeithiol yn Llys y Goron yn 2024). Gwelwyd eithriad ym mlwyddyn galendr 2022 pan mai argaeledd yr amddiffyniad oedd y rheswm mwyaf arwyddocaol oherwydd streic y Bar Troseddol. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
21. Rydym wedi clywed y gallai hyn hefyd fod yn is-amcangyfrif o wir effeithiau gor-restru, gan y gall llysoedd ddewis dad-restru treialon yn fuan cyn eu dyddiad gwrandawiad yn hytrach na chofnodi'r treial fel treial aneffeithiol. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
22. Ffynhonnell: GLlTEM, Dadansoddiad heb ei gyhoeddi o wybodaeth rheoli. Noder: mae'r dadansoddiad hwn yn adolygu lle'r oedd y ddau ddigwyddiad treial diwethaf a gofnodwyd yn aneffeithiol ac yna'n effeithiol, ac yn mesur yr amser rhwng y ddau ddigwyddiad. Nid yw'n ystyried achosion lle'r oedd y digwyddiad diwethaf yn aneffeithiol, wedi chwalu neu wedi'i ddad-restru. Mae'n edrych ar achosion lle cynhaliwyd y treial aneffeithiol diwethaf yn 2023. Nid yw'r data'n gymaradwy â niferoedd treialon aneffeithiol. Mae amryw o rybuddion yn berthnasol i'r dadansoddiad arbrofol hwn, gan gynnwys: gall achos gynnwys sawl treial, ac edrychodd y dadansoddiad hwn ar y treial effeithiol olaf ar yr achos (a all fod yn gysylltiedig â throseddau gwahanol i'r treial aneffeithiol olaf ond un); oherwydd yr amser a gymerir i gynnal treial, mae'n bosibl bod rhai treialon ar y gweill ar adeg y dadansoddiad hwn ac nad ydynt wedi'u cofnodi. O ystyried y rhybuddion, dylid ystyried bod yr amcangyfrifon hyn yn rhagarweiniol ac yn ddangosol yn unig.
23. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
24. Gyda diolch i'r Comisiynydd Dioddefwyr am ei chyflwyniad i'r Adolygiad hwn.
25. E.e. roedd cyfradd y treialon aneffeithiol yn Llys y Goron yn amrywio rhwng 16% a 29% ar draws rhanbarthau yn 2024. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
26. Ffynhonnell: ibid.
27. Gyda diolch i'r Comisiynydd Dioddefwyr am ei chyflwyniad i'r Adolygiad hwn.
28. Rheoliadau Erlyn Troseddau (Terfynau Amser yn y Ddalfa) 1987.
29. Roedd nifer yr achosion terfyn amser yn y ddalfa (CTL) yn Llys y Goron yn ystod yr wythnos yn dechrau 31 Mawrth 2025 tua 11,300. Mae hyn 51% yn uwch na'r llinell sylfaen cyn y pandemig (tua 7,500 ym mis Ebrill 2020) a 21% yn uwch na phwynt uchel y pandemig (tua 9,300 ym mis Medi 2020). Mae'r data yn giplun a dynnwyd ar 31 Mawrth 2025 sy'n dangos nifer yr achosion lle mae terfyn amser yn y ddalfa wedi'i nodi/fflagio ar System Rheoli Achosion GEG ar y dyddiad hwnnw. Bydd unrhyw newidiadau i derfynau amser yn y ddalfa a gyhoeddir yn y llys yn cael eu diweddaru wedyn ar System Rheoli Achosion GEG, felly gall fod oedi byr. Ffynhonnell: GEG, dadansoddiad heb ei gyhoeddi o wybodaeth rheoli gweithredol.

30. Dyma ganran y diffynyddion dilys a gafodd eu remandio ar fechnïaeth tra'n aros am dreial am droseddau rhywiol (ac heb gynnwys y rheini lle nad yw statws y remand yn hysbys yn y cyfrifiad). Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
31. Dyma'r amseroedd aros cyfartalog ar gyfer achosion a aeth ymlaen i dreial ar gyfer pob trosedd rywiol yn ôl statws remand. Cyfartaledd yw'r nifer cymedrig. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
32. Mae'r canrannau hyn yn gyfran o'r holl erlyniadau yn seiliedig ar ddioddefwyr (yn hytrach na'r holl erlyniadau a gafodd eu hatal). Ffynhonnell: Trosolwg o'r system cyfiawnder troseddol (MoJ, Tachwedd 2025).
33. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Ionawr 2015).
34. *R v PBN & Ors* [2025] EWCA Crim 1442.
35. Gyda diolch i'r Comisiynydd Dioddefwyr a Chomisiynydd Dioddefwyr Llundain am eu cyflwyniadau i'r Adolygiad hwn. Mae adroddiadau blaenorol yn cynnwys: Breaking Point (Rape Crisis England & Wales, Mawrth 2023); Living in Limbo (Rape Crisis England and Wales, Tachwedd 2025).
36. Ffynhonnell: Data heb ei gyhoeddi o Uchel Lys y Farnwriaeth, yr Alban.
37. Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol (2015).
38. Gweler adran 5.6.3 o Gyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2023 (Gorffennaf 2024).
39. Llys blitz yw'r enw a roddir ar sesiynau rhestredig sy'n defnyddio ystafelloedd llys i ddelio ag achosion cronedig a chael gwared â'r llwyth achosion agored – Blitz Court – ICLR. Mae hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i symud achosion rhwng ystafelloedd llys a gohirio achosion sydd wedi'u gwrando'n rhannol i'r diwrnod canlynol os oes angen.
40. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
41. Ibid.
42. Gweler yr Adolygiad Annibynnol o Lysoedd Troseddol Rhan I, pennod Adnabod y Broblem am ragor o wybodaeth am gymhlethdod achosion. Ffynhonnell: Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025).
43. Mae'r rolau rhestru a gynhwysir yn cynnwys: Swyddog Rhestrau/Rhestru, Dirprwy Swyddog Rhestru, Swyddog Rhestru Dyddiol, Swyddog Blaen-Restru, Rheolwr Rhestru ac Uwch Swyddog Rhestru. Ffynhonnell: Gwybodaeth Rheoli Heb ei Chyhoeddi GLlTEF (fel yr oedd Medi 2025). Gweler Civil Service grades and pay | Civil Service Careers.
44. Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol 2023.
45. Gyda diolch i Gomisiynydd Dioddefwyr Llundain a Chymdeithas y Bar Troseddol am eu cyflwyniadau i'r Adolygiad hwn.
46. Bydd cynyddu'r defnydd o gymryd rhan o bell yn mynd beth ffordd i liniaru hyn (gweler Pennod 8 (Cymryd Rhan o Bell)). Rwyf hefyd yn cydnabod y risg y gallai symud achosion rhwng Llysoedd y Goron amharu ar sefydliadau cymorth i ddioddefwyr a thystion. Fodd bynnag, mae angen y hyblygrwydd hwn er mwyn cyflawni datrysiad cyflymach o achosion. Anogaf y sefydliadau hyn i archwilio ffyrdd o gynyddu eu hyblygrwydd eu hunain er mwyn cefnogi'r newid hwn.
47. Deddf Llysoedd Ynadon 1980.
48. Deddf Llysoedd 2003.

49. Martin Narey, Adolygiad o Oedi yn y System Cyfiawnder Troseddol: Adroddiad Narey (Y Swyddfa Gartref, 1997).
50. Delivering Simple, Speedy, Summary Justice (Adran Materion Cyfansoddiadol, Gorffennaf 2006).
51. Swift and Sure Justice: The Government's Plans for Reform of the Criminal Justice System (MoJ, Gorffennaf 2012).
52. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Ionawr 2015).
53. Arglwydd Ustus Gross, Better Case Management Newsletter: Issue 1 (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Medi 2015).
54. Transforming Summary Justice (TSJ) Renewal Programme (Barnwriaeth y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd, Gorffennaf 2023).
55. The Better Case Management Revival Handbook (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Ionawr 2023).
56. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025).
57. Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol (cyhoeddwyd Ebrill 2023, diweddarwyd diwethaf Tachwedd 2025).
58. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025).
59. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
60. Ffynhonnell: Gwybodaeth Rheoli Heb ei Chyhoeddi GLlTEF.
61. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
62. Ffynhonnell: Gwybodaeth Rheoli Heb ei Chyhoeddi GLlTEF.
63. Penny Darbyshire, 'Judicial Case Management in ten Crown Courts' [2014] Crim LR
30. Arsylwodd Athro Darbyshire ar 19 Barnwr Cylchdaith a chyfweld â 17, gan gynnwys deg barnwr preswyl. Dewiswyd llysoedd i gynrychioli ardaloedd daearyddol a Chylchdaith ac amrywiaeth o ran maint: dau yn y Gogledd, dau yn y Gogledd-ddwyrain, pump yn y De-ddwyrain (gan gynnwys y Canolbarth) ac un yn y Gorllewin.
64. Bu ymdrechion gan Bwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i gynhyrchu mynegai ysgrifenedig i'r Rheolau yn 2025 i gynorthwyo dealltwriaeth a'u defnydd.
65. Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol (cyhoeddwyd Ebrill 2023, diweddarwyd diwethaf Tachwedd 2025).
66. Rwy'n cydnabod bod y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn ceisio creu dogfen i esbonio'r Rheolau i gyfranogwyr lleyg.
67. Timely Justice Action Plan | New Zealand Ministry of Justice.
68. Timely Access to Justice Protocol (District Court of New Zealand, Mehefin 2024).
69. Mae brigo yn golygu dyrannu achosion i farnwyr penodol yn seiliedig ar eu cymhlethdod a natur yr achos.
70. Ffynhonnell: Gwasanaeth Erlyn y Goron (heb ei gyhoeddi).
71. https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2023/06/New-TSJ-Characteristics.pdf
72. Paratoi ar gyfer treial mewn llys ynadon (Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol a MoJ, Tachwedd 2015, diweddarwyd diwethaf Mehefin 2023).
73. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).

74. Gwysio drwy'r Post yw'r ddogfen gyfreithiol sy'n gweithredu fel gwŷs i'r llys. Yn Rhan I, argymhellais y dylid rhoi'r gorau i Rhyddhau dan Ymchwiliad (RUI) a dylid adfer mechnïaeth yn yr holl achosion perthnasol: dylai hyn olygu y dylai'r rhai sydd ar fechnïaeth ddychwelyd i'r orsaf heddlu ac yno gellir eu cyhuddo ac yna'u rhyddhau ar fechnïaeth i'r llys.
75. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
76. Joint case Building by the police and Crown Prosecution Service (HMCPSI a HMICFRS, Gorffennaf 2025).
77. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025), rh. 3.4.
78. Ibid, rh. 3.2.
79. Deallaf fod Tîm Gweithrediadau Cyfreithiol MoJ a GLlTEF wedi dechrau gweithio i ehangu pwerau cynghorwyr cyfreithiol, ond ni aethpwyd â hyn yn ei flaen.
80. Fel y nodir yn Rheolau Trefniadaeth Droseddol (CrimPR), gall cynghorwyr cyfreithiol ddedfrydu diffynnydd sydd wedi pledio'n euog (rh. 2.8(8)(a)) ac anfon materion ditiadwy yn unig i Llys y Goron (r. 2.8(5)(f)).
81. Ychwanegodd Adran 6 Deddf Adolygiad Barnwrol a Llysoedd 2022 adran 17ZA ar ôl adran 17 Deddf Llysoedd Ynadon 1980.
82. Trafodwyd yn fanwl ym Mhennod 5 (Datgeliadau).
83. Achos a anfonwyd i Llys y Goron ar gyfer treial (Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol a MoJ, Mai 2020).
84. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), t. 216
85. Ibid, tudalennau 201–233.
86. Ibid, tudalennau 217–218.
87. Derbyn ple ffurfiol gan y diffynnydd i'r cyhuddiadau a honnir.
88. Mae yna wybodaeth am fy null gweithredu arfaethedig ar gyfer defnyddio fideo mewn PTPHs ym Mhennod 8 (Cymryd Rhan o Bell).
89. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
90. Better Case Management: A Snapshot (HMCPSI, Tachwedd 2016).
91 Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), t. 38.
92. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
93. Ffynhonnell: Gwybodaeth Rheoli Heb ei Chyhoeddi GLlTEF.
94. Ac eithrio'r rhai sydd â rhanbarth anhysbys. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
95. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025), rh. 3.4.
96. Cyfeiriwyd at Swyddogion Rheoli Achosion fel 'Cydlynwyr Achosion' at ddibenion prawf o gysyniad GLlTEF er mwyn gwahaniaethu rhwng Swyddogion Rheoli Achosion presennol yn Llys y Goron nad ydynt yn dod o dan yr ymchwil hon. Yng ngweithrediad beunyddiol y llysoedd, nid yw rôl Swyddog Rheoli Achosion wedi'i chadarnhau, ac yn aml iawn cânt eu tynnu i mewn i feysydd gwaith eraill, felly mae'r prawf o gysyniad hwn yn archwilio eu heffeithlonrwydd pan fydd eu rolau wedi'u diogelu a'u pwerau ychwanegol.

97. Dirprwyodd y farnwriaeth dri phŵer i ‘Gydlynwyr Achosion’ ar gyfer y prawf o'r cysyniad. Y pŵer allweddol yw caniatáu estyniadau (cyn belled nad yw cais am estyniad yn effeithio ar ddyddiad gwrandawiad), caniatáu cyswllt byw a phenodi eiriolwr i groesholi lle mae pwerau statudol yn ei gwneud yn ofynnol.
98. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025), rh. 3.2.
99. Better Case Management Revival Handbook (Barnwriaeth y Llysoedd a’r Tribiwnlysoedd, Ionawr 2023).
100. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025), rh. 3.2.
101. Better Case Management Revival Handbook (2023).
102. Dyddiad Cam Un yw'r ymgysylltiad cyntaf â Llys y Goron, a dyddiad Cam Dau yw tua 28 diwrnod cyn y treial a hwn yw’r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau achos yr amddiffyniad a gofynion tystion.
103. Mae hyn yn cynnwys crybwylliadau, gwrandawiadau rheoli achos pellach, adolygiadau cyn y treial a gwrandawiadau rhagarweiniol eraill. Mae hyn yn cynnwys achosion a waredwyd ac achosion na waredwyd o fewn y cyfnod a nodwyd.
104 Ffynhonnell: Gwybodaeth Rheoli Heb ei Chyhoeddi GLlTEF. Mewn cymhariaeth, gostyngodd gwrandawiadau apêl 7%, cynyddodd achosion torri amodau 100%, cynyddodd achosion traddodi ar gyfer dedfrydu 71%, cynyddodd gwrandawiadau eraill 107%, cynyddodd dedfrydu 88% a chynyddodd gwrandawiadau treial 70%.
105. Yn yr Adolygiad hwn, rwyf yn annog defnydd cynyddol o fideo ar gyfer y rhai sydd yn y ddalfa i gefnogi cynadleddau achos mwy effeithlon ac i alluogi cyfreithwyr ymgysylltu â’u cleientiaid, gan ddileu'r angen i ddiffynnydd ymddangos wyneb yn wyneb a chreu oedi yn y system.
106. Rheolau Trefniadaeth Droseddol (2025), rh. 3.2.
107. Better Case Management Revival Handbook (Barnwriaeth y Llysoedd a’r Tribiwnlysoedd, Ionawr 2023).
108. Nid yw’r ganran yn cynnwys y rhai a ddad-restrwyd oherwydd COVID-19. Mae'r gyfran wedi aros yn sefydlog ac eithrio cynnydd yn 2022 oherwydd gweithredu diwydiannol y Bar.
109. Cynyddodd y defnydd o Zoom o ddeg miliwn o unigolion mewn cyfarfodydd dyddiol ym mis Rhagfyr 2019, i dros 300 miliwn o gyfranogwyr erbyn mis Ebrill 2020. Ffynhonnell: The Zoom Revolution: 10 Eye-Popping Stats from Tech’s New Superstar (Cloud Wars, Mehefin 2020). Gwelodd llwyfannau cynadledda fideo eraill gynnydd tebyg yn y nifer o gyfranogwyr dyddiol. Ffynhonnell: K.A. Karl, J.V. Peluchette and N. Aghakhani, Virtual Work Meetings During the COVID-19 Pandemic: The Good, Bad, and Ugly (2022) 53(3) Small Group Research 343.
110. Drwy gydol y bennod hon, byddaf yn cyfeirio at gymryd rhan o bell a fideo. Diffinnir fideo yma fel y cyfrwng ar gyfer cyfleu symudiadau a sain cyfranogwyr o bell yn fyw yn ystod gwrandawiad. Nid yw'n cyfeirio at ddeunydd a recordiwyd ymlaen llaw, ac eithrio yn achos penodol tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw ABE neu adran 28.
111. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Ionawr 2015).
112. Awgrymwyd gan rai sylwebwyr y dylai GLlTEF ystyried defnyddio un o'r platfformau galwadau fideo masnachol poblogaidd yn y dyfodol yn hytrach na'i ateb pwrpasol ei hun (Platfform Fideo’r Cwmwl), er gwaethaf y gofynion arbenigol sy’n bodoli yn y llysoedd ar gyfer diogelwch a recordio. Fel y nodir ym mharagraff 96, rwyf yn cymeradwyo'r gwaith y mae GLlTEF eisoes yn ei wneud i ystyried a all CVP fodloni gofynion y dyfodol ar gyfer

mynychu o bell ac i asesu a fyddai opsiynau amgen, gan gynnwys meddalwedd sydd ar gael yn fasnachol, yn cynrychioli gwerth am arian ac yn darparu gwell ymarferoldeb ar gyfer y llysoedd troseddol.
113. Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003; Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, adran 51.
114. Deddf Coronafeirws 2020, adran 55.
115. Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022.
116. Open Justice – Remote Observation of Hearings: Practice Guidance (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Mehefin 2022).
117. Neges gan yr Arglwydd Brif Ustus – Remote Attendance by Advocates in the Crown Court (Barnwriaeth y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd, Chwefror 2022).
118. HMCTS Remote Participation Approach (GLlTEF, Mai 2025).
119. Mae Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol y llywodraeth yn datgan bod 1.6 miliwn o bobl yn y DU yn byw all-lein ar hyn o bryd ac mae gan tua chwarter o boblogaeth y DU lefel isaf o allu digidol. Mae'r rhai na allant ddefnyddio technolegau digidol yn debygol o gael canlyniadau iechyd gwaeth ac maent dros bum gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith. Ffynhonnell: Digital Inclusion Action Plan: First Steps (Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, Chwefror 2025).
120. Os bydd barnwr yn caniatáu i ddiffynnydd ar fechnïaeth ymddangos o bell, byddai angen i'r diffynnydd ystyried y lleoliad y byddai'n ymddangos ohono.
121. Mae yna 549 o ystafelloedd llys â gallu fideo allan o gyfanswm o 649 ar draws y llysoedd ynadon, a 495 o ystafelloedd llys â gallu fideo allan o gyfanswm o 519 ar draws Llysoedd y Goron. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2 (Cyd-destun), mae llwyth gwaith y llys ynadon yn sylweddol wahanol i lwyth gwaith Llys y Goron oherwydd presenoldeb achosion SJP sydd fel arfer yn cael eu penderfynu heb wrandawiad, ac sy'n ffurfio'r mwyafrif o achosion. Yn ogystal, mae'r llys ynadon yn gwrando achosion sifil a theulu. Gellir gwrando rhai achosion sifil (e.e. ceisiadau am warantau hawl mynediad) o bell, ac mewn swmp. Mae hyn yn golygu, yn fwy cyffredinol, bod y gyfran o achosion y byddem yn disgwyl iddynt gael eu gwrando o bell yn y llys ynadon yn wahanol i Lys y Goron. Ffynhonnell: Data gweithredol heb ei gyhoeddi GLlTEF, dyddiedig 17/11/2025.
122. Ffynhonnell: Data gweithredol heb ei gyhoeddi GLlTEF, dyddiedig 25/11/2025.
123. Ibid.
124. Noder, mae hyn yn cynnwys gwrandawiadau yn y Llys Sifil, Llys y Goron, Llys Teulu, y llysoedd ynadon a'r Tribiwnlysoedd.
125. Ffynhonnell: A lens on justice: The move to remote justice 2020-2024 (Cyngor y Bar, Mai 2024), tudalen. 28–29.
126. Ffynhonnell: Barristers' Working Lives: 2023 survey of the Bar (Institute for Employment Studies, 2023).
127. Ibid.
128. HMCTS Remote Participation Approach (2025).
129. Ffynhonnell: HMCTS Remote Participation Approach (2025).
130. Yn ôl gwybodaeth monitro GLlTEF, cynyddodd nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn bennaf bob wythnos drwy dechnoleg fideo (ar draws pob awdurdodaeth) o tua 1,000 ar ddiwedd mis Mawrth 2020 i tua 11,000 erbyn canol mis Mai 2020 (ar y pwynt hwnnw, roedd 45% o'r gwrandawiadau yn cael eu gwrando yn bennaf drwy fideo a 40% arall yn bennaf dros y ffôn). I nodi, mae hyn yn cynnwys gwrandawiadau yn y Llys Sifil, Llys y Goron, y Llys Teulu, llys ynadon a'r Tribiwnlysoedd. Mae'r data yn seiliedig ar gasgliad â

llaw. Nid yw wedi'i gwblhau'n llawn a dylid ei drin fel amcangyfrif. Ffynonellau: HMCTS weekly use of remote audio and video technologies May 2020 to May 2021 (GLlTEM, Mehefin 2021); HMCTS Remote Participation Approach (2025).
131. Ffynhonnell: A lens on justice: The move to remote justice 2020-2024 (2024).
132. Gan gyfeirio at ddata o Ionawr 2023 hyd at Hydref 2025. Dadansoddodd y prosiect hwn destun rhydd a gofnodwyd gan staff y llys i restrau dyddiol cyhoeddedig Llys y Goron i wirio am gynnwys geiriau a oedd yn dangos bod gwrandawiad naill ai'n hollol neu'n rhannol o bell. Y geiriau oedd: CVP, Phone, PCVL, V/L, Team, Skype. Mae sawl cyfyngiad nodedig ar y dadansoddiad: yr hyn a gyfrifwyd oedd gwrandawiadau a restrwyd, fesul dydd a rhif achos, felly byddai gwrandawiadau sy'n rhychwantu sawl diwrnod wedi eu cyfrif ar wahân ar bob diwrnod rhestru, a byddai gwrandawiadau gyda rhifau achos lluosog wedi'u cyfrif unwaith fesul achos; mae'r data yn cynrychioli'r defnydd a gynlluniwyd o dechnoleg o bell a all fod yn wahanol i'r defnydd gwirioneddol; ac efallai y byddai rhai achosion yn sôn am sawl math o wrandawiadau o bell (e.e. diffynnydd trwy PCVL, erlyniad trwy CVP), ac mewn achosion o'r fath cânt eu cyfrif ddwywaith. Ffynhonnell: Dadansoddiad gweithredol mewnol heb ei gyhoeddi GLlTEF.
133. Ffynhonnell: Dadansoddiad gweithredol mewnol heb ei gyhoeddi GLlTEF.
134. Ffynhonnell: A lens on justice: The move to remote justice 2020-2024 (2024).
135. Ffynhonnell: Data gweithredol heb ei gyhoeddi HMPPS.
136. Ibid.
137. Mae 'Archebu Cyswllt Fideo y Gwasanaeth Prawf' ar gael ar hyn o bryd mewn naw carchar i dros 50 o dimau prawf hefyd. Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli heb ei chyhoeddi HMPPS, dyddiedig 24/10/2025.
138. Yn y flwyddyn ariannol 2024/25, roedd oddeutu 440,000 o alwadau fideo swyddogol a hwyluswyd gan garchardai, cynnydd o oddeutu 17% o'i gymharu â 2023/24. Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli heb ei chyhoeddi HMPPS.
139. Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli heb ei chyhoeddi HMPPS.
140. Ibid (data o Ebrill 2025 i Orffennaf 2025). Mae'r data yn cynrychioli niferoedd galwadau fideo carchar fesul awr rhwng 08.00 a 18.00 (e.e. nifer y galwadau fideo carchar a gynhaliwyd rhwng 08.00 a 09.00).
141. Ffynhonnell: A lens on justice: The move to remote justice 2020-2024 (2024).
142. Mae'r ffigurau'n cynrychioli'r gwerthoedd rhanbarthol lleiaf ac uchaf (o fewn cyfnod Ebrill 2025 i Orffennaf 2025). Mae gwrandawiadau cymwys wedi'u diffinio gan HMPPS fel gwrandawiadau nad ydynt yn dreialon (yn cynnwys PTPH, Rheoli Achos, Apeliadau ac ati). Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli mewnol HMPPS.
143. Mae gwrandawiadau cymwys wedi'u diffinio gan HMPPS fel gwrandawiadau nad ydynt yn dreialon (yn cynnwys PTPH, Rheoli Achos, Apeliadau ac ati). Ffynhonnell: Gwybodaeth rheoli mewnol HMPPS.
144. Gweler troednodyn 132 am fwy o wybodaeth am y dadansoddiad hwn. Ffynhonnell: Dadansoddiad gweithredol mewnol heb ei gyhoeddi GLlTEF.
145. Ymateb Transform Justice i'r Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol (Transform Justice, Ionawr 2025).
146. M. Terry, Dr S. Johnson a P. Thompson, Virtual Court pilot: Outcome evaluation (MoJ, Rhagfyr 2010). I nodi, roedd y gwerthusiad hwn yn cynnwys diffynyddion ar fechnïaeth a'r rheini a gadwyd ar remand yn nalfa'r heddlu i gyd yn ymddangos drwy fideo o'r orsaf heddlu.

147. Yr Athro N. Fielding et al., Video Enabled Justice Evaluation: Final Report (Prifysgol Surrey a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Sussex, Mai 2020).
148. J. Clark, Evaluation of remote hearings during the COVID 19 pandemic (GLlTEM, Rhagfyr 2021).
149. K. Briscoe, E. Rose ac I. Pehkonen, The impact of remote hearings on the Crown Court (MoJ, 2023).
150. Gyda diolch i Jessica Jacobson a Gillian Hunter am eu cyfraniadau i'r Adolygiad hwn.
151. Ffynhonnell: Data rheoli gweithredol heb ei gyhoeddi HMPPS. Gweler yr adran ar PECS, Pennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau).
152. Yn 2019, cofnodwyd tua 70 o dreialon Llys y Goron fel treialon aneffeithiol oherwydd argaeledd yr erlyniad neu'r amddiffyniad (2% o'r holl dreialon aneffeithiol), o'i gymharu â thua 1,100 (15% o'r holl dreialon aneffeithiol) yn 2024. Gwelwyd eithriad i hyn yn mlwyddyn galendr 2022 pan mai argaeledd yr amddiffyniad oedd y rheswm mwyaf arwyddocaol oherwydd gweithredu diwydiannol Cymdeithas y Bar Troseddol. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025). Gweler Atodiad E (Atodiad Technegol) am ddadansoddiad pellach o'r rhesymau.
153. Ffynhonnell: A lens on justice: The move to remote justice 2020-2024 (2024).
154. Gyda diolch i Syr Mark Rowley am ei gyflwyniad i'r Adolygiad hwn.
155. Mae GLlTEF wedi cyhoeddi canllawiau mewnol ar gyfer staff sy'n defnyddio CVP. Gall defnyddwyr CVP allanol gael mynediad at ganllawiau fel y'u cyhoeddir ar GOV.UK: Ymuno â gwrandawiad troseddol drwy fideo fel gweithiwr proffesiynol; Beth i'w ddisgwyl wrth ymuno â gwrandawiad dros y ffôn neu fideo.
156. Ffynhonnell: Gwybodaeth Rheoli Heb ei Cyhoeddi HMPPS.
157. Ibid.
158. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025) t. 122.
159. Mae 'Profi, dysgu a chostio' yn wahanol i gynllun peilot traddodiadol gan ei fod yn dechrau gyda syniad llai sefydlog na pheilot o'r ateb i broblem ac yn annog mwy o arbrofi ac addasu ar lawr gwlad. Bwriad yr elfen 'cost' yw ystyried yn ofalus effeithiau atebion posibl ar wahanol asiantaethau partner a phwyso a mesur y buddsoddiad sydd ei angen i fentrau gael eu cyflwyno'n ehangach.
160. Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022.
161. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Ionawr - Mawrth 2025 – GOV.UK (MoJ, Mehefin 2025).
162. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 7: Cynyddu Ymgysylltiad Cynnar yn Llys y Goron.
163. Ibid.
164. Mae nifer cyfartalog (cymedr) y gwrandawiadau fesul gwarediad ar gyfer pob achos wedi cynyddu o 3.5 yn 2016 i 4.0 yn 2024. Dros yr un cyfnod, cynyddodd nifer cyfartalog y gwrandawiadau o 3.9 i 4.9 ar gyfer achosion ple euog a 5.7 i 7.9 ar gyfer achosion ple dieuog (achosion llys sy'n dreial). Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (2025).
165. Fel y trafodwyd ym Mhennod 6 (Rhestru a Dyrannu Llwyth Gwaith), ar hyn o bryd mae amrywiaeth o derminoleg yn cael ei defnyddio i ddisgrifio gwahanol wrandawiadau rhagarweiniol. Bydd safoni'r derminoleg hon trwy gyflwyno Fframwaith Rhestru

Cenedlaethol yn caniatáu creu rhestr gliriach o'r holl wrandawiadau sy'n cyd-fynd â'r categori hwn.
166. Roeddwn yn ymwybodol o hyn hefyd pan oeddwn ar y Fainc.
167. A lens on justice: The move to remote justice 2020-2024 (2024).
168. J. Jacobson a P. Cooper, *Participation in Courts and Tribunals* (Bristol University Press, Medi 2020).
169. Gyda diolch i Jessica Jacobson a Gillian Hunter am eu cyfraniadau i'r Adolygiad hwn.
170. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch 'Face the Family' a lansiwyd gan Cheryl Korbel yn dilyn llofruddiaeth ei merch 9 oed, Olivia Pratt-Korbel, ym mis Awst 2022, pan wnaeth y troseddwr a oedd wedi'i gael yn euog wrthod fynychu'r llys ar gyfer ei wrandawiad dedfrydu. Face the Family - Points of Light
171. Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd (Tachwedd 2025).
172. Mae nifer o gynlluniau peilot wedi'u cynnal dros y blynyddoedd yn treialu oriau eistedd llys amgen, gan gynnwys llysoedd eistedd sifft ddwbl ac oriau estynedig eraill. Nid yw unrhyw un ohonynt wedi bod yn llwyddiannus, gyda nifer o faterion wedi'u hamlygu, yn enwedig yr effaith a'r adnoddau ychwanegol fyddai angen gan bartneriaid cyfiawnder troseddol. Court Double Shift Sittings: Evaluation Report (Partneriaeth Cyfiawnder Troseddol Llundain, Mawrth 2011); N. Rahim et al., Process evaluation of the flexible criminal justice system pilots (NatCen Social Research a MoJ, 2013).
173. Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025)
174. Diffinnir iaith brin fel 'iaith lle nad oes cymhwyster Diploma mewn Dehongli Gwasanaeth Cyhoeddus (DPSI) ar gael'. Mae yna 152 o ieithoedd prin. Independent Technical Review of Qualifications and Experience Requirements for the Provision of Spoken Language Interpreting (GLlTEF a MoJ, Mawrth 2025).
175. Gyda cyfieithu ar y pryd, mae cyfieithu yn digwydd ar yr un pryd ag y clywir cyfathrebiad llafar, gan gynhyrchu'r neges a gyfieithwyd tra bod y siaradwr gwreiddiol yn parhau i siarad gyda phellter amser o nifer o eiliadau. Chartered Institute of Linguists: Glossary of Terms.
176. Interpreting and Translations services in the courts (Senedd y DU).
177. Mae hefyd yn rhagdybio bod llys wedi'i staffio'n briodol a chynrychiolwyr cyfreithiol ar gael: ystyrir y materion hyn ym Mhennod 10 (Y Gweithlu Barnwrol a Chyfreithiol).
178. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb ei Gyhoeddi HMPPS.
179. Ibid. Daw'r data o Gyflwyniadau Adroddiadau Eithriadau'r Llys (CERS) a gyflwynir gan GLlTEF a chyflenwyr PECS. Mae'r CERS yn cofnodi ac yn dangos yr effeithiau ar fusnes y llys oherwydd gostyngiad mewn darpariaethau gwasanaeth sy'n cael eu gwirio a'u dilysu gan gyflenwyr PECS a Rheolwyr Contractau PECS. Pan gofnodir enghraifft o oedi, mae hyn fesul ystafell llys ac nid bob amser fesul carcharor unigol. Daw'r holl gostau a ddarperir o'r gyfradd fesul awr a amcangyfrifir ar gyfer achosion yn Llys y Goron a dylid felly eu dehongli'n ofalus. Mae'r costau rhedeg fesul awr yn wahanol yn y llys ynadon a Llys y Goron.
180. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb Ei Gyhoeddi HMPPS.
181. Rhwng Hydref 2024 a Medi 2025, yn ôl Adroddiadau Eithriadau'r Llys a gyflwynwyd ar gyfer Llys y Goron, roedd tua 34% o'r cansliadau hwyr oherwydd 'Dim Angen y Diffynnydd yn y Llys' a thua 30% oherwydd 'Ymddygiad Gwrthiannol/Gwrthod Mynd i'r Llys'. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb ei Gyhoeddi HMPPS.

182. Yr enghraifft fwyaf amlwg o hyn oedd achos yn Teesside a restrwyd ar gyfer gwrandawiad CTL yn Llys y Goron Hull gyda dim ond un diwrnod o rybudd. Tybiwyd mai camgymeriad ydoedd, felly ni chafodd y diffynnydd ei gludo i'r llys, yn enwedig gan fod Hull dros 100 milltir i ffwrdd o Teesside.
183. Mae hyn ar draws y llys ynadon a Llys y Goron. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf - Medi 2025 (MoJ, Rhagfyr 2025).
184. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb Ei Gyhoeddi HMPPS. Daw'r data o Gyflwyniadau Adroddiadau Eithriadau'r Llys (CERS) a gyflwynir gan GLlTEF a chyflenwyr PECS. Mae'r CERS yn cofnodi ac yn dangos yr effeithiau ar fusnes y llys oherwydd gostyngiad mewn darpariaethau gwasanaeth sy'n cael eu gwirio a'u dilysu gan gyflenwyr PECS a Rheolwyr Contractau PECS. Pan gofnodir enghraifft o oedi, mae hyn fesul ystafell llys ac nid bob amser fesul carcharor unigol. Cofnodir hyd yr oedi hyd nes bydd y llys yn gallu ail-ddechrau gwneud gwaith ystyrlon.
185. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb Ei Gyhoeddi HMPPS. Daw'r data o Gyflwyniadau Adroddiadau Eithriadau'r Llys (CERS) a gyflwynir gan GLlTEF a chyflenwyr PECS. Mae'r CERS yn cofnodi ac yn dangos yr effeithiau ar fusnes y llys oherwydd gostyngiad mewn darpariaethau gwasanaeth sy'n cael eu gwirio a'u dilysu gan gyflenwyr PECS a Rheolwyr Contractau PECS. Mae'r ffigur yn cynrychioli methiannau symudiadau PECS lle y cytunwyd bod gweithredoedd cyflenwyr PECS yn gyfrifol (fel cyfran o gyfanswm symudiadau PECS). Lle y cofnodwyd enghraifft o oedi, mae hyn fesul ystafell llys ac nid bob amser fesul carcharor unigol.
186. Yn ogystal, bu tua 300 o symudiadau llys a ganslwyd yn hwyr i'r Llys Sirol a thua 1,400 i Lysoedd Cyfun. Diffinnir symudiad llys a ganslwyd yn hwyr fel canslo ar ôl 06.00 ar ddiwrnod y symudiad. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithrediadol Heb Ei Gyhoeddi GLlTEF.
187. Mae'r cyfrifiad bras yn cymryd bod tua 70 o Ganolfannau Llys y Goron a 253 o ddiwrnodau gwaith mewn blwyddyn. Ffynonellau: Courts and Tribunals: Crown Court (Barnwriaeth y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd); How many courts are there in England and Wales? (legalknowledgebase, Medi 2022); Working Days in a Year: UK (Hydref 2025).
188. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb Ei Gyhoeddi GLlTEF.
189. Ffynhonnell: Contracted services: The Community Accommodation Service (GOV.UK Justice Data, Ebrill 2024 – Mawrth 2025).
190. Ffynhonnell: Proven reoffending statistics: July to September 2023 (Revised) (MoJ, Medi 2025).
191. Roedd mesurau eraill y prosiect hwn yn cynnwys: Uned Rheoli Troseddwyr Belmarsh yn cwblhau archebion dyddiol yn unig, gan fynnu na wnaed unrhyw archebion ymlaen llaw a dim ond gwarantau ynadon a ddefnyddiwyd i archebu symudiadau llys gan fod gwarantau Llys y Goron yn newid. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb Ei Gyhoeddi HMPPS.
192. Fel yr oedd mis Hydref 2025. Ffynhonnell: gohebiaeth â HMPPS.
193. Ffynhonnell: Data Rheoli Gweithredol Heb ei Gyhoeddi HMPPS.
194. Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Cyngor Ewrop); Deddf Hawliau Dynol 1998.
195. Mae'r archebion yn cynnwys archebion sydd wedi'u 'Canslo' yn ogystal ag archebion sydd wedi'u 'Cyflawni' a 'Heb eu Cyflawni'. Mae ceisiadau'r awdurdodaeth droseddol yn cynnwys ceisiadau sy'n ymwneud ag achosion troseddol yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron, y Llys Troseddol Canolog, apeliadau troseddol yn y Llysoedd

Barn Brenhinol, Canolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl, Canolfan Gyfiawnder Swydd Warwick a Chanolfan Casglu a Chydymffurfio Llundain GLlTEF. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol (2025).
196. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer archebion cyfieithwyr (wedi'u cyflawni a heb eu cyflawni) yn yr awdurdodaeth droseddol. Nid ydynt yn cynnwys archebion a ganslwyd. Mae'n cynnwys ceisiadau sy'n ymwneud achosion troseddol yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron, y Llys Troseddol Canolog, apeliadau troseddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Canolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl, Canolfan Gyfiawnder Swydd Warwick a Chanolfan Casglu a Chydymffurfio Llundain GLlTEF. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf – Medi 2025 – GOV.UK (MOJ: Rhagfyr 2025).
197. Mae'n cynnwys ceisiadau sy'n ymwneud achosion troseddol yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron, y Llys Troseddol Canolog, apeliadau troseddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Canolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl, Canolfan Gyfiawnder Swydd Warwick a Chanolfan Casglu a Chydymffurfio Llundain GLlTEF. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf – Medi 2025 – GOV.UK (MOJ: Rhagfyr 2025).
198. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf – Medi 2025 – GOV.UK (MOJ: Rhagfyr 2025).
199. Uncorrected oral evidence: Interpreting and translation in the courts service (Public Services Committee, Rhagfyr 2024).
200. Lost in translation? Interpreting services in the courts (Tŷ'r Arglwyddi, Mawrth 2025).
201. Ibid.
202. Ffynhonnell: Public Service Committee Inquiry into Interpreting and Translation Services in the Courts (MoJ, Medi 2024).
203. Ibid.
204. Uncorrected oral evidence: interpreting and translation in the courts service (2024).
205. Ibid.
206. Lost in translation? Interpreting services in the courts (2025).
207. Noder, yn dilyn uchafbwynt o 6,300 ym mlwyddyn galendr 2024, mae chwarteri diweddar wedi dangos gostyngiad bach mewn archebion y tu allan i gontract. Ers Ch3 2024 (pan oedd 2,100 o archebion y tu allan i gontract), mae'r lefelau wedi gostwng ychydig i fod ar 1,200 yn Ch3 2025. Fodd bynnag, mae hyn dal yn sylweddol uwch na'r ffigurau a welwyd cyn 2020. Mae'r awdurdodaeth droseddol yn cynnwys ceisiadau sy'n ymwneud ag achosion troseddol yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron, y Llys Troseddol Canolog, apeliadau troseddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Canolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl, Canolfan Gyfiawnder Swydd Warwick a Chanolfan Casglu a Chydymffurfio Llundain GLlTEF. Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf – Medi 2025 (MoJ: Rhagfyr 2025).
